# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD GWENER, 8FED HYDREF, 2021**

*** Bydd cyfarfod o'r Panel Cynllun Datblygu ar y Cyd yn dilyn y cyfarfod yma**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Rebeca Jones**

**01286 679890**

**polisicynllunio@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Iau, 30 Medi 2021)

# PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD

## AELODAETH

## GWYNEDD

**Y Cynghorwyr**

**Anne Lloyd Jones**
**Berwyn Parry Jones**
**Gareth Griffith**
**Gareth A Roberts**
**John Pughe Roberts**
**Paul Rowlinson**
**Owain Williams**

## YNYS MÔN

**Y Cynghorwyr**

**Richard Dew**
**John Griffith**
**Kenneth P Hughes**
**Richard O. Jones**
**John Arwel Roberts**
**Nicola Roberts**
**Robin Williams**

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 28ain Mai 2021 fel rhai cywir

**5. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD EBRILL 2019 - MAWRTH 2020** 7 - 148

I ystyried a derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol (Atodiad 1) a chytuno i’w gyflwyno i’r Llywodraeth cyn diwedd Hydref 2021

**6. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD EBRILL 2020 - MAWRTH 2021** 149 - 328

I ystyried a derbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol (Atodiad 1) a chytuno i’w gyflwyno i’r Llywodraeth cyn diwedd Hydref 2021

**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**10:00 yb 28 Mai 2021**

**Cyfarfod rhithiol**

**Presennol:**

**Cyngor Sir Ynys Môn**
Cyng. Richard Dew
Cyng. John Griffith
Cyng. Kenneth P Hughes
Cyng. John Arwel Roberts
Cyng. Robin Williams

**Cyngor Gwynedd**
Cyng. Anne Lloyd Jones
Cyng. Gareth Griffith
Cyng. John Pughe Roberts
Cyng. Paul Rowlinson
Cyng. Gareth Roberts
Cyng. Berwyn Parry Jones
Cyng. Owain Williams

**Swyddogion:**

| | |
|---|---|
| Robyn Jones | Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (CSYM) |
| Dewi Francis Jones | Prif Swyddog Cynllunio (CSYM) |
| Gareth Jones | Pennaeth Cynorthwyol, Amgylchedd (CG) |
| Rebeca Jones | Rheolwr Polisi Cynllunio (GPCC) |
| Heledd Jones | Arweinydd Tîm – (GPCC) |
| Ffion Madog Evans | Uwch Reolwr Cyllid (CG) |

**Ymddiheuriadau:**
Dim i'w nodi

**1. ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Richard Dew fel Cadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am y cyfnod 2021 - 2022

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Gareth Griffith fel Is-gadeirydd y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am y cyfnod 2021 – 2022.

**3. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**5. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

**6. COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2021 fel rhai cywir.

**7. CYFRIFON TERFYNOL AR GYFER PWYLLGOR POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD**

Cyflwynwyd adroddiad gan Ffion Madog Evans (Uwch Rheolwr Cyllid) a oedd yn ymateb i ofyniad statudol o dan Adran 12 o Ddeddf Archwilio Gyhoeddus (Cymru) 2004 i adrodd ar ddatganiad cyfrifon blynyddol ar gyfer y Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd. Gan fod trosiant y Gwasanaeth yn is na £2.5m, fe ystyrir yn gorff Llywodraeth Leol lai o faint, gan hynny mae gofyn cwblhau ffurflen datganiadau cyfrifon a ddarparwyd gan Archwilio Cymru i gwrdd â'r gofynion statudol.

Cyfeiriwyd at Atodiad 1 sydd yn cynnwys yr adroddiad alldro ac yn egluro sefyllfa derfynol incwm a gwariant refeniw'r Gwasanaeth ar gyfer 2020/21. Amlygwyd fod y gyllideb i'w weld yn y golofn gyntaf gyda'r gwariant yn yr ail, yna mae posib archwilio'r gorwariant neu'r tanwariant yn y drydedd golofn. Nodwyd fod y gwariant am 2020/21 £49,239 yn is na'r gyllideb oedd ar gael, ac felly bu modd lleihau'r cyfraniad gofynnol i Gyngor Gwynedd a Môn i £218,326 yr un, sydd yn lleihad o dros £24,600 o'i gymharu gyda'r gyllideb. Ymhellach nodwyd nad oedd rhaid defnyddio'r gronfa wrth gefn.

Wrth edrych yn fanylach ar y ffigyrau fesul pennawd, mae ardrawiad effaith Covid-19 a'r cyfnod clo yn amlwg ar y ffigyrau a gwahanol benawdau'r gyllideb, wrth i staff fod yn gweithio o adra, felly'r darlun yn gyson efo'r darlun ar draws y Cynghorau.

Nodwyd fod y cyfrifon eisoes wedi eu hanfon i sylw Archwilwyr Allanol, Swyddfa Archwilio Cymru. Dim ond os bydd newidiadau yn dilyn yr archwiliad hynny y bydd yna fersiwn ddiwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar yr 22ain o Hydref, 2021.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn a chymeradwyo'r cyfrifon am 2020/21 ac i'r Cadeirydd arwyddo'r ffurflen yn electroneg ar dudalen 12.

<u>Materion a Godwyd</u>

- Cwestiynwyd y gorwariant misol o £48,000 a fod hynny'n ymddangos i fod yn eithriadol o uchel.
- Nodwyd fod y ffigyrau yn ymddangos yn rhesymol a bod effaith a goblygiadau ariannol yn amlwg, hynny yw'r ffaith fod staff y gweithio o adra, llai o gostau o ran swyddfeydd a llai o gostau teithio. Ymhellach mynegwyd y ffaith fod yna ddefnydd da o adnoddau'r Gwasanaeth (staff) wedi cael ei wneud er mwyn cynnal tasgau gwaith penodol.
- Nodwyd fod y balans yn ymddangos yn uchel a holwyd y rheswm am hynny.
- Cydnabuwyd y gwariant sylweddol a fydd ei angen er mwyn cynnal yr adolygiad o'r Cynllun, holwyd gan hynny a fydd angen edrych ar gynyddu'r gyllideb.
- Holwyd pam fod yr iaith gyfathrebu ar gyfer y Ffurflen Flynyddol wedi dewis yr opsiwn Saesneg.

<u>Ymateb</u>

- Cadarnhawyd mai tanwariant dros y flwyddyn yw £49,000 (nid gorwariant) ac yn sgil hynny fod y cyfraniad ariannol gan y ddau awdurdod wedi bod yn is.
- Nodwyd y sylw.
- Amlygwyd fod y balans wedi ei gronni dros y blynyddoedd ac felly fod hynny'n un o'r rhesymau pam ei fod yn ymddangos yn uchel. Fodd bynnag mae'r arian hyn wrth gefn er mwyn cyfrannu at wariant yn y dyfodol. Hynny'n benodol wrth ystyried y gyllideb sydd ei angen er mwyn cynnal adolygiad o'r Cynllun a hefyd wrth ystyried yr arbedion sydd angen ei ganfod ar gyfer y Gwasanaeth.
- Cadarnhawyd na fyddai'r gyllideb bresennol yn ddigonol er mwyn ariannu'r adolygiad o'r Cynllun ac y byddai rhaid i'r ddau awdurdod ganfod yr arian priodol er mwyn gyfrannu'n ariannol tuag at y gyllideb angenrheidiol.
- Diolchwyd y Cynghorydd am dynnu sylw at y dewis iaith a gadarnhawyd mai gwall ydoedd a fyddai'n cael ei gywiro gan mai drwy gyfrwng y Gymraeg mae'r ohebiaeth yn cael ei wneud rhwng y Cyngor a Swyddfa Archwilio Cymru.

**Penderfyniad**
Derbyniwyd a chymeradwywyd y 'Cyfrif Incwm a Gwariant refeniw 2020/2021 ynghyd a'r 'Ffurflen Flynyddol' ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2021. Cytunwyd y Cadeirydd i lofnodi'r cyfrifon yn electroneg, gan gadarnhau ei bod wedi cael ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Diwedd

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| **DYDDIAD** | 08 Hydref 2021 |
| **ENW** | **Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Ebrill 2019 - Mawrth 2020** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r Ail Adroddiad Monitro 2020 |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol (Atodiad 1) a chytuno i'w gyflwyno i'r Llywodraeth cyn diwedd Hydref 2021 |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd |


## 1. Cefndir



1.1 Mae aelodau yn ymwybodol o'r gofyn i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn flynyddol ac yr angen arferol i gyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref pob blwyddyn. Llynedd oherwydd pandemig Covid-19, datganwyd Julie James AS nad oedd angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystod mis Hydref. Adroddwyd yr Adroddiad drafft i'r aelodau mewn cyfarfod o'r Panel ym mis Hydref llynedd i'w drafod. Oherwydd cyhoeddiad Julie James AS ni chyflwynwyd yr Adroddiad Monitro Blynyddol i Bwyllgor llynedd oherwydd doedd dim angen cytundeb i yrru adroddiad ymlaen i'r Llywodraeth. Bwriad yr Adroddiad yma ydi cyflwyno'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol sydd yn berthnasol i'r cyfnod 1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020 i gael cytundeb y Pwyllgor i gyflwyno i'r Llywodraeth. Mae yna newidiadau wedi cael ei wneud i'r Adroddiad ers cael ei gyflwyno llynedd.

## 2. Y Fframwaith Fonitro (Pennod 7 yn y Cynllun)

2.1 Mae'r AMB yn sail tystiolaeth bwysig ar gyfer adolygu'r CDLl ar y Cyd a dros amser gall AMB ddangos tueddiadau, adnabod unrhyw bolisïau sydd yn cyflawni ai peidio, ac amlygu unrhyw wagle neu ddiffyg o ran polisi. Mae gan CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn fframwaith fonitro sydd wedi ei gytuno efo'r Arolygydd yn ystod yr Archwiliad. Mae'r fframwaith i'w weld ym mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd. Mae 70 o ddangosyddion, sydd yn adrodd ar y 5 thema sydd yn y CDLl ar y Cyd.

2.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:-

| Symbol | Disgrifiad | Nifer o Ddangosyddion |
|---|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. | 32 |
|  | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. | 31 |

| | | |
|---|---|---|
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. | 1 |
|  | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. | 1 |

2.3 Ers cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol 1 mae'r Llawlyfr Cynllun Datblygu Lleol (Llywodraeth Cymru) wedi cael ei adolygu ac mae yna rhai diwygiadau wedi cael ei wneud i'r dangosyddion sydd yn ofynnol i'w cynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Bellach nid oes dyletswydd i fonitro os oes gan y Cynllun gyflenwad 5 mlynedd o dai gan fod NCT 1 wedi cael ei ddileu.

2.4 Mae yna hefyd ddisgwyliad i bob fframwaith fonitro gynnwys dangosyddion craidd yn ymwneud a'r canlynol:-

**Tabl 1: Dangosyddion Craidd**

| Dangosydd craidd | Cyfeirnod yn y Fframwaith Fonitro |
|---|---|
| Dosbarthiad gofodol datblygiad tai | D25 |
| Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig. | D47 |
| Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronnol disgwyliedig. | D44 |
| Nifer o dai fforddiadwy adeiladwyd o'i gymharu â'r targed sydd yn y Cynllun. | D47 |
| Pa fath o dai fforddiadwy adeiladwyd (daliadaeth). | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau. | D32 & D33 |
| Hyfywdra'r farchnad ar gyfer datblygiadau tai. | D50 |
| Graddfa datblygu ar ddynodiadau tai. | D45 & D46 |
| Datblygu prosiectau isadeiledd allweddol. | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu. | D56, D57 & D58 |
| Graddfa/math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2. | D18 |

2.5 Mae gweddill y dangosyddion sydd i'w gweld yn Fframwaith Fonitro'r CDLl ar y Cyd yn rhai sydd yn benodol i ardal y CDLl y Cyd e.e. dangosyddion ar Wylfa Newydd.

2.6 Mae'r tabl isod yn rhoi'r weithred sydd yn y Fframwaith Fonitro. Gall gweithrediadau eraill fod yn berthnasol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, e.e. diwygio Canllaw Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd. Mae gweithred wedi cael ei nodi yn erbyn bob un dangosydd yn yr AMB fel rhan o'r dadansoddiad. Mae ambell ddangosydd wedi cael y lliw llwyd gan fod y dangosydd wedi cael ei chyflawni e.e. mabwysiadu CCA. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r gweithredai yn dilyn asesiad o ddangosyddion y Fframwaith Fonitro:-

| **Asesiad** | **Gweithred** | **Nifer o ddangosyddion yn y categori** |
|---|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro | 60 |
| Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir | Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod | 0 |
| Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol. | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun. | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu | Adolygu'r polisi yn unol â hynny | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu | Adolygu'r Cynllun | 0 |
| Targed wedi ei gyflawni. | Dim angen gweithrediad pellach. | 5 |

2.7 Bydd angen ystyried perfformiad polisïau'n ofalus oherwydd y cyfnod a grybwyllir ar gyfer dangosyddion a sbardunau. Mae rhai yn cyfeirio at gyfnod blynyddol tra bod eraill yn berthnasol i gyfnod o ddwy neu dair blynedd yn olynol, felly ni fydd modd nodi unrhyw dueddiadau.

**Casgliadau Allweddol yr AMB**

- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 507 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniataid presennol i ben) yn ystod 2019/20. Roedd 217 uned (43%) ar gyfer tai fforddiadwy.
- Cwblhawyd 453 o dai yn ystod y cyfnod monitro yma. Oherwydd cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 nid oedd posib ymweld â 68 safle er mwyn gweld os oedd yr unedau wedi ei gwblhau ai pheidio (8% o'r safleoedd perthnasol).
- Nodir bod 3564 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2019/20, tra bod y taflwybr yn nodi ffigwr o 3828 o unedau. Felly, mae hyn 6.9% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr.
- Mae'r angen i gynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai wedi diflannu yn sgil diddymu Nodyn Cyngor Technegol 1 ar 26 Mawrth 2020. Mae dangosyddion newydd ar gyfer monitro'r Cynllun yn seiliedig ar Daflwybr Tai.
- Mae 51% o'r unedau tai[1] a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 21% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 28% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored.
- Yn y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (2019-20), mae 36.6% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.
- Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal y Cynllun yn ystod y cyfnod AMB yw 32.3 o unedau fesul hectar.
- Cwblhawyd 124 o unedau tai fforddiadwy yn 2019-20 sydd yn 27% of holl unedau a gwblhawyd ar gyfer eleni. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun. Yn sgil y rheoliadau yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 nid oedd yn bosib ymweld â 2 safle oedd a chaniatâd presennol ar gyfer tai fforddiadwy.
- Caniatawyd pedwar safle eithrio tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (cyfanswm o 45 uned ar y safleoedd hyn a ganiatawyd).
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i ddwy uned marchnad leol yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol. Cwblhawyd un uned marchnad leol.
- Ers mabwysiadu, mae'r Cynghorau wedi mabwysiadu 7 Canllaw Cynllunio Atodol ac mae 4 arall yn nesáu at gael eu mabwysiadu neu ar y gweill
- Derbyniodd y Cynghorau 28 Apêl yn ystod y Cyfnod Monitro. Cafodd 65% o'r rhain eu gwrthod.
- Cyflwynwyd cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu gan gwmni Horizon er mwyn datblygu gorsaf niwclear newydd, ym mis Mehefin, 2018 a gynhaliwyd archwiliad cyhoeddus.
- Cyhoeddodd Hitachi ei bod yn bwriadu oedi gyda'r bwriad o ddatblygu'r Orsaf Niwclear Newydd, fodd bynnag cadarnhaodd Horizon ei fod am barhau i roi adnoddau o'r neilltu i sicrhau bod y broses archwilio'r cais yn cael ei gyflawni. Yn sgil pandemig Covid-19 mae'r penderfyniad ar y cais GCD wedi ei ohirio, mae penderfyniad bellach yn ddisgwyliedig erbyn diwedd mis Medi 2020.
- Mae un o amcanion y strategol y CDLl ar y Cyd i hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig wedi llwyddo yn ystod AMB2, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer defnyddiau cyflogaeth sydd yn cynnwys, er enghraifft, gweithdy mecanig, cwmni cynhyrchu bleind a gweithdy celf gwydr.(Polisi CYF 6)
- Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio i gynlluniau adnewyddadwy sydd â'r potensial i gyfrannu cyfanswm o 0.03GWh o fewn ardal y CDLl ar y Cyd.

---

1 Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

2.8 Mae casgliadau hyn a'r AMR blaenorol yn darparu sylfaen dystiolaeth bwysig wrth adolygu'r JLDP. Gan mai dim ond yr ail adroddiad monitro blynyddol yw hyn mae'n casgliadau yn ragarweiniol yn y cam cynnar hwn o fonitro'r cynllun. Bydd yr AMR hwn yn darparu llinell sylfaen ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol, gan ddangos tystiolaeth o dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

## 3. Argymhelliad

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn yr Adroddiad Monitro Blynyddol 2 a chytuno i gyflwyno'r ddogfen i Lywodraeth Cymru cyn 30 Hydref 2021.

**Atodiad 1:Adroddiad Monitro Blynyddol Ebrill 2019 - Mawrth 2020**





# Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011 - 2026

2ail Adroddiad Monitro Blynyddol

(DRAFFT)

1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn**
**2011-2026**

# ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL (DRAFFT)
## 1 EBRILL 2019 – 31 MAWRTH 2020
**2ail Adroddiad Monitro Blynyddol**

DRAFFT

**Cynnwys**


CRYNODEB GWEITHREDOL ..... 3
- Casgliadau Allweddol yr AMB ..... 6
- Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd ..... 7
- PENNOD 1: CYFLWYNIAD ..... 8
- Beth yw'r AMB? ..... 9
- Dangosyddion ..... 9
- Trothwyon ..... 10
- Camau gweithredu ..... 10
- Adolygu'r Cynllun ..... 11
- Strwythur a chynnwys ..... 12

PENNOD 2: DADANSODDI NEWID CYD-DESTUNOL ARWYDDOCAOL ..... 13
- Y CYD- DESTUN CENEDLAETHOL ..... 13
- Y CYD- DESTUN RHANBARTHOL ..... 15
- Y CYD- DESTUN LLEOL ..... 16
- CASGLIAD ..... 17

PENNOD 3: DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION ..... 18
- 6.1 Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog ..... 20
- 6.2 Byw'n Gynaliadwy ..... 34
- 6.3 ECONOMI AC ADFYWIO ..... 48
- 6.4 Cyflenwad ac Ansawdd Tai ..... 66
- 6.5 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig ..... 27

PENNOD 4: CASGLIADAU AG ARGYMHELLION ..... 35


Atodiad 1: Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd ..... 39

Atodiad 2 – Dosbarthiad Caniatadau Preswyl ..... 54


DRAFT

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

i. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017. Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn cynnwys Ynys Môn ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Nid yw'n cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.






ii. Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses o lunio cynllun. Monitro yw'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a'r gwaith llunio polisïau, gweithredu polisïau, gwerthuso ac adolygu'r cynllun. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd. Mae'n cynnwys cyfanswm o 70 o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau. Mae'n cynnwys cyfres o dargedau ac yn diffinio trothwyon sy'n sbardun i arwain at weithredu pellach, pan fydd angen hynny. Cafodd y Fframwaith Monitro ei ddatblygu yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru a gafodd ei ystyried yn yr Archwiliad Cyhoeddus o'r CDLl ar y Cyd.

iii. Fel rhan o broses statudol y cynllun datblygu, mae'n rhaid i'r Cynghorau baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Y Fframwaith Monitro yw sylfaen yr AMB. Bydd yr AMB yn cofnodi'r gwaith o asesu'r dangosyddion ac unrhyw newidiadau cyd-destunol pwysig a allai ddylanwadu ar weithredu'r CDLl ar y Cyd. Dros gyfnod amser mae'n gyfle i'r Cynghorau asesu effaith y CDLl ar y Cyd ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal y Cynllun.

iv. Hwn yw'r ail AMB i gael ei baratoi ers i'r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu. Mae'r AMB hwn yn edrych y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020. Fel arfer mae'n ofynnol cyflwyno'r Adroddiad i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref 2020. Eleni, yn sigl pandemig Covid-19, mae Julie James AS wedi datgan na fydd angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystod mis Hydref. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid ydi wedi bod yn bosib casglu gwybodaeth lawn ar gyfer rhai o'r dangosyddion, gan fod y wybodaeth ddim yn hollol gyflawn mae'r adroddiad yn un drafft. Mi fydd gwybodaeth ar gyfer dwy flynedd yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth yn Hydref 2021.

v. Gan mai dim ond yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol yw hwn, mae unrhyw gasgliadau o ddadansoddiad y dangosyddion a gynhwysir yn y Fframwaith Fonitro yn rhai rhagarweiniol. Mae'r AMB hwn yn darparu sylfaen dystiolaeth bwysig ac er y gellir gwneud cymhariaeth gyda thystiolaeth a chasgliadau'r AMB cyntaf, nid yw'n bosib adnabod unrhyw dueddiadau oherwydd mae'r rhain yn datblygu dros amser. Bydd y wybodaeth a nodir yn AMBau y blynyddoedd nesaf yn helpu i sefydlu tueddiadau, y bydd dros dair blynedd wedi bod ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Mae'n werth nodi y bydd cynnwys AMB3 yn cynnwys gwybodaeth am benderfyniadau ar geisiadau cynllunio a datblygiadau a fydd wedi digwydd yn ystod pandemig Covid-19.

vi. Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

| **Symbol** | **Disgrifiad** | **Nifer o Ddangosyddion** |
|---|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. | 32 |
|  | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. | 31 |
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. | 1 |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. | 1 |

vii. Ceir crynodeb byr o'r canlyniad o asesu'r dangosyddion yn y tabl canlynol:

**Tabl A: Crynodeb o gasgliadau'r asesiad o ddangosyddion y Fframwaith Fonitro**

| **Asesiad** | **Gweithred** | **Nifer o ddangosyddion yn y categori** |
|---|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro | 61 |
| Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir | Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod | 0 |
| Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol. | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun. | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu | Adolygu'r polisi yn unol â hynny | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu | Adolygu'r Cynllun | 0 |
| Targed wedi ei gyflawni. | Dim angen gweithrediad pellach. | 4 |

DRAFT

viii. Fel y gwelir uchod, nid yw mwyafrif y dangosyddion angen unrhyw weithred bellach ar wahân i barhau i fonitro. Mae rhai dangosyddion wedi eu lliwio mewn llwyd gan eu bod wedi eu cyflawni ac felly nid oes angen unrhyw weithredu pellach ac o’r herwydd nid ydynt wedi eu nodi uchod.

ix. Mae nifer bach o ddangosyddion yn ymwneud â pharatoi’r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), a gweler nad yw’r gyfres o CCA wedi eu paratoi erbyn y dyddiad targed. Ym mhob achos, fodd bynnag, cofnodir rhesymau i gyfiawnhau’r oedi wrth baratoi'r CCA a dangosir byddant yn cael eu hystyried ar gyfer eu mabwysiadu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Ble fo dangosydd yn ymwneud â CCA sydd wedi ei fabwysiadu mae’r weithred wedi ei liwio’n llwyd gan nad yw unrhyw weithredu pellach yn angenrheidiol mewn perthynas â’r dangosydd.

x. Wrth asesu perfformiad y CDLl ar y Cyd, yn ogystal ag ystyried y dangosyddion, mae rhaid i’r AMB ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn flaenorol. Rhaid hefyd ystyried effaith ganlyniadol y newidiadau hyn ar y CDLl ar y Cyd.

## Casgliadau Allweddol yr AMB

- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 507 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2019/20. Roedd 217 uned (43%) ar gyfer tai fforddiadwy. Mae canran y tai fforddiadwy yn cynyddu i 51% ar gyfer ceisiadau oedd yn cyfarch y trothwy ar gyfer cael cyfraniad tai fforddiadwy h.y. 2 neu fwy o unedau mewn ffin datblygu neu o fewn Clwstwr neu’n trosi adeilad allanol yn y cefn gwlad (180 o unedau fforddiadwy allan o 350 o unedau newydd).
- Cwblhawyd 453 o dai yn ystod y cyfnod monitro yma. Oherwydd cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 nid oedd posib ymweld â 68 safle er mwyn gweld os oedd yr unedau wedi ei gwblhau ai peidio (8% o’r safleoedd perthnasol).
- Nodir bod 3564 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2019/20, tra bod y taflwybr yn nodi ffigwr o 3828 o unedau. Felly, mae hyn 6.9% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr.
- Mae’r angen i gynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai wedi diflannu yn sgil diddymu Nodyn Cyngor Technegol 1 ar 26 Mawrth 2020. Mae dangosyddion newydd ar gyfer monitro’r Cynllun yn seiliedig ar Daflwybr Tai.
- Mae 51% o'r unedau tai[1] a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a’r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 21% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 28% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored.
- Yn y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (2019-20), mae 36.6% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.
- Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal y Cynllun yn ystod y cyfnod AMB yw 32.3 o unedau fesul hectar.
- Cwblhawyd 124 o unedau tai fforddiadwy yn 2019-20 sydd yn 27% of holl unedau a gwblhawyd ar gyfer eleni. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun. Yn sgil y rheoliadau yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 nid oedd yn bosib ymweld â 2 safle oedd a chaniatâd presennol ar gyfer tai fforddiadwy.

1 Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

- Caniatawyd pedwar safle eithrio tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol. (cyfanswm o 45 uned ar y safleoedd hyn a ganiateir).
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i ddwy uned marchnad leol yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol. Cwblhawyd un uned marchnad leol.
- Ers mabwysiadu, mae'r Cynghorau wedi mabwysiadu 7 Canllaw Cynllunio Atodol ac mae 4 arall yn nesáu at gael eu mabwysiadu neu ar y gweill
- Derbyniodd y Cynghorau 28 Apêl yn ystod y Cyfnod Monitro. Cafodd 65% o'r rhain eu gwrthod.
- Cyflwynwyd cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu gan gwmni Horizon er mwyn datblygu gorsaf niwclear newydd, ym mis Mehefin, 2018 a gynhaliwyd archwiliad cyhoeddus.
- Cyhoeddodd Hitachi ei bod yn bwriadu oedi gyda'r bwriad o ddatblygu'r Orsaf Niwclear Newydd, fodd bynnag cadarnhaodd Horizon ei fod am barhau i roi adnoddau o'r neilltu i sicrhau bod y broses archwilio'r cais yn cael ei gyflawni. Yn sgil pandemig Covid-19 mae'r penderfyniad ar y cais GCD wedi ei ohirio, mae penderfyniad bellach yn ddisgwyliedig erbyn diwedd mis Medi 2020.
- Mae un o amcanion y strategol y CDLl ar y Cyd i hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig wedi llwyddo yn ystod AMB2, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer defnyddiau cyflogaeth sydd yn cynnwys, er enghraifft, gweithdy mecanig, cwmni cynhyrchu bleind a gweithdy celf gwydr.(Polisi CYF 6)
- Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio i gynlluniau adnewyddadwy sydd â'r potensial i gyfrannu cyfanswm o 0.03MW o fewn ardal y CDLl ar y Cyd.


## Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd

xi. Mae Atodiad 1 yn darparu asesiad manwl o berfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r AC. Nodwyd dangosyddion manwl i ddarparu tystiolaeth fwy penodol ar gyfer perfformiad y CDLl yn erbyn yr Amcanion AC a amlinellwyd yn y CDLl.

DRAFT

## PENNOD 1: CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl ar y Cyd) a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017 yn darparu fframwaith defnydd tir a fydd yn sail i benderfyniadau ynghylch datblygu yn ardal y Cynllun yn ystod oes y CDLl ar y Cyd (hyd at 2026). Nid yw ardal y Cynllun yn cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.




1.2 Mae Isadran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod y Cynghorau'n cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) am eu CDLl ar y Cyd ar ôl ei fabwysiadu a chadw llygad rheolaidd ar bob mater y disgwylir iddo effeithio ar ddatblygiad ardal y CDLl ar y Cyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar beth ddylid ei gynnwys mewn AMB. Bydd angen cyflwyno'r AMB i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, cyn belled bod blwyddyn ariannol gyfan (1 Ebrill - 31 Mawrth) wedi mynd heibio ers dyddiad mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd.

1.3 Mae'r AMB hwn yn edrych y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020. Fel arfer mae'n ofynnol cyflwyno'r Adroddiad i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau erbyn 31 Hydref 2020Eleni, yn sigl pandemig Covid-19, mae Julie James AS wedi datgan na fydd angen i Awdurdodau Cynllunio Lleol gyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystod mis Hydref. Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 nid ydi wedi bod yn bosib casglu gwybodaeth lawn ar gyfer rhai o'r dangosyddion, felly gad fod y wybodaeth ddim yn hollol gyflawn mae'r adroddiad yn un drafft. Mi fydd gwybodaeth ar gyfer dwy flynedd yn cael ei gyflwyno i'r Llywodraeth yn Hydref 2021

## Beth yw'r AMB?

1.4 Mae'r AMB yn darparu cyfle i gofnodi asesiadau o faterion pwysig a allai ddylanwadu ar y gallu i gyflawni'r CDLl ar y Cyd a chasgliadau'r gwaith hwnnw, yn ogystal â hygrededd y CDLl ar y Cyd o safbwynt cynaliadwyedd. Bydd canlyniadau'r broses fonitro hon yn bwydo i'r dadansoddiad parhaus o'r CDLl ar y Cyd. Bydd gofyn bod y Cynghorau'n cynnal adolygiad ffurfiol o'r CDLl ar y Cyd bob 4 blynedd fan bellaf o'r adeg y cafodd y Cynllun ei fabwysiadu gyntaf. Casgliadau'r AMBau fydd sail yr adolygiad o'r CDLl ar y Cyd.

1.5 Y Fframwaith Monitro yw prif sylfaen yr AMB. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd. Mae'n cynnwys cyfanswm o 69 (wedi ei ddiwygio i 70, gweler para 1.6 isod) o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau.

## Dangosyddion

1.6 Mae yna ddisgwyliad o fewn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3) i bob fframwaith fonitro gynnwys dangosyddion allweddol yn ymwneud a'r canlynol

**Tabl 1: Dangosyddion Craidd**

| Dangosydd craidd | Cyfeirnod yn y Fframwaith Fonitro |
|---|---|
| Dosbarthiad gofodol datblygiad tai | D25 |
| Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig. | D47 |
| Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronnol disgwyliedig. | D44 |
| Nifer o dai fforddiadwy adeiladwyd o'i gymharu â'r targed sydd yn y Cynllun. | D47 |
| Pa fath o dai fforddiadwy adeiladwyd (daliadaeth). | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau. | D32 & D33 |
| Hyfywdra'r farchnad ar gyfer datblygiadau tai. | D50 |
| Graddfa datblygu ar ddynodiadau tai. | D45 & D46 |
| Datblygu prosiectau isadeiledd allweddol. | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu. | D56, D57 & D58 |
| Graddfa/math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2. | D18 |

1.6 Mae’r Fframwaith Fonitro hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cynghorau sy'n ymwneud â chyd-destun ardal y CDLl ar y Cyd a materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn eu tro.

1.7 Mae angen monitro pob un o'r dangosyddion hyn a bydd natur y data a gesglir yn amrywio o un i'r nesaf. Mae rhai yn ffeithiol (e.e. a oes datblygiad neu CCA wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlen arfaethedig?), tra bydd eraill yn galw am gasglu data a monitro dros gyfnod hwy (e.e. ffigurau cwblhau tai).

## Trothwyon

1.8 Mae gan bob un o'r dangosyddion drothwy penodol sy'n nodi ar ba adeg gallai fod angen rhoi ystyriaeth bellach i weithrediad y polisi a/neu ei asesu. Gallai hyn olygu bod rhaid cyflawni cynllun erbyn dyddiad penodol, os yw'r cynnydd yn syrthio o dan y gofyniad cronnol dros gyfnod penodedig, neu os caniateir datblygiad yn groes i'r fframwaith polisi. Unwaith cyrhaeddir trothwy, mae'n rhaid ystyried y camau gweithredu sy'n ofynnol i geisio unioni'r sefyllfa (gweler isod).

## Camau gweithredu

1.9 Mae'r Fframwaith Monitro’n nodi ystod o gamau gweithredu y gellir eu cyflawni a allai fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg casglu data neu ganlyniadau annisgwyl. Fe allai methiant a chyflawni targed penodol olygu fod y polisi hwnnw (neu’r Cynllun cyfan) angen bod yn destun adolygiad.




1.10 Mae Tabl 2 isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o'r monitro ac fe’u nodir yn y Fframwaith Monitro sydd ym Mhennod 7 y CDLl ar y Cyd. Mae sawl opsiwn posibl i helpu i ymdrin â dangosyddion sy'n rhoi'r argraff o beidio â chyflawni'n unol â'r disgwyl. Er mwyn cynorthwyo gyda'r dehongli ar y monitro a wnaed, defnyddiwyd cynllun lliwiau syml, a ddangosir yn Nhabl 3 isod, i ddangos sut mae'r dangosydd yn perfformio.

**Tabl 2: Camau gweithredu posibl**

| Asesiad | Gweithred |
|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu’n effeithiol | Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro |
| Asesiad o’r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y’i bwriedir | Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod |
| Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i’r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio’n agos gyda’r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble’n berthnasol. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu | Arolygu’r polisi yn unol â hynny |

| | |
|---|---|
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu | Arolygu'r Cynllun |
| Targed wedi ei gyflawni | Dim angen gweithrediad pellach |

**Tabl 3: Symbolau monitro**

| | |
|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
|  | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
|  | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. |

## Adolygu'r Cynllun

1.11 Bydd y Cynghorau'n rhoi ystyriaeth i gasgliadau cyfres o AMBau wrth ddod i benderfyniad yng nghylch a oes angen adolygu'r Cynllun (yn rhannol neu'n llawn) cyn cyfnod statudol o 4 blynedd. Mae Tabl 4 isod yn cyfeirio at esiamplau o drothwyon allai fod yn sbardun ar gyfer cynnal adolygiad cyn y cyfnod adolygiad statudol.

**Tabl 4 – trothwyon i gynnal adolygiad cyn yr adolygiad statudol**

| **Trothwyon i gynnal adolygiad cyn yr adolygiad statudol – mae'r amgylchiadau'n effeithio ar gadernid y cynllun** | | |
|---|---|---|
| 1 | Casgliadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol | Pryderon sylweddol dros gyfnod o amser yn ymwneud â gweithredu strategaeth y cynllun, gan gynnwys effeithiolrwydd polisi, cyfraddau cynnydd a gweithredu yn unol â thueddiadau a gofnodir. |
| 2 | Newidiadau mewn polisi cenedlaethol neu ddeddfwriaeth | Newid sylweddol mewn polisi cenedlaethol a / neu ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y cynllun strategaeth / polisïau allweddol. |
| 3 | Newid cyd-destunol | Newid sylweddol yn y cyd-destun mae'r cynllun yn gweithredu o'i fewn. |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 4 | Rhan 61 Deddf Cynllunio a Phryniant Gofodol 2004 | Canlyniadau annisgwyl a sylweddol o dystiolaeth a gasglwyd drwy arolygon a ddiweddarwyd sy’n effeithio ar weithredu strategaeth y cynllun. |

## Strwythur a chynnwys

1.12 Dyma strwythur gweddill yr AMB hwn.

**Tabl 5: Strwythur yr AMB**

| **Pennod** | | **Cynnwys yn fras** |
|---|---|---|
| 2 | Dadansoddi newid cyd-destunol sylweddol | Crynodeb ac adolygiad o faterion cyd-destunol ehangach o fewn yr hyn mae’r CDLl yn gweithredu ynddo, e.e. deddfwriaeth/ strategaethau/polisïau allanol. |
| 3 | Dadansoddiad o ddangosyddion | Manylion canfyddiadau'r gwaith o fonitro Dangosyddion y CDLl ar y Cyd (yn nhrefn y CDLl ar y Cyd) |
| 4 | Casgliad ac argymhellion | Adnabod newidiadau gofynnol i’r cynllun yn ystod adolygiad statudol neu a sbardunwyd yn gynharach, os yw’n briodol. |
| 5 | Atodiadau | 1. Canlyniadau dangosyddion Asesiad Cynaliadwyedd - Yn ymwneud â’r Adroddiad AC a’r asesiad integredig.<br>2. Cydymffurfiaeth y CDLl ar y Cyd a’r Ddeddf Llesiant (2015) |

1.14 Dylai strwythur yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn ei gwneud yn rhwydd cymharu un gyda’r llall. Fodd bynnag, o gofio bod y broses fonitro yn dibynnu ar amrywiaeth eang o wybodaeth ystadegol a ffeithiol a gyrchir gan y Cynghorau a ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i’r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu beidio bod yn gyfoes. Yn unol â hynny, efallai y bydd AMB dilynol yn gorfod nodi unrhyw ystyriaethau o’r math hwn.

DRAFT

## PENNOD 2: DADANSODDI NEWID CYD-DESTUNOL ARWYDDOCAOL

2.1 Yn ystod y cyfnod monitro, mae nifer o ddogfennau polisi/canllawiau newydd/diweddariad wedi'u eu cyhoeddi, ac mae deddfwriaeth newydd wedi cael ei chyflwyno. Mae'n bwysig deall y gwahanol ffactorau a all effeithio ar berfformiad y CDLl ar y Cyd, o'r lefelau byd-eang a chenedlaethol, i lawr i bolisïau a chanllawiau lleol y Cynghorau eu hunain. Mae rhai newidiadau yn amlwg yn hollol allan o reolaeth y Cynghorau. Mae'r Bennod hwn yn rhoi trosolwg cryno o'r deunydd cyd- destunol perthnasol a gafodd ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'n cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Amlinellir unrhyw oblygiadau cyffredinol posibl ar gyfer y CDLl ar y Cyd yn ei gyfanrwydd lle y bo'n briodol. Mae tueddiadau economaidd cyffredinol sydd wedi digwydd yn ystod cyfnod yr AMB yma hefyd yn cael eu hadnabod. Rhoddir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi penodol yn y CDLl ar y cyd yn adran dadansoddi polisi perthnasol er hwylustod ac felly nid yw'n cael ei ailadrodd yma.

### Y CYD- DESTUN CENEDLAETHOL

#### NEWIDIADAU I DDEDDFWRIAETH

**Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (Hawliau Datblygu a Ganiateir) (Diwygiad) (Cymru) 2019**

2.2 Ar y 1af o Ebrill 2019 daeth diwygiad i'r Gorchymyn Hawliau Datblygu a Ganiateir (GDPO) i rym sydd yn benodol ymwneud a datblygiadau ynni, telegyfathrebu, a gwasanaethau.

2.3 Mae'r diwygiad mwyaf nodweddiadol yn ddiwygiad i Atodlen 2, rhan 2 'Datblygiadau Bychan', sydd yn cyflwyno dosbarth D a Dosbarth E ac yn gosod hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer cyfarpar ac isadeiledd "Ail-wefru cerbydau trydan" cyn belled fod y bwriad yn cydymffurfio hefo'r meini prawf a osodir.

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Cymru) 2002 (y Gorchymyn Diwygio) 2020**

2.4 Mewn ymateb i'r heriau eithriadol a wynebir o ganlyniad i COVID-19, mae diwygiad i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Threth (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) i rym ar 30ain o Fawrth, 2020. Mae'r Gorchymyn Diwygio yn mewnosod Rhan 12A (Datblygiad Bryd gan Awdurdodau Lleol) newydd i Atodlen 2 y GDPO, sy'n caniatáu i awdurdodau lleol ymgymryd ag unrhyw ddatblygu, fel y diffinnir gan adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ar dir sy'n eiddo, ar brydles neu'n cael ei gynnal gan yr awdurdod lleol, ar gyfer y dibenion canlynol:

a) Atal argyfwng;
b) Lleihau, rheoli neu leddfu effeithiau argyfwng;
c) Cymryd camau eraill mewn cysylltiad ag argyfwng.

2.5 At y dibenion hyn, mae argyfwng yn ddigwyddiad neu'n sefyllfa a allai achosi niwed difrifol i les pobl yn y Deyrnas Unedig sydd yn cynnwys pandemig COVID-19.

2.6 Mae'r datblygu newydd yn ddarostyngedig i amodau sydd wedi'u hamlinellu yn y Rhan 12A newydd. Mae un o'r amodau yn cynnwys cyfyngu ar y cyfnod cadw'r datblygiad o dan y rhan newydd hon i ddeuddeg mis gan ddechrau ar y dyddiad y gwnaeth ddechrau.

**NEWIDIADAU** I BOLISI CYNLLUNIO CENEDLAETHOL

**Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, 2018)**

2.7 Yn sgil diddymu Nodyn Cyngor Technegol (TAN 1): Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar Gyfer Tai (gweler isod), roedd yn ofynnol cynnal diwygiadau i adran ‘Cyflenwi Tai o Bolisi Cynllunio Cymru.. Mae'r newidiadau'n cael gwared ar y polisi cyflenwad pum mlynedd o dir ar gyfer tai a chyflwyno datganiad polisi yn ei le sy'n nodi'n bendant mai'r taflwybr tai, fel y'i nodir yn y CDLl mabwysiedig, fydd y sail ar gyfer monitro'r ffordd y caiff gofynion tai'r cynllun datblygu eu bodloni fel rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol CDLl.

## Nodyn Cyngor Technegol (TAN 1): Cydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai

2.8 Diddymwyd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 1: Cydastudiaethau Argaeledd Tir ar gyfer Tai (Ionawr 2015) yn ei gyfanrwydd o ganlyniad i'r newid polisi ym Mholisi Cynllunio Cymru (gweithredol o 26 Mawrth, 2020).

**NEWIDIADAU CENEDLAETHOL ERAILL**

**Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiadau Preswyl Mawr) (Hysbysu) (Cymru) 2020**

2.9 Mae Llywodraeth Cymru yn llwyr ymrwymedig i ddefnyddio system gynllunio a arweinir gan gynllun ac sy’n cydnabod rôl hanfodol cynlluniau datblygu wrth sicrhau lleoedd o ansawdd da. Yn sgil cynigion ar gyfer datblygiadau anheddol sbeciannol ac anghynaladwy tu allan i ffiniau datblygu’r Cynllun Datblygu perthnasol roedd Llywodraeth Cymru o’r farn fod angen atgyfnerthu’r cyd-destun polisi a nodir yn Argraffiad 10 o PCC drwy ddiwygio’r ddarpariaeth mewn perthynas â “Datblygiadau Preswyl Sylweddol” yng Nghyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Hysbysu) (Cymru) 2012 (Cyfarwyddyd 2012) a pharagraffau 16 i 18 o Gylchlythyr 07/12 Llywodraeth Cymru.

2.10 Mae’r cyfarwyddyd newydd sef ‘Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref’ (Datblygiadau Preswyl Mawr) (Hysbysu) (Cymru) 2020 yn berthnasol i geisiadau a gyflwynir ar neu ar ôl 15 Ionawr 2020. Mae’n ofynnol dan y Cyfarwyddyd bod Gweinidogion Cymru yn cael gwybod am geisiadau a wneir ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw ar gyfer unrhyw ddatblygiad preswyl arfaethedig sy’n 10 neu ragor o unedau preswyl, neu ddatblygiad preswyl ar 0.5 hectar neu ragor o dir, nad yw’n unol ag un neu ragor o ddarpariaethau’r cynllun datblygu sydd mewn grym ac nad yw’r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu ei wrthod.

**Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3)**

2.11 Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, yn ddogfen ar gyfer ymarferwyr sy'n gyfrifol am baratoi a gweithredu cynlluniau datblygu neu sy'n cyfrannu at y gwaith hwnnw. Mae'n cynnwys canllawiau ymarferol ar sut i baratoi, monitro a diwygio cynllun datblygu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth gadarn i sicrhau bod cynlluniau'n effeithiol ac yn cyfrannu at greu lleoedd, fel y'i diffinnir yn y polisi cenedlaethol sydd ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC).

2.12 Cyhoeddwyd Argraffiad 3 o Lawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol yn ystod Mawrth 2020. Mae’r Argraffiad 3 o’r Llawlyfr yn rhoi ychwaneg o arweiniad ar y broses o fonitro yn erbyn y taflwybr tai.

**Cynllun Hunan Adeiladu Cymru**

2.13 Ar 3 Mawrth, 2020 lansiwyd cynllun gwerth £210m sydd yn cynorthwyo pobl i adeiladu tai eu hunain.

2.14 Mae Cynllun Hunanadeiladu Cymru yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei reoli gan Fanc Datblygu Cymru. Y gobaith yw bod cynllun Hunan Adeiladu Cymru yn mynd i helpu cael gwared ar y rhwystrau a'r ansicrwydd sy'n atal pobl yng Nghymru rhag adeiladu eu cartrefi eu hunain.

2.15 Wrth wneud hynny, bydd tir annatblygedig neu a dan-ddefnyddir yn cael ei drawsnewid yn blotiau addas ar gyfer cartrefi hunan-adeiladu ac i adeiladu cartrefi pwrpasol newydd. Mae plotiau ar gael gyda dyluniadau wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw i ddewis ohonynt ac mae rheoliadau cynllunio wedi'u cwblhau eisoes.

**Cynllun Morol Cenedlaethol**

2.16 Cyhoeddwyd Cynllun Morol Cymru ar 12 Tachwedd 2019. Diben Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru yw cefnogi datblygiad cynaliadwy'r moroedd o amgylch Cymru, a chwmpasu ardaloedd y glannau ac ar y môr yn ystod yr 20 mlynedd nesaf. Mae'n cyflwyno uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio adnoddau naturiol y môr yn y dyfodol, sut y dylai gwahanol ddefnyddwyr y môr ryngweithio ac ystyried gweithgareddau a chynlluniau ei gilydd ar gyfer y dyfodol. Wrth ddiwygio'r Cynllun Datblygu Lleol ystyrir cynnwys y ddogfen hon er mwyn sicrhau, lle y bo'n berthnasol, mae'r Cynllun Datblygu Lleol yn unol â'r cynllun

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol 2020-2040 drafft**

2.17 Ym mis Medi 2019 lansiodd Llywodraeth Cymru'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) Drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd gan yr FfDC statws cynllun datblygu ac felly bydd yn rhaid i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol gyd-fynd ag ef. Rhoddodd y ddau Gyngor ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus yn amlinellu, er eu bod yn cefnogi egwyddor yr FfDC, fod pryderon sylweddol am gynnwys y ddogfen a'r sylfaen dystiolaeth yn ei chefnogi.

2.18 Disgwylir i'r FfDC gael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2021 ac felly bydd unrhyw oblygiadau i'r CDLl ar y Cyd yn cael eu hamlinellu yn yr AMR3 a bydd hefyd yn cael eu hystyried fel rhan o'r Adolygiad o'r CDLl ar y Cyd.

## Y CYD- DESTUN RHANBARTHOL

**Cais Bargen Twf Gogledd Cymru**

2.16 Ym mis Rhagfyr 2017 cyflwynodd Bwrdd Twf Gogledd Cymru (partneriaeth o Awdurdodau Lleol a phartneriaid ehangach e.e. Addysg Uwch, Addysg Bellach a Chyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy) gais Bargen Twf i Lywodraethau Cymru a’r DU am arian prosiect £383m ar gyfer Gogledd Cymru.

2.17 Byddai'r cynigion yn gatalydd ar gyfer buddsoddiad cyfan o £1.3 biliwn yn economi Gogledd Cymru, elw o £3.40 am bob punt gaiff ei wario. Disgwylir y gallai dros 5,000 o swyddi gael eu creu o’r buddsoddiadau posib o fewn y Fargen Twf ar draws Canolfannau Technoleg ac Arloesi, Safleoedd ar gyfer busnes, cysylltedd digidol, Sgiliau, Trafnidiaeth a chefnogaeth Busnes.

2.18 Dros y misoedd diwethaf mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r chwe awdurdod lleol, colegau a phrifysgolion a'r sector preifat - wedi llwyddo i sicrhau ymrwymiad o £240m gan Lywodraethau Cymru a'r DU.

2.19 Mae’r Bwrdd yn dal i gynnal trafodaethau gyda’r ddwy lywodraeth ac yn eu hannog i fuddsoddi swm cyfalaf cyfatebol mwy i gefnogi Bargen Twf mwy beiddgar ac effeithiol fyth, yn ychwanegol at raglenni sectorau amgen a ffrydiau cyllid. Mae hyn yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer rhoi ar waith y naw rhaglen flaenoriaeth - sy'n cynnwys 16 prosiect - a ffurfiodd Cais Twf Gogledd Cymru.

2.20 Yn Nhachwedd 2019 bu cynnydd ym Margen Twf Gogledd Cymru wrth i Benawdau’r Telerau gael eu harwyddo gan Lywodraeth y DU, Llywodraeth Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

2.21 Mae’r CDLl ar y cyd yn cynnwys darpariaeth yn ei bolisïau a’i gynigion ar gyfer datblygiad cynaliadwy, gyda’r economi yn rhan bwysig o’r strategaeth. Bydd y cynnydd yn y Fargen Twf a goblygiadau dilynol ar gyfer y CDLl ar y cyd yn cael eu hystyried ymhellach mewn AMB dilynol lle y bo'n briodol.

## Y CYD- DESTUN LLEOL

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

2.27 Diben CCA yw:

- cynorthwyo'r ymgeiswyr a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion ynghylch sut i ddefnyddio polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

2.28 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all rhoi'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n paratoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun gyda chanllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisïau a chynigion y Cynllun.

2.29 Mae Atodiad 9 o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys tabl o’r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi/neu a fydd yn cael eu paratoi ynghyd a’r amserlen a ragwelwyd ar gyfer y gwaith o’i baratoi. Nodir fod yr amserlen yn gysylltiedig â pharatoi’r Canllawiau Cynllunio Atodol wedi llithro, mae’r rhesymau dros y llithriad yn yr amserlen yn cynnwys:

DRAFT

- Y drefn o adrodd a chymeradwyo’r CCA wedi bod yn destun craffu/sgriwtini o fewn y Cynghorau sydd wedi ychwanegu at yr amserlen.
- Y broses o baratoi (ymgysylltu mewnol ac allanol) wedi cymryd hirach na’r amserlen a ragwelwyd.
- Diffyg adnoddau/capasiti o fewn yr Uned.
- Diffyg galw am y Canllaw yn sgil cyhoeddi arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â thestun y Canllaw.
- Gobygliadau pandemig Covid-19 wedi golygu gohurio cyfarfod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, felly methu cael penderfyniad ar ryddhau rhai o’r CCA i ymgynghori arnynt.

2.30 Mae rhai o'r dangosyddion monitro yn benodol ymwneud a pharatoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol, gweler Pennod 3 er mwyn derbyn ychwaneg o wybodaeth mewn perthynas â statws Canllawiau Cynllunio Atodol penodol.

2.31 Mae’r Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol wedi eu mabwysiadu yn ystod cyfnod yr ail AMB, gan hynny maent bellach yn cael eu defnyddio fel ystyriaeth gynllunio faterol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio:-

| Canllaw Cynllunio Atodol | Dyddiad mabwysiadu |
|---|---|
| Tai Fforddiadwy | Ebrill 2019 |
| Cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | Gorffennaf 2019 |
| Ymrwymiadau Cynllunio | Medi 2019 |
| Ail-adeiladu tai a throsi yng nghefn gwlad | Medi 2019 |

## CASGLIAD

2.32 Fel y nodir uchod, gwelwyd deddfwriaeth newydd a chynlluniau, polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro hwn. Efallai bydd gan rhai ohonynt oblygiadau i waith y CDLl ar y Cyd yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw’r un o’r newidiadau cyd-destunol a nodwyd hyd yma ddigon arwyddocaol i awgrymu bod angen adolygiad cynnar o'r Cynllun.




2.33 Bydd AMB dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar y materion cyd-destunol perthnasol a allai effeithio ar weithrediad y cynllun yn y dyfodol.

DRAFT

**PENNOD 3: DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION**

3.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno asesiad o berfformiad y polisïau strategol a pholisïau eraill o fewn y CDLl ar y Cyd gan nodi os ydynt yn cael eu gweithredu ategol fel y bwriadwyd ac os yw strategaeth ac amcanion y CDLl ar y Cyd yn cael eu cyflawni. Mae'r tablau unigol yn y bennod hon yn rhoi casgliadau a chamau priodol (lle bo angen) i fynd i'r afael ag unrhyw faterion gweithredu polisi a nodwyd drwy'r broses fonitro.

3.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

| Symbol | Disgrifiad |
|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
|  | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
|  | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. |

DRAFT

3.3 Mae'r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth o ran y dangosyddion o fewn y Fframwaith Fonitro ble mae targed y dangosydd wedi ei gyflawni yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Gan hynny, nid oes angen adrodd ar y dangosyddion hyn yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol olynol:-

| Rhif Dangosydd | Disgrifiad | Dyddiad cyflawni targed (Cyfnod AMB) |
|---|---|---|
| D9 | Paratoi Canllawiau Cynllunio atodol yn ymwneud â darparu mannau agored mewn datblygiadau tai newydd. | AMB 1 |
| D14 | Cyflenwi ffordd gyswllt Llangefni. | AMB 1 |
| D15 | Cyflawni gwelliannau i'r A5025. | AMB 1 |
| D30 | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig yn ymwneud â Phrosiect Wylfa Newydd. | AMB 1 |

| | | |
|---|---|---|
| D54 | Paratoi a mabwysiadu canllaw Cynllunio atodol ar gyfer Tai Marchnad Leol | AMB 1 |

**Nodyn: Yn dilyn derbyn llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mae Dangosydd D43 wedi cael ei ddisodli gan D43A a D43B.**

DRAFFT

## 6.1 Cymunedau Diogel, Iach, Nodedig a Bywiog

**Yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig**

Canllaw Cynllunio Atodol – Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy (2019)

Mae'r Cynghorau wedi paratoi Canllaw Cynllunio Atodol ar gyfer 'Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy'. Cafwyd cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus rhwng Rhagfyr 2018 ac Ionawr 2019 ac adroddwyd i'r Panel ar y Cyd ym mis Mawrth 2019, y sylwadau a dderbyniwyd yn sgil yr ymgynghoriad, ynghyd ac argymhellion swyddogion ar gyfer mân newidiadau i'r Canllaw. Nodir y comisiynwyd Ymgynghorwyr allanol aml-ddisgybledig i gynnal gwerthusiad beirniadol o'r Canllaw, cyn mynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus.

Cafodd y Canllaw ei fabwysiadu yng Ngorffennaf 2019 ac mae'n rhoi arweiniad manwl gan gynnwys methodoleg newydd a thrylwyr ar gyfer paratoi Datganiadau ac Asesiadau Ieithyddol, fydd yn golygu bod ystyriaeth berthnasol yn cael ei roi tuag at yr iaith Gymraeg, lle bo'n berthnasol i'r cais.

Mae natur ceisiadau tai ar safleoedd o'r newydd sydd wedi cael caniatâd ers mabwysiadu'r Cynllun yn dangos canran sylweddol o dai fforddiadwy sef 54.8%. Yn wir ar gyfer y 8 safle sydd efo 11+ o unedau tai mae 2 o'r rhain yn safleoedd wedi ei dynodi yn y Cynllun, 3 ar gyfer datblygiadau 100% o dai fforddiadwy efo'r 3 safle arall yn darparu'r lefel disgwyliedig o dai fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 15.

Golyga hyn fod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma, o ystyried bod angen cyflwyno tystiolaeth gyda cheisiadau cynllunio i ddangos yr angen am y cymysgedd a'r math o dai yn ogystal â chynnwys canran uchel o dai fforddiadwy yn helpu i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu cyfarch a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

DRAFT

| **Dangosydd: D1** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO1 | Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D1 - % Siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn Ynys Môn a Gwynedd | Datblygiadau newydd yn cyfrannu at gynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd (*Noder: Mae effaith uniongyrchol datblygiad newydd ar y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cymunedau unigol ac ardal y Cynllun yn faes anodd ei* | AMB 1 | − | Naratif bob dwy flynedd am gynlluniau perthnasol a gwblhawyd, e.e. o dan Bolisi PS 1, Polisi TAI 1 – Polisi TAI 7, erbyn 2019 |
| | | **AMB 2** | − | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *fonitro, o gofio na all y Cynllun wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol. Mae'r Cynghorau o'r farn bod angen cyfuniad o ddulliau er mwyn monitro effeithiolrwydd polisïau, gan gynnwys y dangosyddion a nodir dan y thema hon.*) | | | |

**Dadansoddiad:**

Mae rôl cynllunio'n gyfyngedig i geisio creu'r amgylchiadau gorau posib drwy Bolisïau'r Cynllun er mwyn hwyluso datblygiadau cynaliadwy a all gynyddu'r canran o siaradwyr Cymraeg.

Ceir nifer o bolisïau yn y Cynllun sydd yn helpu i hwyluso datblygiadau cynaliadwy sef:

- Polisi TAI 5 'Tai Marchnad Leol' yn atal unrhyw dai marchnad agored o fewn yr aneddleoedd arfordirol a restrir;
- Polisi TAI 15 'Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad' yn gofyn am elfen fforddiadwy ar gyfer datblygiadau o 2 neu fwy o unedau tai yn y Canolfannau a'r Pentrefi;
- Polisi TAI 16 'Safle Eithrio' yn cefnogi datblygiadau 100% tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 6 'Clystyrau' a TAI 7 'Trosi Adeiladau Traddodiadol yng Nghefn Gwlad Agored i Ddefnydd Preswyl' dim ond yn cefnogi bwriadau ar gyfer tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 8 'Cymysgedd Briodol o Dai' yn sicrhau fod pob datblygiad preswyl yn cyfrannu tuag at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan;
- Polisi CYF 1 'Gwarchod, Dynodi ac Amddiffyn Tir ac Unedau ar gyfer defnydd Cyflogaeth' yn sicrhau fod yna ddigon o diroedd ar gyfer cyfleoedd gyflogaeth yn cael ei ddarparu o fewn y Cynllun.

Mae Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg. Gan fod y data yn dod o arolwg a'r canlyniadau yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar sampl mae felly yn ddarostyngedig i wahanol raddau o amrywioldeb samplu.

Mae'r tabl isod yn nodi ffigyrau'r flwyddyn sydd yn darfod 31 Mawrth ar gyfer 2017 (sef y flwyddyn olaf cyn i'r Cynllun gael ei fabwysiadu), 2018, 2019 a 2020:

| **Awdurdod Lleol** | **Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2017** | | **Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2018** | | **Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019** | | **Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Ynys Môn | 42,400 | 63.5 | 42,500 | 63.6 | 45,500 | 67.5 | 44,880 | 66 |
| Gwynedd | 87,600 | 74.1 | 89,600 | 75.5 | 91,000 | 76.4 | 88,600 | 74.7 |

Fel y gwelir mae'r ffigyrau yma yn nodi lefel llawer yn uwch na chanlyniadau Cyfrifiad 2011 oedd yn nodi 57% o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn a 65% yng Ngwynedd. Fodd bynnag

DRAFT

oherwydd bod y ffigyrau yma ar sail sampl nid ydynt ar sail mor gadarn â ffigyrau'r Cyfrifiad ac yn wastad maent wedi tueddu i roi % uwch na'r Cyfrifiad. Er dylid nodi fod sampl diweddar o faint mwy efo oddeutu 350% o gynnydd yn y sampl o'i gymharu â'r blynyddoedd cynnar.

Fe wnaeth Cyngor Gwynedd gynnal arolwg tai yng Ngwynedd yn ystod 2018 fodd bynnag ni yw canlyniadau'r Arolwg yma wedi cael ei gyhoeddi hyd yma.

Yn y flwyddyn o'r 1 Ebrill 2019 hyd at 31 Mawrth 2020 mae yna 421 o unedau tai o'r newydd (h.y. safleoedd nad oedd efo caniatâd ar ddiwrnod mabwysiadu'r Cynllun) wedi cael caniatâd cynllunio. Mae hyn drwy ganiatâd am dŷ unigol ar 73 o safleoedd efo'r gweddill ar 33 safle yn mynd o safle efo 2 uned hyd at un safle o 52 o unedau. Allan o'r ceisiadau oedd yn cyfarch y trothwy i gael cyfraniad tai fforddiadwy h.y. 2 neu fwy o unedau neu o fewn Clwstwr neu drosi adeilad allanol sef 350 o unedau tai, fe gafwyd 180 o unedau fforddiadwy ganiatâd sydd y golygu canran fforddiadwy o 51.4%.

Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun mae yna ddwy Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sef astudiaeth 2018 a 2019 wedi cael ei gyhoeddi ynghyd ac arolwg 2020 sydd yn bwydo fewn i'r Dangosyddion newydd ar gyfer asesu'r twf yn erbyn Taflwybr Tai'r Cynllun. Mae'r rhain yn nodi fod 1,460 o unedau tai wedi cael ei gwblhau efo 1,314 o'r rhain yn rhai oedd efo caniatâd cynllunio cyn i'r CDLl ar y cyd gael ei fabwysiadu.

Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa ar gyfer ceisiadau sydd wedi cael caniatâd cynllunio a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun:

| Cyfnod | Nifer o Unedau sydd wedi cael caniatâd a'u cwblhau yng nghyfnod y Cynllun | Nifer o rain sy'n Dai Fforddiadwy | Canran o Dai Fforddiadwy |
|---|---|---|---|
| AMB 1 | 56 | 35 | 62.5% |
| AMB 2 | 90 | 45 | 50% |
| CYFANSWM | 146 | 80 | 54.8% |

Tra nad oes ffigwr pendant ar gael ar gyfer Canran o siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun mae'r ffigyrau yn yr Adroddiad Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos cynnydd o'i gymharu â ffigwr y Cyfrifiad 2011.

Gellir gweld o'r unedau tai sydd wedi cael caniatâd ers dyddiad mabwysiadu'r Cynllun yn ystod 2019/20 fod nifer sylweddol o dai fforddiadwy wedi cael caniatâd sef dros 50%. Yn ogystal o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy hefyd dros 50%. Golyga hyn fod caniatâdau newydd o dan y Cynllun hyd yma, drwy baratoi canran uchel o dai fforddiadwy yn golygu bod anghenion lleol yn cael eu cyfarch a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

| **Gweithred:** | |
|---|---|

DRAFT

Dim Gweithred. Parhau i fonitro fel rhan o AMB dilynol gan gynnwys canfyddiadau arolygon tai ar gyfer asesu effaith patrymau gwahanol fathau o ddatblygiadau.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D2</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO1</td><td colspan="4">Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D2 - Caniatáu ceisiadau cynllunio lle mae angen mesurau lliniaru iaith Gymraeg</td><td rowspan="4">Lle bo angen, osgoi neu liniaru niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned yn unol â Pholisi PS 1</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol yn groes i Bolisi PS 1</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

Fel yr amlygir yn yr ymateb i Ddangosydd D1 yn y flwyddyn 2019/20 mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer 421 o unedau tai newydd (h.y. ar safleoedd nad oedd efo caniatâd cynllunio ar ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun).

Mae'r unedau yma wedi cael caniatâd ar safleoedd o'r maint a amlygir yn y tabl isod:

| Maint Ceisiadau Tai | Nifer o Safleoedd | Cyfanswm Unedau |
|---|---|---|
| 1 uned | 73 | 73 |
| 2 i 5 uned | 13 | 40 |
| 6 i 10 uned | 12 | 89 |
| 11+ uned | 8 | 219 |

O'r 8 safle sydd o faint 11+ uned mae 2 o'r rhain a'r safleoedd wedi cael ei dynodi ar gyfer tai yn y Cynllun efo tri safle arall sydd ddim yn ddynodiad tai yn geisiadau ar gyfer 100% tai fforddiadwy. Mae'r 3 safle arall yn darparu elfen o dai fforddiadwy efo'r bwriad yn unol efo gofynion Polisi TAI 15.

Dylid nodi yn ogystal fod caniatâd wedi cael ei roi ar gyfer caniatâd diwygiedig ar gyfer 2 safle 11+ yng Ngwynedd sef ar ddynodiad T59 ym Montnewydd am 29 uned (9 uned fforddiadwy) a safle hen Glwb Cymdeithasol Dinas Bangor ar gyfer 38 uned (20 uned fforddiadwy).

Cafwyd 1 Asesiad Ieithyddol a 32 Datganiadau ieithyddol efo ceisiadau ble yr oeddynt yn cyfarch y trothwyon o fewn Polisi PS 1. Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na throthwy'r rhai y mae angen Datganiad neu Asesiad ffurfiol arnynt O ddadansoddi'r rhain nid oedd unrhyw fwriad yn arwain tuag at niwed sylweddol i'r iaith Gymraeg. Cafwyd mesurau lliniaru ar rhai ceisiadau trwy gynnwys amodau ar gyfer arwyddion ac efo un cais cafwyd ymrwymiad i gydweithio efo'r Fenter Iaith pan fydd y busnes yn paratoi i agor.

| | |
|---|---|
| **Gweithred:** | |

DRAFT

| |
|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. |

| **Dangosydd: D3** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO1 | Diogelu a chryfhau’r iaith Gymraeg a’r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D3 Nifer o geisiadau cynllunio gyda Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Yr holl geisiadau cynllunio perthnasol i fod â Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, sy’n ymdrin â ffactorau sy’n berthnasol i’r defnydd o’r iaith Gymraeg yn y gymuned fel y nodir yn y Canllawiau Dylunio Atodol. | AMB 1<br>**AMB 2**<br>AMB 3<br>AMB 4 | –<br>✓ | Un Datganiad iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg mewn unrhyw flwyddyn unigol nad yw’n ymdrin â ffactorau sy’n berthnasol i’r defnydd o’r iaith Gymraeg yn y gymuned. |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Yn ystod y cyfnod monitro, cyflwynwyd 32 Datganiad Iaith Gymraeg ac un Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd. Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na'r trothwy sy'n gofyn am Ddatganiad neu Asesiad ffurfiol. Derbyniwyd 29 Datganiad Ieithyddol gyda cheisiadau preswyl, a 4 o geisiadau yn ymwneud â datblygiad busnes/manwerthu. Roedd pob un ond 2 o’r Datganiadau Iaith Gymraeg a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod monitro wedi dilyn prif strwythur y templed ymateb sydd wedi ei gynnwys yn y CCA “Creu a Chynnal Cymunedau Nodedig” a fabwysiadwyd yng Ngorffennaf 2019. O ran y ddau Ddatganiad a gyflwynwyd nad oedd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol, gofynnwyd am wybodaeth bellach gan yr ymgeisydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y CCA mabwysiedig.<br><br>Gwelwyd gwelliant sylweddol yn ansawdd y datganiadau a gyflwynwyd, oedd yn dilyn y fethodoleg newydd yn y CCA mabwysiedig, ond fe fydd yn bwysig monitro sut mae ymgeiswyr yn ymateb i sylwadau ar y datganiadau hynny, a sut fydd adborth yn arwain at fesurau lliniaru priodol. Mae angen hefyd cydweithio â datblygwyr er mwyn gwella’r sail tystiolaeth mewn datganiadau.<br>Ystyrir, felly, fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu’n effeithiol. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. | | | | |

| **Dangosydd: D4** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO1 | Diogelu a chryfhau’r iaith Gymraeg a’r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | PS 1 |

| | | Deilliant: | | Lefel sbardun: |
|---|---|---|---|---|
| D4 - Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun | AMB 1 | – | Methiant i fabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun |
| | | **AMB 2** | – | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Cafodd y CCA diwygiedig ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar yr 16 Gorffennaf, 2019 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (Rhagfyr 2018 ac Ionawr, 2019).

Gan fod y Canllaw Cynllunio wedi ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2019, nid yw  o fewn y lefel targed o 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun.

Bu oedi cyn cyhoeddi'r CCA er mwyn caniatáu mewnbwn i ddechrau gan swyddogion datblygu iaith y Cynghorau ac i ddisgwyl am gyhoeddiad canllawiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Roedd oedi pellach cyn cyhoeddi er mwyn caniatáu mewnbwn gan Bwyllgor Craffu Cymunedau a Gweithgor Craffu (Cyngor Gwynedd), sydd wedi arwain at waith ychwanegol sy'n cynnwys gwerthusiad beirniadol annibynnol o fersiwn ymgynghori drafft y CCA. Credir bod yr oedi wrth lunio'r CCA wedi bod yn fuddiol.

**Gweithred:**

Targed wedi ei gyflawni. Dim angen parhau i'w fonitro.

DRAFT

**Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwyr**

| **Dangosydd: D5** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dwr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA1, ISA2, ISA4, ISA5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D5 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir lle cafwyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | Lle bo'n briodol, bydd datblygiadau newydd yn  ymdrin â'r effaith ar gymunedau drwy ddarparu seilwaith newydd neu well yn unol â Pholisi ISA1. | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |
| | | **AMB 2** | – | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Mae Polisïau'r Cynllun yn ceisio sicrhau fod y ddarpariaeth isadeiledd yn ddigonol ar gyfer datblygiadau newydd. Pan nad yw hyn yw'r achos, gellir ceisio am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr i wneud yn siŵr fod capasiti isadeiledd digonol yn bodoli.

Yn Ynys Môn, cyflwynwyd 10 cais cynllunio ble roedd isadeiledd newydd yn cael ei ddarparu drwy gyfraniadau datblygwyr. Roedd y rhain yn cynnwys 5 cyfraniad cyllid ar gyfer cyfleusterau addysgol, 3 ar gyfer isadeiledd llecynnau agored a 2 ar gyfer gwelliannau priffyrdd.

Nid yw'r wybodaeth ar gyfer Gwynedd ar gael ar hyn o bryd.

Cyflwynwyd cyfanswm felly o 10 cais cynllunio ble roedd isadeiledd newydd yn cael ei ddarparu drwy gyfraniadau datblygwyr. Ni chafodd unrhyw gais ei gymeradwyo oedd yn gyferbyniol i Bolisi ISA1 dros y cyfnod monitro. Mae'r targed i rwystro datblygiadau gael eu caniatáu ble nad oes seilwaith digonol mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch.

Oherwydd diffyg argaeledd gwybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd, nid yw'n bosib dod i gasgliad os yw targed y dangosydd wedi ei gyrraedd.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

**Dangosydd: D6**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dwr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA1, ISA2, ISA4, ISA5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D6 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd cyfleusterau cymunedol | Cadw cyfleusterau cymunedol hyfyw yn unol â Pholisi ISA 2 | AMB 1 | ✓ | Colli un cyfleuster cymunedol hyfyw yn groes i Bolisi ISA 2 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Mae Polisi ISA2 yn anelu i warchod cyfleusterau cymunedol presennol ac annog datblygu cyfleusterau newydd lle bo hynny'n briodol. Cyflwynwyd cyfanswm o 15 cais cynllunio ble byddai cyn cyfleuster cymunedol yn cael ei golli fel rhan o'r datblygiad (5 cyn capel/eglwys, 3 cyn ysgol, 1 cyn meddygfa, 2 cyn banc, 1 cyn cae chwarae, 1 cyn llys a 2 cyn neuadd gymunedol). Fodd bynnag, nid oedd unrhyw un o'r ceisiadau hyn yn mynd yn groes i Bolisi ISA 2 gan fod tystiolaeth nad oedd y cyfleusterau dan sylw yn hyfyw ac/neu wedi bod yn ddiddefnydd dros gyfnod o amser.

Mae'r targed i rwystro colled cyfleuster cymunedol hyfyw mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch.

**Gweithred:**

DRAFT

| |
|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. |

**Llecynnau Agored**

Mae swyddogaeth bwysig llecynnau agored o fewn cymunedau yn ardal y Cynllun wedi'i adlewyrchu yn y CDLl ar y Cyd sy'n ceisio diogelu’r llecynnau agored presennol ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu llecynnau agored i ddiwallu anghenion deiliaid  datblygiadau tai newydd.

Ers i’r Cynllun cael ei fabwysiadu mae polisïau wedi gwarchod llecynnau agored mewn cymunedau a hefyd wedi sicrhau bod llecynnau agored newydd yn cael ei greu, cynnal a gwella.

DRAFT

| **Dangosydd: D7** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi â phob math o ddatblygiad. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA 4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D7 – Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau amgen ar fannau agored | Swm o fannau agored (ha) a gedwir mewn aneddleoedd unigol yn unol â Pholisi ISA 4 | AMB 1 | ✓ | Colli man agored mewn unrhyw Ganolfan neu Bentref mewn unrhyw flwyddyn unigol gan arwain at leihad net yn y cyflenwad yn groes i Bolisi ISA 4 |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |
| **Analysis:** | | | | |
| 2 cais wedi ei ganiatáu am ddatblygiadau tai ar rannau o fannau agored sydd wedi ei adnabod yn y cynllun (ar y mapiau cynigion) fel mannau agored i’w warchod.  Pob cais yn cydymffurfio gyda meini prawf y polisi:<br>• 1 cais i ymestyn cwrtil tŷ fu’n arwain at 3% golled o lecyn agored.<br>• 1 cais ar gyfer newid defnydd rhan o gae ysgol i faes parcio fydd ddim yn effeithio’r defnydd fel cae chwarae.<br><br>Ystyrir bod Polisi ISA 4 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. | | | | |

| **Dangosydd: D8** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi â phob math o ddatblygiad. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | ISA 5 |

| | | Deilliant: | | Lefel sbardun: |
|---|---|---|---|---|
| D8 – Mannau agored (ha) a sicrheir mewn cyswllt â datblygiad preswyl 10 neu fwy o unedau | Darparu mannau agored newydd os yw defnydd y safon meincnod Meysydd Chwarae (FIT) yn nodi diffyg mannau agored yn unol â Pholisi ISA 5 | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol sydd ddim yn cyfrannu at anghenion mannau agored deiliaid tai newydd fel y'u diffinnir gan safon meincnod FIT yn groes i Bolisi ISA 5 |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |
| **Analysis:** | | | | |
| Cafodd 10 cais am 10 neu mwy o dai wedi ei ganiatáu yn y cyfnod AMB yma.<br>• 3 datblygiad ddim angen darpariaeth/cyfraniad ariannol oherwydd bod digonedd yn y gymuned<br>• 2 gais amlinellol - bydd manylion cyfraniadau llecynnau agored yn cael ei delio hefo yn y ceisiadau materion a gadwyd yn ôl.<br>• 5 cais wedi rhoi cyfanswm o ddarpariaeth llecynnau agored newydd o 3347.50m$^2$.<br><br>Ystyrir bod Polisi ISA 5 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | | | | |

| **Dangosydd: D9** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro |

**Canllaw Cynllunio Atodol – Ymrwymiadau Cynllunio (2019)**

Mabwysiadwyd y Canllaw Cynllunio Atodol hwn gan Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 6 Medi, 2019 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (21ain o Chwefror a 4ydd o Ebrill, 2019). Derbyniwyd 11 o sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ers mabwysiadu'r canllaw fe ddefnyddir fel ystyriaeth gynllunio faterol ar gyfer ceisiadau cynllunio perthnasol.

Mae hwn yn Ganllaw sydd yn benodol atodol i Bolisi PS 2 a Pholisi ISA 1, sydd yn ymwneud a materion isadeiledd a chyfraniadau gan ddatblygwyr i liniaru unrhyw effaith.

| **Dangosydd: D10** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dwr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA1, ISA2, ISA4, ISA5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D10 - Paratoi Canllawiau Cynllunio | Paratoi a mabwysiadu'r | AMB 1 | – | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio |

<table>
<tr><td rowspan="3">Atodol yn ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio.</td><td rowspan="3">Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â rhwymedigaethau cynllunio o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun.</td><td><u>AMB 2</u></td><td></td><td rowspan="3">Atodol o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ymgynghorwyd ar fersiwn drafft o'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Ymrwymiadau Cynllunio rhwng y 21ain o Chwefror a'r 4ydd Ebrill 2019 am gyfnod o chwe wythnos, ac fe gafodd ei fabwysiadu ar 6ed Medi, 2019, yn ystod y cyfnod monitro AMB 2.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Targed wedi ei gwrdd. Dim angen i barhau i'w fonitro.</td></tr>
</table>

DRAFT

**Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd**

<table>
<tr><td colspan="4">Dangosydd: D11</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO3<br><br><br><br><br><br>SO4</td><td colspan="2">Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br>Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:<br>Prif ganlyniadau:<ul><li>Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;</li><li>Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;</li><li>Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;</li><li>Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu.</li></ul></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td>Polisi perthnasol:</td><td>TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4</td></tr>
<tr><td>Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D11 – Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio | Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun | AMB 1<br>**AMB 2**<br>AMB 3<br>AMB 4 | –<br>– | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun |

**Dadansoddiad:**

Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Safonau Parcio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 2 yn 2018/19. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLl.

Mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol wedi 'arbed' CCA o'u Cynlluniau Datblygu Unedol, a gallent hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.

Gan fod y polisi CDLl newydd ar Safonau Parcio yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ni theimlir bod y llithriad yng nghyflwyniad CCA newydd wedi bod yn niweidiol yn y broses gwneud penderfyniad, er y cydnabyddir bod rhaid creu CCA newydd sy'n fwy adlewyrchol ac sy'n ehangu ar y polisi CDLl newydd ac sydd hefyd yn darparu arweiniad sydd yn cyd-fynd â gofynion y polisi.

Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gydag Adrannau Priffyrdd y Cyngor i baratoi CCA newydd i sicrhau cysondeb wrth weithredu Polisïau'r CDLl. Rhagwelir y bydd fersiwn drafft yn cael ei baratoi erbyn Haf 2020.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

**Dangosydd: D12**

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO3<br><br><br><br><br><br>SO4 | Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:<br><br>**Prif ganlyniadau:**<br>• Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg; |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | • Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;<br>• Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D12 – Nifer o geisiadau cynllunio gydag Asesiad Teithio | Yr holl geisiadau cynllunio perthnasol sydd uwchlaw'r trothwyon perthnasol a nodwyd ym Mholisi TRA 1 i gynnwys Asesiad Teithio | AMB 1 | ✓ | Un cais cynllunio a gyflwynir mewn unrhyw flwyddyn unigol heb Asesiad Teithio fel sy'n ofynnol gan Bolisi TRA 1 |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

| **Dadansoddiad:** |
|---|
| Cafwyd Asesiad Teithio gyda 1 cais yng Ngwynedd a 9 cais ym Môn yn ystod y cyfnod monitro. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau heb Asesiad Teithio pan fo angen.<br><br>Mae'r polisi'n glir, ac yn gofyn am asesiad ar sail y trothwyon a osodir yn 'Nhabl 6: Graddfa'r datblygiad sy'n gofyn am asesiad trafnidiaeth'. Mae swyddogion yn gofyn am asesiad wrth wneud ymholiad cyn gwneud cais neu ar y cam gwneud cais cynllunio. |

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

DRAFT

| **Dangosydd: D13** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO3<br><br><br><br><br>SO4 | Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:<br><br>**Prif ganlyniadau:** |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;<br>• Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;<br>• Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | TRA 1, TRA 2, TRA 3, TRA 4 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D13 – Y nifer o geisiadau a ganiateir o fewn safleoedd/ ardaloedd wedi'u diogelu ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio sy'n niweidiol i gyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth a nodir ym Mholisi TRA 1 | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais yn groes i Bolisi TRA 1 |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

| **Dadansoddiad:** |
|---|
| Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn groes i Bolisi TRA 1.<br><br>Ar 25 Mai 2018, penderfynodd Gweinidogion Cymru barhau â Chynllun Trafnidiaeth Caernarfon i Bontnewydd yr A487, yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod haf 2017.<br><br>Dechreuwyd clirio'r safle fis Chwefror 2019. Mae Gwaith Cloddio ger cylchfannau'r Goat a Phlas Menai hefyd wedi dechrau. Mae'r ffordd osgoi wedi'i hamserlennu i gael ei chwblhau yn Hydref 2021. Bydd yn cysylltu cylchfannau'r Goat ar yr A499/A487 i gylchfannau Plas Menai gyda ffordd gerbydau 9.8km, sy'n cynnwys dwy draphont, dwy bont fawr, a thair cylchfan newydd.<br><br>Ni fu unrhyw geisiadau yn effeithio ar lwybr y ffordd osgoi. Mae gwaith adeiladu ar y brifffordd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.<br><br>Mae Ffordd Gyswllt Llangefni bellach wedi'i chwblhau'n llawn ac mae ar agor i'r cyhoedd gweler D14 isod.<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau yn agos at y gwelliannau arfaethedig i'r A5025 Y Fali i Wylfa yn ystod y cyfnod hwn. |

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

DRAFT

| **Dangosydd: D14** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i’w fonitro |

| **Dangosydd: D15** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i’w fonitro |

DRAFFT

## 6.2 Byw'n Gynaliadwy

**Datblygiadau Cynaliadwy a Newid Hinsawdd**

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D16</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Amcan:</td><td>SO5</td><td colspan="4">Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.</td></tr>
<tr><td>SO6</td><td colspan="4">Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<ul><li>sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;</li><li>lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;</li><li>hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;</li><li>defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;</li><li>rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.</li></ul></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td colspan="2" rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td>PS 1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D16 - Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy</td><td colspan="2" rowspan="4">Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Methiant i fabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

DRAFT

DRAFT

Cafodd y CCA diwygiedig ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar yr 16 Gorffennaf, 2019 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (Rhagfyr 2018 ac Ionawr, 2019).

Gan fod y Canllaw Cynllunio wedi ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2019, nid yw o fewn y lefel targed o 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun.

Bu oedi cyn cyhoeddi'r CCA er mwyn caniatáu mewnbwn i ddechrau gan swyddogion datblygu iaith y Cynghorau ac i ddisgwyl am gyhoeddiad canllawiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Roedd oedi pellach cyn cyhoeddi er mwyn caniatáu mewnbwn gan Bwyllgor Craffu Cymunedau a Gweithgor Craffu (Cyngor Gwynedd), sydd wedi arwain at waith ychwanegol sy'n cynnwys gwerthusiad beirniadol annibynnol o fersiwn ymgynghori drafft y CCA. Credir bod yr oedi wrth lunio'r CCA wedi bod yn fuddiol.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Targed wedi ei gyflawni. Dim angen parhau i'w fonitro. | |

**Indicator: D17**

| **Amcan:** | SO5<br><br><br><br>S06 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd.<br>Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. |
|---|---|---|

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D17 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir gan gategori NCT 15 mewn ardaloedd gorlifdir C1 | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio o fewn ardaloedd gorlifdir C1 heb gwrdd â'r holl brofion a amlinellir yn NCT15 | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol o fewn ardaloedd gorlifdir C1 nad yw'n cwrdd â holl brofion NCT15. |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Caniatawyd 18 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn parth llifogydd C1. Fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio, casglwyd gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfiaeth y ceisiadau cynllunio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd); a phenderfynwyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion y profion sydd wedi'u gosod yn NCT 15.

Daethpwyd i'r casgliad fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLl ar y cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. | |

| **Indicator: D18** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5<br><br><br><br><br>S06 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd.<br>Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D18 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2. | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2 | AMB 1 | X | Caniatáu un ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2 mewn unrhyw flwyddyn unigol. | |
| | | **AMB 2** | ✓ | | |
| | | AMB 3 | | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |
| Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer y math o ddatblygiad y byddid yn ystyried ei fod yn 'ddatblygiad hynod fregus' yn unol â Ffigwr 2 Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pherygl Llifogydd). Ar ben hynny, roedd yr holl geisiadau a leolwyd (yn rhannol/llwyr) o fewn parth llifogydd C2 yn cydymffurfio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn NCT 15. | | | | | |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Daethpwyd i'r casgliad fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLl ar y cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. | |

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D19</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO5<br><br><br><br><br><br>S06</td><td colspan="4">Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td colspan="2">PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D19 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn</td><td rowspan="4">Cynnal neu gynyddu'r gyfran o ddatblygiadau newydd a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) o'i gymharu â'r % cyfartalog a gofnodwyd yn ystod 2015/ 2016 – 2016/ 2017.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td colspan="2" rowspan="4">Gostyngiad yn y gyfran o ddatblygiadau a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) am 2 flynedd yn olynol.</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

DRAFT

| |
|---|
| Oherwydd natur wledig yr ardal, mae cyfleoedd i ddatblygu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen wedi ei gyfyngu i nifer o safleoedd llai. Tra bo datblygiadau'n cael eu cyfeirio at y safleoedd hyn yn y lle cyntaf, mae'r pwysau i adeiladu ar dir gwyrdd yn anochel, yn enwedig oherwydd natur cynigion e.e. cynlluniau ynni adnewyddol, tai lleol, cynlluniau arallgyfeirio gwledig a datblygiadau twristiaeth. Mae'r gyfran o ddatblygiadau ar dir llwyd yn Ynys Môn Gwynedd fel a ganlyn:<br>% o ddatblygiadau ar dir a ddatblygwyd o'r blaen:<br>• **Ynys Môn** 2015-2016 = 20.72ha (61%);<br>**Ynys Môn** 2016-2017 = 28.00ha (50%);<br>**Ynys Môn** 2017-2018 = 13.81ha (49%);<br>**Ynys Môn** 2018-2019 = 4.33ha (21%);<br>**Ynys Môn** 2019-2020 = 52.9ha (82.8%) (Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys diwygiadau i drac rasio sydd eisoes yn bodoli ble fo maint y safle'n 41.4ha)<br>• **Gwynedd 2015-2016** = 14.54ha (44%);<br>**Gwynedd 2016-2017** = nid oes data ar gael oherwydd roedd cofnodi'r data hwn yn cael ei adolygu ar y pryd.<br>**Gwynedd 2017-2018** = 12.82ha (64%);<br>**Gwynedd 2018-2019** = nid yw'r data ar gael oherwydd adnoddau staff/materion technegol.<br>**Gwynedd 2019-2020** = nid yw'r data ar gael oherwydd bod system newydd gofnodi newydd wedi ei weithredu dros y flwyddyn ddiwethaf<br><br>Daethpwyd i'r casgliad fod y nifer o geisiadau ar gyfer datblygiadau newydd ar dir llwyd wedi cynyddu, ac felly'n bodloni targed y dangosydd.<br><br>Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r nifer o geisiadau cynllunio ar dir a ddatblygwyd o'r blaen wedi cynyddu yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn. Fodd bynnag, yn sgil diffyg gwybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd nid oes posib do di gasgliad os yw targed y dangosydd wedi ei gyrraedd. |

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

| **Dangosydd: D20** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5<br><br><br><br><br>S06 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal; |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | • defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D20 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir tu allan i ffiniau datblygu. | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio tu allan i ffiniau datblygu nad ydynt yn cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun. | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio tu allan i ffiniau datblygu nad yw'n cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun mewn unrhyw flwyddyn unigol. |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Mae yna gyfanswm o 480 o geisiadau cynllunio sydd wedi cael caniatâd tu allan i'r ffiniau datblygu yn ystod yr 2ail gyfnod AMB sy'n cynrychioli 87.3% o bob cais ar gyfer datblygiad. Mae'r nifer hwn yn is na'r 1226 cais a gafodd eu cymeradwyo yn ystod yr AMB 1af. Fodd bynnag, dylid cofio fod yr AMB 1af yn gyfnod hirach.

Mae dadansoddiad o'r mathau o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd y tu allan i ffinia datblygu fel a ganlyn:

- Amaethyddiaeth a Choedwigaeth - 10%
- Cyflogaeth – 4%
- Cymunedol – 2%
- Deilodd Tŷ - 54%
- Hamdden – 3%
- Isadeiledd – 10%
- Hysbysebion – 1%
- Manwerthu – 1%
- Tai – 10%
- Twristiaeth – 5%

Fel y gwelir, roedd y mwyafrif o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd y tu allan i ffiniau datblygu yn rai deilydd tŷ neu'n geisiadau ar gyfer gwiriad amodau ar gyfer ceisiadau cynllunio eisoes wedi eu cymeradwyo. O ran datblygiadau tai, 'roedd y rhain yn cynnwys datblygiadau mewn clystyrau, tai menter wledig a thai a ail-adeiladwyd a oedd yn cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun. Nodir hefyd fod nifer o geisiadau ar gyfer datblygiadau gwledig er enghraifft twristiaeth, cyflogaeth, priffyrdd a datblygiadau amaethyddol. Ni chymeradwywyd unrhyw gais oedd yn gyferbyniol i Bolisi PCYFF 1.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

**Technoleg Adnewyddadwy**

DRAFT

| **Dangosydd: D21** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. |
| | SO6 | Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. |

| **Dangosydd:** | **Targed** | **Polisi perthnasol:** | | PS 1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D21 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol a ganiateir, fesul Technoleg, ardal (Ardal awdurdod Cynllunio Lleol Môn a Gwynedd) ac allbwn ynni a gofnodir (GWh) | 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (1,113.35 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am drydan<br><br>100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (23.65 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am wres<br><br>50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (23.65 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am wres<br>100% o'r adnoddau ynni | AMB 1 | − | Swm allbwn ynni a gofnodir o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn 10% neu fwy islaw'r gofynion yn y Targed Polisi |
| | | **AMB 2** | − | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | adnewyddadwy posib (47.3 GWh) wedi digwydd erbyn 2026 i gyfarch y galw am wres | | | |

**Dadansoddiad:**

Mae'r polisïau a gynhwysir yn y CDLl yn cefnogi ceisiadau ar gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy priodol. Hwn yw'r ail AMB ac felly nid yw'n bosib sefydlu unrhyw dueddiadau mor gynnar yn y broses monitro.

O'r cyfnod monitro hwn, amlinellir y GWh a gafodd ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad

| Math | Nifer o Geisiadau | GWh |
|---|---|---|
| Pympiau Gwres | 2 | 0.03 |
| **Cyfanswm** | **2** | **0.03** |

masnachol yn ôl gwahanol fath o dechnoleg isod:

Er bod y cyfanswm yn isel, cydnabyddir y gallai un datblygiad mawr sicrhau swm sylweddol o ynni adnewyddadwy. Mae'r dangosydd hwn yn un ble mae'r targed angen ei fodloni erbyn 2021, ac felly byddwn yn parhau i fonitro yn yr AMB dilynol. Mae'r lefelau isel o geisiadau sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn adlewyrchu dirywiad yn nifer y ceisiadau a gyflwynwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn hytrach nag Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gwrthod ceisiadau.

Mae tablau 7 ac 8 o fewn y CDLl ar y Cyd yn nodi capasiti gosodedig o 159.6 (MWe) a 12.4 (MWt) o fewn ardal y cynllun yn 2016.

Yn AMB 1 nodwyd mewn camgymeriad bod y 'Cynhyrchu Ynni yng Nghymru' diweddaraf (ffigurau 2017) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru wedi nodi cyfanswm capasiti a osodwyd ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd o 225MW a roddodd cynhyrchiad o 381GWh. Fodd bynnag, dylai'r ffigur hwn fod wedi bod yn 205MW, tra bod y ffigwr 381GWh yn gywir. Felly, mae hyn yn gynnydd o 33MW o'r hyn a nodir yn nhablau 7 ac 8 o'r JLDP yn hytrach na'r 53MW a nodir yn AMR 1.

Y fersiwn diweddaraf 'Cynhyrchu Ynni yng Nghymru' (ffigurau 2018) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru cyfanswm capasiti gwres a thrydan sydd wedi'i osod ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd oedd 210MW a roddodd gynhyrchiad amcangyfrifedig o 398GWh. Mae hyn yn gynnydd o 38MW o'r hyn a nodwyd yn nhablau 7 ac 8 y CDLl ar y Cyd.

Mae'r dangosydd hwn yn un ble mae'r targed angen ei fodloni erbyn 2021, ac felly byddwn yn parhau i fonitro yn yr AMB dilynol.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

| **Dangosydd: D22** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| | | cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. |
| | SO6 | Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D22 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy annibynnol. | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. | AMB 1 | – | Methiant i fabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. |
| | | **AMB 2** | – | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Bu oedi yn yr amserlen ar gyfer darparu'r CCA yma oherwydd yr angen i roi blaenoriaeth i CCA eraill wnaeth gymryd yn hirach i'w paratoi a'u hadrodd trwy Bwyllgorau'r ddau Gyngor.

Mae yna leihad sylweddol wedi bod yn y nifer o geisiadau am gynlluniau ynni adnewyddadwy annibynnol o fewn ardal y Cynllun sydd o bosib yn adlewyrchu'r symudiad i baratoi datblygiadau yn y môr a lleihad yn y grantiau sydd ar gael ar gyfer fath ddatblygiadau ar y tir.

Cyhoeddwyd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft ar gyfer ymgynghoriad rhwng mis Awst a mis Tachwedd 2019. Cyflwynodd hwn feysydd blaenoriaeth ar gyfer ynni gwynt a solar a fyddai'n darparu cymorth ar gyfer cynigion gwynt a solar ar raddfa fawr ar y tir. Nodwyd rhan fawr o ganol Ynys Môn fel ardal blaenoriaeth ar gyfer solar a gwynt gyda 2 faes blaenoriaeth arall ar gyfer ynni'r solar un ar Ynys Môn ac un yng Ngwynedd.

Bwriadwyd i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gael ei gyhoeddi yn Hydref 2020, ond oherwydd covid-19 rhagwelir bellach caiff ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2021.

Yng ngoleuni'r gostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau a'r newid sylweddol y gellid ei gyflwyno drwy'r FfDC bydd y GPCC yn adolygu'r angen am y CCA hwn unwaith y bydd yr FfDC wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

| **Gweithred:** | |
|---|---|

DRAFT

| |
|---|
| Adolygu'r angen am CCA Ynni Adnewyddadwy ar wahân yn dilyn cyhoeddi'r FfDC. |

<table>
<tr><td colspan="5">Dangosydd: D23</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO5 & SO6</td><td colspan="3">SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>SO6: Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau’r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny’n bosibl;<br>• lleihau’r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi’i ddatblygu’n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i’w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D23 - Dwysedd cyfartalog y datblygiadau tai a ganiateir yn ardal y Cynllun</td><td rowspan="4">Isafswm dwysedd net cyfartalog cyffredinol o 30 o unedau tai'r hectar a gyflawnir yn ardal y Cynllun</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Methiant i gyflawni isafswm dwysedd cyffredinol net cyfartalog o 30 o unedau tai'r hectar</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

DRAFT

**Caniatadau o'r newydd yn unig – Holl ganiatadau**

Ardal y Cynllun = 507 uned/15.69ha = 32.3 uned yr hectar

**Caniatadau o'r newydd yn unig – 5 neu ragor o unedau o'r newydd**

Ardal y Cynllun = 391 uned/10.59ha = 36.9 uned yr hectar

Mae'r wybodaeth hyn yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a cheisiadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble roedd egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi cyn mabwysiadu'r Cynllun, nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ail-adeiladu tŷ h.y. ble nad oes cynnydd yn nifer yr unedau.

Ar sail yr holl ddatblygiadau cymwys sydd wedi eu caniatáu, noder fod y dwysedd cyfartalog yn uwch na'r targed o 30 uned yr hectar.

Wrth ystyried y caniatadau ar gyfer safleoedd preswyl mawr yn unig, sef rhai ar gyfer 5 neu ragor o unedau, gweler fod y dwysedd cyfartalog yn uwch na'r ffigwr cyffredinol. Mae'r dwysedd sydd wedi ei sicrhau felly ar safleoedd o'r fath yn dderbyniol.

Nodir bod y wybodaeth hon felly yn cyd-fynd yn effeithiol â'r lefel targed o ran y dangosydd hwn.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

DRAFT

| **Dangosydd: D24** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO7 | Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu'n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy'n unigryw yn lleol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PCYFF 2, PCYFF3 & PCYFF4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D24 – Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio o fewn 12 mis o fabwysiadu | AMB 1 | – | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu |
| | | **AMB 2** | – | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Ddylunio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 4 yn 2017/18. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLl.

Fodd bynnag, mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol wedi 'arbed' CCA o'u Cynlluniau Datblygu Unedol, a gallent hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.

Gan fod y polisi CDLl ar y Cyd newydd ar Ddylunio yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol, ni theimlir bod y llithriad yng nghyflwyniad CCA newydd wedi bod yn niweidiol yn y broses gwneud penderfyniad, er y cydnabyddir bod rhaid creu CCA newydd sy'n fwy adlewyrchol ac sy'n ehangu ar y polisi CDLl newydd yn y dyfodol agos.
Mae gwaith ar fersiwn ddiwygiedig o'r CCA Dylunio yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Wasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. Bwriedir cyhoeddi fersiwn drafft o'r CCA ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2020.

**Gweithred:**

Mae ymchwil ar safonau dylunio a chanllawiau modern ar y gweill. Bydd y gwaith hwn yn arwain at baratoi CCA Dylunio newydd.

| **Dangosydd: D25** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO8 | SO8: Sicrhau bod aneddiadau yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu'r holl anghenion sydd gan eu cymunedau yn unol â'u rôl yn y goeden aneddleoedd: | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 4 & PS17 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D25 - Nifer y tai newydd a ganiateir fesul categori yn y Goeden Aneddleoedd a | O ddyddiad mabwysiadu, nifer yr unedau tai a ganiateir fesul categori anheddle, | AMB 1 | ✓ | O ddyddiad mabwysiadu mae nifer yr unedau tai a ganiateir dros 2 flynedd yn olynol, wedi'i fynegi fel % |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| amlinellir ym Mholisi PS 17, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn | wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau preswyl, yn unol â gofynion Polisi PS 17, sydd fel a ganlyn:<br><br>Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol = 53%<br>Canolfannau Gwasanaeth Lleol = 22%<br>Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad = 25% | AMB 4 | | o'r holl ddatblygiadau preswyl, mewn:<br><br>• Canolfan Isranbarthol a Chanolfan Gwasanaeth Trefol a'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn disgyn dan y gofyniad %;<br>• Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad yn uwch na'r gofyniad % |

**Dadansoddiad:**

Mae'r wybodaeth yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a cheisiadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble roedd egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ail-adeiladu tŷ h.y. ble nad oes cynnydd yn nifer yr unedau.

**Gwybodaeth ar gyfer 2019/20**

| Haen | Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd | Canran o'r holl ganiatadau preswyl |
|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol | 257 | 51% |
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 107 | 21% |
| Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad | 143 | 28% |
| Cyfanswm | 507 | - |

*Noder fod safleoedd eithrio yn cael eu hystyried ar sail yr anheddle mae'n ffinio â hi, yn hytrach nag fel lleoliad yng nghefn gwlad.

Nodai'r lefel sbardun mewn perthynas â'r dangosydd y dylid edrych ar nifer yr unedau tai a ganiateir dros 2 flynedd yn olynol. Wrth gyfuno gwybodaeth ar gyfer AMB1 a AMB2 ar y cyd (31ain Gorffennaf 2017-31ain Mawrth 2020) fe nodir y wybodaeth ganlynol:

| Haen | Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd | Canran o'r holl ganiatadau preswyl |
|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol | 555 | 53% |
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 234 | 22% |
| Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad | 261 | 25% |
| Cyfanswm | 1,050 | - |

Noder fod y wybodaeth hon yn cyd-fynd yn effeithiol â'r targed a'r hyn a nodir yn y lefel sbardun. Tra bod y wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 2 ychydig yn wahanol i'r targed o safbwynt fod y canran o ganiatadau a roddwyd yn yr haenau Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol a'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol ychydig yn is na'r ffigyrau a nodir gyda'r canran ar gyfer Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad ychydig yn uwch, nodir bod y canrannau hyn yn agos iawn at y lefelau targed.

Wrth edrych ar y lefel sbardun ac ystyried y sefyllfa ddwy flynedd yn olynol (yn yr achos hwn cyfnod dau AMB cyntaf y Cynllun), nodir fod y wybodaeth yn cyd-fynd yn union â'r targed yn y dangosydd. Mae hyn sydd wedi ei ganiatáu yn gyson felly â strategaeth y Cynllun a'r hyn mae yn ceisio ei gyflawni o safbwynt yr agwedd hon.

Gweler atodiad 2 am fapiau sy'n dangos y dosbarthiad caniatadau cynllunio am unedau preswyl yn 2019/20 ynghyd a nifer y caniatadau cronnol ers mabwysiadu'r Cynllun.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

DRAFT

## 6.3 Economi ac Adfywio

**Prosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol a Datblygiadau Perthynol**

**Wylfa Newydd**

Cyflwynwyd Horizon gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) er mwyn datblygu atomfa niwclear (Wylfa Newydd) ar y 1af o Fehefin, 2018. Roedd y cais yn destun archwiliad gan Banel o Arolygwyr Cynllunio, a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben (cau) ar 23ain Ebrill 2019. Ar ddiwedd yr archwiliad, roedd gan y Panel 3 mis i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amlinellu eu casgliadau a'u hargymhelliad ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd i'r bwriad, gyda'r penderfyniad terfynol i'w wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar neu cyn y 23 Hydref 2019 (6 mis ar ôl dyddiad cau'r archwiliad).

Ailbennwyd y dyddiad gwneud penderfyniad i 31 Mawrth 2020 er mwyn caniatáu derbyn rhagor o wybodaeth am effeithiau amgylcheddol a materion eraill a oedd heb eu datrys.

Yn dilyn y cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig firws Covid-19 mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu ailbennu'r dyddiad cau statudol ar gyfer y cais hwn i 30 Medi 2020, gan nad yw'r Senedd yn eistedd. Caiff datganiad yn cadarnhau'r dyddiad cau newydd ar gyfer penderfyniad ei wneud i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn unol ag adran 107(7) o Ddeddf Cynllunio 2008 cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Senedd ailddechrau.

Ar 17 Ionawr, 2019 cyhoeddwyd Hitachi ei bod yn bwriadu oedi gyda'r bwriad o ddatblygu'r Orsaf Niwclear Newydd, fodd bynnag cadarnhawyd Horizon i'r Panel (Arolygwyr Cynllunio) ei fod am barhau i roi adnoddau o'r neilltu i sicrhau bod y broses archwilio'r cais yn cael ei gyflawni. Ym marn Horizon, bydd cwblhau'r cam hwn yn y broses o gael caniatâd cynllunio yn helpu i roi'r cyfle gorau o ailgychwyn y prosiect yn amserol os ellir bodloni amodau hanfodol eraill yng nghylch yr angen am fodel ariannu newydd.

Serch yr oedi gyda'r cynlluniau yn gysylltiedig â datblygu'r atomfa newydd, mae'r safle yn parhau i fod yn un o'r prif safleoedd i adeiladu atomfa niwclear newydd yn y DU.

Ar sail y wybodaeth sydd i law ar hyn o bryd, os rhoddir caniatâd cynllunio iddo, fe all Prosiect Wylfa Newydd ddechrau yn ystod oes y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

| **Dangosydd: D26** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. |

| Dangosydd: | Targed: | Polisi perthnasol: | | PS8, PS9, PS10, PS11, PS12 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D26 - Cam yn y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) mewn perthynas â Wylfa Newydd | Cais am GCD i Wylfa Newydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo erbyn Rhagfyr 2017.<br><br>Cymeradwyo'r cais am GCD i Wylfa Newydd erbyn Rhagfyr 2018. | AMB 1 | – | Horizon Nuclear Power yn methu a chyflwyno cais am GCD erbyn Rhagfyr 2017.<br><br>Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth i'r cais GCD erbyn Rhagfyr 2018. |
| | | **AMB 2** | – | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) ar y 1af o Fehefin, 2018. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Cyflwynwyd canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Roedd y penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig ar 23 Hydref, 2020 - fodd bynnag ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol i dderbyn gwybodaeth bellach ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y bwriad, fe ymestynnwyd y cyfnod yma i 31 Mawrth, 2020. Mae cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 wedi arwain at oedi pellach, gyda'r penderfyniad nawr yn ddisgwyliedig ar 30 Medi 2020.

Mae'r llithriad yn yr amserlen o ran cyflwyno'r cais GCD a chael penderfyniad arno tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

**Dangosydd: D27**

| Amcan: | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. |
|---|---|---|

| Dangosydd: | Targed: | Polisi perthnasol: | | PS8, PS9, PS10, PS11, PS12 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D27 – Statws y cais i DECC am gymeradwyaeth derfynol. | Prosiect Wylfa Newydd yn cael cymeradwyaeth "cadarnhad" gan | AMB 1 | ✓ | Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth / "cadarnhad" gan DECC erbyn Rhagfyr 2019. |
| | | **AMB 2** | – | |
| | | AMB 3 | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | DECC erbyn Rhagfyr 2019 | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar y 1af o Fehefin, 2018. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Mae canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol wedi cael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol gyda'r penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig erbyn 23ain o Hydref, 2019. Fodd bynnag ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol i dderbyn gwybodaeth bellach ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y bwriad, fe ymestynnwyd y cyfnod yma i 31 Mawrth, 2020. Mae cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 wedi arwain at oedi pellach, gyda'r penderfyniad nawr yn ddisgwyliedig ar 30 Medi 2020.<br><br>Bydd diweddariad o ran statws y Gorchymyn Caniatâd Datblygu yn cael ei adrodd arno yn ystod y trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol (2020/2021). | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | | | | |

| **Dangosydd: D28** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS8, PS9, PS10, PS11, PS12 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D28 – Nifer o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer datblygiadau perthynol Wylfa Newydd | Ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau perthynol Wylfa Newydd yn cael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn erbyn Rhagfyr 2017. | AMB 1 | ✓ | Horizon Nuclear Power yn methu cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau perthynol erbyn Rhagfyr 2017. | |
| | | **AMB 2** | ✓ | | |
| | | AMB 3 | | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |

DRAFT

Ar y 7fed o Ragfyr 2017 fe gyflwynwyd cais cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer cynnal gwelliannau i'r A5025 rhwng Y Fali a safle Wylfa Newydd (27C106E/FR/ECON). Cymeradwywyd y cais hynny gydag amodau ar 13 Gorffennaf, 2018. Pwrpas y gwelliannau i'r ffordd yw er mwyn hwyluso llif traffig i safle Wylfa Newydd. Bydd traffig i'r safle yn cael ei gyfeirio ar hyd yr A55 gan droi ffwrdd oddi ar yr A55 yng nghyffordd Y Fali ac yna cysylltu hefo'r A5025.
Mae Adran 43 o Ddeddf Cymru 2017 yn caniatáu i ddatblygiadau perthynol gael ei gynnwys o fewn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Yn sgil y newid mewn deddfwriaeth, penderfynwyd Horizon Nuclear Power i gynnwys yr holl ddatblygiadau perthynol o fewn y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn hwyluso'r broses caniatáu i'r cyhoedd ac eraill.
Cyflwynwyd y datblygiadau perthynol canlynol fel rhan o'r GCD:-

- Campws y safle o fewn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- Safle parcio a theithio dros dro Dalar Hir ar gyfer gweithwyr adeiladu;
- Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi.
- Garej Offer Argyfwng Symudol (y Mobile Emergency Equipment Garage (MEEG))
- Canolfan Rheolaeth Argyfwng Amgen (Alternative Emergency Control Centre (AECC))
- Creu cynefin gwlypdir a gwella gwaith fel iawndal ar gyfer unrhyw effaith posib ar Safle o Ddiddordeb Arbennig Tre'r Gof (AoDdGA) yn y lleoliadau canlynol:
    - Tŷ Du;
    - Cors Gwawr, a
    - Cae Canol-dydd

Yn sgil y newid mewn deddfwriaeth, ni chyflwynwyd unrhyw gais cysylltiedig arall yn uniongyrchol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud penderfyniad arno.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

| **Dangosydd: D29** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS8, PS9, PS10, PS11, PS12 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D29 – Nifer a math o ddatblygiadau | Datblygiadau perthynol unigol | AMB 1 | ✓ | Datblygiad perthynol prosiect Wylfa Newydd |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| perthynol Prosiect Wylfa Newydd a gychwynnwyd | Prosiect Wylfa Newydd wedi eu cychwyn yn unol â chaniatâd cynllunio unigol | **AMB 2** | ✓ | heb gychwyn o fewn yr amserlen a osodwyd yn y caniatâd cynllunio unigol a'r Gorchymyn caniatâd Datblygu (lle bo'n berthnasol). |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Yn sgil y penderfyniad gan Hitachi i ohirio'r cynlluniau yn gysylltiedig â Wylfa Newydd, nid oes yna unrhyw ddatblygiad perthynol wedi cychwyn. Yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd ar gyfer y gwelliannau i'r A5025 (27C106E/FR/ECON) fe fyddai rhaid i'r gwaith gychwyn o fewn cyfnod o ddwy flynedd o ddyddiad y caniatâd. Gan hynny mae gan y datblygiad perthynol dan sylw gyfnod o hyd at 13 Gorffennaf, 2020 i gychwyn er mwyn sicrhau nad yw'r lefel sbardun o fewn y dangosydd yn cael ei gyrraedd.<br>Gan fod y cais GCD yn parhau i fynd yn ei flaen a gan fod y cais hynny bellach yn cynnwys y datblygiadau perthynol, os derbynnir y cais ganiatâd ac os yw Horizon Nuclear Power yn dymuno parhau hefo'r cynlluniau yn y dyfodol fe fydd posib gweithredu ar y datblygiadau cysylltiol yn syth. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | | | | |
| **Dangosydd: D30** | | | | |
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro | | | | |

**Darparu Cyfleon ar gyfer Economi Ffyniannus**

**Ynys Ynni**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi'r ynys gyfan yn barth menter. Y weledigaeth ar gyfer Ardal Fenter Ynys Môn yw creu canolfan ragoriaeth ryngwladol ar gyfer cynhyrchu, arddangos a gwasanaethu ynni carbon isel. Y gobaith yw bod dynodi'r Ynys gyfan fel Parth Menter yn fodd o sicrhau fod gweledigaeth Rhaglen Ynys Ynni a sefydlwyd gan y Cyngor yn cael ei wireddu. Y weledigaeth Ynys Ynni yw gwireddu cyfle unwaith mewn oes ar gyfer creu swyddi a sicrhau ffyniant a thwf economaidd drwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol ar Ynys Môn.

Serch y ffaith fod gohiriad yn y cynlluniau i ddatblygu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd a thynnu nôl y prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru'r mae'r weledigaeth Rhaglen Ynys Ynni yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Fel rhan o'r Rhaglen mae diddordeb a chynlluniau yn parhau i fodoli gan gwmnïau ynni carbon isel ar yr ynys gan gynnwys datblygiadau Ynni Llanwol Morlais a Minesto ynghyd a datblygiadau arfaethedig ar gyfer fferm Solar.

Mae Coleg Menai (rhan o Grŵp Llandrillo Menai) yn enghraifft ardderchog o sut y gall yr Ynys fanteisio ar brosiectau trawsnewidiol. Mae'r campws hwn wedi gweld twf sylweddol, gan gynnwys y Ganolfan Ragoriaeth £13.6M ar gyfer peirianneg a agorwyd yn ystod Ebrill 2019.

**Gweledigaeth Economaidd**

Mae'r Cynghorau yn parhau i weithio'n agos a Llywodraeth Cymru ynghyd ac Awdurdodau eraill ar draws Gogledd Cymru drwy'r Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mae'r bwrdd yn grŵp ar y cyd o

DRAFT

sefydliadau preifat a chyhoeddus yng Ngogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd ar draws yr ardal. Mae’r amcanion allweddol yn cynnwys annog buddsoddiad busnes yng Ngogledd Cymru gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth.

Ar ddiwedd 2017 bu i bartneriaeth, sy’n cynnwys chwe chyngor gogledd Cymru, partneriaid busnes, colegau a phrifysgolion, lansio Bargen Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol. Mae’r Fargen Twf yn nodi gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth gyda’r nod o greu 5,300 o swyddi a denu buddsoddiad sector preifat gwerth £1 biliwn yn y rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf.

<table>
<tr><th colspan="6">Dangosydd: D31</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO10</td><td colspan="4">Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a’i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy’n cwrdd orau a gpfynion busnesau cyfredol ac sy’n gallu cefnogi’r sectorau yn yr economi lleol sy’n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi briodol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td colspan="2">CYF 1, CYF 3 A CYF 5</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D31 – Swm o dir cyflogaeth neu arwynebedd llawr (dosbarth defnydd B1, B2 a B8) a gynhwysir ar safleoedd a amlinellir ym Mholisi CYF 1 sy’n cael eu colli i ddefnyddiau eraill.</td><td rowspan="4">Dim colled net o dir cyflogaeth/arwynebedd llawr i ddefnyddiau amgen (defnyddiau heblaw dosbarth defnydd B1, B2 a B8) yn groes i Bolisi CYF 3 neu Bolisi CYF 5.</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Caniatáu un cais cynllunio nad yw’n unol a Pholisi CYF 3 neu CYF 5.</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Caniatawyd cyfanswm o 18 cais cynllunio ar safleoedd cyflogaeth a warchodir yn unol â Pholisi CYF1. Roedd 16 o'r ceisiadau hyn yn ymwneud â defnyddiau yn nosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8. Y ddau gais nad oeddent yn ymwneud â'r defnyddiau hyn oedd:<br><br>1. Cais cynllunio am "newid defnydd tir ar gyfer rheoli gwastraff, estyn y ganolfan drosglwyddo gwastraff cyfredol, ynghyd â chodi adeilad ailgylchu newydd a lleiniau ailgylchu ar Ystâd Ddiwydiannol Gaerwen (FPL/2019/174). Mae datblygiad o'r math yma yn disgyn i'r dosbarth defnydd 'unigryw' ac yn dderbyniol ar gyfer ystadau diwydiannol presennol yn unol â pholisi GWA 1 (Darparu isadeiledd rheoli gwastraff ac ailgylchu) o'r Cynllun Datblygu Lleol.<br>2. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i gais cynllunio (OP/2019/5) i ddymchwel adeiladau presennol ynghyd â chodi 52 o dai fforddiadwy yn Stryd y Bont, Llangefni, gan achosi colled o 0.5 hectar o dir a warchodwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth. Fodd bynnag, o ganlyniad i geisiadau cynllunio eraill a gymeradwywyd yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol, roedd y llain hon o dir cyflogaeth warchodedig wedi mynd yn ynysig ac yn amhosib ei datblygu ar gyfer ei defnydd dynodedig. O ganlyniad, ystyriwyd bod modd cyfiawnhau datblygiad y tir hwn at bwrpas amgen a bod hynny'n cydymffurfio yn gyffredinol â'r Cynllun Datblygu Lleol.</td></tr>
</table>

DRAFT

| |
|---|
| Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar y safleoedd cyflogaeth (wedi eu gwarchod neu ddynodi) ar gyfer defnyddiau amgen nad oeddent yn cydymffurfio â Pholisïau CYF 3 neu CYF 5. Ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol. |
| **Gweithred:** |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. |

| **Dangosydd: D32** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO10 | Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gpfynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi briodol. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | CYF 1, CYF 3 a CYF 5 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D32 – Swm o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodir a gynhwyswyd ym Mholisi CYF 1 a gymerwyd i fyny yn ôl dosbarth defnydd datblygu B1, B2 neu B8. | 6.9 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodwyd a gymerir i fyny fesul blwyddyn yng Ngwynedd. | AMB 1 | ✓ | Less than 27.4 ha employment land taken up on safeguarded employment sites by 2021 in Gwynedd<br>Less than 57 ha employment land taken up on safeguarded employment sites by 2021 in Anglesey | |
| | | **AMB 2** | ✓ | | |
| | | AMB 3 | | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |

DRAFT

Mae’r sbardun monitro yn ymwneud â faint o dir cyflogaeth a warchodir sydd wedi derbyn caniatâd erbyn 2021.

Yng Ngwynedd, mae 2.1ha o dir wedi derbyn caniatâd ar gyfer defnydd cyflogaeth, ac ym Môn, mae 5.5ha o safleoedd cyflogaeth warchodedig wedi derbyn caniatâd yn ystod cyfnod yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB2).

Mae cyfanswm cronnus y tir a dderbyniodd ganiatâd ar gyfer defnydd cyflogaeth, gan gynnwys caniatadau cynllunio a gymeradwywyd yn ystod AMB1, fel a ganlyn:

- Gwynedd, 6.3ha (gan gynnwys adleoli uned 0.47ha ar Ystâd Cibyn, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ffordd osgoi Caernarfon)
- Ynys Môn, 13.4ha.

Nodir bod y gyfradd caniatâd ar y safleoedd cyflogaeth warchodedig yn ystod y cyfnod byr hwn yn is na’r hyn a ddisgwylir. Ystyrir fod y Cynllun yn hwylusydd o ran darparu safleoedd cyflogaeth a bod llai o geisiadau am ddatblygiad ar y safleoedd cyflogaeth yn debygol o fod yn seiliedig ar faterion economaidd sydd y tu hwnt i reolaeth y Cynllun. Bydd angen parhau i gadw golwg ar y sefyllfa i sicrhau nad oes tueddiad annerbyniol yn datblygu a fyddai’n golygu risg na fyddai’r targed cyffredinol ar gyfer 2021 yn debygol o gael ei gyflawni.

*NODER: Mae rhan o ffordd osgoi Caernarfon yn mynd trwy gornel de-orllewinol Ystâd Ddiwydiannol Cibyn. Bydd rhan fechan o'r ystâd ddiwydiannol bresennol yn cael ei cholli i'r ffordd osgoi. Nid yw'n bosib amcangyfrif arwynebedd y rhan o'r safle cyflogaeth a gollir, ond bydd yn rhan fechan o'i chymharu â chyfanswm arwynebedd yr ystâd bresennol.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. | |

| **Dangosydd: D33** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO10 | Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a’i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy’n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy’n gallu cefnogi’r sectorau yn yr economi lleol sy’n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | CYF 1, CYF 3 a CYF 5 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D33 – Swm o dir cyflogaeth (hectar) a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel % o'r holl ddynodiadau cyflogaeth. | Sicrhau caniatâd cynllunio ar y safle cyflogaeth a ddynodwyd yng Ngwynedd erbyn 2019<br><br>Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 64 ha o dir cyflogaeth ar safle a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2021<br><br>Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 112ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2024<br><br>Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 144ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2026 | AMB 1 | | Cyfanswm o dir cyflogaeth a ganiatawyd yn disgyn o dan yr angen cronnol a nodwyd yn y targed polisi |
| | | **AMB 2** | X | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio ar safleoedd dynodedig yn ystod y cyfnod monitro. Fodd bynnag, gwrthodwyd un cais cynllunio (FPL/2019/128) ar ddynodiad cyflogaeth Gaerwen (C34) ar sail diffyg gwybodaeth ecolegol.

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau cynllunio ar y safle dynodedig o fewn Gwynedd. Mae ymholiadau a thrafodaethau rhagarweiniol wedi eu cynnal ynglŷn â'r safle, sy'n dangos bod diddordeb mewn symud ymlaen â'r dynodiad.

Mae'r targed yn nodi'r angen i'r safleoedd gael eu cynnig erbyn 2019 yng Ngwynedd a Môn ac, o ganlyniad mae'r lefel sbardun wedi ei gyrraedd. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd economaidd (h.y. Brexit, pandemig Covid) wedi newid yn sylweddol ers mabwysiadu'r Cynllun, ac ystyrir bod hyn wedi cael effaith sylweddol ar y diddordeb mewn tir cyflogaeth.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf.

**Dangosydd: D34**

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO10 | Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi priodol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | CYF 1, CYF 3, CYF 5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D34 – Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud a defnyddiau amgen ar safleoedd cyflogaeth | Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud a defnyddiau amgen o safleoedd cyflogaeth a ddiogelwyd a neilltuwyd o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. | AMB 1 | – | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. |
| | | **AMB 2** | – | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Mae fersiwn drafft o'r CCA wedi adrodd arno i'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd. Roedd y Canllaw wedi ei raglennu i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 20fed o Fawrth, 2020 gydag argymhelliad i gael cytundeb i'w ryddhau ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Fodd bynnag, yn sgil y cyfyngiadau yn gysylltiedig â phanemig Covid-19 roedd rhaid canslo'r cyfarfod o'r Pwyllgor a chan hynny mae oedi wedi bod yn y broses o ryddhau'r ddogfen ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus.
Bydd y Canllaw yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd er mwynderbyn sel bendith i'w ryddhau ar gyfer cyfnod ymgynghori cyhoeddus pan fydd y cyfyngiadau symud yn gysylltiedig â'r pandemig yn cael eu llacio.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

| **Dangosydd: D35** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO11 | Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle | | |
| **Dangosydd:** | **Targed** | **Polisi perthnasol** | | PS 9, ISA 3 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D35 – Statws cyflogaeth pobl 16+ oed | I gyflawni cynnydd yn y gyfradd o weithgarwch economaidd erbyn 2026 o'i gymharu â'r lefel yn 2017 | AMB 1 | ✓ | Cyfradd gweithgarwch economaidd yn dirywio am 2 flynedd yn olynol |
| | | **AMB 2** | – | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |



DRAFT

**Dadansoddiad:**

Arolwg o'r Llafurlu Lleol:  Crynodeb o Weithgarwch Economaidd (16-64)

| | Blwyddyn sy'n dod i ben ar Fawrth 2018 | Blwyddyn sy'n dod i ben ar Fawrth 2019 | Blwyddyn sy'n dod i ben ar Fawrth 2020 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 78.1 | 80.7 | 79.0 |
| Gwynedd | 76.7 | 77.1 | 77.7 |
| Cymru | 76.5 | 76.7 | 76.6 |

Tarddiad:  Stats Cymru - Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (16-64) yn ôl Ardal Leol a Blwyddyn yng Nghymru

Mae'r gyfradd gweithgaredd economaidd yng Ngwynedd wedi cynyddu dros y ddwy flynedd diwethaf.  Mae'r gyfradd wedi gostwng ar Ynys Môn dros y flwyddyn ddiwethaf.  Gall hyn fod oherwydd bod nifer o gyflogwyr wedi adleoli neu gau yn ystod y flwyddyn.  Mae'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan hefyd wedi gweld gostyngiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Fodd bynnag, gan fod y lefel sbardun yn cyfeirio at ddirywiad am 2 flynedd olynol bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

**Dangosydd: D36**

| **Amcan:** | SO11 | Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle |
|---|---|---|

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** PS 9, ISA 3<br>**Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |
|---|---|---|---|
| D36 – Nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd | Yn dilyn mabwysiadu'r Cynllun, lleihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd erbyn 2026 o'i gymharu â'r lefel yn 2017. | AMB 1 – <br>**AMB 2** ✓<br>AMB 3<br>AMB 4 | Methiant o'i leihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd erbyn 2019. |

| **Perfformiad AMB 1af (1af Awst 2017 i 31ain Mawrth 2019)** | **Perfformiad 2il AMB (1af Ebrill 2019 i 31ain Mawrth 2020)** |
|---|---|
| Daethpwyd i'r casgliad fod y nifer o bobl oedd yn cymudo o Ynys Môn i Wynedd wedi cynyddu o 22.2% yn 2017 i 24.5% yn 2018 dros gyfnod y cyfnod monitro 1af. | Daethpwyd i'r casgliad fod y nifer o bobl oedd yn cymudo o Ynys Môn i Wynedd wedi lleihau o 24.5% yn 2018 i 23.4% yn 2019. |

**Dadansoddiad:**

Yn 2019, roedd 67% o holl gymudwyr Ynys Môn yn cymudo i'w gwaith o fewn y Sir. Mae gan y Cyngor ddyhead i leihau cyfran cymudo o Ynys Môn i Wynedd ac ardaloedd ehangach.  Byddai lleihad yng nghyfran cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd yn awgrymu bod cynnydd yn y cyfleoedd

DRAFT

economaidd ar gael yn Ynys Môn fyddai yn ei dro yn arwain at lai o ail-gymudo yn digwydd. Mae'r tabl isod yn amlygu patrymau cymudo o Ynys Môn i Wynedd dros y blynyddoedd diweddar.

| Blwyddyn | Cyfanswm cymudwyr Ynys Môn | Nifer cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd | % Cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd |
|---|---|---|---|
| **2016** | 32,200 | 7,900 | 24.5% |
| **2017** | 31,500 | 7,000 | 22.2% |
| **2018** | 32,200 | 7,900 | 24.5% |
| **2019** | 32,000 | 7,500 | 23.4% |

*(Ffynhonnell: StatsWales, Llywodraeth Cymru)*

Fel y gwelir, er bod cyfran y boblogaeth weithiol oedd yn cymudo o Ynys Môn i Wynedd wedi disgyn o 24.5% i 22.2% rhwng 2016 a 2017, gwelwyd cynnydd yn ôl i 24.5% erbyn 2018. Erbyn 2019, roedd y gyfran wedi gostwng i 23.4%. Awgryma hyn fod cyfleoedd economaidd wedi cynyddu ar yr Ynys a bod y Cynllun, felly'n effeithiol wrth gwrdd â'r dangosydd hwn.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D37</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO12</td><td colspan="4">Arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleoedd gyflogaeth leol gyda swyddi o ansawdd, ac sy'n gweddu'r gymuned leol a pharchu buddiannau amgylcheddol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td>CYF 6</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D37 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer busnesau newydd mewn Pentrefi Gwasanaeth/ Lleol/ Gwledig/ Arfordirol neu yn y cefn gwlad</td><td rowspan="4">Caniatáu busnesau newydd ar raddfa fach ar safleoedd addas neu mewn adeiladau addas o fewn neu'n agos at bentrefi neu yn y cefn gwlad yn unol â Pholisi CYF 6</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="4">Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer busnesau graddfa fach newydd ar safleoedd/ mewn adeiladau o fewn neu'n agos at bentrefi neu yn y cefn gwlad am ddwy flynedd yn olynol</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

DRAFT

| |
|---|
| Cymeradwywyd naw o geisiadau cynllunio, a'r rheiny ar gyfer busnesau newydd mewn pentrefi gwasanaeth/lleol/gwledig/arfordirol a chefn gwlad agored sydd wedi cyfeirio at Bolisi CYF 6 wrth ystyried egwyddor y bwriad. Mae'r mathau o fentrau busnes sydd wedi eu cymeradwyo yn cynnwys siop fferm, clustogi dodrefn, salon tacluso cŵn, gweithdy mecanydd peiriannau cychod, bridio cŵn, addurno cacennau, cynhyrchu bleinds ffenestri a gweithdy celf gwydr.<br><br>Ymddengys fod Polisi CYF 6 yn parhau i gael ei ddefnyddio'n effeithiol i gymeradwyo ceisiadau am fusnesau newydd ar raddfa fechan ac y gall, felly, gyfrannu at sicrhau ffyniant economaidd a chyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig. |
| **Gweithred:** |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. |

**Canol Trefi a Datblygiad Manwerthu**

Mae canolfannau manwerthu o fewn y ddau awdurdod yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer defnyddiau manwerthu. Nid oes yna unrhyw geisiadau mawr o fewn yr ardaloedd manwerthu (canol trefi a phrif ardal siopa) wedi ei dderbyn yn ystod cyfnod yr ail Adroddiad Monitro Blynyddol. Nodir fod yna un datblygiad mawr wedi derbyn caniatâd tu allan i ffin ganol tref Bangor ond o fewn y ffin datblygu ar gyfer archfarchnad ym Mangor.

Er mwyn ceisio cadw cofnod o sut mae prif ardaloedd siopa sydd wedi eu hadnabod o fewn y Cynllun yn perfformio mae yna Arolwg Manwerthu blynyddol yn cael ei gynnal. Mae'r Arolwg hyn yn cofnodi defnyddiau'r unedau ynghyd a chofnodi pa ddosbarth defnydd maent ynddo. Bydd y gwaith hwn yn rhoi awgrym i ni o sut mae'r polisïau yn perfformio ac yn ein galluogi i fonitro a chymharu gweithgarwch yn flynyddol.

<table>
<tr><td colspan="5">Dangosydd: D38</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO13</td><td colspan="3">Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td>MAN 1, MAN 2 & MAN 3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D38 Swm y datblygiad manwerthu, swyddfeydd a hamdden fawr a ganiateir (m.sg) o fewn a thu allan i ffiniau sefydledig canol trefi</td><td rowspan="4">Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir o fewn ffiniau canol trefi sefydledig o'i gymharu â'r swm blynyddol a ganiateir tu allan i</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="4">Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir ar safleoedd tu allan i ganol trefi sefydledig yn fwy na'r swm blynyddol a ganiateir o fewn canol trefi sefydledig</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>−</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
</table>

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ffiniau canol trefi sefydledig ar safleoedd ar ymylon y canol a safleoedd tu allan i'r canol | | | |

**Dadansoddiad:**

Cymeradwywyd un cais cynllunio manwerthu mawr y tu allan i ganol dinas Bangor yn ystod y cyfnod monitro, ond mae'n disgyn o fewn y ffin ddatblygu. Rhoddwyd caniatâd cynllunio i gais i ddymchwel yr adeilad presennol (Cash & Carry, Dosbarth defnydd B8) a chodi archfarchnad (Dosbarth defnydd A1) ar 20/12/2019. O ganlyniad, mae lefel sbardun y dangosydd wedi ei gyrraedd. Fodd bynnag, ar sail y trafodaethau cyn cyflwyno a'r dystiolaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais, daethpwyd i'r casgliad:

- na fydd unrhyw effaith sylweddol ar fywiogrwydd a hyfywdra canol y dref;
- dangoswyd bod angen meintiol am y gofod llawr ychwanegol;
- y bydd y bwriad yn gwella'r dewis ansoddol cyffredinol o fewn yr ardal gyfagos a'r dalgylch ehangach sy'n gwasanaethu Bangor, gan wella safle'r ddinas fel canolfan siopa ranbarthol;
- fod casgliad yr asesiad dilyniadol yn dderbyniol, ac nad oedd unrhyw safleoedd amlwg oedd yn fwy ffafriol (h.y. yn bennaf o fewn canol y dref neu ar gyrion y canol).

Yn y cyd-destun yma, ystyrir fod y cais wedi cydymffurfio gyda gofynion polisi MAN 3, MAN 1 ac Adran 7 o PCC o ran dethol safle dilyniadol.

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau cynllunio mawr eraill yn ystod y cyfnod monitro.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf.

DRAFT

| **Dangosydd: D39** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO13 | Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | MAN 1, MAN 2, MAN 3 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D39 – Cynnal astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym | Archwiliad i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a | AMB 1 | – | Methiant i gynnal astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a |
| | | **AMB 2** | – | |
| | | AMB 3 | | |

<table>
<tr><td>Mangor, Llangefni a Phwllheli</td><td>Phwllheli yn cael ei gwneud erbyn diwedd 2017/2018 o fabwysiadu’r Cynllun.<br><br>Dynodi safleoedd manwerthu ym Mangor, Llangefni a Phwllheli i gyfarch casgliadau’r Astudiaeth adeg adolygu’r Cynllun.</td><td>Perfformiad AMB 1af (1af Awst 2017 i 31ain Mawrth 2019)</td><td></td><td>Phwllheli erbyn diwedd 2016/2017 o fabwysiadu’r Cynllun.<br>Methiant i ddarparu safleoedd manwerthu i gyfarch casgliadau’r Astudiaeth.</td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Ers mabwysiadu’r CDLl ar y Cyd, ymddengys fod y niferoedd o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau manwerthu (A1) o fewn Bangor Llangefni a Phwllheli yn gymharol isel ac mewn gwirionedd beth sydd yn cael ei gyflwyno ydi ceisiadau er mwyn newid defnydd unedau dosbarth defnydd A1 i ddefnyddiau amgen, er enghraifft defnydd A3 ac C3. Oherwydd y diffyg cynnydd a phwysau ar gyfer defnyddiau A1 yn y canolfannau manwerthu penodol hyn nid yw’n ymddangos fod y galw ar gyfer defnyddiau manwerthu yn cyd-fynd a chasgliadau’r Astudiaeth Manwerthu (2013) a gynhaliwyd gan Applied Planning. Yn sgil hynny, ni ystyrir yn briodol i gynnal Astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli. Rhagwelir y bydd yr Astudiaeth Manwerthu (2013) yn cael ei ddiweddaru yn ystod y broses o adolygu’r Cynllun. Bydd casgliadau’r Astudiaeth yn sail i’r polisïau manwerthu yn yr adolygiad ac yn ein galluogi i ragweld os yw’r pwysau a’r galw am ychwaneg o ofod llawr nwyddau cymhariaeth yn parhau i fodoli ym Mangor, Pwllheli a Llangefni.<br>Mae’r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun yn hwyluso’r ddarpariaeth o safleoedd manwerthu yn unol â’r galw a phriodoldeb y safle, gan hynny mae yna fecanwaith polisi yn ei le er mwyn cyfarch y galw pe byddai’n codi. Ymhellach, ystyrir yn briodol i gynnal adolygiad o’r Astudiaeth Manwerthu yn ystod y broses o adolygu’r Cynllun er mwyn canfod os yw’r casgliadau yn parhau i fod yn gyfredol ac asesu’r angen ar gyfer darpariaeth o lawr gofod manwerthu.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol.</td></tr>
</table>

DRAFT

<table>
<tr><td colspan="5">Dangosydd: D40</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO13</td><td colspan="3">Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal ei rôl neu gail ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy’n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td>Polisi perthnasol:</td><td>PS 15, MAN 1, MAN 2, MAN 3</td></tr>
<tr><td>Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D40 – Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau nad ydynt yn A1 a ganiateir mewn prif ardaloedd siopa unigol | Defnyddiau A1 yn parhau i fod y prif ddefnydd o fewn prif ardaloedd siopa unigol o'i gymharu ag astudiaeth arwynebedd llawr manwerthu 2017 | AMB 1 | ✓ | Caniatáu defnyddiau nad ydynt yn A1 mewn prif ardaloedd siopa unigol yn groes i MAN 2 |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Rhoddwyd 4 o ganiatadau cynllunio sydd o fewn y brif ardal siopa gyda phob cais yn cydymffurfio hefo meini prawf sydd yn y polisi:

- 3 chais i drosi o ddefnydd A1 i A3,
- 1 cais i drosi o A1 i ddefnydd unigryw unique use (gynt sui generis) (parlwr tatŵ).

Gan hynny ystyrir fod Polisi manwerthu'r cynllun yn cael ei weithredu'n effeithlon oherwydd nid oes caniatâd wedi ei roi i ddefnydd sydd ddim yn ddefnydd canol tref (fel y nodir yn PCC). Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.

Ystyrir bod polisïau canol tref y cynllun yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

**Yr Economi Ymwelwyr**

Mae twristiaeth yn sector deinamig ac yn newid yn barhaus. Mae'n chwarae rhan sylweddol yn economi ardal y cynllun. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i lesiant a mwynhad cymunedau lleol a thrigolion yn ardal y cynllun. Gweler pwysigrwydd twristiaeth yn y tabl[2] isod:

| 2018 | Gwynedd* | Ynys Môn |
|---|---|---|
| Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth | £1.12 biliwn (+1.6%) | £310.65 miliwn (+2.1%) |
| Cyfanswm niferoedd ymwelwyr (miliynau) | 7.28 | 1.70 |
| Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (miliynau) | 3.53 | 1.00 |
| Nifer yr ymwelwyr dydd (miliynau) | 3.75 | 0.70 |
| Nifer yr FTE [3] swyddi a gefnogir gan wariant twristiaeth | 15,601 | 3,975 |

*yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri

Canllaw Cynllunio Atodol – Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid

2 Adroddiad STEAM 2017
3 FTE = Cyfwerth ag Amser Llawn

DRAFT

Mae'r CCA drafft yma wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar ddau achlysur (Mehefin 2018 a Hydref 2018). Yn dilyn yr ymgynghoriadau a chynnydd mewn ceisiadau cynllunio am lety gwyliau hunanarlwyo, bydd y CCA yn destun ymgynghoriad cyhoeddus arall yn ymwneud â gorddarpariaeth llety hunanarlwyo yn yr ardal a'r effaith y gallant ei chael ar gymunedau lleol.

<u>Cynlluniau Rheoli Cyrchfan</u>

Mae rheoli cyrchfan yn broses o gydlynu holl agweddau cyrchfan sy'n cyfrannu at brofiad ymwelydd, gan ystyried anghenion ymwelwyr a phobl leol. Mae cynllun rheoli cyrchfan yn ddatganiad o fwriad a rennir i reoli cyrchfan dros gyfnod penodol o amser, gan fynegi rolau'r gwahanol randdeiliaid a nodi camau clir y byddant yn eu cymryd.

Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd (2013-2020) ym mis Mai 2013 ac mae'r awdurdod yn gweithio ar gynllun newydd gyda sesiynau ymgysylltu wedi dechrau ym mis Chwefror 2020.. Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn yn 2016

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D41</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO13</td><td colspan="4">Rheoli'r ardal fel cyrchfan amgen a chynaliadwy ar gyfer ymwelwyr trwy ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n cwrdd ag anghenion cyfoes modern ac yn cynnig budd trwy gydol y flwyddyn.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS 14, TWR 1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D41 – Caniatáu nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd neu welliannau i atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr presennol</td><td rowspan="4">Caniatáu atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd neu well ar safleoedd addas yn unol â Pholisi TWR 1</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer atyniadau neu gyfleusterau ymwelwyr newydd neu well am 2 flynedd yn olynol</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Rhoddwyd caniatâd i 8 ddatblygiad dros gyfnod yr AMB gyntaf. Yn ystod yr ail gyfnod rhoddwyd 6 o ganiatâdau ar gyfer atyniadau a chyfleusterau ymwelwyr, sy'n gwella'r cynnig i dwristiaid a sicrhau buddion i'r economi leol, yn cynnwys:<br>• Canolfan Ymwelwyr<br>• Cartio<br>• Celfyddydau a cherfluniau<br>• Cuddfan gwiwer<br>• Cyfleusterau hamdden fel traciau beicio mynydd a waliau dringo.<br><br>Ystyrir bod polisïau twristiaeth y cynllun yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.</td></tr>
</table>

DRAFT

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D42</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO14</td><td colspan="4">Rheoli’r ardal fel cyrchfan amgen a chynaliadwy ar gyfer ymwelwyr trwy ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy’n cwrdd ag anghenion cyfoes modern ac yn cynnig budd trwy gydol y flwyddyn.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS 14, TWR 3, TWR 5</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D42 – Caniatáu nifer o geisiadau am unedau gwersylla parhaol a thros dro amgen newydd</td><td rowspan="4">Caniatáu unedau gwersylla parhaol a thros dro amgen newydd yn unol â Pholisi TWR 3 neu Bolisi TWR 5</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer unedau gwersylla parhaol a thros dro amgen newydd am 2 flynedd</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Rhoddwyd caniatâd i 8 ddatblygiad dros gyfnod yr AMB gyntaf (5 ar gyfer datblygiadau gwersylla amgen dros dro (TWR 5) a 3 ar gyfer datblygiadau gwersylla amgen parhaol (TWR 3). Yn ystod yr ail gyfnod rhoddwyd 5 o ganiatâdau: 3 ar gyfer datblygiadau gwersylla amgen dros dro (TWR 5) a 2 ar gyfer datblygiadau gwersylla amgen parhaol (TWR 3).<br><br>Ystyrir bod polisïau TWR 3 a TWR 5 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol.</td></tr>
</table>

DRAFT

## 6.4 Cyflenwad ac Ansawdd Tai

**Canllaw Cynllunio Atodol - Tai Fforddiadwy (2019)**

Mabwysiadwyd y Canllaw Cynllunio Atodol hwn gan Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 15 Ebrill, 2019 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (13 Rhagfyr 2018 a 31 Ionawr 2019). Derbyniwyd 31 o sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ers mabwysiadu'r canllaw fe ddefnyddir fel ystyriaeth gynllunio faterol ar gyfer ceisiadau cynllunio perthnasol.

Mae'r Canllaw yn darparu gwybodaeth bellach mewn perthynas â pholisïau tai'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, yn benodol felly'r rhai sydd yn cyfeirio at ddarpariaeth o unedau fforddiadwy. Mae'r Canllaw, yn gryno, yn ymdrin â'r materion canlynol:

- Beth yw Tŷ Fforddiadwy?
- Canfod yr angen am Dai Fforddiadwy
- Hyfywdra darparu unedau fforddiadwy
- Trothwyon ar gyfer sicrhau darpariaeth fforddiadwy
- Paratoi Tai Fforddiadwy
- Cymhwysedd meddianwyr tai fforddiadwy

**Canllaw Cynllunio Atodol – Ail-adeiladu tai a Throsi Adeiladau yng Nghefn Gwlad (2019)**

Mabwysiadwyd y Canllaw Cynllunio Atodol hwn gan Bwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar 6 Medi, 2019 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (21ain o Chwefror a 4ydd o Ebrill, 2019). Derbyniwyd 9 o sylwadau yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ers mabwysiadu'r canllaw fe ddefnyddir fel ystyriaeth gynllunio faterol ar gyfer ceisiadau cynllunio perthnasol.

Diben y CCA yw darparu rhagor o wybodaeth a manylder i gynorthwyo'r ddau awdurdod cynllunio i weithredu Polisi CYF6 ('Ailddefnyddio ac addasu adeiladau gwledig neu uned breswyl ar gyfer defnydd busnes neu adeiladu unedau newydd ar gyfer busnes/diwydiant'), Polisi TWR2 ('Llety Gwyliau'), Polisi TAI 7 ('Trosi adeiladau traddodiadol yng nghefn gwlad agored i ddefnydd preswyl') a pholisi TAI 13 (Ail-adeiladu tai) o'r CDLl ar y Cyd er mwyn sicrhau dull cyson o weithredu'r polisïau hyn. Mae'r canllaw yn egluro'r ystyriaethau yn gysylltiedig â throsi adeiladau gwledig ar gyfer defnydd amgen ynghyd ac amlygu'r brif ystyriaeth yn gysylltiedig â ail-adeiladu tai mewn cefn gwlad, gan gynnwys egwyddorion yn ymwneud a maint a dyluniad.

**Lleoliad Tai**

Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), Mawrth 2020, yn nodi'r angen i gyflwyno dau ddangosydd newydd yn seiliedig ar y Taflwybr Tai o fewn y Cynllun. Mae hyn yn disodli'r angen i ymgymryd â Chydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ac i fonitro ar sail y cyflenwad tir a'i hamlygir ar sail yr astudiaeth honno (Dangosydd D43 yn flaenorol). Gweler y ddau ddangosydd newydd hyn isod, sef dangosyddion D43(A) a D43(B).

Nodir bod yn rhaid nodi'r lefelau cwblhau mewn perthynas â dangosyddion D43(A) a D43(B) yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar ffurf rhifau a chanrannau (plws/minws x %).

Ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a fabwysiadwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Fersiwn 3) nodir y dylid asesu'r unedau tai sydd wedi eu cwblhau yn erbyn lefel gofyniad cyfartalog y

DRAFT

Cynllun, unai fesul blwyddyn [Dangosydd D43(A)] neu yn gronnol [Dangosydd D43(B)]. Nodir fod taflwybr tai wedi ei baratoi fel rhan o'r CDLl ar y Cyd mabwysiedig ac felly i bwrpas y dangosyddion isod fe asesir y wybodaeth yn unol â'r wybodaeth yn y taflwybr ynghyd â'r lefel gofyniad cyfartalog. Nodai'r taflwybr nad yw'r lefel ddarpariaeth tai am fod yn gyson pob blwyddyn ac mae lefel yr unedau tai i'w cwblhau yn adlewyrchu strategaeth y Cynllun a'i effaith ar y modd y rhagwelir y bydd tai yn cael eu darparu.

Nodir bod y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn amlygu proses o ymgysylltu gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn y broses o ystyried y taflwybr tai yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Oherwydd y cyfyngiadau eleni mewn perthynas â Covid-19 ac effaith hyn ar y gwaith o asesu'r ddarpariaeth tai, ni ofynnwyd am farn y Grŵp Rhanddeiliaid Tai mewn perthynas â dangosyddion D43(A) a D43(B) yn yr AMB hwn. Noder y bydd barn y Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn ystyriaeth ganolog wrth asesu'r dangosyddion hyn yn Adroddiad Monitro Blynyddol 3.

| **Dangosydd: D43** |
|---|
| Y dangosydd yma wedi cael ei ddisodli ar sail llythyr <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/newidiadau-i-bolisiau-a-chanllawiau-ym-maes-cynllunio-ynghylch-cyflenwi-tai_0.pdf> y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ddyddiedig 26 Mawrth 2020. |

| **Dangosydd: D43(A)** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| Y lefelau cwblhau tai blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog | Caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun | AMB 1 | Ddim yn berthnasol | Ymateb i wyriad sydd un ai yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gyfradd gofyniad blynyddol cyfartalog |
| | | **AMB 2** | − | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun.<br><br>Fe nodir y dylid monitro cydrannau'r cyflenwad tai, gan gynnwys dynodiadau, a safleoedd hap bach a mawr ar wahân.<br><br>Fe noder y wybodaeth ganlynol o ran yr unedau sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ynghyd â'r wybodaeth gwblhau flynyddol a noder yn y taflwybr tai: | | | | |

DRAFT

**2019/20**

**Cymhariaeth â'r taflwybr tai**

| | Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd | Gwybodaeth o daflwybr tai y Cynllun h.y. nifer yr unedau a ddisgwylir eu cwblhau | Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd a'r wybodaeth yn y taflwybr |
|---|---|---|---|
| Safleoedd ar hap bychan (Llai na 5 uned) | 110 | 163 | -53 (-32.5%) |
| Safleoedd ar hap mawr (5 uned neu ragor – heb fod ar ddynodiad tai) | 166 | 118 | +59 (+50%) |
| Safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai | 177 | 350 | -184 (-52.6%) |
| **Cyfanswm cwblhau** | **453** | **631** | -178 (-28.2%) |

**Cymhariaeth â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog**

| Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd | Gofyniad blynyddol cyfartalog y Cynllun | Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd â'r gofyniad blynyddol cyfartalog |
|---|---|---|
| **453** | **479** | -26 (-5.4%) |

- Yng nghyfnod yr AMB hwn, noder fod 453 o unedau wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun. Y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol yw 479 o unedau (felly 26 uned yn llai neu -5.4%) ac roedd y taflwybr yn rhagweld datblygu 631 o dai, heb lwfans llithro, yn ystod 2019/20 (felly 178 uned yn llai neu -28.2%).
- O'i gymharu â'r wybodaeth o'r taflwybr (heb ystyried y lwfans llithro), noder ar gyfer 2019/20 fod 53 uned yn llai (-32.5 %) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan; 59 uned yn fwy (+50.0 %) ar safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau); gyda 184 yn llai o unedau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun (-52.6%).
- Er mwyn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, noder y wybodaeth ganlynol:

  - 2016/17: 402 o unedau wedi eu cwblhau: 6.9% yn fwy na'r ffigwr yn y taflwybr, 16% yn is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.
  - 2017/18: 462 o unedau wedi eu cwblhau: 8.5% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr, 3.5% yn is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.
  - 2018/19: 548 o unedau wedi eu cwblhau: 11.2% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr, 14.4% yn uwch na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.

- Wrth ymgymryd â'r arolwg maes i ganfod y sefyllfa o ran y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yng nghyfnod yr AMB hwn, nodir, ar sail y sefyllfa o safbwynt pandemig Covid-19,

DRAFT

nad oedd yn bosib ymweld â phob safle perthnasol a oedd a chaniatâd cynllunio ar gyfer unedau tai. [Nid oedd yn bosib ymweld â 68 safle: 24 yng Ngwynedd a 44 yn Ynys Môn – sef 8% o'r holl safleoedd perthnasol]. O bosib felly fod rhagor o unedau wedi eu cwblhau na beth yr adroddir arnynt yma.

- Ceir trafodaeth bellach ynglŷn â'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol ac ar y dynodiadau tai yn y dadansoddiad i ddangosyddion D44, D45 a D46.
- Tra bod yr hyn sydd wedi ei ddarparu yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn is na'r hyn a nodir yn y taflwybr, ni chredir fod hyn wedi bod yn sylweddol hyd at gyfnod AMB 2. Gan fod y diffyg yn yr unedau a gafodd eu cwblhau yn 2019/20 o'i gymharu â'r hyn a nodir yn y taflwybr wedi bod yn fwy sylweddol, credir bod angen cadw llygaid ar hyn wrth symud tuag at ddechrau adolygu'r Cynllun yn 2021. Byddai'n bwysig drwy hyn ystyried y gwahanol gydrannau o ddarparu tai h.y. rôl safleoedd ar hap bach a mawr ynghyd a'r dynodiadau.
- Noder fod yr unedau sydd wedi eu cwblhau'r flwyddyn hon (ac yn flynyddol ers mabwysiadu'r Cynllun) yn eithaf cyson â'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.
- Wrth gymharu nifer y tai sydd wedi eu datblygu yn erbyn y taflwybr, credir ei fod yn bwysig ystyried effaith yr oedi sydd wedi bod o ran prosiectau isadeiledd mawr ar Ynys Môn, megis datblygiad Wylfa, ac effaith posib hyn ar rhai o'r datblygiadau tai cysylltiedig.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

<table>
<tr><td colspan="5">Dangosydd: D43(B)</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15 & SO16</td><td colspan="3">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol</td><td rowspan="4">Caiff lefelau cwblhau tai cronnol eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol a nodir yn y Cynllun</td><td>AMB 1</td><td>Ddim yn berthnasol</td><td rowspan="4">Ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>−</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, caiff lefelau cwblhau tai cronnol eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol a nodir yn y Cynllun.<br><br>Fe noder y wybodaeth ganlynol o ran yr unedau sydd wedi eu cwblhau mewn gwirionedd yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronnol disgwyliedig a noder yn nhaflwybr tai'r Cynllun. Gan fod y</td></tr>
</table>

DRAFT

Cynllun yn cynnwys taflwybr sydd yn cyfleu strategaeth y Cynllun, ystyrir, o ran y dangosydd hwn, fod hyn yn nodi gwell cymhariaeth gyda'r gwir gyfradd darparu tai a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol.

**Gwybodaeth o ran y gyfradd cwblhau gronnol hyd at 2019/20 – gwybodaeth fesul cydrannau darpariaeth tai**

| | **Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd** | **Gwybodaeth o daflwybr tai'r Cynllun h.y. nifer yr unedau a ddisgwylir eu cwblhau** | **Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd a'r wybodaeth yn y taflwybr** |
|---|---|---|---|
| Safleoedd ar hap bychan (Llai na 5 uned) | 1327 | 1449 | -122 (-8.4%) |
| Safleoedd ar hap mawr (5 uned neu ragor – heb fod ar ddynodiad tai) | 1537 | 1278 | +259 (+20.2%) |
| Safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai | 700 | 1101 | -401 (-36.4%) |
| Cyfanswm unedau cronnol wedi eu cwblhau | 3564 | 3828 | -264 (-6.9%) |


**Cyfradd darparu tai blynyddol o'i gymharu â'r wybodaeth yn y taflwybr tai**


| **Blwyddyn** | **Ffigwr cwblhau a nodir yn y taflwybr** | **Gwir ffigwr cwblhau (blynyddol)** | **Cymhariaeth gyda ffigwr cwblhau blynyddol yn y taflwybr** | **Cyfanswm cwblhau cronnol** | **Cymhariaeth gyda ffigwr cwblhau cronnol yn y taflwybr** | **% cwblhau yn erbyn y ffigwr cwblhau cronnol** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2011-12** | 240 | 240 | 0 | 240 | 0 | 0% |
| **2012-13** | 634 (+394) | 394 | 0 | 634 | 0 | 0% |
| **2013-14** | 971 (+337) | 337 | 0 | 971 | 0 | 0% |
| **2014-15** | 1348 (+377) | 377 | 0 | 1348 | 0 | 0% |
| **2015-16** | 1699 (+351) | 351 | 0 | 1699 | 0 | 0% |
| **2016-17** | 2075 (+376) | 402 | +26 | 2101 | +26 | +1.3% |
| **2017-18** | 2580 (+505) | 462 | -43 | 2563 | -17 | -0.7% |
| **2018-19** | 3197 (+617) | 548 | -69 | 3111 | -86 | -2.7% |


DRAFT

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2019-20** | 3828 (+631) | 453 | -178 | 3564 | -264 | -6.9% |
| **2020-21** | 4475 (+647) | | | | | |
| **2021-22** | 5098 (+623) | | | | | |
| **2022-23** | 5663 (+565) | | | | | |
| **2023-24** | 6190 (+527) | | | | | |
| **2024-25** | 6718 (+528) | | | | | |
| **2025-26** | 7184 (+466) | | | | | |

Mae'r graffiau isod yn cymharu'r tai sydd wedi eu darparu fesul y gwahanol gydrannau yn erbyn y wybodaeth yn nhaflwybr tai'r Cynllun.






Er cymhariaeth â'r wybodaeth yn y taflwybr, nodir isod wybodaeth sydd yn asesu'r gwir ddarpariaeth tai yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol.


**Cyfradd darparu tai o'i gymharu â'r gofyniad blynyddol cyfartalog a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol**

| Blwyddyn | Gofyniad blynyddol cyfartalog (479 uned y flwyddyn) | Gwir ffigwr cwblhau (blynyddol) | Cymhariaeth yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog | Cyfanswm cwblhau cronnol | Cymhariaeth yn erbyn gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol | % cwblhau yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2011-12** | 479 | 240 | -239 | 240 | -239 | -49.9% |
| **2012-13** | 958 | 394 | -85 | 634 | -324 | -33.8% |
| **2013-14** | 1437 | 337 | -142 | 971 | -466 | -32.4% |
| **2014-15** | 1916 | 377 | -102 | 1348 | -568 | -29.6% |
| **2015-16** | 2395 | 351 | -128 | 1699 | -696 | -29.0% |
| **2016-17** | 2874 | 402 | -77 | 2101 | -773 | -26.9% |
| **2017-18** | 3353 | 462 | -17 | 2563 | -790 | -23.6% |
| **2018-19** | 3832 | 548 | +69 | 3111 | -721 | -18.8% |
| **2019-20** | 4311 | 453 | -26 | 3564 | -747 | -17.3% |
| **2020-21** | 4790 | | | | | |
| **2021-22** | 5269 | | | | | |
| **2022-23** | 5748 | | | | | |
| **2023-24** | 6227 | | | | | |
| **2024-25** | 6706 | | | | | |
| **2025-26** | 7184 | | | | | |

- Gan gynnwys gwybodaeth o gyfnod yr AMB hwn, noder bod 264 yn llai o unedau wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun o'i gymharu â'r ffigwr a noder yn y taflwybr. Noder nad yw hyn yn cymryd i ystyriaeth y lwfans llithro yn y Cynllun ond yn hytrach y gwir ffigwr ar gyfer cwrdd â ffigwr tai'r Cynllun.
- Noder fod 3564 o unedau wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun ers y dyddiad sail yn 2011 hyd at 2019/20, tra bod y taflwybr yn nodi ffigwr o 3828 uned. Mae hyn felly yn 6.9% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr.
- Noder fod y ffigwr cwblhau cronnol wedi bod yn eithaf cyson â'r wybodaeth a nodir yn y taflwybr hyd nes y flwyddyn hon. Noder fodd bynnag nad yw'r wybodaeth ar gyfer y flwyddyn hon yn cyd-fynd â'r patrwm cyffredinol â nodir yn y taflwybr ble byddai disgwyl gweld cynydd yn nifer y tai a'u cwblhawyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Wrth ddadansoddi'r wybodaeth hyn yn fanylach, o'i gymharu â'r wybodaeth gronnol o'r taflwybr (heb ystyried y lwfans llithro) noder fod 122 uned yn llai (-8.4%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan (llai na 5 uned); 259 uned yn fwy (+20.2%) ar safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau); gyda 401 yn llai o unedau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun (-36.4%).
- Mae'r graffiau uchod yn amlygu fod unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan yn y blynyddoedd diweddar wedi bod ychydig yn is na'r hyn roedd y taflwybr yn ei ragweld tra ar y llaw arall fod yr unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr (5 uned neu ragor) wedi bod yn arwyddocaol uwch na'r wybodaeth yn y taflwybr. Mae'n amlwg fod unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yn y Cynllun wedi bod yn sylweddol is na'r hyn mae'r taflwybr yn ei amlygu.
- Credir fod cymhariaeth yn erbyn y taflwybr yn fwy defnyddiol na cymharu yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog cronnol. Mae'r taflwybr yn cyd-fynd yn fwy effeithiol â strategaeth y Cynllun gan gyfleu y ffaith nad yw'n realistig disgwyl darpariaeth blynyddol cyson. Mae'r taflwybr hefyd yn cyfleu'r gwir nifer o unedau a gafodd eu cwblhau ym mlynyddoedd cynnar y Cynllun gan ddangos cynnydd yn y nifer o unedau a ragwelir i'w cwblhau fel mae'r Cynllun yn aeddfedu. Noder fod y nifer o unedau sydd yn cael ei gwblhau yn flynyddol yn llawer yn fwy cyson â'r gofyniad blynyddol cyfartalog ers cyfnod mabwysiadu'r Cynllun o'i gymharu â blynyddoedd cynnar oes y Cynllun.

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cymharu'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau fel cyfanswm ac fesul y gwahanol gydrannau cyflenwad yn erbyn gwybodaeth yn y taflwybr ac hefyd y gofyniad blynyddol cyfartalog. Ar gyfer gweddill oes y Cynllun, nodir yr unedau sydd yn ddisgwyliedig i'w cwblhau yn unol â'r taflwybr yn y Cynllun. Mae'r graff hefyd yn nodi'r gofyniad blynyddol cyfartalog fyddai ei angen yng ngweddill oes y Cynllun, sef 604 uned y flwyddyn, i gwrdd â ffigwr gofyniad tai'r Cynllun.

DRAFT



Cyfradd datblygu tai ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd
700
600
500
400
300
200
100
0
2011 /12
2012 /13
2013 /2014
2014 /15
2015 /16
2016 /17
2017 /18
2018 /19
2019 /20
2020/21
2021/22
2022/23
2023/24
2024/25
2025/26
Safleoedd ar hap bach (gwir)
Safleoedd ar hap bach (taflwybr)
Safleoedd ar hap mawr (gwir)
Safleoedd ar hap mawr (taflwybr)
Dynodiadau (gwir)
Dynodiadau (taflwybr)
Gofyniad Blynyddol Cyfartalog
Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ar gyfer gweddill oes y Cynllun

Noder y pwyntiau canlynol yn gysylltiedig â'r wybodaeth hyn:

- Wrth ymgymryd â'r arolwg maes i ganfod y sefyllfa o ran y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yng nghyfnod yr AMB hwn, nodir, ar sail y sefyllfa o safbwynt pandemig Covid-19, nad oedd yn bosib ymweld â phob safle perthnasol a oedd a chaniatâd cynllunio ar gyfer unedau tai. [Nid oedd yn bosib ymweld â 68 safle: 24 yng Ngwynedd a 44 yn Ynys Môn – sef 8% o'r holl safleoedd perthnasol]. O bosib felly fod rhagor o unedau wedi eu cwblhau na beth yr adroddir arnynt yma.
- Ceir trafodaeth bellach ynglŷn â'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn gronnol ac ar y dynodiadau tai yn y dadansoddiad i ddangosyddion D44, D45 a D46.
- Mae'n bwysig nodi mai rôl y CDLl ar y Cyd ydyw i ddarparu'r amodau i gyflawni datblygiadau perthnasol ac i gyflenwi tai yn y modd mwyaf addas. Tra bod y Cynllun yn ceisio sicrhau fod y safleoedd a'u nodir yn gallu cyflawni'r datblygiadau perthnasol, ni all y Cynllun orfodi bod y datblygiadau hyn yn digwydd yn unol â'r wybodaeth yn y taflwybr.
- Noder yn hyn o beth fod amgylchiadau, megis oedi o ran y penderfyniad i ddatblygu safle Wylfa, yn effeithio ar ddatblygu tai mewn lleoliadau megis Amlwch. Yn ei dro mae hyn yn cael effaith ar ddefnydd tiroedd cyflogaeth i gyflenwi datblygiadau isadeiledd mawr yn Ynys Môn gan effeithio felly ar y farchnad dai yn ehangach o fewn ardal y Cynllun.

Tra bod y nifer o unedau cronnol sydd wedi eu cwblhau yn is na'r hyn a nodir yn y taflwybr, ni chredir fod hyn yn ddigon sylweddol i olygu adolygiad o'r Cynllun. Yn sicr mae'n rhywbeth bydd yn rhaid ei ystyried wrth ddechrau'r gwaith o adolygu'r Cynllun yn 2021.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D44</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15 & SO16</td><td colspan="4">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D44 Nifer yr unedau tai newydd a adeiledir yn ardal y Cynllun</td><td rowspan="4">Darparu 7,184 unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun, yn ôl y dadansoddiad a nodir ym Mhapur Pwnc 20B Taflwybr Tai</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td colspan="2" rowspan="4">Y nifer o unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Targedau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:<br><br>2016/ 17 = 376<br>2017/ 18 = 505<br>2018/ 19 = 617<br>2019/ 20 = 631<br>2020/ 21 = 647<br>2021/ 22 = 623<br>2022/ 23 = 565<br>2023/ 24 = 527<br>2024/ 25 = 528<br>2025/ 26 = 466 | | | |

**Dadansoddiad:**

Gweler isod gymhariaeth o ran y nifer o unedau sydd wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun o'i gymharu â'r targed:

| Blwyddyn | Targed | Nifer gwirioneddol |
|---|---|---|
| 2016/ 17 | 376 | 402 |
| 2017/ 18 | 505 | 462 |
| 2018/ 19 | 617 | 548 |
| 2019/ 20 | 631 | 453 |

Wrth ymgymryd â'r arolwg maes ar gyfer y dangosydd hwn, nodir, ar sail y sefyllfa o safbwynt pandemig Covid-19, nad oedd yn bosib ymweld â phob safle perthnasol a oedd a chaniatâd cynllunio ar gyfer unedau tai. [Nid oedd yn bosib ymweld â 68 safle: 24 yng Ngwynedd a 44 yn Ynys Môn – sef 8% o'r holl safleoedd perthnasol].

O safbwynt y targed a'r lefel sbardun, mae'n amlwg fod y nifer o unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun wedi disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol.

Wrth ychwanegu'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ym mhedair blynedd gyntaf y tabl (h.y. 2016-20) yn y dangosydd hwn i'r ffigwr targed, fe nodir bod 1865 o unedau wedi eu cwblhau o'i gymharu â tharged o 2129 o unedau. Mae hyn gyfystyr â 87.6% o'r lefel targed (diffyg o 264 uned dros gyfnod o 4 mlynedd).

Tra bod y gwaith maes o ran y dangosydd hwn wedi dangos fod gwaith wedi dechrau neu yn parhau i gymryd lle ar nifer o ddynodiadau tai'r Cynllun a hefyd bod caniatadau cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar rai o'r dynodiadau eraill, nodir bod y ffigwr cwblhau wedi gostwng ers y llynedd (95 uned yn llai wedi eu cwblhau - heb ystyried safleoedd nad oedd yn bosib ymweld â hwy oherwydd Covid-

| |
|---|
| 19). Mae'r targed yn y dangosydd yn nodi y dylid bod peth cynnydd yn y lefel cwblhau ers cyfnod AMB 1.<br><br>Ni chredir fod y wybodaeth yn achos pryder sylweddol ar hyn o bryd ond mae'n sicr yn rhywbeth rhaid cadw llygaid arno a'i ystyried wrth ddechrau'r gwaith o Adolygu'r Cynllun yn 2021. Ni chredir fod hyn yn golygu'r angen i adolygu'r Cynllun cyn hynny.<br><br>Bydd gwaith o fonitro'r Cynllun gan gynnwys Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed.<br><br>Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith adolygu'r Taflwybr Tai, yn cysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai yn y Cynllun a safleoedd mawr eraill (5+) ble mae caniatâd cynllunio yn bodoli ar eu cyfer. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur, ble nad oes dim amlwg wedi digwydd gyda hwy. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu er mwyn cynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol. |
| **Gweithred:** |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. |

| **Dangosydd: D45** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D45 Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yng Ngwynedd fel % o'r | Safleoedd wedi eu dynodi o fewn Polisïau TAI 1 - 5 am 1,467 o unedau tai newydd yng Ngwynedd (gan gynnwys lwfans llithriad o 10%) | AMB 1<br>**AMB 2**<br>AMB 3 | –<br>–<br> | Nifer cyffredinol yr unedau tai newydd a gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd o fewn Gwynedd yn | |

<table>
<tr>
<td>ddarpariaeth dai cyffredinol</td>
<td>dros gyfnod y Cynllun, sy’n cyfateb i 19% o’r ddarpariaeth dai cyffredinol.<br><br>Targedau cwblhau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:<br><br>
<table>
<tr><th></th><th>Safleoedd a ddynodwyd</th></tr>
<tr><td>2016/ 17</td><td>99</td></tr>
<tr><td>2017/ 18</td><td>144</td></tr>
<tr><td>2018/ 19</td><td>187</td></tr>
<tr><td>2019/ 20</td><td>180</td></tr>
<tr><td>2020/ 21</td><td>166</td></tr>
<tr><td>2021/ 22</td><td>166</td></tr>
<tr><td>2022/ 23</td><td>135</td></tr>
<tr><td>2023/ 24</td><td>117</td></tr>
<tr><td>2024/ 25</td><td>102</td></tr>
<tr><td>2025/ 26</td><td>74</td></tr>
</table>
</td>
<td>AMB 4</td>
<td></td>
<td>disgyn islaw’r gofyniad am 2 flynedd yn olynol</td>
</tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae’r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai wedi disgyn islaw’r targedau a’u nodir ar gyfer cyfnod yr AMB hwn ynghyd a phob un o’r blynyddoedd eraill a’u nodir yn y wybodaeth darged:<br><br>
<table>
<tr><th></th><th>Targed</th><th>Nifer gwirioneddol</th></tr>
<tr><td>2016/ 17</td><td>99</td><td>70</td></tr>
<tr><td>2017/ 18</td><td>144</td><td>77</td></tr>
<tr><td>2018/ 19</td><td>187</td><td>123</td></tr>
<tr><td>2019/ 20</td><td>180</td><td>106</td></tr>
</table>
<br>Fe nodir fod rhai o’r dynodiadau tai eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio cyn dyddiad mabwysiadu’r Cynllun, yn aml ar sail eu bod yn ddynodiadau yn y cynllun datblygu blaenorol, ac mai</td></tr>
</table>

hyn sydd yn gyfrifol ar gyfer mwyafrif yr unedau a'u nodir yn y tabl uchod h.y. unedau sydd wedi eu cwblhau.

Mae hyn yn enwedig yn wir yng Ngwynedd gan fod y cynllun datblygu blaenorol, sef y Cynllun Datblygu Unedol, yn un a oedd a'i gyfnod yn gorgyffwrdd a chyfnod y CDLl ar y Cyd. Gwelir hyn yn y modd fod dau o'r tri dynodiad tai mwyaf, o safbwynt y nifer o dai a'i nodir yn y Cynllun (yng Ngwynedd), sef T1 Goetra Uchaf ym Mangor a T27 Lôn Cae Philllips yng Nghaernarfon, wedi eu cwblhau eleni.

Tra bod y broses o baratoi ar gyfer cais cynllunio hyd at gwblhau unedau ar safle yn gallu bod yn un gweddol hir, noder fod y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yng Ngwynedd wedi lleihau o'i gymharu â'r llynedd. Bosib fod hyn ar sail fod rhai o'r dynodiadau sydd wedi eu cario drosodd o'r Cynllun blaenorol yn cael eu cwblhau a bod oedi o ran datblygu ar safleoedd sydd wedi eu dynodi o'r newydd.

O'r 36 dynodiad yng Ngwynedd nad oedd wedi eu cwblhau cyn dyddiad sail yr AMB hwn, roedd caniatâd cynllunio ar gyfer 15 o'r safleoedd. Mae cyswllt yma gyda'r taflwybr tai o ran pryd yr ystyrir fod y dynodiadau nad sydd â chaniatâd cynllunio am gael eu datblygu.

Nodir yn fod cyfran arwyddocaol (43%) o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau yng Ngwynedd yn 2019/20 wedi eu lleoli ar ddynodiadau tai. Mae'r gwaith maes mewn perthynas â'r dangosydd hwn wedi dangos bod gwaith wedi dechrau neu fod datblygu yn parhau i ddigwydd ar nifer o'r dynodiadau, gyda chaniatâd cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar safleoedd eraill.

Tra nad yw'r nifer o unedau a'u darperir ar y safleoedd sydd wedi eu dynodi yn cwrdd â'r targed am ddwy flynedd yn olynol fel nodir o ran y lefel sbardun, ar sail y wybodaeth gefndirol, ni chredir bod hyn yn codi pryderon. Fodd bynnag bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed.

Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith adolygu'r Taflwybr Tai, yn cyd-gysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi ynghyd a safleoedd mawr eraill (5 neu yn ragor o unedau) ble mae caniatâd yn bodoli. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu i gynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D46</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15 & SO16</td><td colspan="4">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td colspan="2" rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D46 Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn fel % o'r ddarpariaeth dai cyffredinol</td><td colspan="2" rowspan="4">Safleoedd wedi eu dynodi o fewn Polisïau TAI 1 - TAI 5 am 1,655 o unedau tai newydd yn Ynys Môn (gan gynnwys lwfans llithriad o 10%) dros gyfnod y Cynllun, sy'n cyfateb i 21% o'r ddarpariaeth dai cyffredinol.<br><br>Targedau cwblhau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun :<br><br>| | Safleoedd a ddynodwyd |<br>|---|---|<br>| 2016/ 17 | 8 |<br>| 2017/ 18 | 109 |<br>| 2018/ 19 | 193 |<br>| 2019/ 20 | 215 |<br>| 2020/ 21 | 248 |<br>| 2021/ 22 | 221 |<br>| 2022/ 23 | 185 |</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Nifer cyffredinol yr unedau tai newydd a gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd o fewn Ynys Môn yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
</table>

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/ 24 | 160 | | | |
| | 2024/ 25 | 176 | | | |
| | 2025/ 26 | 134 | | | |

**Dadansoddiad:**

Mae'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai wedi disgyn islaw'r targedau a'u nodir ar gyfer cyfnod yr AMB hwn ynghyd a phob un o'r blynyddoedd eraill a'u nodir yn y wybodaeth darged:

| | Targed | Nifer gwirioneddol |
|---|---|---|
| 2016/ 17 | 8 | 4 |
| 2017/ 18 | 109 | 49 |
| 2018/ 19 | 193 | 99 |
| 2019/ 20 | 215 | 60 |

Nodir fod rhai o'r dynodiadau tai eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio cyn dyddiad mabwysiadu'r Cynllun ac mae hyn wedi bod yn gyfrifol am gyfran o'r unedau a'u cwblhawyd fel nodir yn y tabl uchod. Nodir fod cyfran helaeth o'r unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn Ynys Môn yn 2019/20 wedi eu lleoli ar un safle, sef 37 uned ar safle Tyddyn Mawr yng Nghaergybi. Mae hwn yn ganiatâd cynllunio sydd yn deillio cyn dyddiad mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd.

Yn wahanol i Wynedd, fe nodir fod cyfnod y cynllun datblygu blaenorol ar gyfer Ynys Môn wedi dirwyn ben ymhell cyn cyfnod y CDLl ar y Cyd. Nid oedd felly'r un dilyniant yn Ynys Môn o safbwynt safleoedd a oedd wedi eu dynodi yn flaenorol (ac a oedd wrthi yn cael eu datblygu) yn cael eu dynodi yn y CDLl ar y Cyd. Tra ei fod yn anorfod felly fod yna beth oedi rhwng mabwysiadu'r Cynllun a darparu'r unedau tai ar safleoedd sydd wedi eu dynodi o'r newydd, nodir bod yna unedau wedi eu cwblhau ar ddynodiadau ble rhoddwyd y caniatâd ar ôl dyddiad mabwysiadu'r Cynllun. Nodir yn ogystal fod ceisiadau cynllunio wedi eu cyflwyno ar rai dynodiadau ond nad oedd penderfyniad arnynt yng nghyfnod AMB 2.

Mae gwaith maes mewn perthynas â'r dangosydd hwn wedi dangos bod gwaith wedi dechrau neu fod datblygu yn parhau i ddigwydd ar nifer o ddynodiadau, gyda caniatadau cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar rai eraill. Ers mabwysiadu'r Cynllun, mae caniatadau sylweddol wedi eu rhoddi ar ddynodiadau yn Ynys Môn e.e. Tyn Coed, Llangefni - caniatâd ar gyfer 144 o unedau; Coleg Menai, Llangefni - caniatâd ar gyfer 153 uned.

O'r 29 dynodiad yn Ynys Môn nad oedd wedi eu cwblhau cyn dyddiad sail yr AMB hwn, roedd caniatâd cynllunio ar gyfer 12 o'r safleoedd.

Noder yn ogystal yr effaith mae oedi penderfyniad ar ddatblygu safle Wylfa wedi ei gael ar ddatblygiad dynodiadau cyfagos, megis y rhai yn Amlwch. O bosib fod hyn hefyd wedi effeithio ar

| |
|---|
| ddatblygiad safleoedd sydd wedi eu dynodi yn ehangach o fewn ardal y Cynllun o ystyried y gwaith cyflenwi a fyddai'n ddisgwyliedig ar safleoedd cyflogaeth yn sgil y datblygiad.<br><br>Tra nad yw'r nifer o unedau a'u darperir ar y safleoedd sydd wedi eu dynodi yn cwrdd â'r targed am ddwy flynedd yn olynol fel nodir o ran y lefel sbardun, ar sail y wybodaeth gefndirol, ni chredir bod hyn yn codi pryderon. Fodd bynnag bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed.<br><br>Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith adolygu'r Taflwybr Tai, yn cyd-gysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi a safleoedd mawr eraill (5 neu yn ragor o unedau) ble mae caniatâd yn bodoli. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu i gynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol. Bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed. |
| **Gweithred:** |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. |

**Tai Fforddiadwy**

| **Dangosydd: D47** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D47 Cyfanswm nifer tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun | Adeiladu 1,572 o dai fforddiadwy yn ardal y Cynllun erbyn 2026<br><br>Targedau adeiladu yn ystod gweddill oes y Cynllun (2015 – 2026): | AMB 1 | – | Y nifer cyffredinol o unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun yn 10% neu fwy yn is na'r targed cronnol yn y Targed Polisi | |
| | | **AMB 2** | – | | |
| | | AMB 3 | | | |
| | | AMB 4 | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Adeiladu 345 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2018<br><br>Adeiladu 575 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2020<br><br>Adeiladu 805 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2022<br><br>Adeiladu 1035 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2024<br><br>Adeiladu 1,266 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2026 | | | |

**Dadansoddiad:**

Yn y cyfnod 2015-20 nodir fod 522 o unedau fforddiadwy wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun sydd yn is na'r targed o 575 ai nodir ond ddim yn fwy na'r lwfans 10% a nodir yn y lefel sbardun.

Mae'r rhaniad hyn fel y ganlyn:

2015-16: 82* uned (colli 1 uned o'r hyn a nodir yn AMB 1 wedi ailasesiad)
2016-17: 68* uned (colli 12 uned o'r hyn a nodir yn AMB 1 wedi ailasesiad)
2017-18: 61 uned
2018-19: 187* uned (colli 6 uned o'r hyn a nodir yn AMB 1 wedi ailasesiad)
2019-20: 124 uned

*Noder fod gwaith wedi ei wneud ers AMB 1 i wirio'r wybodaeth o ran unedau fforddiadwy sydd wedi eu cwblhau a dyma'r rheswm dros ddiwygio'r ffigyrau a'u nodir.

Wrth ymgymryd â'r arolwg maes ar gyfer y dangosydd hwn, nodir, ar sail y sefyllfa o safbwynt pandemig Covid-19, nad oedd yn bosib ymweld â dau safle perthnasol a oedd a chaniatâd cynllunio byw a oedd yn cynnwys unedau tai fforddiadwy.

Tra nad yw'r targed wedi ei gyrraedd o safbwynt y ddarpariaeth rhwng 2015-20, ni chredir fod hyn yn achosi pryder. Nodir nad yw'r hyn sydd wedi ei ddarparu yn is na'r lwfans 10% o'r targed cronnol yn y Targed Polisi fel nodir yn y lefel sbardun.

Mae'r gwaith maes ynghlwm â'r dangosydd hwn yn nodi bod caniatâd yn bodoli ar gyfer 540 o unedau fforddiadwy yng Ngwynedd ac Ynys Môn (458 o unedau heb eu dechrau a 82 o unedau wrthi yn cael eu datblygu). Yn unol â'r wybodaeth ai nodir yn y CDLl ar y Cyd, nodir bod 516 o'r unedau hyn yn rhai lle mae modd eu datblygu yn ystod oes y Cynllun. Mae yna gyflenwad niferus o unedau fforddiadwy felly eisoes o fewn y banc tir presennol a all gyfrannu i gwrdd â'r targedau a'u nodir yn y dangosydd hwn.

Oherwydd yr angen i gyfiawnhau unedau fforddiadwy ar sail hyfywedd, mae polisïau'r CDLl ar y Cyd yn nodi trothwyon sydd yn aml yn is na'r rhai a nodwyd yn y cynlluniau datblygu blaenorol ar gyfer gofyn am ddarpariaeth fforddiadwy. Gall gymryd amser i'r polisi hwn arwain at gynnydd arwyddocaol yn nifer o unedau fforddiadwy a gaiff eu datblygu yn ardal y Cynllun. Yn hyn o beth noder fod yr unedau fforddiadwy sydd wedi eu hadeiladu yn 2018-19 a 2019-20 yn arwyddocaol uwch na'r wybodaeth ar gyfer y blynyddoedd blaenorol.

Nodir hefyd fod y ffigwr o ran nifer y tai fforddiadwy yn debygol o fod yn uwch ar gyfer yr ardal na'r hyn a nodir, gan nad yw'n cynnwys unedau tai sydd yn fforddiadwy oherwydd eu maint a'u lleoliad. Yn ogystal mae cyfraniad ariannol wedi ei dderbyn mewn rhai datblygiadau yn hytrach na darpariaeth ar y safle.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

| **Dangosydd: D48** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D48 % unedau tai fforddiadwy a ganiateir fesul ardal prisiau tai | % darpariaeth tai fforddiadwy yn unol â'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai | AMB 1 | – | % gyffredinol darpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn islaw'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai am 2 flynedd yn olynol, oni bai y'i cyfiawnheir o dan Bolisi TAI 15 |
| | | **AMB 2** | – | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Nodir fod y wybodaeth isod yn cyfeirio at safleoedd lle mae'n berthnasol i ofyn am ganran o unedau fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 15 h.y. trothwy o 2 neu ragor o unedau ac nid yw'n ystyried safleoedd mewn clystyrau neu yng nghefn gwlad. Nid yw ychwaith yn ystyried caniatâd ar safleoedd eithrio ble mae'n rhaid i'r bwriad fod ar gyfer 100% tai fforddiadwy.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a cheisiadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble y byddai angen ystyried y ddarpariaeth fforddiadwy yn unol â chynnwys Polisi TAI 15. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble roedd egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl.

Nodir fod y lefel sbardun yn cyfeirio at 2 flynedd yn olynol. Mae angen ystyried y wybodaeth ar gyfer 2019/20 ar y cyd a'r wybodaeth ar gyfer AMB 1.

<u>Tabl yn crynhoi'r wybodaeth ar gyfer yr holl Ardaloedd Prisiau Tai</u>

| Ardaloedd Pris Tai | Cyfnod | Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Gwir ddarpariaeth tai fforddiadwy (canran) | Cwrdd â'r lefel targed? |
|---|---|---|---|---|
| Arfordir Gwerth Uchel Gwynedd | 2018/19 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Rhosneigr | 2018/19 | 30% | 0% | X |
| | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Biwmares | 2018/19 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2019/20 | 30% | 100% | ✓ |
| Gogledd Orllewin Gwledig | 2018/19 | 30% | 100% | ✓ |
| | 2019/20 | 30% | 0% | X |
| Ardal y Pontydd | 2018/19 | 30% | 15% | X |
| | 2019/20 | 30% | 9% | X |
| Trearddur & Rhoscolyn | 2018/19 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2019/20 | 30% | 0% | X |
| De Orllewin | 2018/19 | 30% | 100% | ✓ |
| | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Gogledd-ddwyrain Wledig | 2018/19 | 30% | 100% | ✓ |
| | 2019/20 | 30% | 33% | ✓ |
| Aneddleoedd Arfordirol Mwy | 2018/19 | 30% | 47% | ✓ |
| | 2019/20 | 30% | 53% | ✓ |
| Canolfannau Gwledig | 2018/19 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Y Canol Gwledig | 2018/19 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2019/20 | 20% | 25% | ✓ |
| Arfordir Gogleddol a De Arfon | 2018/19 | 20% | 48% | ✓ |
| | 2019/20 | 20% | 46% | ✓ |
| Gorllewin Gwledig | 2018/19 | 20% | 100% | ✓ |
| | 2019/20 | 20% | 56% | ✓ |
| Llangefni | 2018/19 | 10% | 18% | ✓ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | 2019/20 | 10% | 83%* | ✓ |
| Llŷn | 2018/19 | 10% | 32% | ✓ |
| | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Arfordir Gorllewinol ac Arfon Wledig | 2018/19 | 10% | 59% | ✓ |
| | 2019/20 | 10% | 13% | ✓ |
| Caergybi | 2018/19 | 10% | 40% | ✓ |
| | 2019/20 | 10% | 8%* | X** |
| Amlwch a'r Cefnwlad | 2018/19 | 10% | 53%* | ✓ |
| | 2019/20 | 10% | 23% | ✓ |
| Y Mynyddoedd | 2018/19 | 10% | 85% | ✓ |
| | 2019/20 | 10% | 23% | ✓ |
| Dwyrain Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol | 2018/19 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Blaenau Ffestiniog | 2018/19 | 10% | 0% | X |
| | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |

*Cyfraniad ariannol yn ogystal

** Targed heb ei gwrdd o ran y ddarpariaeth o unedau ond cyfraniad ariannol yn golygu fod yr hyn sydd wedi ei sicrhau yn yr ardal pris tai hwn yn dderbyniol.

Ar wahân i dair Ardal Pris Tai, nodir fod y canran cyffredinol o dai fforddiadwy a'u darperir fel rhan o ganiatadau cynllunio preswyl perthnasol yng nghyfnod AMB 2 yn cyd-fynd yn effeithiol â'r targed dangosol fel amlygir ym Mholisi TAI 15 (ni ystyrir ardal Caergybi yn un o'r tair ardal hyn ar sail y cyfraniadau ariannol derbyniol sydd wedi eu sicrhau yno).

Wrth ystyried y lefel sbardun, sef bod canran gyffredinol darpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn islaw'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai am 2 flynedd yn olynol, nodir mai ond mewn un ardal pris tai mae hyn wedi digwydd (er nodir nad oes gwybodaeth berthnasol ar gael i bob ardal ar gyfer y ddwy flynedd berthnasol).

Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 30%

| Cyfnod | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 12 | 120 | 61 | 51% |
| 2019/20 | 13 | 120 | 57 | 48% |

Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 20%

| Cyfnod | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 11 | 56 | 30 | 54% |
| 2019/20 | 10 | 92 | 43 | 47% |

Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 10%

| Cyfnod | Nifer o ganiatadau | Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu | Tai fforddiadwy | Canran unedau fforddiadwy |
|---|---|---|---|---|
| 2018/19 | 19 | 260 | 83 | 32% |
| 2019/20 | 15 | 176 | 69 | 39% |

Wrth ystyried ardaloedd prisiau tai ar y cyd (ar sail yr ardaloedd ble mae'r canran o dai fforddiadwy ai geisir yn gyson), nodir bod y ddarpariaeth fforddiadwy yn cyd-fynd yn effeithiol â'r targed polisi (gan gofio hefyd bod cyfraniadau ariannol wedi eu sicrhau yn ogystal ar draul darpariaeth fforddiadwy ar safle mewn rhai achosion).

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

| Dangosydd: D49 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D49 Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd eithriedig gwledig | Cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy o'i gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 – 2016/ 17 | AMB 1 | ✓ | Dim cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy a ganiateir am 2 flynedd yn olynol | |
| | | **AMB 2** | ✓ | | |
| | | AMB 3 | | | |
| | | AMB 4 | | | |

**Dadansoddiad:**

Ceisiadau cynllunio a gafodd ganiatâd cynllunio ar safleoedd eithrio gwledig yn ystod cyfnod yr AMB hwn:

**Ardal y Cynllun: 4 safle (45 uned)**

Tir ger Tan y Celyn, Llanwnda: 10 uned*
Ponc y Rhedyn, Benllech: 27 uned
Marquis Inn, Rhosybol: 7 uned*
Bont, Ffordd Amlwch, Benllech: 1 uned

*Rhai safleoedd wedi eu lleoli tu mewn ac oddi allan i'r ffin datblygu. Ble fod y rhan tu allan i'r ffin yn cael ei ystyried yn erbyn Polisi TAI 16 (Safleoedd Eithrio) yna caiff y safleoedd/unedau hyn eu hystyried yn y ffigwr hwn.

Gwybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 1 (i gyd yn 2018/19):

Ardal y Cynllun: 6 safle (24 uned)

Tra bod lleihad yn y nifer o safleoedd eithrio sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn 2019/20 o'i gymharu â 2018/19, nodir bod cynnydd o ran nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu. Nodir fod y ffigwr o ran nifer y safleoedd eithrio a'r unedau a'u caniateir yn uwch na'r blynyddoedd blaenorol: 2015/16 (3 safle: 3 uned); 2016/17 (2 safle: 3 uned). Mae'r targed yn nodi y dylid cymharu'r canlyniadau gyda'r wybodaeth sail ar gyfer y blynyddoedd hyn.

| | |
|---|---|
| Nid oes lleihad yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy a ganiateir am 2 flynedd yn olynol ac felly nid oes angen unrhyw weithrediad o safbwynt y dangosydd hwn. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

| **Dangosydd: D50** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D50 Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol ar draws yr ardaloedd prisiau tai a nodwyd ym Mholisi TAI 15 | Cyflenwi'r lefel uchaf bosib o dai fforddiadwy a ystyrir yn hyfyw yn unol â Pholisi TAI 15 | AMB 1 | ✓ | Cynnydd neu ostyngiad o 5% mewn gwerth gweddilliol mewn unrhyw ardal prisiau tai mewn unrhyw flwyddyn unigol | |
| | | **AMB 2** | ○ | | |
| | | AMB 3 | | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |

Mae gwaith yn dal i gael ei wneud mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Mae ffigyrau cenedlaethol yn dangos cynnydd ym mhrisiau tai cyfartalog ac yng nghostau adeiladu o fewn ardal y cynllun. Mae'r cynnydd mewn perthynas â chostau adeiladu yn uwch na'r cynnydd ar gyfer prisiau tai cyfartalog.

'Rydym yn cysylltu â'n harbenigwr allanol ar faterion hyfywedd i ganfod a oes digon o wybodaeth ar gael i ganfod a yw pris y tai ac adeiladu o'r newydd yn y 21 ardal prisiau tai yn sylweddol uwch na phris cyfartalog tai. Yn ogystal, mae gwaith yn cael ei wneud i ganfod a oes amrywiolyn rhanbarthol i'r costau adeiladu sy'n berthnasol i ardal y Cynllun.

Bydd hyn yn caniatáu trosolwg o hyfywedd er mwyn canfod a ddylid cynnal y sefyllfa bolisi. Y llynedd, daeth AMR i'r casgliad, er bod yr hyfywedd wedi dod yn fwy heriol ers 2016, yn bennaf am fod costau wedi codi'n gynt na gwerthoedd, y dylid cynnal y sefyllfa bolisi presennol.

**Gweithred:**

[I'w gwblhau unwaith y bydd y gwaith uchod wedi'i gwblhau]

| **Dangosydd: D51** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. |
| | SO16 | Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:<br>**Prif ganlyniadau**:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D51 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tai fforddiadwy. | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tai fforddiadwy o fewn 6 mis o ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun. | AMB 1 | | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 6 mis o ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun. |
| | | **AMB 2** | | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Cafodd y CCA diwygiedig ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar yr 15 Ebrill, 2019 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus (Rhagfyr 2018 ac Ionawr, 2019).

Gan fod y Canllaw Cynllunio wedi ei fabwysiadu ym mis Gorffennaf 2019, nid yw o fewn y lefel targed o 6 mis o fabwysiadu'r Cynllun. Bu oedi cyn cyhoeddi'r CCA Drafft er mwyn caniatáu mewnbwn i'r broses gan Swyddogion Tai ac Eiddo'r Cynghorau.

**Gweithred:**

Targed wedi ei gyflawni. Dim angen parhau i'w fonitro.

<table>
<tr><th colspan="6">Dangosydd: D52</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15 & SO16</td><td colspan="4">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2"></td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D52 Nifer o unedau tai marchnad leol a gaiff eu hadeiladu mewn aneddleoedd a nodir ym Mholisi TAI 5</td><td rowspan="4">Cyflenwi'r lefel uchaf bosibl o dai marchnad leol mewn aneddleoedd a restrir ym Mholisi TAI 5.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td colspan="2" rowspan="4">Llai na 10 o unedau tai marchnad leol yn cael eu hadeiladu mewn aneddleoedd a nodir ym Mholisi TAI 5 mewn unrhyw flwyddyn unigol</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

**2019/20: 1 uned marchnad lleol wedi ei gwblhau**

Yng nghyfnod yr AMB hwn, mae caniatâd wedi ei roddi ar gyfer 2 uned marchnad leol. Nodir bod caniatâd byw yn bodoli am 1 uned o'r fath ers cyfnod AMB 1. Nodir fod amod tai marchnad leol ynghlwm â 7 uned arall (ar ddau safle) sydd wedi eu caniatáu yn 2019/20 ond deallir mai unedau fforddiadwy (fel caniateir o dan Bolisi TAI 5) fydd yn cael eu darparu ar y safleoedd hyn.

Tra na fyddai'r gyfradd hon o ganiatadau yn arwain at gwrdd â'r lefel targed, nodir bod Polisi TAI 5 mewn perthynas â Thai Marchnad Leol wedi cyflwyno egwyddor polisi hollol newydd nad oedd yn amlwg mewn cynlluniau datblygu blaenorol. Ar sail hyn credir bod oediad amser felly rhwng mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, derbyn egwyddor polisi sydd yn hollol o'r newydd yn yr aneddleoedd perthnasol ac yna adeiladu tai o'r fath. Nodir fod yr uned marchnad leol cyntaf a gafodd ei ganiatáu mewn perthynas â Pholisi TAI 5 bellach wedi ei adeiladu. Wrth i'r Cynllun aeddfedu gobeithir y bydd cynnydd mewn unedau o'r fath sydd yn cael eu hadeiladu.

Gellir asesu'r sefyllfa o ran y ddarpariaeth o unedau marchnad leol mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol a ni chredir, o safbwynt y wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 2, fod angen unrhyw weithrediad o safbwynt y dangosydd hwn.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

| **Dangosydd: D53** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D53 Ceisiadau cynllunio ac apeliadau i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 neu amod ar gyfer tai marchnad leol | Cadw cytundebau 106 ac amodau i hyrwyddo adeiladu tai marchnad leol yn unol â Pholisi TAI 5 | AMB 1 | ✓ | Cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 neu amodau ar gyfer tai marchnad leol yn cael eu cymeradwyo neu eu caniatáu (fel bo'n berthnasol) mewn unrhyw flwyddyn | |
| | | **AMB 2** | ✓ | | |
| | | AMB 3 | | | |
| | | AMB 4 | | | |

**Dadansoddiad:**

Nid oes yr un cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau adran 106 neu amodau ar gyfer tai marchnad leol wedi cael eu cymeradwyo neu eu caniatáu (yng nghyfnod yr AMB hwn nag ychwaith ers mabwysiadu'r Cynllun).

Yn unol â Deddf Cynllunio 1990 gellir apelio ymrwymiad cynllunio i'r Arolygaeth Cynllunio ar ôl 5 mlynedd ar sail nad oes rheswm cynllunio perthnasol ar ei gyfer. Cyn hynny fe ellir ail-negodi ymrwymiadau cynllunio os yw'r awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr yn cytuno i hynny. Fodd bynnag o gofio bod unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer tŷ marchnad leol yn seiliedig ar bolisi yn y CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd yn 2017, mae'n annhebygol iawn y byddai Awdurdod Cynllunio Lleol yn barod i ddiwygio neu gael gwared ag amod/chytundeb 106 sy'n ymwneud a chyfyngu eiddo i fod yn dŷ marchnad leol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

| **Dangosydd: D54** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro. |

**Asesiad Marchnad Tai Lleol**

Yn y gwrandawiadau i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd fe wnaeth y Cyngor gyflwyno Asesiad Marchnad Tai Lleol (AMTLl) Drafft 2013 ar gyfer Gwynedd. Roedd yna gydnabyddiaeth bod angen ei adolygu a'i ddiweddaru. Fe wnaeth y Cyngor Gwynedd ymrwymo i adolygu'r AMTLl trwy dderbyn bod hyn yn angenrheidiol i ddarparu digon o fanylion am y math o dai a'r ddeiliadaeth dai sy'n ofynnol i lywio penderfyniadau rheoli datblygu.

Oherwydd prinder Adnoddau bu oedi yn yr amserlen i baratoi'r AMTLl i Wynedd. Cafodd copi drafft terfynol ei greu ac wedi cael cyfnod o ymgynghoriad rhwng Chwefror a Mawrth 2019 fe wnaeth y Cyngor ei gyhoeddi yn Mai 2019.

Prif neges yr asesiad yw bod angen cyflenwad ychwanegol o dai fforddiadwy i gymunedau Gwynedd nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae canfyddiadau allweddol eraill yn dangos y bydd galw cynyddol am dai fforddiadwy ar draws Gwynedd yn y sectorau perchenogaeth breifat, rent preifat a rhent cymdeithasol, na all y cyflenwad presennol eu bodloni.

Mae'r AMTLl hefyd yn canfod:

- Mae tai gwerth canolrif a chwartel isaf yn anfforddiadwy i aelwydydd gydag incwm canolrif;
- Mae'r sector rhentu preifat wedi tyfu'n sylweddol yng Ngwynedd dros y degawd diwethaf;
- Mae lefelau rhent preifat yn anfforddiadwy i lawer o gartrefi incwm isel;
- Mae'r galw am dai cymdeithasol yn parhau'n uchel ar draws yr ardal;
- Nid yw'r galw am dai cymdeithasol gydag 1 ystafell wely yn cael ei fodloni gan y stoc Bresennol;
- Rhagwelir y bydd nifer aelwydydd yn cynyddu, a'u maint i ostwng dros y degawd nesaf;
- Gall eiddo gwag hirdymor a safleoedd datblygu wedi eu rhwystro gallu darparu cyflenwad ychwanegol ar gyfer y farchnad;
- Yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth, bydd 303 o aelwydydd newydd yn cael eu sefydlu bob blwyddyn yng Ngwynedd dros y 5 mlynedd nesaf;
- Mae angen 707 unedau tai cymdeithasol ychwanegol bob blwyddyn am 5 mlynedd i gwrdd â'r galw presennol a'r galw a ragwelir;
- Mae angen 104 tai canolraddol ychwanegol bob blwyddyn am 5 mlynedd i gwrdd â'r galw presennol a'r galw a ragwelir.

| **Dangosydd: D55** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. |
| | SO16 | Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth: |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Prif ganlyniadau**:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D55 Paratoi a chymeradwyo Astudiaeth Marchnad Dai Lleol (LHMA) i Wynedd | Paratoi a chymeradwyo Astudiaeth Marchnad Dai Lleol i Wynedd erbyn Ebrill 2017. | AMB 1 | – | Methiant i baratoi a chymeradwyo Astudiaeth Marchnad Dai Lleol i Wynedd erbyn Ebrill 2017. |
| | | **AMB 2** | – | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Cafodd yr Astudiaeth Marchnad Tai Lleol ei gyhoeddi gan Wasanaeth Tai Cyngor Gwynedd yn Mai 2019.<br><br>Mae copi ar gael ar safle we'r Cyngor ac mae yn cael ei ddefnyddio fel un sail ar gyfer asesu addasrwydd y cymysgedd priodol o dai sydd yn cael ei gynnig efo datblygiadau i sicrhau eu bod yn gyd fynd efo Polisi TAI 8 o'r Cynllun. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Targed wedi ei gyflawni. Dim angen parhau i'w fonitro. | | | | |

**Llety ar Gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

Cafodd Asesiad Lletya Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd (2016) ei gymeradwyo gan Gabinet Gwynedd ar y 19 Ionawr 2016 a Phwyllgor Gwaith Ynys Môn ar y 8 Chwefror 2016.

Mae'r ddau Gyngor wedi bod yn gweithio i gyflawni'r Argymhellion o fewn Asesiad 2016 sef darparu estyniad i safle presennol Llandygai Bangor a safle parhaol newydd i anghenion parhaol yn Penhesgyrn, Penmynydd a pharatoi mannau dros dro yng Nghaernarfon, Canol Ynys Môn a Caergybi.

Ar gyfer lleiniau preswyl mae Cyngor Gwynedd wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer estyniad a gwella'r lleiniau presennol i safle Sipsiwn Llandygai ac mae'r caniatâd yma bellach wedi cael ei weithredu efo 5 llain ychwanegol wedi ei ddatblygu ar y safle.  Mae Cyngor Môn wedi ymgymryd ag asesiadau i gadarnhau addasrwydd safle Penhesgyn.  Fodd bynnag oherwydd newid yn y galw o'r safle

diawdurdodedig ar angen i roi blaenoriaeth i ddatblygu safle dros dro yng Nghanol yr Ynys ni oes cais cynllunio wedi cael ei gyflwyno hyd yma ar gyfer y safle yma.

Ar gyfer man aros dros dro mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ddefnyddio rhan bellaf o faes parcio Shell yng Nghaernarfon pan fo yna alw, efo cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i'r sipsiwn / teithwyr. Ar ôl proses o ymgynghoriad cafodd safle ger Star ei ddewis fel safle addas fel angen dros dro i ganol yr Ynys. Yn ystod 2019/20 roedd prif ffocws y gweithgarwch yn canolbwyntio ar gyflawni amodau sy'n gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio i'r safle yma. Yn ystod Chwarter 4 dechreuwyd ar y gwaith rhagarweiniol ar y safle mewn cysylltiad ag ymchwiliadau safle ac archeolegol

Ar gyfer safle yng Nghaergybi mae gwaith pellach wedi'i wneud i edrych ar opsiynau posibl yn ardal Caergybi ac mae hyn wedi cynnwys trafod darpariaeth bosibl gyda Phorthladd Caergybi. Nid oes unrhyw safle wedi'i adnabod hyd yma.

<table>
<tr><th colspan="6">Dangosydd: D56</th></tr>
<tr><td rowspan="2">Amcan:</td><td>SO15</td><td colspan="4">Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.</td></tr>
<tr><td>SO16</td><td colspan="4">Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:<br>Prif ganlyniadau:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td colspan="2" rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D56 Nifer o leiniau Teithwyr ar gyfer llety preswyl a ddarperir ym Mhenhesgyn, Ynys Môn.</td><td colspan="2" rowspan="4">Darparu 4 llain ym Mhenhesgyn, Ynys Môn erbyn diwedd 2017/ 2018.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Methiant i ddarparu 4 llain ym Mhenhesgyn, Ynys Môn erbyn diwedd 2017/ 2018</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

Mae'r newid mewn amgylchiadau o ran nifer y teithwyr ar y safle a oddefir gyda dim ond un o'r 4 gwreiddiol a nodwyd yn yr asesiad 2016 yn aros yr un peth.

Mae'r Cyngor yn parhau i roi cymorth i'r unigolyn hwn ac mae'n ymchwilio i atebion amgen i ddiwallu ei anghenion llety yn ogystal â chytuno ar amserlen benodol i fynd i'r afael â'r angen hwn.

Fe wnaeth y Cyngor glirio llawer o weddillion hen garafanau a sbwriel oddi ar y safle yn ystod y flwyddyn sydd yn golygu fod y lon yn glir o gerbydau rŵan.

Mae bwriad i ymgymryd â gwaith Asesiad Anghenion Sipsiwn a Theithwyr dros y flwyddyn i ddod i'w gymeradwyo'r flwyddyn nesaf.

Oherwydd newid mewn angen o safle a oddefir heb awdurdod, ni wnaed gwaith pellach ar ddatblygu'r safle.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn i barhau i geisio datrysiad i'r anghenion llety o'r safle diawdurdod ar lôn Pentraeth. | |

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D57</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Amcan:</td><td>SO15</td><td colspan="4">Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.</td></tr>
<tr><td>SO16</td><td colspan="4">Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth:<br>Prif ganlyniadau:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â’r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td>D57 Nifer o leiniau Sipsiwn ychwanegol</td><td colspan="2">Darparu 5 llain ychwanegol ar</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td>Methiant i ddarparu 5 llain ychwanegol ar</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| a ddarperir ar estyniad i'r safle Sipsiwn presennol, gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor | estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018<br><br>Darparu cyfanswm cronnol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026 | **AMB 2**<br>AMB 3<br>AMB 4 | – | estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018<br><br>Methiant i ddarparu cyfanswm cronnol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026 |

**Dadansoddiad:**

Cafodd ail gymal gwaith ar y safle ei gwblhau mis Tachwedd 2019. Golygai hyn fod 5 llain ychwanegol wedi ei ddarparu efo cyfanswm o 12 llain barhaol bellach ar gael i Sipsiwn.

Y Cyngor wedi bod mewn cyswllt efo'r Llywodraeth pob cam o'r ffordd, ac maent wedi bod yn ymweld â'r safle yn rheolaidd i adolygu cynnydd ac i drafod materion efo trigolion a'r Cyngor.

Cafodd pob llain ei lenwi ym mis Chwefror 2020, ond oherwydd trosiant a marwolaeth, mae yno bellach 1 llain wag, ac un ar fin cael ei wagio. Rydym yn dilyn prosesau arferol i lenwi'r lleiniau hyn, ond mae oedi amlwg o ganlyniad i Covid-19.

Mae bwriad i ymgymryd â gwaith Asesiad Anghenion Sipsiwn a Theithwyr dros y flwyddyn i ddod i'w gymeradwyo'r flwyddyn nesaf.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

| **Dangosydd: D58** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. |

<table>
<tr><td></td><td>SO16</td><td colspan="3">Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth:<br>Prif ganlyniadau:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â’r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D58 Yr angen am lain ychwanegol wedi’i nodi mewn Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GNCTA)</td><td rowspan="4">Darparu nifer a math o leiniau i ymdrin â’r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026</td><td>AMB 1</td><td></td><td rowspan="4">Methiant i ddarparu nifer a math o lain ychwanegol i ymdrin â’r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

Fe wnaeth  Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 adnabod angen ar gyfer mannau aros dros dro sef un safle yn Ardal Caernarfon yng Ngwynedd a 2 safle ar Ynys Môn un yng nghanol Ynys Môn ar llall yn ardal Caergybi.  Ar gyfer y safleoedd ym Môn dylai bod lle yn y safle yng nghanol yr Ynys ar gyfer 15 carafán a lle yng Nghaergybi ar gyfer 12 carafán.

<u>Gwynedd</u>

Ar gyfer cyfarch yr angen am safle dros dro o fewn ardal Caernarfon mae’r Cyngor wedi cytuno i ddefnyddio rhan bellaf o faes parcio Shell yng Nghaernarfon pan fo yna alw, efo cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i’r sipsiwn / teithwyr.

<u>Ynys Môn – Canol yr Ynys</u>

Yn ystod 2019/20 roedd prif ffocws y gweithgarwch yn canolbwyntio ar gyflawni amodau sy'n gysylltiedig â'r caniatâd cynllunio. Yn ystod Chwarter 4 dechreuwyd ar y gwaith rhagarweiniol ar y safle mewn cysylltiad ag ymchwiliadau safle ac archeolegol.

Disgwylir i'r gwaith uchod gael ei gwblhau yn ystod Chwarter 1 2020/21 a fydd yn llywio ac yn caniatáu cwblhau dogfennau tendro. Rydym yn rhagweld y bydd tendrau'n cael eu gwahodd yn ystod Chwarter 2 2020/21.

Ynys Môn – Caergybi

Mae gwaith pellach wedi'i wneud i edrych ar opsiynau posibl yn ardal Caergybi ac mae hyn wedi cynnwys trafod darpariaeth bosibl gyda Phorthladd Caergybi. Nid oes unrhyw safle wedi'i adnabod hyd yma.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D59</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Amcan:</td><td>SO15</td><td colspan="4">Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.</td></tr>
<tr><td>SO16</td><td colspan="4">Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:<br>Prif ganlyniadau:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D59 Nifer o wersylloedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod yr adroddir arnynt yn flynyddol a hyd yr arhosiad</td><td rowspan="4">Monitro newidiadau yn yr angen am leiniau a chymharu â chyflenwad o leiniau yn y cyfnod rhwng yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr</td><td>AMB 1</td><td></td><td colspan="2" rowspan="4">Nifer o wersylloedd a hyd yr arhosiad yn awgrymu angen am leiniau ychwanegol</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Yng Ngwynedd, mae'r swyddog sy'n gyfrifol am gasglu gwybodaeth mewn perthynas â gwersylloedd diawdurdod wedi ymddeol heb i'r wybodaeth berthnasol fod ar gael.</td></tr>
</table>

Mae'r tabl isod yn darparu'r wybodaeth gyfyngedig sydd ar gael ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2019 tan ddiwedd mis Mai 2019, sef y cyfan sydd ar gael ar hyn o bryd.

Adroddwyd ar 2 safle anawdurdodedig gwahanol. Roedd nifer y carafanau yn 12 ar un safle ond nid yw'r nifer ar y safle arall yn hysbys. Roedd hyd yr arhosiad am 8 noson ar un safle ond nid yw hyd yr arhosiad ar y safle arall yn hysbys.

| Safle | Carafanau | Dyddiad Cyrraedd | Dyddiad Gadael | Nifer o Ddyddiau |
|---|---|---|---|---|
| Stad Ddiwydiannol Bryn Cegin, Bangor | 12 | 25.05.19 | Dim yn hysbys | Dim yn hysbys |
| Hen Safle Ferodo, Caernarfon | Dim yn hysbys | 13.05.19 | 21.05.19 | 9 |

O ran lleoliad, mae hen safle Ferodo yng nghefn gwlad agored rhwng Caernarfon a'r Felinheli tra bo'r llall yn ystâd ddiwydiannol wag ar gyrion Bangor.  Oherwydd y wybodaeth gyfyngedig uchod am y 2 safle hyn, nid yw'n bosibl cadarnhau ai dyma'r 'run grŵp o sipsiwn yn yr ardal gan fod y ddau ddyddiad yng nghanol mis Mai.

Ar Ynys Môn, adroddwyd ar bum safle anawdurdodedig. Roedd nifer y carafanau yn amrywio o ddau i bump ac roedd hyd yr arhosiad yn amrywio o un noson i uchafswm o 6.

| Safle | Carafanau | Dyddiad Cyrraedd | Dyddiad Gadael | Nifer o Ddyddiau |
|---|---|---|---|---|
| Canolfan Hamdden Caergybi | 2 | 01.03.20 | 02.03.20 | 2 |
| Stryd Hedsor, Caergybi | 5 | 02.07.19 | 03.07.19 | 2 |
| Maes Parcio Stermat, Y Fali | 5 | 01.07.19 | 02.07.19 | 2 |
| Cyfagos a Gorsaf Gwylwyr y Glannau, Caergybi | 5 | 29.06.19 | 01.07.19 | 3 |
| Parc Busnes Bryn Cefni, Llangefni | 3 | 19.05.19 | 25.05.19 | 7 |

O ran lleoliad, roedd y mwyaf yng Nghaergybi (tri safle) gydag un yr un yn Llangefni a'r Fali.

Roedd y rhai a nodwyd yng Nghaergybi i gyd wedi aros un noson, sy'n awgrymu eu bod yn aros am y fferi i Iwerddon.

O adolygu'r sefyllfa, nid oes dim yn peri pryder ar hyn o bryd.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o AMB dilynol i weld os oes patrymau tebyg yn digwydd i'r dyfodol.

## 6.5 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

**Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol**

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D60</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO17</td><td colspan="4">Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td colspan="2">PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D60 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn lleol</td><td rowspan="4">Cynnal neu wella gwerth bioamrywiaeth a geoamrywiaeth safleoedd sy'n bwysig yn lleol yn unol â Pholisi AMG 5 a Pholisi AMG 6</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Caniatáu un cais yn groes i Bolisi AMG 5 neu Bolisi AMG 6.</td></tr>
<tr><td><u>AMB 2</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Yn dilyn archwilio'r ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt, nid yw'n ymddangos fod unrhyw ganiatâd cynllunio wedi ei gymeradwyo yn groes i bolisïau AMG 5 ac AMG 6 yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Ymddengys fod y polisïau yn cael eu gweithredu yn effeithiol.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="4">Dangosydd: D61</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO17</td><td colspan="2">Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol.</td></tr>
<tr><td>Dangosydd:</td><td>Targed:</td><td>Polisi perthnasol</td><td>PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4</td></tr>
</table>

| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
|---|---|---|---|---|
| D61 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol neu ar safleoedd sy'n effeithio ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth y safleoedd a ddynodwyd | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio sy'n niweidiol i werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 19 |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Cyfanswm y ceisiadau cynllunio cymeradwy oedd yn llwyr/rhannol o fewn safleoedd o werth dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol i fioamrywiaeth neu geoamrywiaeth (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig, Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Genedlaethol) oedd un (sef cais llawn i ddymchwel adeilad allanol a lloches i anifeiliaid presennol, ynghyd ag adeiladu adeilad allanol a sied amaethyddol yn eu lle yng Ngoferydd, Caergybi). Fodd bynnag, ni leisiodd Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw bryderon ynghylch y bwriad hwn, gan iddo ddod i'r casgliad na fyddai'n cael effaith andwyol ar unrhyw safle gwarchodedig.

Ni ystyriwyd fod unrhyw ganiatâd cynllunio cymeradwy yn amharu ar werth bioamrywiaethol neu geoamrywiaethol rhyngwladol/cenedlaethol y dynodiadau hyn. O ganlyniad, ystyrir y bu i bob caniatâd gydymffurfio â pholisi PS 19, a bod y polisi yn parhau i gael ei weithredu yn effeithiol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf.

| **Dangosydd: D62** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio | AMB 1 | ✓ | One planning application permitted contrary to |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D62 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer datblygiad mawr mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). | ar gyfer datblygiad mawr sy'n niweidiol i harddwch naturiol AHNE. | **AMB 2** | ✓ | Policy PS 19 and Policy AMG 1 |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Cymeradwywyd un caniatâd cynllunio (FPL/2018/41) i newid defnydd tir o safle i garafanau teithio ac ardal wersylla i osod 31 o garafanau sefydlog uned sengl a 4 carafán sefydlog uned ddwbl ym Mharc Gwyliau St David's, Traeth Coch, ar 'apêl' (APP/L6805/A/19/3226770). Ystyriai'r Arolygydd y byddai'r bwriadau yn atgyfnerthu cymeriad yr AHNE.<br><br>Er gwaethaf yr un cais cynllunio a gymeradwywyd trwy apêl, daethpwyd i'r casgliad fod polisïau PS 19 ac AMG 1 y CDLl ar y cyd yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. | | | | |

**Diogelu a Gwella Asedau Treftadaeth**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd: D63** | | | | |
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D63 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir mewn Ardaloedd cadwraeth a Safleoedd | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio sy'n niweidiol i gymeriad ac edrychiad | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 20 neu Bolisi AT 1 |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Treftadaeth y Byd sy'n effeithio ar eu gwerth hanesyddol neu ddiwylliannol | yr Ardal Gadwraeth neu Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Ni chafodd caniatâd cynllunio ei gymeradwyo ar gyfer unrhyw geisiadau oedd yn groes i bolisïau PS 20 ac AT 1 yn ystod y cyfnod monitro. Cafodd un cais cynllunio ei gymeradwyo o fewn y Safle Treftadaeth y Byd, a chyfanswm o 94 cais cynllunio (llawn/amlinellol) o fewn Ardal Gadwraeth y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladu gwesty newydd, tai newydd, rhandai, newid defnydd, trawsnewidiadau, addasiadau ac estyniadau, newid blaen siopau ac arwyddion manwerthu newydd.<br><br>Ystyrir fod y caniatadau hyn yn cydymffurfio â pholisïau PS 20 ac AT 1 a bod y polisïau hyn yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd: D64** | | | | |
| **Amcan:** | SO17 | Protect, enhance and manage the natural and heritage assets of the Plan area, including its natural resources, wildlife habitats, and its landscape character and historic environment | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D64 – Prepare and adopt a Supplementary Planning Guidance relating to Heritage Assets | Prepare and adopt a Supplementary Planning Guidance in relation to Heritage Assets within 18 months of the Plan's adoption | AMB 1 | | Not adopting a Supplementary Planning Guidance within 18 months of the Plan's adoption |
| | | **AMB 2** | | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

| | |
|---|---|
| Mae'r gwaith cychwynnol yn ymwneud â pharatoi'r CCA yn digwydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, yn sgil yr angen i flaenoriaethu CCA eraill, nid yw'r CCA hwn, hyd yma, wedi bod yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus.<br><br>Dim cynnydd ers yr AMB cyntaf. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. | |

**Rheoli Gwastraff**

| **Dangosydd: D65** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO18 | Annog rheoli gwastraff ar sail yr hierarchaeth o leihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu gwastraff yn ddiogel. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | GWA 1 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel Sbardun:** | |
| D65 – Swm o dir a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff yn ardal y Cynllun | Cynnal digon o dir a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer gwastraff ardal y Cynllun (i'w gadarnhau ar lefel rhanbarthol yn unol â threfniadau monitro gwastraff NCT21) | AMB 1 | ✓ | Sbardunau i'w sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â NCT21 | |
| | | **AMB 2** | ✓ | | |
| | | AMB 3 | | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Analysis:** | | | | | |
| Yn seiliedig ar Adroddiad Monitro Gwastraff Rhanbarth Gogledd Cymru, Ebrill 2017; nid oes angen darparu capasiti tirlenwi gwastraff amheryglus (non-hazardous) ac anadweithiol ychwanegol o fewn Rhanbarth Gogledd Cymru a dylid ystyried yn ofalus y posibilrwydd o orddarpariaeth wrth ddelio â chynigion i ddatblygu capasiti triniaeth gwastraff gweddilliol pellach yn y Rhanbarth.<br><br>Yn unol â gofynion NCT21 mae'n rhaid ymgymryd ag Adroddiadau Monitro Gwastraff er mwyn adnabod os yw capasiti tirlenwi a thriniaeth gwastraff rhanbarthol digonol yn cael ei gynnal; os yw'r ddarpariaeth ofodol yn ddigonol i gwrdd â'r gofyn hyn; a phe bod angen awdurdodau cynllunio lleol ymgymryd â chamau angenrheidiol i gwrdd ag unrhyw fater na ragwelwyd / anrhagweledig ac i alluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau Cynllunio lleol i roddi trosolwg strategol o dueddiadau yn y sector wastraff i wybyddu CDLl a rhoddi arweiniad wrth ddelio â cheisiadau cynllunio gwastraff. | | | | | |

| **Action:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | |

| **Dangosydd: D66** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO18 | Annog rheoli gwastraff ar sail yr hierarchaeth o leihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu gwastraff yn ddiogel. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | GWA 1 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D66 – Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a gynhwyswyd ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1 | Cynnydd yn y nifer o gyfleusterau rheoli gwastraff a ddarparwyd ar safleoedd cyflogaeth a gynhwyswyd ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1, o'i gymharu â'r nifer a ddarparwyd ar safleoedd cyflogaeth yn 2016/2017 | AMB 1 | | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a gynhwyswyd ym Mholisi GWA 1 a CYF 1. | |
| | | **<u>AMB 2</u>** | ✓ | | |
| | | AMB 3 | | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Analysis:** | | | | | |
| Rhoddwyd 4 caniatâd cynllunio ar gyfer gweithgareddau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth y cyfnod AMB diwethaf ac 1 caniatâd ar gyfer datblygiad rheoli gwastraff sy'n cynnwys gorsaf drosglwyddo a gwaith ailgylchu yn ystod y cyfnod AMB hwn.<br><br>Ystyrir bod Polisïau CYF 1 a GWA1 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd. | | | | | |
| **Action:** | | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. | | | | | |

**Mwynau**

| **Dangosydd: D67** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO19 | Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS 22, MWYN 6 |

| | | Deilliant: | | Lefel sbardun: |
|---|---|---|---|---|
| D67 – Swm yr agregau cynradd a enillwyd o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MNCT) | Cynnal cyflenwad o leiaf 10 mlynedd o gronfeydd agregau cerrig mâl drwy gydol cyfnod y Cynllun yn ardal y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22. | AMB 1 | ✓ | Y cronfeydd agregau cerrig mâl yn disgyn islaw 12 mlynedd yn ardal y Cynllun |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Ar ddiwedd 2016 roedd 42.94 miliwn o dunelli o gronfeydd wrth gefn a ganiateir ar gyfer creigiau mâl yn weddill, sydd ymhell dros y lefel trothwy. Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (2016). Mae'r wybodaeth hyn yn seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Adolygiad Cyntaf o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd.
Mae pob adolygiad o'r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynaladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 25 mlynedd ar gyfer carreg fâl (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 10 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLl ar y Cyd. Mae'r ardaloedd a ffafrir ar gyfer cerrig mâl ym Mholisi MWYN 2 o'r CDLl ar y Cyd yn fwy na'r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â'r ddarpariaeth angenrheidiol sydd wedi ei adnabod yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

**Rheoli Gwastraff**

| **Dangosydd: D68** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO19 | Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS 22, MWYN 6 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D68 – Cyflenwad tir tywod a graean yn ardal y Cynllun | Cynnal cyflenwad o leiaf 7 mlynedd o dywod a graean drwy gydol cyfnod y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22. | AMB 1 | ✓ | Y Cronfeydd tywod a graean yn disgyn islaw 9 mlynedd. |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Roedd gan Ogledd Cymru oddeutu 15.70 miliwn o dunelli metrig o dywod a graean yn weddill ar ddiwedd 2016 (cyfraniad ardal y Cynllun tuag at y cyfanswm hwn yn 1.175 miliwn). Gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant dros 10 mlynedd, fel yr argymhellir gan Lywodraeth Cymru yn eu llythyr egluro polisi CL-04-14 mae hyn yn gyfwerth â banc tir o 21.8 mlynedd.

Mae'r wybodaeth hyn yn seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Adolygiad Cyntaf o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd. Mae pob adolygiad o'r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynaladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 22 mlynedd, ar gyfer tywod a grean (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 7 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLl ar y Cyd. Tra bod y banc tir tywod a graean ar gyfer ardal y Cynllun yn is na'r trothwy 7 mlynedd, mae'r ardaloedd a ffafrir sydd wedi eu hadnabod ym Mholisi MWYN 2 o'r CDLl ar y Cyd yn fwy na'r na'r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â'r ddarpariaeth angenrheidiol yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.

Disgwylir ail adolygiad y Datganiad Technegol Rhanbarthol yn ystod 2020 a bydd yn cael adrodd arno yn yr AMB nesaf.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

**Dangosydd: D69**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO19 | Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 22, MWYN 6 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D69 – Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir o fewn clustogfa mwynau | Dim caniatáu datblygiad o fewn clustogfa mwynau a fyddai'n arwain at sterileiddio'r | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi MWYN 5. |
| | | **AMB 2** | ✓ | |
| | | AMB 3 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | adnodd mwynau, oni mai ei fod yn unol â Pholisi MWYN 5. | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Rhoddwyd 13 o ganiatadau cynllunio ar safleoedd sydd o fewn glustogfa mwynau. Mae'r mathau o ganiatadau yn amrywio o fod yn ddatblygiadau deiliaid tŷ i fod yn ddatblygiadau sydd yn benodol ymwneud a gweithredu'r safleoedd mwynau a gwastraff.
Ni roddwyd caniatâd Cynllunio o fewn clustogfa mwynau sydd yn groes i Bolisi MWYN 5. Gan hynny ystyrir fod Polisi MWYN 5 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.

| **Gweithred:** | |
|---|---|

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol.

**PENNOD 4: CASGLIADAU AG ARGYMHELLION**

4.1 Gan mai dim ond yr ail AMB yw hwn, mae'n anodd adnabod tueddiadau gan nad oes digon o amser wedi mynd heibio ers mabwysiadu'r Cynllun, er ei bod yn bosibl gwneud cymhariaeth â'r wybodaeth a gynhwysir yn AMB1 nid yw hyn yn rhoi digon o dystiolaeth i alluogi nodi tueddiadau. Oherwydd yr oedi rhwng rhoi caniatâd cynllunio a datblygu'r cynlluniau, mae'n anochel bod yr AMB hwn yn cynnwys datblygiad a roddwyd o dan bolisïau cynllunio lleol a oedd yn berthnasol cyn mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, ond a adeiladwyd yn ystod y cyfnod AMB hwn.

4.2 Yn yr un modd a'r AMB blaenorol, bydd AMB2 yn darparu'r dystiolaeth ar y dangosyddion er mwyn eu cymharu mewn blynyddoedd i ddod fel y gall y Cynghorau nodi unrhyw dueddiadau. Yn ogystal fe fydd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol wrth adolygu'r Cynllun.

4.3 Er yr amlinellwyd uchod ei bod yn anodd pennu unrhyw dueddiadau yn ystod y dyddiau cynnar hyn, mae cynnydd da yn cael ei wneud ar gyflawni'r targedau a amlinellwyd yn y fframwaith monitro ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu ac felly i gyfiawnhau bod angen adolygu yn ystod y cam cynnar hwn.

4.4 Gan ei fod dal yn ddyddiau cynnar o ran gweithredu'r CDLl, mae yna ganlyniadau cadarnhaol gweler amlinelliad ohonynt isod:

4.5 Mabwysiadwyd CCA Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy sydd yn darparu canllawiau pellach ar sut i sicrhau bod ceisiadau sy'n bodloni'r trothwyon sydd wedi'u nodi ym mholisi PS1 yn cynorthwyo i gynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy. Mae'r CCA yn cynnwys methodoleg ar gyfer paratoi Asesiadau Effaith ar yr Iaith Gymraeg a Datganiadau Iaith Gymraeg. Cafwyd 1 Asesiad Ieithyddol a 32 Datganiadau ieithyddol efo ceisiadau ble yr oeddynt yn cyfarch y trothwyon o fewn Polisi PS 1. Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na'r trothwy sy'n gofyn am Ddatganiad neu Asesiad ffurfiol. O ddadansoddi'r rhain nid oedd unrhyw fwriad yn arwain tuag at niwed sylweddol i'r iaith Gymraeg. Cafwyd mesurau lliniaru ar rhai ceisiadau trwy gynnwys amodau ar gyfer arwyddion ac efo un cais cafwyd ymrwymiad i gydweithio efo'r Fenter Iaith pan fydd y busnes yn paratoi i agor.

4.6 Rhoddwyd caniatâd i 419 o dai fforddiadwy ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn 2017 efo 217 o rain yn cael caniatâd yn 2019/20. Cwblhawyd 372 o unedau tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod 2017-20. Mae hyn yn dangos cynnydd sylweddol yn y nifer o unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd yn 2018/19 (185 o unedau) a 2019/20 (124 o unedau) o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun ac felly mae'r ddarpariaeth o dai sy'n fforddiadwy yn debygol o fod yn uwch na'r ffigwr hwn. O'r unedau a gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, mae canran y tai fforddiadwy dros 60%. Mae hyn yn golygu bod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma wedi darparu canran uchel o dai fforddiadwy, gan sicrhau bod anghenion lleol yn cael sylw ac mae hyn yn helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

4.7 Mae dosbarthiad tai newydd yn unol â'r strategaeth ofodol a osodwyd yn y CDLl, sy'n sicrhau bod tai yn cael eu dosbarthu yn seiliedig ar lefel darpariaeth gwasanaethau, swyddogaeth a maint (poblogaeth) anheddiad, ac yn amodol ar ei gapasiti amgylcheddol, cymdeithasol a seilwaith i ymdopi â'r datblygiad.

| Haen | Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd (2017-20) | Targed yn y CDLl ar y Cyd | Canran o'r holl ganiatadau preswyl |
|---|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol | 555 | 53% | 53% |
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 234 | 22% | 22% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad | 261 | 25% | 25% |
| Cyfanswm | 1050 | - | - |

4.8 Ym Mehefin 2018, cyflwynodd Horizon gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn datblygu atomfa newydd, a chynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus. Cyhoeddodd Hitachi ei fwriad i ohirio'r cynnig i ddatblygu'r atomfa newydd; fodd bynnag, cadarnhaodd Horizon y byddai'n parhau i roi adnoddau i sicrhau bod y broses o archwilio'r cais yn cael ei chwblhau. Mae'r penderfyniad wedi cael ei ohirio dwywaith, bellach mae'r penderfyniad yn ddisgwyliedig erbyn diwedd Medi 2020,

4.9 Ar y cyfan mae'r dangosyddion o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau, lle nad yw'r targed polisi yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. Mewn llawer o achosion lle nad yw targed y polisi'n cael ei gyflawni, y rheswm am hyn yw oherwydd nad oes digon o amser wedi mynd heibio ers mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd i alluogi'r polisïau i gyflawni amcanion y cynllun.

4.10 Mae gofyn i'r Cynghorau adolygu'r cynllun bob pedair blynedd oni bai bod amgylchiadau sy'n codi o gasgliadau'r Adroddiad Monitro Blynyddol sy'n nodi bod angen adolygu ynghynt. Nid yw'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol yn nodi hyn ac felly does dim cyfiawnhad bod angen adolygu'n gynnar. Felly bydd yr adolygiad yn cael ei gynnal yn 2021.

4.11 Mae newidiadau cenedlaethol a lleol wedi'u hamlinellu ym mhennod 2 yr Adroddiad Monitro Blynyddol, ac er y bydd y newidiadau hyn yn cael eu hystyried yn ystod unrhyw adolygiad yn y dyfodol, ni ystyrir eu bod yn effeithio ar y Cynllun i'r fath raddau fel bod angen adolygiad yn ystod y cam yma. Fe fydd AMB3 yn adrodd ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac yn ystyried os yw beth a nodir yn y FfDC yn arwain at newid ar raddfa fyddai'n gofyn am adolygu'r cynllun yn llawn neu'n rhannol. Yn ogystal â chyhoeddi'r FfDC fe fydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi (os yn berthnasol) i oblygiadau Pandemig Covid-19 yn AMB3.

4.12 Nid oes tystiolaeth sy'n awgrymu bod angen adolygu'r Cynllun yn llawn neu'n rhannol yn ystod y cam hwn am y rhesymau isod:

- Gan nad oes yna gyfnod sylweddol wedi mynd heibio ers mabwysiadu a gan mai dyma'r ail AMB yn unig nid oes unrhyw dueddiadau wedi eu hadnabod.
- Nid oes unrhyw bolisïau wedi'u nodi fel rhai sy'n methu â chyflawni amcanion y cynllun
- Mae rhai datblygiadau yr adroddwyd arnynt yn benderfyniadau a wnaed cyn mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd.
- Ar y cyfan mae penderfyniadau apêl ers mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd wedi cefnogi polisïau a strategaeth y cynllun efo penderfyniadau apêl sydd wedi'u caniatáu'n bennaf mewn perthynas ag ystyriaethau goddrychol o ddylunio, amwynder gweledol ac ati..
- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 507 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2019/20. Roedd 217 uned (43%) ar gyfer tai fforddiadwy. Mae canran y tai fforddiadwy yn cynyddu

i 51% ar gyfer ceisiadau oedd yn cyfarch y trothwy ar gyfer cael cyfraniad tai fforddiadwy h.y. 2 neu fwy o unedau mewn ffin datblygu neu o fewn Clwstwr neu'n trosi adeilad allanol yn y cefn gwlad (180 o unedau fforddiadwy allan o 350 o unedau newydd). Mae'r tai newydd a ganiatawyd yn unol â'r strategaeth ofodol.

- Mae 124 o unedau tai fforddiadwy wedi'u cwblhau yn 2019-2020 ac mae hyn ynghyd ac unedau wedi ei gwblhau yn 2018-19 yn gynnydd sylweddol ar y blynyddoedd blaenorol. Tra nad yw'r targed wedi ei gyrraedd o safbwynt y ddarpariaeth rhwng 2015-20, ni chredir fod hy yn achosi pryder. Nodir nad yw'r hyn sydd wedi ei ddarparu yn is na'r lwfans 10% o'r targed cronnol yn y Targed Polisi fel nodir yn y lefel sbardun.
- Roedd y banc tir ar gyfer tai (safleoedd â chaniatâd presennol) yn 2020 yng Ngwynedd ac Ynys Môn yn 2,719 o unedau (2,167 heb ddechrau a 552 yn cael eu hadeiladu) ac roedd 540 ohonynt ar gyfer unedau fforddiadwy (463 o unedau heb ddechrau a 77 uned yn cael eu hadeiladu).
- Nodir bod 3561 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2019/20, tra bod y taflwybr yn nodi ffigwr o 3828 o unedau. Felly, mae hyn 7% (267 uned) yn is na'r ffigur yn y llwybr. Mae rhan o'r diffyg hwn yn deillio o'r oedi wrth weithredu prosiectau seilwaith mawr yn ardal y Cynllun. Cynhelir trafodaethau gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai i ddiweddaru'r Taflwybr ar gyfer gweddill blynyddoedd y Cynllun.
- Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio na phenderfyniadau apêl i addasu neu ddileu cytundebau neu amodau S106 ar gyfer tai marchnad leol wedi'u cymeradwyo na'u caniatáu (yn ystod y cyfnod AMB hwn nac ers mabwysiadu'r Cynllun).
- Mae cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth newydd ar safleoedd sydd wedi ei ddiogelu wedi'u cefnogi gan y polisïau yn y Cynllun ar y Cyd.
- Ar y cyfan mae'r dangosyddion a gynhwysir o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau, lle nad ydynt yn cael eu cyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisi.

4.13 Bydd y CDLl ar y Cyd yn parhau i gael ei fonitro'n unol â'r fframwaith monitro a nodwyd ym Mhennod 7 y CDLl ar y Cyd.

## Atodiad 1: Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd

### 1. MONITRO'R ARFARNIAD CYNALIADWYEDD

1.1 Roedd y CDLl ar y Cyd yn ddarostyngedig i Arfarniad Cynaliadwyedd (AC), yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel proses iterus drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun. Bu i'r AC ymgorffori'r gofynion ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Gyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC. Diben yr AC oedd arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebygol y Cynllun, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bu i AC y CDLl ar y Cyd adnabod 11 o amcanion a 29 o ddangosyddion sydd wedi'u bwriadu i fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Cynllun.

1.2 Dylid nodi mai rhagarweiniol oedd y rhaglen fonitro a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd a'i bod wedi tynnu sylw at ddangosyddion posib yn unig. Canfu'r broses monitro bod cyfle i wella'r dasg o fonitro'r AC i sicrhau bod data priodol yn cael ei gasglu. Er nad oes yr un dangosydd yn cael ei ddileu, dylid nodi bod y dadansoddiad yn nodi'n glir lle nad yw gwybodaeth ar gael ac/neu yn amherthnasol. Mewn rhai achosion, nid oes gwybodaeth ar gael mwyach (neu nid yw'n berthnasol); mewn achosion eraill, nid yw'r data sydd ar gael yn ddigon manwl fel y gellir monitro'n ddefnyddiol.

1.3 Mae nifer o Ddangosyddion AC lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft, y rhai sy'n seiliedig ar y cyfrifiad. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol, ac o ganlyniad nid yw'r rhain, o reidrwydd, am fod yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen o ran monitro yn y dyfodol. Fodd bynnag, maent wedi'u cadw er mwyn darparu gwaelodlin, gwneir gwaith pellach mewn pryd ar gyfer yr AMB nesaf i bennu p'un a oes ffynonellau gwybodaeth amgen ar gael.

1.4 Dylid nodi nad yw'r system goleuadau traffig a ddefnyddiwyd ar gyfer Dangosyddion Monitro'r CDLl wedi'u defnyddio wrth Fonitro'r AC. Mae nifer o'r amcanion AC o natur ddyheadol ac i raddau mae'n wybodaeth fyddai'n cael ei monitro mewn sefyllfa ddelfrydol. Yn ogystal, nid y CDLl ei hun fyddai'r unig ffactor i'w ystyried wrth gyflawni'r nodau. Nid yw'r Monitro AC yn

cynnwys Targedau fel y cyfryw, yn wahanol i Fonitro'r CDLl, felly byddai'n anodd dehongli'r sylwadau mewn system sgorio goleuadau traffig.

1.5 Gan mai hon yw'r ail Adroddiad Monitro Blynyddol, bydd y ffocws ar asesu'r newidiadau sydd wedi digwydd i bob dangosydd AC ers AMB cyntaf y CDLl. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol ac mae sylwadau i'w cael o dan bob amcan AC sy'n disgrifio'r cynnydd. Mae pob Amcan AC yn cael ei asesu yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, ac mae'r casgliadau wedi'u nodi yn y rhannau isod. Mae'r lliwiau isod wedi'u defnyddio i roi crynodeb cyffredinol o'r canfyddiadau ar gyfer pob dangosydd:

| Lliw | Effaith |
|---|---|
| ? | Effeithiau positif |
| +/- | Effeithiau cymysg |
| ? | Effeithiau negyddol |
| 0 | Niwtral / Data ddim ar gael |

**Crynodeb Monitro AC**

1.6 Mae Tabl 1 yn nodi asesiad cryno o ganlyniadau'r Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd. Cynhwysir crynodeb o'r canlyniadau hyn ym mharagraff 1.7.

| **Tabl 1: Monitro Arfarniad Cynaladwyedd – Crynodeb** | | |
|---|---|---|
| | **Amcanion** | **Canlyniad** |
| **1** | Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth | ? |
| **2** | Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol | **0** |
| **3** | Rheoli a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu | **+/-** |
| **4** | Cadw, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg | ? |
| **5** | Cadw, hyrwyddo a gwella adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol | ? |
| **6** | Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol | **+/-** |
| **7** | Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol | **+/-** |
| **8** | Gwerthfawrogi, cadw a gwella tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun | ? |
| **9** | Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff | ? |
| **10** | Cefnogi a gwella cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi | **+/-** |
| **11** | Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd | **+/-** |

**Crynodeb o’r Canlyniadau**

1.7 Mae canlyniadau'r monitro Arfarniad Cynaliadwyedd yn nodi, o'r 11 Amcan Cynaliadwyedd, nodwyd effeithiau cadarnhaol ar gyfer 5 amcan ac effeithiau niwtral ar gyfer 1 amcan ac effeithiau cymysg ar gyfer 5 amcan. Ni nodwyd unrhyw amcanion gydag effaith negyddol sylweddol. Mae’r canlyniadau’n adlewyrchu canfyddiadau’r AMB blaenorol, heblaw am y ffaith fod y sgôr ar gyfer dangosydd 7 wedi ei newid i ‘effaith cymysg’ . Dengys y tabl bod cynnydd yn cael ei wneud, wrth gydbwyso popeth, gyda mwyafrif yr amcanion cynaliadwyedd a nodwyd, yn erbyn yr amrediad o ddangosyddion monitro ar gyfer yr amcan penodol. Mae’r tablau canlynol yn cynnwys dadansoddiad manwl o berfformiad y dangosyddion:

| Amcan AC 1: Bioamrywiaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Colled bioamrywiaeth drwy ddatblygiad sy'n cael ei fesur drwy golled neu ardrawiad i safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e. SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLl. | Gostyngiad | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | ⍰ |
| 2) Gwir golled bioamrywiaeth yn ardal y Cynllun oherwydd datblygiad. | Cynnydd | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 3) % o nodweddion (gwahanol fathau) mewn cyflwr ffafriol, gan gynnwys nodweddion ar y tir ac ar y môr | Cynnydd | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | **0** |
| 4) Llwyddiant amcanion a thargedau BAP (DU a gwledydd penodol/rhanbarthol/ lleol) | Cynnydd | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 5) Tueddiadau a statws NERC 2006, Rhan 42 rhywogaethau / cynefinoedd. | Gwelliant | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 6) Nifer ac arwynebedd SINCs a GNL o fewn y Cynllun. | Cynnal/Cynnydd | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | **0** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Yn ystod y cyfnod monitro, cymeradwywyd cyfanswm o 106 cais cynllunio ar safleoedd a ddynodwyd yn Ardal y Cynllun (10.4% o holl geisiadau) fel a ganlyn

Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig = 6
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig = 9
RAMSAR = 0
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig = 18
GNC = 0
GNL = 3
SINC/Safloedd Bywyd Gwyllt = 23

Ni chymeradwywyd unrhyw gais cynllunio yn gyferbyniol i Bolisiau’r CDLl.

2) Er nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau, mae polisïau o fewn y CDLl yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei warchod.

3) Dim data mwy diweddar er yr AMB blaenorol. Dim ond ar gyfer ACA ac AGA y mae'r wybodaeth ar gael ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn:
- ACA - 40% (8 o'r 20 ACA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLl) o ardal yr holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol';
- ACA - 89% (8 o'r 9 AGA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLl) o'r holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol'.

4) Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.

5) Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.

6) Dim newid ers yr AMB blaenorol:
- 392 (7115HA) Safleoedd Bywyd Gwyllt wedi'u cadarnhau (Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur)
- 13 (3137HA) Gwarchodfa Natur Leol

| **Amcan AC 2: Cymuned a Iechyd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) % cyfanswm poblogaeth gyda mynediad at wasanaethau allweddol. | Cynnydd | - | Data ddim ar gael | **0** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2) Mesurau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (e.e. gorbwysedd) – Arolwg Iechyd Cymru. | Gwelliant | - | Data ddim ar gael | **0** |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |
| 1) Nid yw'r data ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.<br><br>2) Nid yw'r data ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol | | | | |

| **Amcan AC 3: Newid Hinsawdd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| % newid mewn allyriad carbon deuocsid gan ddiwydiant /masnach, domestig, trafnidiaeth ffordd a'r sector coedwigaeth. | Gostyngiad | 2018/19 | Gweler esboniad isod | **+/-** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

Nid oes diweddariad yn y gwybodaeth gan Strategaeth Adran Busnes, Ynni a Diwydiant ers yr AMB blaenorol.

- Mae tuedd gyffredinol lle mae gostyngiad wedi'i weld o 2005 hyd 2017 yn Ynys Môn a Gwynedd ar gyfer y chwe dangosydd allyriadau carbon.
- Mae 'naid' gyffredinol am i fyny mewn allyriadau o 2017 i 2018.

**Ynys Môn**

- O 2005 i 2018, gwelwyd gostyngiad yn y canrannau ar gyfer y chwe dangosydd, gan amrywio o 5.0% i 69.7%.
- Yn 2018, gwelwyd cynnydd amlwg yn y chwe dangosydd o 2017, gan amrywio o 1.7% i 10.0%.
- Mae'r cynnydd hwn mewn allyriadau o 2017 i 2018 yn dangos 'naid' yn y duedd arferol o ostyngiadau graddol mewn allyriadau carbon ym Môn.
- Mae'r duedd ostyngedig hanesyddol mewn allyriadau carbon a'r duedd gynyddol ddiweddar yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd yng Ngwynedd ac yng Nghymru.

**Gwynedd**

- O 2005 i 2018, gwelwyd gostyngiad yn y canrannau ar gyfer y chwe dangosydd, gan amrywio o 0.7% i 38.3%.
- Yn 2018, gwelwyd cynnydd amlwg mewn tri o'r chwe dangosydd o 2017, gan amrywio o 1.7% i 13.2%.
- Mae'r cynnydd hwn mewn allyriadau o 2017 i 2018 yn dangos 'naid' yn y duedd arferol o ostyngiadau graddol mewn allyriadau carbon yng Ngwynedd, er y dylid nodi bod tri o'r chwe dangosydd wedi parhau i weld tuedd o ostyngiadau mewn allyriadau.
- Mae'r duedd ostyngedig hanesyddol mewn allyriadau carbon a'r duedd gynyddol ddiweddar yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd ym Môn ac yng Nghymru.

<u>**Cymru**</u>

- O 2005 i 2018, gwelwyd gostyngiad yn y canrannau ar gyfer y chwe dangosydd, gan amrywio o 3.9% i 75.9%.
- Yn 2018, gwelwyd cynnydd amlwg mewn pump o'r chwe dangosydd o 2017, gan amrywio o 1.7% i 13.2%.
- Mae'r cynnydd hwn mewn allyriadau o 2017 i 2018 yn dangos 'naid' yn y duedd arferol o ostyngiadau graddol mewn allyriadau carbon yng Nghymru, er y dylid nodi bod un o'r chwe dangosydd wedi parhau i weld y tuedd arferol o ostyngiadau mewn allyriadau.
- Mae'r duedd ostyngedig hanesyddol mewn allyriadau carbon a'r duedd gynyddol ddiweddar yn adlewyrchu'r hyn sydd wedi digwydd ym Môn ac yng Ngwynedd.

| **Amcan AC 4: Iaith Gymraeg** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| Nifer/ % siaradwyr Cymraeg | Cynnydd | Blwyddyn yn gorffen Rhagfyr 31 2018 | Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2019<br><br>Ynys Mon – 44,880 (66%)<br>Gwynedd – 88,600 (74.7%) | **+/-** |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |
| Mae Polisi PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg. Nod Polisïau PS 1, PS 5 a PS 6 yw integreiddio 'datblygiadau cynaliadwy' yn y broses ddatblygu, er mwyn cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy.<br><br>Mae Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg. Gan fod y data yn dod o arolwg a'r canlyniadau yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar sampl mae felly yn ddarostyngedig i wahanol raddau o amrywioldeb samplu. | | | | |

Mae'r tabl isod yn nodi ffigyrau y flwyddyn sydd yn darfod 31 Mawrth ar gyfer 2017 i'r flwyddyn sydd yn darfod 31 Rhagfyr 2019.

| Awdurdod Lleol | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2017 | | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2018 | | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Ynys Môn | 42,500 | 63.6 | 45,500 | 67.5 | 44,880 | 66 |
| Gwynedd | 89,600 | 75.5 | 91,000 | 76.4 | 88,600 | 74.7 |

Nodir fod gostyngiad bach yn nifer a chyfran siaradwyr Cymraeg wedi digwydd yn Ynys Môn a Gwynedd rhwng 31 Mawrth 2018 a 31 Mawrth 2019. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw'r cyfnod hwn yn cynnwys yr holl gyfnod o'r 2ail AMB ac ni ddylid dod i unrhyw gasgliad terfynol.

Dylid nodi, hefyd, fod y ffigyrau hyn yn dangos lefelau llawer uwch na chanlyniadau'r Cyfrifiad 2011, a oedd yn nodi fod 57% o siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn a 65% yng Ngwynedd. Fodd bynnag, gan fod y ffigyrau hyn wedi eu seilio ar sail samplau, nid ydynt mo gadarn a ffigyrau'r Cyfrifiad ac yn wastad maent wedi tueddu i roi % uwch na'r Cyfrifiad.

| Amcan AC 5: Treftadaeth / Diwylliant | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| Nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg | Gostyngiad | 2018/2019 | 2019/2020<br>Gweler esboniad isod | ? |

**Esboniad / Dadansoddiad**

Ar hyn o bryd, nid yw data sy'n ymwneud â nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg ar gael ar lefel Awdurdod Lleol. Ni chymeradwywyd unrhyw gais cynllunio oedd yn gyferbyniol i Bolisiau PS20 ac AT 1 dros y cyfnod monitro. Cymeradwywyd un cais cynllunio o fewn Safle Treftadaeth y Byd a chyfanswm o 94 cais cynllunio (llawn/amlinellol) o fewn Ardal Gadwraeth y Cynllun. Ystyrir bod y caniatadau hyn yn cydymffurfio hefo PS 20 a AT1 a chan hynny fod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol.

| Amcan AC 6: Economi a Chyflogaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1) Actifedd economaidd fesul sector | Cynnydd | 2018 & 2019 | Gweler esboniad isod | **+/-** |
| 2) Statws cyflogaeth preswylwyr dros 16 mlwydd oed. | Cynnydd | 2018 & 2019 | Gweler esboniad isod | **+/-** |
| 3) Nifer o bobl yn cymudo i fewn ac allan o ardaloedd awdurdodedig. | Gostyngiad | 2018 & 2019 | Gweler esboniad isod | **+/-** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1 + 2) Dengys ystadegau y gwelwyd cynnydd mewn gweithgarwch economaidd yn ardal Awdurdod Lleol Ynys Môn ond gostyngiad bach yng Ngwynedd rhwng Mawrth 2019 a Rhagfyr 2020 fel a welir yn y tabl isod.

Arolwg Llafurlu Lleol: Crynodeb o weithgarwch economaidd (16-64)

| | **Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2018** | **Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2019** | **Blwyddyn yn dod i ben mis Rhagfyr 2020** |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 78.1 | 80.7 | 80.9 |
| Gwynedd | 76.7 | 77.1 | 75.3 |
| Cymru | 76.5 | 76.7 | 76.4 |

*Ffynhonnell: Stats Cymru*

3) Dengys ystadegau y bu peth cynnydd yn niferoedd y bobl sy'n cymudo allan o Ynys Môn a Gwynedd - patrwm sy'n cael ei ailadrodd yng Nghymru gyfan. Tra gwelwyd cynnydd yn y nifer o bobl oedd yn cymudo i fewn i ynys Môn, gwelwyd gostyngiad bach mewn cymudo i fewn i Wynedd fel a welir yn y tabl isod.

Patrymau Cymudo fesul Awdurdodau Lleol yng Nghymru

| | **Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2017** | **Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2018** | **Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2019** | **Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2017** | **Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2018** | **Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2019** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 9,200 | 10, 200 | 10,500 | 3,100 | 4,200 | 4,500 |
| Gwynedd | 7,100 | 8,600 | 8,700 | 9,200 | 12,500 | 12,200 |
| Cymru | 94,700 | 95,400 | 98,500 | 42,200 | 47,000 | 42,700 |

*Ffynhonnell: Stats Cymru*

Tra fod ynys Môn wedi gweld cynnydd yng ngweithgaredd economaidd rhwng y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2019 a Rhagfyr 2019, gwelwyd gostyngiad bach iawn yng nghyflogaeth yng Ngwynedd. O ran cymudo allan o'r Awdurdod Leol, gwelwyd cynnydd bach yn niferoedd Ynys Môn a Gwynedd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'n rhy fuan i sefydlu unrhyw dueddiadau.

| **Amcan AC 7: Tai** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| Nifer o unedau tai fforddiadwy sy'n cael ei ddarparu bob blwyddyn fel canran o'r holl unedau. | Cynnydd | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | **+/-** |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |

Mae'r tabl isod yn cymharu'r ganran o dai fforddiadwy a gwblhawyd yn 2019-20 gyda'r wybodaeth ar gyfer 2018-19 a 2017-18.

| **Blwyddyn** | **Unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd** | **Cyfanswm yr unedau tai a gwblhawyd** | **Unedau fforddiadwy fel canran o gyfanswm y tai a gwblhawyd** |
|---|---|---|---|
| 2017-18 | 61 | 463 | 13.2% |
| 2018-19 | 189 | 548 | 35.6% |
| 2019-2020* | 132 | 461 | 28.6% |

**Nodir oherwydd cyfyngiadau pandemig coronafirws, nid oedd yn bosib i ymweld â phob safle dros y cyfnod hwn.*

Mae'n amlwg y bu i nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd fesul blwyddyn fel canran o'r holl unedau newydd gynyddu'n sylweddol yn 2018-19 o gymharu â 2017-18. Fodd bynnag, gostyngodd y cyfran yn 2019-20, er fod y ffigwr dal yn sylweddol uwch ang yn 2017-18.

| **Amcan AC 8: Tirlun a Threflun** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1) Cyfran o’r dirwedd o ansawdd uchel/uchel iawn fel mae wedi ei adnabod gan LANDMAP | Cynnydd | 2019/2020 | Gweler y dadansoddiad isod | ? |
| 2) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn yr AHNE | Gostyngiad | 2019/2020 | Gweler y dadansoddiad isod | ? |
| 3) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd wedi eu categoreiddio’n bwysig gan LANDMAP | Gostyngiad | 2019/2020 | Gweler y dadansoddiad isod | ? |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Dim newid ers yr AMB blaenorol. Mae'r canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd a ddiffiniwyd dan LANDMAP fel a ganlyn:
   - Gweledol a Synhwyraidd - dosbarthwyd 51% (135 o 267 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Diwylliannol - dosbarthwyd 98% (374 o 382 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Daearegol - dosbarthwyd 62% (133 o 213 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol
   - Tirweddau Hanesyddol - dosbarthwyd 81% (319 o 392 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Cynefinoedd y Dirwedd - dosbarthwyd 47% (592 o 934 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol

2) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn AHNE fel a ganlyn:
   - 2018/2019 = 540
   - 2019/2020 = 219

3) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn ardaloedd a ddosbarthwyd yn rhagorol gan LANDMAP fel a ganlyn:

| Categori LANDMAP | AMB 1 | AMB 2 |
|---|---|---|
| Gweledol a Synhwyraidd | 81 | 26 |
| Diwylliannol | 1587 | 619 |
| Daearegol | 724 | 291 |
| Hanesyddol | 1270 | 532 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynefinoedd y Dirwedd | 70 | 26 |

Mae'r nifer o geisiadau cynllunio a chymeradwywyd o fewn AHNE ac ardaloedd wedi eu categoreiddio fel rhagorol gan LANDMAP wedi gostwng ers yr AMB blaenorol sy'n cwrdd â'r targedau sydd wedi eu hamlinellu yn y dangosydd. Bydd y dangosyddion uchod yn parhau i gael eu monitro mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol.

**Amcan AC 9: Tir, Mwynau a Gwastraff**

| Dangosydd AC | Targed | Gwaelodlin/Data Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1) % cyfradd datblygiad ar dir a ddatblygwyd o'r blaen. | Cynnydd | 2019/2020 | Gweler esboniad isod | ? |
| 2) % gwastraff bwrdeistrefol a yrrwyd i'w dirlenwi | Gostyngiad | 2019/2020 | 18% Gwynedd<br>1% Isle of Anglesey | ? |
| 3) % ail-ddefnyddio / ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol | Cynnydd | 2019/2020 | 72% Anglesey<br>62% Gwynedd | **+/-** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) mae % cyfran y datblygiad ar dir a ddatblygwyd eisoes fel a ganlyn:

- Ynys Môn 2017-2018 = 13.81ha (cyfran dim ar gael);
- Ynys Môn 2018-2019 = 4.33ha (cyfran dim ar gael)
- Ynys Môn 2019-2020 = 52.9ha sy'n cyfartalu i 82.8% o holl ddatblygiad (mae'r ffigwr hwn yn cynnwys diwygiadau i drac rasio presennol, sydd ag arwynebedd safle o 41.4ha).

- Gwynedd 2017-2018 12.82ha;
- Gwynedd 2018-2019 – gwybodaeth ddim ar gael oherwydd diffyg adnoddau/problemau technegol;
- Gwynedd 2019-2020 – gwybodaeth ddim ar gael oherwydd diffyg adnoddau/problemau technegol.

2) mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei dirlenwi fel a ganlyn *(Ffynhonnell:StatsWales):*

- 2016-2017 = Ynys Môn (6.9%) Gwynedd (31%)
- 2017-2018 = Ynys Môn (0.5%), Gwynedd (24.3%)
- 2018-2019 = Ynys Môn (1%), Gwynedd (18.1%)

Er fod Ynys Môn wedi gweld gostyngiad bach yng nghanran y gwastraff a anfonwyd i dirlenwi rhwng 2017/2018 a 2018/2019, mae'r ffigwr yn sylweddol llai nac yn 2016-2017.

3) Mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei ailgylchu fel a ganlyn *(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru):*

- 2016-2017 = Ynys Môn (66%) Gwynedd (61%)
- 2017-2018 = Ynys Môn (72%), Gwynedd (60%)
- 2018-2019 = Ynys Môn (70%) Gwynedd (62%)

Er fod Ynys Môn wedi gweld cynnydd bach yng nghanran gwastraff bwrdeistrefol a gafodd ei ailgylchu rhwng 2017/2018 a 2018/2019, mae'r ffigwr yn uwch nac yn 2016-2017.

| **Amcan AC 10: Trafnidiaeth a Mynediad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Dull o deithio i'r gwaith - % o'r boblogaeth weithiol sy'n teithio gyda char | Gostyngiad | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | **+/-** |
| 2) Canran datblygiad preswyl o fewn 30 munud (amser trafnidiaeth trafnidiaeth gyhoeddus) | Cynnydd | 2017/2018/2019 | Gweler esboniad isod | **0** |
| 3) Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. | Cynnydd | 2016/17 | Gweler esboniad isod | **0** |
| 4) % cynnydd yn y thwyfaith beicio | Cynnydd | Papur Testun Trafnidiaeth (2015) | Gweler esboniad isod | **0** |
| 5) Cyfradd adnoddau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur. | Cynnydd | 2019 ymlaen | Gweler esboniad isod | **0** |

| Esboniad / Dadansoddiad |
|---|
| 1) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol.<br>•Gyrru Car – mae'r cyfran sy'n gyrru car i'w gwaith yng Ngwynedd (38%) yr un fath a chyfartaledd Cymru tra bod y cyfran yn Ynys Mon ychydig yn llai (34%).<br>•Gweithio o gartref – mae cyfran uwch yng Ngwynedd (9.23%) ac Ynys Môn (8.99%) o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (6.44%).<br>•Trên - mae cyfradd is yng Ngwynedd (0.37%) ac Ynys Môn (0.27%) o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (1.08%).<br>•Bws – mae cyfran uwch o bobl yng Ngwynedd (2.75%) yn teithio i'r gwaith ar y bws na'r cyfartaledd cenedlaethol (2.71%). Mae cyfran sylweddol is yn Ynys Môn (1.29%), sy'n is na chyfran Gwynedd a'r cyfartaledd cenedlaethol.<br>•Ar droed - mae'r gyfran yng Ngwynedd (7.22%) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (5.79%). Mae cyfran Ynys Môn (5.02%), yn llai na chyfran Gwynedd a'r cyfartaledd cenedlaethol.<br><br>2)<br>•100% o ddatblygiadau preswyl newydd o fewn 30 munud.<br><br>3)Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol<br>• Ym Môn, ceir y trydydd nifer isaf o ddeiliaid tocyn bws mantais ar gyfer pobl 60 mlwydd oed a throsodd (75.6%).<br>• Mae'r pedwerydd nifer isaf i'w gael yng Ngwynedd (80.0%).<br>• Yr ardal gyda'r nifer isaf yw Powys (71.5%).<br>• Yr ardal gyda'r nifer uchaf yw Caerdydd (98.9%).<br>• Y cyfartaledd cenedlaethol yw 87.0%. Felly, mae Ynys Môn a Gwynedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.<br><br>4) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol<br>• Mae Ynys Môn wedi'i chynnwys yn ardal Taith. Mae Gwynedd wedi'i chynnwys yn ardaloedd Taith a Tracc.<br>• Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Taith yw: 5 - Reading i Gaergybi; 8 - Caerdydd i Gaergybi.<br>• Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Tracc yw: 8 - Caerdydd i Gaergybi; 42 - Y Clas-ar-Wy i Gaerloyw; 43 - Llanfair ym Muallt i Abertawe; 81 - Aberystwyth i'r Amwythig; 82 - Porthmadog i Aberteifi.<br><br>5) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol<br>• Ar hyn o bryd, mae 92 o orsafoedd tanwydd yng Nghymru sy'n gwerthu tanwydd LPG.<br>• Mae dwy orsaf yn Ynys Môn yn gwerthu LPG. Y rhain yw: Amlwch – 1; Gaerwen – 1.<br>• Mae deg gorsaf yng Ngwynedd yn gwerthu LPG. Y rhain yw: A496 – 1; A4487 – 1; Bangor – 1; Abermaw - 1; Blaenau Ffestiniog – 1; Caernarfon -2; Machynlleth – 1; Pwllheli – 2. |

| Amcan AC 11: Dŵr a Pherygl Llifogydd | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Dangosydd AC | Targed | Gwaelodlin/Data Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1) % o ddatblygiadau newydd gyda systemau draenio cynaladwy. | Cynnydd | - | Data ddim ar gael | **0** |
| 2) % cyrff dŵr gyda statws ecolegol da neu botensial | Cynnydd | 2018/2019 | Gweler yr esboniad isod | ? |
| 3) Cyfradd / nifer absoliwt o ddatblygiadau yn C1 ac C2 (fel y'i diffinnir yn NCT15). | Gostyngiad | 2019-2020 | Gweler yr esboniad isod | **+/-** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Nid yw'r Awdurdodau yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. Bydd yr UPC ar y Cyd yn gweithio â'r ddau Awdurdod i ganfod ffordd o gasglu'r wybodaeth hon ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

2) Dim gwybodaeth diweddar ers yr AMB blaenorol ar gael. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro yn y dyfodol

3) Caniatawyd 18 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn parth llifogydd C1. Fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio casglwyd gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfiad y ceisiadau cynllunio gyda'r profion sydd wedi eu cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd). Yn dilyn asesiad o'r ceisiadau cynllunio, penderfynwyd eu bod yn cydymffurfio gyda'r anghenion sydd wedi eu hamlinellu yn NCT 15. Ni chymeradwywyd unrhyw gais cynllunio ar gyfer datblygiad a fyddai'n cael ei ystyried fel 'datblygiad yn agored i newid' yn unol â Ffigwr 2 o Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd) nac ychwaith a fyddai'n groes i'r profion sydd wedi eu cynnwys yn y Nodyn o fewn parth llifogydd C2.

**Atodiad 2 – Dosbarthiad Caniatadau Preswyl**

**D25 – DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL**
**1 EBRILL 2019 -31 MAWRTH 2020**

**Canolfan Isranbarthol**

| | Anheddle | Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2) | Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2) |
|---|---|---|---|
| 1. | Bangor | 68 | 121 |

**Canolfannau Gwasanaeth Trefol**

Ynys Môn

| | Anheddle | Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2) | Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2) |
|---|---|---|---|
| 2. | Amlwch | 25 | 34 |
| 3 | Caergybi | 55 | 72 |
| 4 | Llangefni | 59 | 200 |

Gwynedd

| | Anheddle | Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2) | Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2) |
|---|---|---|---|
| 5. | Blaenau Ffestiniog | 0 | 9 |
| 6. | Caernarfon | 0 | 56 |
| 7. | Porthmadog | 2 | 14 |
| 8. | Pwllheli | 49 | 52 |

**Canolfannau Gwasanaeth Lleol**

Ynys Môn

| | Anheddle | Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2) | Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2) |
|---|---|---|---|
| 9. | Biwmares | 6 | 7 |
| 10 | Benllech | 31 | 31 |
| 11 | Bodedern | 0 | 4 |
| 12. | Cemaes | 3 | 19 |
| 13. | Gaerwen | 0 | 0 |
| 14. | Llanfair Pwllgwyngyll | 1 | 22 |
| 15. | Pentraeth | 12 | 12 |
| 16. | Porthaethwy | 11 | 13 |
| 17. | Rhosneigr | 1 | 3 |
| 18 | Y Fali | 0 | 1 |

Gwynedd

| | Anheddle | Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2) | Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2) |
|---|---|---|---|
| 19. | Abermaw | 5 | 7 |
| 20. | Abersoch | 1 | 1 |
| 21. | Bethesda | 1 | 19 |
| 22. | Criccieth | 15 | 27 |
| 32. | Llanberis | 2 | 10 |
| 24. | Llanrug | 10 | 10 |
| 25. | Nefyn | 2 | 9 |
| 26. | Penrhyndeudraeth | 2 | 13 |
| 27. | Penygroes | 2 | 2 |
| 28. | Tywyn | 1 | 18 |

**Pentrefi Gwasanaeth**

Ynys Môn

| | Anheddle | Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2) | Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2) |
|---|---|---|---|
| 29. | Gwalchmai | 11 | 13 |
| 30. | Llannerch-y-medd | 5 | 5 |
| 31. | Niwbwrch | 0 | 6 |

Gwynedd

| | Anheddle | Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2) | Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2) |
|---|---|---|---|
| 32. | Bethel | 1 | 12 |
| 33. | Bontnewydd | 29 | 29 |
| 34. | Botwnnog | 1 | 1 |
| 35. | Chwilog | 1 | 41 |
| 36. | Deiniolen | 2 | 12 |
| 37. | Rachub | 0 | 0 |
| 38. | Tremadog | 0 | 0 |
| 39. | Y Ffôr | 0 | 0 |

**Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol**

**A) Pentrefi Lleol**

Ynys Môn

| | Anheddle | Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2) | Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2) |
|---|---|---|---|
| 40. | Bethel | 1 | 1 |
| 41. | Bodffordd, | 0 | 0 |
| 42. | Bryngwran, | 0 | 0 |
| 43. | Brynsiencyn | 2 | 2 |
| 44. | Caergeiliog | 0 | 6 |
| 45. | Dwyran | 0 | 1 |
| 46. | Llanddaniel-fab, | 0 | 0 |
| 47. | Llandegfan | 3 | 3 |
| 48. | Llanfachraeth | 9 | 9 |
| 49. | Llanfaethlu, | 0 | 0 |
| 50. | Llanfechell, | 0 | 0 |
| 51. | Llanfihangel-yn-Nhywyn, | 0 | 0 |
| 52. | Llangaffo, | 0 | 0 |
| 53. | Llangristiolus | 1 | 1 |
| 54. | Llanrhuddlad, | 0 | 0 |
| 55. | Pencarnisiog, | 0 | 0 |
| 56. | Pen-y-Sarn | 0 | 7 |
| 57. | Rhos-y-bol | 15 | 16 |
| 58. | Talwrn | 6 | 6 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 59. | Tregele | 0 | 0 |

Gwynedd

| | Anheddle | Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2) | Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2) |
|---|---|---|---|
| 60. | Abererch | 0 | 0 |
| 61. | Brynrefail | 0 | 0 |
| 62. | Caeathro | 0 | 0 |
| 63. | Carmel | 0 | 1 |
| 64. | Cwm y Glo | 0 | 0 |
| 65. | Dinas (Llanwnda) | 12 | 12 |
| 66. | Dinas Dinlle | 0 | 0 |
| 67. | Dolydd a Maen Coch | 0 | 0 |
| 68. | Efailnewydd | 0 | 0 |
| 69. | Garndolbenmaen | 0 | 1 |
| 70. | Garreg-Llanfrothen | 0 | 0 |
| 71. | Groeslon | 0 | 0 |
| 72. | Llandwrog | 0 | 0 |
| 73. | Llandygai | 0 | 0 |
| 74. | Llangybi | 0 | 0 |
| 75. | Llanllyfni | 0 | 0 |
| 76. | Llanystumdwy | 0 | 0 |
| 77. | Nantlle | 0 | 1 |
| 78. | Penisarwaun | 0 | 0 |
| 79. | Pentref Uchaf | 0 | 0 |
| 80. | Rhiwlas | 0 | 1 |
| 81. | Rhosgadfan | 0 | 3 |
| 82. | Rhostryfan | 0 | 0 |
| 83. | Sarn Mellteyrn | 0 | 0 |
| 84. | Talysarn | 0 | 0 |
| 85. | Trefor | 0 | 0 |
| 86. | Tregarth | 0 | 2 |
| 87. | Tudweiliog | 0 | 0 |
| 88. | Waunfawr | 2 | 2 |
| 89. | Y Fron | 0 | 0 |

**B) Pentrefi Arfordirol/Gwledig**

Ynys Môn

| | Anheddle | Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 | Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun |
|---|---|---|---|

| | | (cyfnod AMB 2) | (cyfnod AMB 1 a AMB2) |
|---|---|---|---|
| 90. | Aberffraw, | 0 | 0 |
| 91. | Bae Trearddur | 0 | 0 |
| 92. | Carreg-lefn | 1 | 2 |
| 93. | Llanbedr-goch, | 0 | 0 |
| 94. | Llanddona | 1 | 1 |
| 95. | Llanfaelog | 0 | 1 |
| 96. | Llangoed | 0 | 1 |
| 97. | Malltraeth, | 0 | 0 |
| 98. | Moelfre | 0 | 4 |
| 99. | Pontrhydybont | 2 | 2 |

Gwynedd

| | **Anheddle** | **Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2)** | **Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2)** |
|---|---|---|---|
| 100. | Aberdaron | 0 | 0 |
| 101. | Borth-y-Gest | 0 | 1 |
| 102. | Clynnog Fawr | 0 | 0 |
| 103. | Corris | 0 | 1 |
| 104. | Edern | 0 | 1 |
| 105. | Fairbourne | 0 | 0 |
| 106. | Llanaelhaearn | 0 | 0 |
| 107. | Llanbedrog | 0 | 0 |
| 108. | Llangian | 0 | 0 |
| 109. | Llithfaen | 0 | 0 |
| 110. | Morfa Bychan | 0 | 1 |
| 111. | Morfa Nefyn | 0 | 0 |
| 112. | Mynytho | 0 | 0 |
| 113. | Rhoshirwaun | 0 | 0 |
| 114. | Sarn Bach | 0 | 0 |
| 115. | Y Felinheli | 0 | 0 |

**Clystyrau**

Ynys Môn

| | **Anheddle** | **Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2)** | **Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2)** |
|---|---|---|---|
| 116. | Bodorgan | 0 | 0 |
| 117. | Bro Iarddur (Bae Trearddur) | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 118. | Bryn Du, | 0 | 0 |
| 119. | Brynminceg (Hen Llandegfan) | 0 | 0 |
| 120. | Brynrefail | 0 | 0 |
| 121. | Brynteg | 0 | 0 |
| 122. | Bryn y Môr (Y Fali) | 0 | 0 |
| 123. | Bwlch Gwyn | 0 | 0 |
| 124. | Capel Coch | 0 | 0 |
| 125. | Capel Mawr | 0 | 0 |
| 126. | Carmel | 0 | 0 |
| 127. | Cerrig-mân | 0 | 0 |
| 128. | Cichle | 0 | 0 |
| 129. | Glan-yr-afon (Llangoed) | 0 | 0 |
| 130. | Glyn Garth | 0 | 0 |
| 131. | Gorsaf Gaerwen | 0 | 0 |
| 132. | Haulfre (Llangoed) | 0 | 0 |
| 133. | Hebron | 0 | 0 |
| 134. | Hendre Hywel (Pentraeth) | 0 | 0 |
| 135. | Hermon | 0 | 0 |
| 136. | Llan-faes | 0 | 0 |
| 137. | Llangadwaladr | 0 | 0 |
| 138. | Llansadwrn | 0 | 0 |
| 139. | Llanynghenedl | 1 | 1 |
| 140. | Llynfaes | 0 | 0 |
| 141. | Marian-glas | 0 | 0 |
| 142. | Nebo | 0 | 0 |
| 143. | Penlon | 0 | 0 |
| 144. | Penmon | 0 | 0 |
| 145. | Pentre Berw | 0 | 0 |
| 146. | Pentre Canol (Caergybi) | 0 | 0 |
| 147. | Pen y Marian | 0 | 0 |
| 148. | Porth Llechog | 0 | 0 |
| 149. | Rhoscefnhir | 1 | 2 |
| 150. | Rhos-meirch | 0 | 0 |
| 151. | Rhostrehwfa | 0 | 0 |
| 152. | Rhyd-wyn | 0 | 0 |
| 153. | Star | 0 | 0 |
| 154. | Traeth Coch | 0 | 0 |
| 155. | Trefor | 1 | 1 |
| 156. | Tyn Lôn (Glan yr Afon) | 0 | 0 |
| 157. | Tyn-y-gongl | 0 | 0 |

Gwynedd

| | Anheddle | Nifer caniatadau preswyl 2019 – 2020 (cyfnod AMB 2) | Nifer caniatadau preswyl ers mabwysiadu'r Cynllun (cyfnod AMB 1 a AMB2) |
|---|---|---|---|
| 158. | Aberdesach | 0 | 0 |
| 159. | Aberllefenni | 0 | 0 |
| 160. | Aberpwll | 0 | 0 |
| 161. | Bethesda Bach | 0 | 0 |
| 162. | Bryncir | 0 | 0 |
| 163. | Bryncroes | 0 | 0 |
| 164. | Caerhun/Waen Wen | 0 | 0 |
| 165. | Capel y Graig | 0 | 0 |
| 166. | Corris Uchaf | 0 | 0 |
| 167. | Crawia | 0 | 0 |
| 168. | Dinorwig | 0 | 0 |
| 169. | Gallt y Foel | 0 | 0 |
| 170. | Glasinfryn | 0 | 2 |
| 171. | Groeslon Waunfawr | 0 | 0 |
| 172. | Llanaber | 0 | 0 |
| 173. | Llandderfel | 0 | 0 |
| 174. | Llanengan | 0 | 0 |
| 175. | Llanfor | 0 | 0 |
| 176. | Llanllechid | 0 | 0 |
| 177. | Llannor | 0 | 0 |
| 178. | Llanwnda | 0 | 0 |
| 179. | Llwyn Hudol | 0 | 0 |
| 180. | Minffordd | 0 | 0 |
| 181. | Minffordd (Bangor) | 0 | 0 |
| 182. | Mynydd Llandygai | 0 | 0 |
| 183. | Nebo | 0 | 0 |
| 184. | Pantglas | 0 | 0 |
| 185. | Penmorfa | 0 | 0 |
| 186. | Penrhos | 0 | 0 |
| 187. | Penrhos (Caeathro) | 0 | 0 |
| 188. | Pentir | 0 | 0 |
| 189. | Pentrefelin | 0 | 0 |
| 190. | Pistyll | 0 | 0 |
| 191. | Pontllyfni | 0 | 0 |
| 192. | Rhoslan | 0 | 0 |
| 193. | Saron (Llanwnda) | 0 | 0 |
| 194. | Swan | 0 | 0 |
| 195. | Tai'n Lôn | 0 | 0 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 196. | Talwaenydd | 0 | 0 |
| 197. | Talybont | 0 | 0 |
| 198. | Tan y Coed | 0 | 0 |
| 199. | Treborth | 4 | 4 |
| 200. | Ty’n-lôn | 0 | 0 |
| 201. | Ty’n y Lôn | 0 | 0 |
| 202. | Waun (Penisarwaun) | 1 | 1 |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| **DYDDIAD** | 8 Hydref 2021 |
| **ENW** | **Adroddiad Monitro Blynyddol 3 Ebrill 2020 – Mawrth 2021** |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r 3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol. |
| **ARGYMHELLIAD** | Gofynnir i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn Adroddiad Monitro Blynyddol 3 (Atodiad 1) a chytuno i gyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Hydref 2021 |
| **AWDUR** | Rheolwr Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd |


## 1. Cefndir



1.1 Mae aelodau yn ymwybodol o'r gofyn i fonitro'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn flynyddol ac yr angen i gyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru erbyn 31ain Hydref yn flynyddol. Bwriad yr Adroddiad yma ydi cyflwyno'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol sydd yn berthnasol i'r cyfnod 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021.

## 2. Y Fframwaith Fonitro (Pennod 7 yn y Cynllun)

2.1 Mae'r AMB yn sail tystiolaeth bwysig ar gyfer adolygu'r CDLl ar y Cyd a dros amser gall AMB ddangos tueddiadau, adnabod unrhyw bolisïau sydd yn cyflawni ai peidio, ac amlygu unrhyw wagle neu ddiffyg o ran polisi. Mae gan CDLl ar y Cyd Gwynedd a Môn fframwaith fonitro sydd wedi ei gytuno efo'r Arolygydd yn ystod yr Archwiliad. Mae'r fframwaith i'w weld ym mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd. Mae 70 o ddangosyddion, sydd yn adrodd ar y 5 thema sydd yn y CDLl ar y Cyd.

2.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:-

| **Symbol** | **Disgrifiad** | **Nifer o Ddangosyddion** |
|---|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. | 32 |
|  | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. | 23 |

| | | |
|---|---|---|
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. | 5 |
|  | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. | 0 |
| Dangosyddion sydd wedi ei gyflawni | | 10 |

2.3 Mae yna ddisgwyliad i bob fframwaith fonitro gynnwys dangosyddion craidd yn ymwneud a'r canlynol:-

**Tabl 1: Dangosyddion Craidd**

| Dangosydd craidd | Cyfeirnod yn y Fframwaith Fonitro |
|---|---|
| Dosbarthiad gofodol datblygiad tai | D25 |
| Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig. | D47 |
| Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronnol disgwyliedig. | D44 |
| Nifer o dai fforddiadwy adeiladwyd o'i gymharu â'r targed sydd yn y Cynllun. | D47 |
| Pa fath o dai fforddiadwy adeiladwyd (daliadaeth). | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau. | D32 & D33 |
| Hyfywdra'r farchnad ar gyfer datblygiadau tai. | D50 |
| Graddfa datblygu ar ddynodiadau tai. | D45 & D46 |
| Datblygu prosiectau isadeiledd allweddol. | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu. | D56, D57 & D58 |
| Graddfa/math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2. | D18 |

2.4 Mae gweddill y dangosyddion sydd i'w gweld yn Fframwaith Fonitro'r CDLl ar y Cyd yn rhai sydd yn benodol i ardal y CDLl y Cyd e.e. dangosyddion ar Wylfa Newydd.

2.5 Mae'r tabl isod yn nodi'r weithred sydd yn y Fframwaith Fonitro. Gall gweithrediadau eraill fod yn berthnasol, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, e.e. diwygio Canllaw Cynllunio Atodol a fabwysiadwyd. Mae gweithred wedi cael ei nodi yn erbyn bob un dangosydd yn yr AMB fel rhan o'r dadansoddiad. Mae ambell ddangosydd wedi derbyn y lliw llwyd gan fod y

dangosydd wedi cael ei chyflawni e.e. mabwysiadu CCA. Mae'r tabl isod yn dangos crynodeb o'r gweithredai yn dilyn asesiad o ddangosyddion y Fframwaith Fonitro:-

| Asesiad | Gweithred | Nifer o ddangosyddion yn y categori |
|---|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau'r CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro | 59 |
| Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir | Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod | 0 |
| Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol. | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun. | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu | Adolygu'r polisi yn unol â hynny | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu | Adolygu'r Cynllun | 0 |
| Targed wedi ei gyflawni. | Dim angen gweithrediad pellach. | 1 |

2.6 **Casgliadau Allweddol yr AMB**

- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 275 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2020/21. Gweler dosbarthiad y caniatadau hyn yn Atodiad 2 o'r AMB. Roedd 92 uned (34%) ar gyfer tai fforddiadwy. Mae canran y tai fforddiadwy yn cynyddu i 39% ar gyfer ceisiadau oedd yn cyfarch y trothwy ar gyfer cael cyfraniad tai fforddiadwy h.y. 2 neu fwy o unedau mewn ffin datblygu neu o fewn Clwstwr neu'n trosi adeilad allanol yn y cefn gwlad (82 o unedau fforddiadwy allan o 212 o unedau newydd).

- Cwblhawyd 360 o dai yn ystod y cyfnod monitro yma. Oherwydd cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 nid oedd posib ymweld â 48 safle er mwyn gweld os oedd yr unedau wedi ei gwblhau ai pheidio (6.5% o'r safleoedd perthnasol).
- Cwblhawyd 104 o unedau tai fforddiadwy yn 2020-21 sydd yn 29% o'r holl unedau a gwblhawyd ar gyfer eleni. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun. Yn sgil y rheoliadau yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 nid oedd yn bosib ymweld ag un safle oedd a chaniatâd presennol ar gyfer tai fforddiadwy.
- Nodir bod 3924 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2020/21, tra bod y taflwybr yn y Cynllun yn nodi cwblhau o 4475 o unedau erbyn y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 12.3% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr.
- Mae'r angen i gynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai wedi diflannu yn sgil diddymu Nodyn Cyngor Technegol 1 ar 26 Mawrth 2020. Mae dangosyddion newydd ar gyfer monitro'r Cynllun yn seiliedig ar Daflwybr Tai. Gwneir rhagdybiaeth o'r ddarpariaeth tai ar gyfer gweddill oes y Cynllun yn yr AMB.
- Mae 25% o'r unedau tai[1] a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 25% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 50% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored.
- Yn y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (2020-21), mae 31.1% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.
- Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal y Cynllun yn ystod y cyfnod AMB yw 25.8 o unedau fesul hectar.
- Caniatawyd tri safle eithrio tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (cyfanswm o 10 uned ar y safleoedd a ganiatawyd).
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i un uned marchnad leol yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol. Ni chwblhawyd yr un uned marchnad leol yng nghyfnod yr AMB hwn. Nodir mai'r CDLl ar y Cyd yw'r unig Gynllun yng Nghymru sydd gyda'r polisi yma a deallir fod Llywodraeth Cymru erbyn hyn yn edrych i ddatblygu polisi tebyg yn genedlaethol
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 60% o ganiatadau tai o'r newydd ac sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi bod ar gyfer tai fforddiadwy. Ar gyfer y 6 safle sydd efo 11+ o unedau tai a gafodd ganiatâd yn ystod 2020 i 2021 mae 2 o'r rhain yn safleoedd wedi ei dynodi yn y Cynllun, 2 ar gyfer datblygiadau 100% o dai fforddiadwy efo'r 2 safle arall yn darparu'r lefel disgwyliedig o dai fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 15.
- Allan o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy ychydig yn is na 50%.
- Ers mabwysiadu, mae'r Cynghorau wedi mabwysiadu 9 Canllaw Cynllunio Atodol.

---

1 Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

- Derbyniodd y Cynghorau 33 Apêl yn ystod y Cyfnod Monitro. Cafodd 67% o'r rhain eu gwrthod. Roedd cyfran helaeth o'r apeliadau yn ymwneud a cheisiadau deilydd tŷ neu yn geisiadau ble roedd yna faterion cynllunio yn gysylltiedig â amwynder/dylunio yn achosi pryder. Nid oedd unrhyw un o'r apeliadau a ganiatawyd yn tanseilio'r polisïau a gynhwysir yn y Cynllun.
- Ym mis Mehefin 2018, cyflwynodd Horizon gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd, a chynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus.
- Ar 22 Medi, 28 Medi a 18 Rhagfyr 2020 anfonodd Horizon ohebiaeth at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ohirio penderfyniad Cais am Orchymyn Datblygu Wylfa Newydd. Nodwyd mai'r rheswm dros ofyn am ohirio oedd trafodaethau parhaus gyda thrydydd parti a oedd wedi mynegi diddordeb mewn datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd.
- Ar y 27ain o Ionawr 2021 tynnwyd y Cais am Orchymyn Datblygu yn ôl gan Bŵer Niwclear Horizon. Tynnwyd y cais yn ôl oherwydd diffyg buddsoddwyr yn y prosiect a diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth.
- Un o amcanion strategol y CDLl ar y Cyd yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig, mae'r amcan hynny wedi bod yn llwyddiannus yn ystod cyfnod AMB, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer defnyddiau cyflogaeth sydd yn cynnwys, er enghraifft, creu busnesau storio carafanau a busnesau prosesu a phecynnu bwyd (Polisi CYF 6).
- Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio i gynlluniau adnewyddadwy sydd â'r potensial i gyfrannu cyfanswm o 3.9GWh o fewn ardal y CDLl ar y Cyd.
- Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2021 dim ond 52.4 GWh ar gyfer trydan a dim GWh ar gyfer gwres sydd wedi cael ei baratoi. Felly nid yw'r targed o 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib ar gyfer gwres a thrydan yn cael ei ddarparu erbyn 2021 wedi cael ei gyflawni.

2.7 Bydd casgliadau'r AMB yma ynghyd a'r AMB blaenorol yn darparu sail tystiolaeth bwysig wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.. Fel yr amlinellir uchod ac yn yr Adroddiad yn atodiad 1 nid yw rhai targedau polisi yn cael eu cyrraedd, fodd bynnag, mae rhan helaeth o rhain yn ymwneud â materion sydd y tu allan i reolaeth y CDLl ar y Cyd. Mae'r CDLl yn darparu fframwaith polisi i gefnogi datblygiadau priodol o fewn ardal y cynllun. Mae'r targedau polisi nad ydynt wedi'u cyrraedd yn ymwneud a datblygiad economaidd; CGD Wylfa Newydd, datblygiadau ar dir cyflogaeth, nifer y bobl sy'n cymudo allan o Ynys Môn ar gyfer gwaith a thargedau ynni adnewyddadwy. Ni all y CDLl fodloni'r targedau sydd wedi ei osod yn y fframwaith fonitro ar ben ei hun. Bu nifer o newidiadau cyd-destunol mawr ers mabwysiadu'r CDLl ac mae'r newidiadau yma yn ymwneud yn rhannol neu'n gyfan gwbl â'r targedau polisi nad ydynt wedi'u cyrraedd, megis tynnu'r cais CGD yn ôl, y pandemig byd-eang, Brexit a chyhoeddi Cymru'r Dyfodol. Mae'r rhain i gyd yn faterion pwysig y bydd yn cael ei eu hadolygu ochr yn ochr â'r targedau polisi eraill fel rhan o'r Adroddiad Adolygu a byddant wedyn yn cael sylw wrth ddiwygio'r CDLl. Fel y gwelir o'r canfyddiadau allweddol ym mharagraff 2.6 mae'r CDLl yn dal i gyflawni ar gyfer ardal y cynllun er nad yw rhai targedau

polisi'n cael eu cyrraedd ac ystyrir bod y CDLl yn parhau i ddarparu fframwaith cynllunio cadarn ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio a diwallu anghenion ardal y cynllun. Nid oes unrhyw bryderon eraill ynglŷn â'r dangosyddion monitro a bydd perfformiad y CDLl yn parhau i gael ei fonitro.

## 3. Adolygu'r Cynllun

3.1 Mae aelodau yn ymwybodol fod Gorffennaf 2021 wedi nodi 4 blynedd ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd ac felly yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd wrthi'n cwblhau'r Adroddiad Adolygu gyda'r nod o gyflwyno i gyfarfod o'r Panel Polisi Cynllunio ar y Cyd ddechrau'r mis yma. Mae AMB3 a'r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol yn sylfaen dystiolaeth bwysig ar gyfer adolygu'r CDLl gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth am sut mae'r Cynllun wedi perfformio ers ei fabwysiadu. Rhaid i'r Adroddiad Adolygu ddod i gasgliad ynglŷn â'r math o ddiwygiad y bydd angen ei wneud, adolygiad ffurf fer neu adolygid llawn h.y. cynllun newydd

3.2 Pan benderfynir pa fath o adolygiad sy'n angenrheidiol, **bydd rhaid dilyn camau sydd yn y Rheoliadau, sy'n cynnwys paratoi drafft, ymgynghoriad cyhoeddus ac archwiliad cyhoeddus cyn gellir mabwysiadu cynllun newydd neu gynllun diwygiedig**.

## 4. Argymhelliad

4.1 Bod y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd dderbyn Adroddiad Monitro Blynyddol 3 (Atodiad 1) a chytuno i gyflwyno i'r Llywodraeth erbyn diwedd mis Hydref 2021

**Atodiad 1:Adroddiad Monitro Blynyddol Ebrill 2020 – Mawrth 2021.**

**Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn**
**2011-2026**


# ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL (DRAFFT)
# 1 EBRILL 2020 – 31 MAWRTH 2021
**3ydd Adroddiad Monitro Blynyddol**

**Cynnwys**

CRYNODEB GWEITHREDOL ........ 2
Casgliadau Allweddol yr AMB ........ 5
Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd ........ 7
PENNOD 1: CYFLWYNIAD ........ 8
Beth yw'r AMB? ........ 9
Dangosyddion ........ 9
Trothwyon ........ 10
Camau gweithredu ........ 10
Adolygu'r Cynllun ........ 12
Strwythur a chynnwys ........ 12
PENNOD 2: DADANSODDI NEWID CYD-DESTUNOL ARWYDDOCAOL ........ 14
Y CYD- DESTUN CENEDLAETHOL ........ 14
Y CYD- DESTUN RHANBARTHOL ........ 17
Y CYD- DESTUN LLEOL ........ 18
CASGLIAD ........ 22
PENNOD 3: DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION ........ 23
6.1 Cymunedau Diogel, Nodedig, Iach a Bywiog ........ 25
6.2 Byw'n Gynaliadwy ........ 39
6.3 Economi ac Adfywio ........ 55
6.4 Cyflenwad ac ansawdd tai ........ 75
6.5 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig ........ 114
PENNOD 4: CASGLIADAU AG ARGYMHELLION ........ 123
Atodiad 1 - Monitro'r Arfarniad Cynaliadwyedd ........ 126
Atodiad 2 – Dosbarthiadau caniatadau preswyl ........ 141
Atodiad 3 – Darpariaeth o dir ar gyfer tai ........ 148

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

i. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl ar y Cyd) ar 31 Gorffennaf 2017. Mae ardal y CDLl ar y Cyd yn cynnwys Ynys Môn ac ardal Awdurdod Cynllunio Gwynedd. Nid yw'n cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.




ii. Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses o lunio cynllun. Monitro yw'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a'r gwaith llunio polisïau, gweithredu polisïau, gwerthuso ac adolygu'r cynllun. Mae'r Fframwaith Monitro wedi'i nodi ym Mhennod 7 o'r CDLl ar y Cyd. Mae'n cynnwys cyfanswm o 70[1] o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro

[1] Bydd AMB yn adrodd ar 60 o ddangosyddion. Mae'r targed ar gyfer 5 o'r dangosyddion wedi ei gyrraedd yn ystod cyfnod AMB1 ac ar gyfer 5 arall yn ystod cyfnod AMB2. Gan hynny nid oes angen parhau i fonitro'r dangosyddion yma.


effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau. Mae’n cynnwys cyfres o dargedau ac yn diffinio trothwyon sy’n sbardun i arwain at weithredu pellach, pan fydd angen hynny. Cafodd y Fframwaith Monitro ei ddatblygu yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Cymru a gafodd ei ystyried yn yr Archwiliad Cyhoeddus o’r CDLl ar y Cyd.



iii. Fel rhan o broses statudol y cynllun datblygu, mae’n rhaid i'r Cynghorau baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB). Y Fframwaith Monitro yw sylfaen yr AMB. Bydd yr AMB yn cofnodi’r gwaith o asesu’r dangosyddion ac unrhyw newidiadau cyd-destunol pwysig a allai ddylanwadu ar weithredu’r CDLl ar y Cyd. Dros gyfnod amser mae'n gyfle i'r Cynghorau asesu effaith y CDLl ar y Cyd ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ardal y Cynllun.

iv. Hwn yw'r trydydd AMB i gael ei baratoi ers i'r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu. Mae'r AMB hwn yn edrych ar y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021. Mae’n ofynnol cyflwyno’r Adroddiad i Lywodraeth Cymru a’i gyhoeddi ar wefannau’r Cynghorau erbyn 31 Hydref. Yn sigl pandemig Covid-19, nid oedd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno’r Adroddiad Monitro Blynyddol ffurfiol i’r Llywodraeth erbyn mis Hydref 2020, gan hynny, eleni, fe fydd yr 2ail AMB sydd yn berthnasol i gyfnod Ebrill 2019 hyd at Fawrth 2020 ynghyd a’r trydydd AMB (sef yr AMB yma) yn cael ei gyflwyno i’r Llywodraeth yn Hydref 2021.

v. Yn ystod cyfnod AMB 4 (1af o Ebrill 2021 hyd at 31 Mawrth 2022) fe fydd yna gyfnod o 4 mlynedd wedi bod ers mabwysiadu’r Cynllun (erbyn 31 Gorffennaf 2021). Gan hynny, fe fydd yn ofynnol mynd ati i gychwyn y broses o adolygu’r Cynllun yn ystod y cyfnod yma. Fe fydd y wybodaeth sydd yn deillio o’r AMB yma (AMB3) ynghyd a’r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol (AMB 1 a 2) yn sail dystiolaeth bwysig yn ystod y broses o gynnal yr adolygiad o’r Cynllun.

vi. Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

| **Symbol** | **Disgrifiad** | **Nifer o Ddangosyddion** |
|---|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu’n well na’r disgwyliadau. | 32 |
|  | Nid yw’r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny’n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. | 23 |

| | | |
|---|---|---|
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. | 5 |
|  | Nid oes casgliad – mae'r data sydd ar gael yn brin. | 0 |
| Dangosyddion sydd wedi ei gyflawni | | 10 |

vii. Ceir crynodeb byr o'r canlyniad o asesu'r dangosyddion yn y tabl canlynol:

**Tabl A: Crynodeb o gasgliadau'r asesiad o ddangosyddion y Fframwaith Fonitro**

| **Asesiad** | **Gweithred** | **Nifer o ddangosyddion yn y categori** |
|---|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro | 59 |
| Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir | Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod | 0 |
| Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol. | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun. | 0 |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu | Adolygu'r polisi yn unol â hynny | 0 |

| | | |
|---|---|---|
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu | Adolygu'r Cynllun | 0 |
| Targed wedi ei gyflawni. | Dim angen gweithrediad pellach. | 1 |

viii. Fel y gwelir uchod, nid yw mwyafrif y dangosyddion angen unrhyw weithred bellach ar wahân i barhau i fonitro. Mae rhai dangosyddion wedi eu lliwio mewn llwyd gan eu bod wedi eu cyflawni ac felly nid oes angen unrhyw weithredu pellach ac o'r herwydd nid ydynt wedi eu nodi uchod.

ix. Mae nifer bach o ddangosyddion yn ymwneud â pharatoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA), a gweler nad yw'r gyfres o CCA wedi eu paratoi erbyn y dyddiad targed. Ym mhob achos, fodd bynnag, cofnodir rhesymau i gyfiawnhau'r oedi wrth baratoi'r CCA a dangosir byddant yn cael eu hystyried ar gyfer eu mabwysiadu cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl. Ble fo dangosydd yn ymwneud â CCA sydd wedi ei fabwysiadu mae'r weithred wedi ei liwio'n llwyd gan nad yw unrhyw weithredu pellach yn angenrheidiol mewn perthynas â'r dangosydd.

x. Wrth asesu perfformiad y CDLl ar y Cyd, yn ogystal ag ystyried y dangosyddion, mae rhaid i'r AMB ystyried unrhyw newidiadau cyd-destunol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sydd wedi digwydd yn y flwyddyn flaenorol. Rhaid hefyd ystyried effaith ganlyniadol y newidiadau hyn ar y CDLl ar y Cyd.

**Casgliadau Allweddol yr AMB**

- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 275 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2020/21. Gweler dosbarthiad y caniatadau hyn yn Atodiad 2 o'r AMB. Roedd 92 uned (34%) ar gyfer tai fforddiadwy. Mae canran y tai fforddiadwy yn cynyddu i 39% ar gyfer ceisiadau oedd yn cyfarch y trothwy ar gyfer cael cyfraniad tai fforddiadwy h.y. 2 neu fwy o unedau mewn ffin datblygu neu o fewn Clwstwr neu'n trosi adeilad allanol yn y cefn gwlad (82 o unedau fforddiadwy allan o 212 o unedau newydd).
- Cwblhawyd 360 o dai yn ystod y cyfnod monitro yma. Oherwydd cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 nid oedd posib ymweld â 48 safle er mwyn gweld os oedd yr unedau wedi ei gwblhau ai peidio (6.5% o'r safleoedd perthnasol).
- Cwblhawyd 104 o unedau tai fforddiadwy yn 2020-21 sydd yn 29% o'r holl unedau a gwblhawyd ar gyfer eleni. Noder nad yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun. Yn sgil y rheoliadau yn gysylltiedig â phandemig Covid-19 nid oedd yn bosib ymweld ag un safle oedd a chaniatâd presennol ar gyfer tai fforddiadwy.

- Nodir bod 3924 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2020/21, tra bod y taflwybr yn y Cynllun yn nodi cwblhau o 4475 o unedau erbyn y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 12.3% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr.
- Mae'r angen i gynnal cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai wedi diflannu yn sgil diddymu Nodyn Cyngor Technegol 1 ar 26 Mawrth 2020. Mae dangosyddion newydd ar gyfer monitro'r Cynllun yn seiliedig ar Daflwybr Tai. Gwneir rhagdybiaeth o'r ddarpariaeth tai ar gyfer gweddill oes y Cynllun yn yr AMB.
- Mae 25% o'r unedau tai[2] a ganiatawyd yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol o fewn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol. Mae 25% o'r unedau wedi'u caniatáu o fewn y Canolfannau Gwasanaeth Lleol gyda 50% pellach wedi'u caniatáu mewn Pentrefi, Clystyrau ac yng Nghefn Gwlad Agored.
- Yn y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (2020-21), mae 31.1% o'r unedau tai a gwblhawyd yn ardal y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd wedi'u lleoli ar safleoedd sydd wedi'u clustnodi ar gyfer tai.
- Dwysedd cyfartalog y caniatadau tai newydd yn ardal y Cynllun yn ystod y cyfnod AMB yw 25.8 o unedau fesul hectar.
- Caniatawyd tri safle eithrio tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol (cyfanswm o 10 uned ar y safleoedd a ganiatawyd).
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i un uned marchnad leol yn ystod y cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol. Ni chwblhawyd yr un uned marchnad leol yng nghyfnod yr AMB hwn. Nodir mai'r CDLl ar y Cyd yw'r unig Gynllun yng Nghymru sydd gyda'r polisi yma a deallir fod Llywodraeth Cymru erbyn hyn yn edrych i ddatblygu polisi tebyg yn genedlaethol
- Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae dros 60% o ganiatadau tai o'r newydd a sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi bod ar gyfer tai fforddiadwy. Ar gyfer y 6 safle sydd efo 11+ o unedau tai a gafodd ganiatâd yn ystod 2020 i 2021 mae 2 o'r rhain yn safleoedd wedi ei dynodi yn y Cynllun, 2 ar gyfer datblygiadau 100% o dai fforddiadwy efo'r 2 safle arall yn darparu'r lefel disgwyliedig o dai fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 15.
- Allan o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy ychydig yn is na 50%.
- Ers mabwysiadu, mae'r Cynghorau wedi mabwysiadu 9 Canllaw Cynllunio Atodol.
- Derbyniodd y Cynghorau 33 Apêl yn ystod y Cyfnod Monitro. Cafodd 67% o'r rhain eu gwrthod. Roedd cyfran helaeth o'r apeliadau yn ymwneud a cheisiadau deilydd tŷ neu yn geisiadau ble roedd yna faterion cynllunio yn gysylltiedig a amwynder/dylunio yn achosi pryder. Nid oedd unrhyw un o'r apeliadau a ganiatawyd yn tanseilio'r polisïau a gynhwysir yn y Cynllun.
- Ym mis Mehefin 2018, cyflwynodd Horizon gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd, a chynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus. Ar 22 Medi, 28 Medi a 18 Rhagfyr 2020 anfonodd Horizon ohebiaeth at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ohirio penderfyniad Cais am Orchymyn Datblygu Wylfa Newydd. Nodwyd mai'r rheswm dros ofyn am ohirio oedd trafodaethau parhaus gyda thrydydd parti a oedd wedi mynegi diddordeb mewn datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd. Ar y 27ain o Ionawr 2021 tynnwyd y Cais am Orchymyn Datblygu yn ôl gan Bŵer Niwclear Horizon. Tynnwyd y cais

2 Caniatâd newydd am dai neu ganiatâd i ailasesu ac ymestyn y dyddiad pan fo caniatâd blaenorol yn dod i ben

yn ôl oherwydd diffyg buddsoddwyr yn y prosiect a diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth.


- Un o amcanion strategol y CDLl ar y Cyd yw hwyluso amrywiaeth yn yr economi wledig, mae'r amcan hynny wedi bod yn llwyddiannus yn ystod cyfnod AMB, gyda caniatadau wedi cael ei roi ar gyfer defnyddiau cyflogaeth sydd yn cynnwys, er enghraifft, creu busnesau storio carafanau a busnesau prosesu a phecynnu bwyd (Polisi CYF 6).
- Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio i gynlluniau adnewyddadwy sydd â'r potensial i gyfrannu cyfanswm o 3.9GWh o fewn ardal y CDLl ar y Cyd.
- Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2021 dim ond 52.4 GWh ar gyfer trydan a dim GWh ar gyfer gwres sydd wedi cael ei baratoi. Felly nid yw'r targed o 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib ar gyfer gwres a trydan yn cael ei ddarparu erbyn 2021 wedi cael ei gyflawni.

**Monitro'r Asesiad Cynaliadwyedd**

xi. Mae Atodiad 1 yn darparu asesiad manwl o berfformiad y CDLl yn erbyn amcanion monitro'r AC. Nodwyd dangosyddion manwl i ddarparu tystiolaeth fwy penodol ar gyfer perfformiad y CDLl yn erbyn yr Amcanion AC a amlinellwyd yn y CDLl.

## PENNOD 1: CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl ar y Cyd) a fabwysiadwyd ar 31 Gorffennaf 2017 yn darparu fframwaith defnydd tir a fydd yn sail i benderfyniadau ynghylch datblygu yn ardal y Cynllun yn ystod oes y CDLl ar y Cyd (hyd at 2026). Nid yw ardal y Cynllun yn cynnwys y rhannau o Wynedd sydd oddi mewn i Barc Cenedlaethol Eryri.




1.2 Mae Isadran 76 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn gofyn bod y Cynghorau'n cynhyrchu Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) am eu CDLl ar y Cyd ar ôl ei fabwysiadu a chadw llygad rheolaidd ar bob mater y disgwylir iddo effeithio ar ddatblygiad ardal y CDLl ar y Cyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar beth ddylid ei gynnwys mewn AMB. Bydd angen cyflwyno'r AMB i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefannau'r Cynghorau

erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu’r CDLl ar y Cyd, cyn belled bod blwyddyn ariannol gyfan (1 Ebrill - 31 Mawrth) wedi mynd heibio ers dyddiad mabwysiadu’r CDLl ar y Cyd.

1.3 Dyma'r trydydd AMB i’w baratoi ers mabwysiadu’r Cynllun. Mae'r AMB hwn yn edrych y cyfnod rhwng 1af o Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021. Fel arfer mae’n ofynnol cyflwyno’r Adroddiad i Lywodraeth Cymru a’i gyhoeddi ar wefannau’r Cynghorau erbyn diwedd Hydref o’r flwyddyn berthnasol. Oherwydd pandemig Covid-19, nid oedd yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno’r Adroddiad Monitro Blynyddol i’r Llywodraeth y flwyddyn ddiwethaf, gan hynny, eleni, fe fydd yr 2ail AMB sydd yn berthnasol i gyfnod Ebrill 2019 hyd at Fawrth 2020 ynghyd a’r 3ydd AMB (sef yr AMB yma) yn cael ei gyflwyno i’r Llywodraeth yn Hydref 2021.

**Beth yw’r AMB?**

1.4 Mae'r AMB yn darparu cyfle i gofnodi asesiadau o faterion pwysig a allai ddylanwadu ar y gallu i gyflawni'r CDLl ar y Cyd a chasgliadau’r gwaith hwnnw, yn ogystal â hygrededd y CDLl ar y Cyd o safbwynt cynaliadwyedd. Bydd canlyniadau'r broses fonitro hon yn bwydo i'r dadansoddiad parhaus o'r CDLl ar y Cyd. Bydd gofyn bod y Cynghorau’n cynnal adolygiad ffurfiol o'r CDLl ar y Cyd bob 4 blynedd fan bellaf o’r adeg y cafodd y Cynllun ei fabwysiadu gyntaf, sef y 31 Gorffennaf 2021 yng nghyd destun y CDLl ar y Cyd. Fe fydd casgliadau’r AMBau yn cyfrannu at sail yr adolygiad o’r CDLl ar y Cyd.

1.5 Y Fframwaith Monitro yw prif sylfaen yr AMB. Mae’r Fframwaith Monitro wedi’i nodi ym Mhennod 7 o’r CDLl ar y Cyd. Mae’n cynnwys cyfanswm o 69 (wedi ei ddiwygio i 70, gweler para 1.6 isod) o ddangosyddion sy'n cael eu defnyddio i fonitro effeithiolrwydd y Cynllun a'i bolisïau.

**Dangosyddion**

1.6 Mae yna ddisgwyliad o fewn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol (Argraffiad 3) i bob fframwaith fonitro gynnwys dangosyddion allweddol yn ymwneud a’r canlynol

**Tabl 1: Dangosyddion Craidd**

| Dangosydd craidd | Cyfeirnod yn y Fframwaith Fonitro |
|---|---|
| Dosbarthiad gofodol datblygiad tai | D25 |
| Y lefelau cwblhau tai fforddiadwy blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig. | D47 |
| Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronnol disgwyliedig. | D44 |

| | |
|---|---|
| Nifer o dai fforddiadwy adeiladwyd o'i gymharu â'r targed sydd yn y Cynllun. | D47 |
| Pa fath o dai fforddiadwy adeiladwyd (daliadaeth). | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Tir cyflogaeth a ddefnyddiwyd yn erbyn dyraniadau. | D32 & D33 |
| Hyfywdra'r farchnad ar gyfer datblygiadau tai. | D50 |
| Graddfa datblygu ar ddynodiadau tai. | D45 & D46 |
| Datblygu prosiectau isadeiledd allweddol. | Dim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd. |
| Safleoedd llety Sipsiwn a Theithwyr sydd wedi eu datblygu. | D56, D57 & D58 |
| Graddfa/math y datblygiad agored iawn i niwed a ganiateir o fewn ardaloedd perygl llifogydd C2. | D18 |

1.7 Mae'r Fframwaith Fonitro hefyd yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion lleol a chyd-destunol a nodwyd gan y Cynghorau sy'n ymwneud â chyd-destun ardal y CDLl ar y Cyd a materion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol ehangach yn eu tro.

1.8 Mae angen monitro pob un o'r dangosyddion hyn a bydd natur y data a gesglir yn amrywio o un i'r nesaf. Mae rhai yn ffeithiol (e.e. a oes datblygiad neu CCA wedi cael ei gyflawni o fewn yr amserlen arfaethedig?), tra bydd eraill yn galw am gasglu data a monitro dros gyfnod hwy (e.e. ffigurau cwblhau tai).

**Trothwyon**

1.9 Mae gan bob un o'r dangosyddion drothwy penodol sy'n nodi ar ba adeg gallai fod angen rhoi ystyriaeth bellach i weithrediad y polisi a/neu ei asesu. Gallai hyn olygu bod rhaid cyflawni cynllun erbyn dyddiad penodol, os yw'r cynnydd yn syrthio o dan y gofyniad cronnol dros gyfnod penodedig, neu os caniateir datblygiad yn groes i'r fframwaith polisi. Unwaith cyrhaeddir trothwy, mae'n rhaid ystyried y camau gweithredu sy'n ofynnol i geisio unioni'r sefyllfa (gweler isod).

**Camau gweithredu**

1.10 Mae'r Fframwaith Monitro'n nodi ystod o gamau gweithredu y gellir eu cyflawni a allai fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg casglu data neu ganlyniadau annisgwyl. Fe allai methiant a chyflawni targed penodol olygu fod y polisi hwnnw (neu'r Cynllun cyfan) angen bod yn destun adolygiad.

1.11 Mae Tabl 2 isod yn nodi'r camau gweithredu posibl a allai ddeillio o'r monitro ac fe'u nodir yn y Fframwaith Monitro sydd ym Mhennod 7 y CDLl ar y Cyd. Mae sawl opsiwn posibl i helpu i


ymdrin â dangosyddion sy'n rhoi'r argraff o beidio â chyflawni'n unol â'r disgwyl. Er mwyn cynorthwyo gyda'r dehongli ar y monitro a wnaed, defnyddiwyd cynllun lliwiau syml, a ddangosir yn Nhabl 3 isod, i ddangos sut mae'r dangosydd yn perfformio.

**Tabl 2: Camau gweithredu posibl**

| Asesiad | Gweithred |
|---|---|
| Ble mae dangosyddion yn awgrymu fod polisïau CDLl yn cael eu gweithredu'n effeithiol | Dim gweithred bellach ei angen heblaw am barhau gyda monitro |
| Asesiad o'r penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn awgrymu nad yw polisïau yn cael eu gweithredu yn y modd y'i bwriedir | Efallai bod angen hyfforddi Swyddog a / neu Aelod |
| Asesiad yn awgrymu bod angen canllaw pellach yn ychwanegol i'r rhai sydd wedi eu hadnabod yn y Cynllun er mwyn i) egluro sut ddylai gweithredu polisi yn gywir, neu ii) i hwyluso datblygiad safleoedd penodol. | Cyhoeddi Canllaw Cynllunio Atodol ychwanegol, a all gynnwys briffiau datblygu safleoedd penodol, gweithio'n agos gyda'r sector breifat a darparwyr isadeiledd, ble'n berthnasol. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi mor effeithiol a disgwyliwyd iddo fod. | Ymchwil pellach ac ymchwiliad ei angen, gan gynnwys edrych ar wybodaeth gyd-destunol am ar ardal y Cynllun neu faes testun. |
| Asesiad yn awgrymu nad yw polisi yn cael ei weithredu | Arolygu'r polisi yn unol â hynny |
| Asesiad yn awgrymu nad yw'r strategaeth yn cael ei weithredu | Arolygu'r Cynllun |
| Targed wedi ei gyflawni | Dim angen gweithrediad pellach |

**Tabl 3: Symbolau monitro**

| | |
|---|---|
| ✓ | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu'n well na'r disgwyliadau. |
| – | Nid yw'r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny'n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
| X | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |

| | |
|---|---|
|  | Nid oes casgliad – mae’r data sydd ar gael yn brin. |

**Adolygu’r Cynllun**

1.12 Bydd y Cynghorau’n rhoi ystyriaeth i gasgliadau cyfres o AMBau wrth ddod i benderfyniad yng nghylch a oes angen adolygu’r Cynllun (yn rhannol neu’n llawn) cyn cyfnod statudol o 4 blynedd. Mae Tabl 4 isod yn cyfeirio at esiamplau o drothwyon allai fod yn sbardun ar gyfer cynnal adolygiad cyn y cyfnod adolygiad statudol, gan gofio wrth gwrs fod 4 blynedd yn dod i ben ar y 31Gorffennaf 2021.

**Tabl 4 – trothwyon i gynnal adolygiad cyn yr adolygiad statudol**

| **Trothwyon i gynnal adolygiad cyn yr adolygiad statudol – mae’r amgylchiadau’n effeithio ar gadernid y cynllun** | | |
|---|---|---|
| 1 | Casgliadau’r Adroddiad Monitro Blynyddol | Pryderon sylweddol dros gyfnod o amser yn ymwneud â gweithredu strategaeth y cynllun, gan gynnwys effeithiolrwydd polisi, cyfraddau cynnydd a gweithredu yn unol â thueddiadau a gofnodir. |
| 2 | Newidiadau mewn polisi cenedlaethol neu ddeddfwriaeth | Newid sylweddol mewn polisi cenedlaethol a / neu ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar y cynllun strategaeth / polisïau allweddol. |
| 3 | Newid cyd-destunol | Newid sylweddol yn y cyd-destun mae’r cynllun yn gweithredu o'i fewn. |
| 4 | Rhan 61 Deddf Cynllunio a Phryniant Gofodol 2004 | Canlyniadau annisgwyl a sylweddol o dystiolaeth a gasglwyd drwy arolygon a ddiweddarwyd sy’n effeithio ar weithredu strategaeth y cynllun. |

**Strwythur a chynnwys**

1.13 Dyma strwythur gweddill yr AMB hwn.

**Tabl 5: Strwythur yr AMB**

| **Pennod** | **Cynnwys yn fras** |
|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Dadansoddi newid cyd-destunol sylweddol | Crynodeb ac adolygiad o faterion cyd-destunol ehangach o fewn yr hyn mae’r CDLl yn gweithredu ynddo, e.e. deddfwriaeth/ strategaethau/polisïau allanol. |
| 3 | Dadansoddiad o ddangosyddion | Manylion canfyddiadau'r gwaith o fonitro Dangosyddion y CDLl ar y Cyd (yn nhrefn y CDLl ar y Cyd) |
| 4 | Casgliad ac argymhellion | Adnabod newidiadau gofynnol i’r cynllun yn ystod adolygiad statudol neu a sbardunwyd yn gynharach, os yw’n briodol. |
| 5 | Atodiadau | 1. Canlyniadau dangosyddion Asesiad Cynaliadwyedd - Yn ymwneud â’r Adroddiad AC a’r asesiad integredig.<br>2. Cydymffurfiaeth y CDLl ar y Cyd a’r Ddeddf Llesiant (2015) |

1.14 Dylai strwythur yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn ei gwneud yn rhwydd cymharu un gyda’r llall. Fodd bynnag, o gofio bod y broses fonitro yn dibynnu ar amrywiaeth eang o wybodaeth ystadegol a ffeithiol a gyrchir gan y Cynghorau a ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i’r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu beidio bod yn gyfoes. Yn unol â hynny, efallai y bydd AMB dilynol yn gorfod nodi unrhyw ystyriaethau o’r math hwn.

## PENNOD 2: DADANSODDI NEWID CYD-DESTUNOL ARWYDDOCAOL

2.1 Yn ystod y cyfnod monitro, mae nifer o ddogfennau polisi/canllawiau newydd/diweddariad wedi'u eu cyhoeddi, ac mae deddfwriaeth newydd wedi cael ei chyflwyno. Mae'n bwysig deall y gwahanol ffactorau a all effeithio ar berfformiad y CDLl ar y Cyd, o'r lefelau byd-eang a chenedlaethol, i lawr i bolisïau a chanllawiau lleol y Cynghorau eu hunain. Mae rhai newidiadau yn amlwg yn hollol allan o reolaeth y Cynghorau. Mae’r Bennod hwn yn rhoi trosolwg cryno o’r deunydd cyd- destunol perthnasol a gafodd ei gyhoeddi yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae’n cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisïau a strategaethau ar lefel cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Amlinellir unrhyw oblygiadau cyffredinol posibl ar gyfer y CDLl ar y Cyd yn ei gyfanrwydd lle y bo'n briodol. Mae tueddiadau economaidd cyffredinol sydd wedi digwydd yn ystod cyfnod yr AMB yma hefyd yn cael eu hadnabod. Rhoddir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i faes polisi penodol yn y CDLl ar y cyd yn adran dadansoddi polisi perthnasol er hwylustod ac felly nid yw’n cael ei ailadrodd yma.

### Y CYD- DESTUN CENEDLAETHOL

### NEWIDIADAU I DDEDDFWRIAETH

**Newidiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995**

2.2 Ar y 21 Rhagfyr 2020 daeth y newidiadau o’r Gorchymyn uchod i rym sy’n ymwneud â:

<u>Rhan 6A Mannau Tyfu Cymunedol Newydd</u>

2.3 Mae'r Rhan 6A newydd yn darparu hawliau datblygu a ganiateir (HDGau) ar gyfer gwaith datblygu sy'n cynnwys codi, estyn, addasu neu ddisodli siediau storio a thai gwydr mewn ‘man tyfu cymunedol’, sydd, at ddibenion y ddeddfwriaeth, wedi'i ddiffinio fel a ganlyn:

(a) rhandir gan gynnwys gardd rhandir o fewn ystyr Deddf Rhandiroedd 1922; neu

(b) unrhyw dir arall a ddefnyddir neu y bwriedir ei ddefnyddio -

i. gan un neu fwy o gymunedau,

ii. yn gyfan gwbl neu'n bennaf i dyfu llysiau, ffrwythau, perlysiau neu flodau,

iii. mewn ffordd nad yw'n anelu at wneud elw.

<u>Rhan 24 Datblygu Telathrebu gan Weithredwyr Cod Cyfathrebu Electronig (Cymru)</u>

2.4 Cafodd Rhan 24 ei diweddaru ddiwethaf ym mis Ebrill 2019 gan Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2019. Gwnaeth yr orchymyn diwygio 2019 ddisodli'r Rhan 24 flaenorol yn ei chyfanrwydd. Fodd bynnag, roedd darpariaethau yn ymwneud â diwygio diffiniad a nodweddion rhai antenâu ar adeiladau, yn bennaf antena bach ac antena cell fach, yn weddill o hyd. Pwrpas y diweddariad yma yw’r

gallu i gyflwyno Technoleg 4G a 5G yn fwy effeithiol yn yr amgylchedd stryd ac mewn mannau eraill, ynghyd â busnesau a gwasanaethau digidol mwy newydd y bwriedir i'r cyfarpar hwn eu cefnogi hefyd.

2.5 Y prif newidiadau yw:

- Yn lle'r termau "small antenna" a "small cell antenna", a'r diffiniadau ohonynt, rhodder y term "small cell system",
- Defnyddir diffiniad newydd o "small cell system" yn seiliedig ar y diffiniad blaenorol o "small cell antenna"
- Estynnir hawliau datblygu a ganiateir mewn perthynas â gwaith datblygu sy'n cynnwys gosod, addasu neu ddisodli system cell fach (ni fu unrhyw newid i'r cyfyngiadau ar osod cyfarpar ar anheddau ac adeiladau eraill)
- Mewn ardaloedd gwarchodedig (heblaw am Ardal Gadwraeth a Safle Treftadaeth y Byd), caniateir 2 antena o'r fath ar annedd, ond ar adeiladau neu strwythurau (heblaw am annedd) ni chyfyngir ar y niferoedd.
- Mewn Ardaloedd Cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd, caniateir 1 antena o'r fath ar annedd, a chaniateir 2 antena o'r fath ar adeilad neu strwythur (heblaw am annedd).

**Cyfarwyddeb 2018/1972 yr UE Senedd Ewrop**

2.6 Mae Erthygl 57 o Gyfarwyddeb 2018/1972 yr UE yn ymwneud â defnyddio Pwyntiau Mynediad Di-wifr Ardal Fach (PMDAFau). Caiff PMDAFau eu diffinio yn Erthygl 2(23) o'r Gyfarwyddeb, ac at ddibenion Rhan 24 mae gan PMDAF yr un swyddogaeth â system cell fach. Dywed Erthygl 57 na chaiff awdurdodau cymwys gyfyngu ar y defnydd o PMDAFau yn ddiangen.

2.7 Y prif newidiadau i Ran 24 o ganlyniad i Gyfarwyddeb 2018/1972 yr UE yw:

- Ceir diffiniad o systemau cell fach Rheoliad 2020/1070.
- Mewnosodir system cell fach Rheoliad 2020/1070 lle y bo'n briodol yn nhestun Rhan 24.
- Mewn ardaloedd gwarchodedig (heblaw am Ardal Gadwraeth a Safle Treftadaeth y Byd), caniateir systemau cell fach Rheoliad 2020/1070 ar annedd, ond ar adeiladau neu strwythurau (heblaw am annedd) ni chyfyngir ar y niferoedd.
- Mewn Ardaloedd Cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd, caniateir 1 antena o'r fath ar annedd, a chaniateir 2 antena o'r fath ar adeilad neu strwythur (heblaw am annedd).
- Mewn ardaloedd gwarchodedig ac ar Safleoedd Treftadaeth y Byd, mae cyfyngiadau ar leoliad antena ar anheddau ac adeiladau eraill yr un peth â systemau cell fach.
- Y tu allan i ardaloedd gwarchodedig, ni chyfyngir ar niferoedd antena o'r fath ar anheddau nac ar adeiladau a strwythurau eraill.

**NEWIDIADAU I BOLISI CYNLLUNIO CENEDLAETHOL**

**Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, 2021)**

2.8 Yn dilyn cyhoeddiad y fframwaith datblygu cenedlaethol (gweler isod) roedd angen diweddaru rhannau Bolisi Cynllunio Cymru i adlewyrchu prif faterion y fframwaith ac i sicrhau fod cynnwys y ddwy ddogfen yn cyd-fynd.

**Fframwaith Datblygu Cenedlaethol – Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040**

2.9 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fersiwn derfynol o Gymru'r Dyfodol ar 24 Chwefror 2021. Mae'r ddogfen hon yn disodli Cynllun Gofodol Cymru ac yn nodi fframwaith gofodol 20 mlynedd ar gyfer defnydd tir yng Nghymru. Mae Cymru'r Dyfodol yn rhan allweddol o system y cynllun datblygu yng Nghymru ac mae ar frig hierarchaeth y cynllun datblygu. Mae'n darparu fframwaith ar gyfer darparu seilwaith/twf newydd ac mae'n ceisio mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio, gan gynnwys cynnal a datblygu economi fywiog, sicrhau datgarboneiddio a gwydnwch yn yr hinsawdd, datblygu ecosystemau cryf a gwella iechyd a lles ein cymunedau. Mae gofyn i Gynlluniau Datblygu Lleol gydymffurfio gyda chynllun Cymru'r Dyfodol.

2.10 Mae Cymru'r Dyfodol yn adnabod pedwar rhanbarth ar gyfer Cymru gyfan (Gogledd, y Canolbarth, y De-ddwyrain a'r De-orllewin). Anogir Cymru'r Dyfodol system gynllunio ragweithiol gyda'r nod o greu Cymru well, gan nodi fod yr angen i baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol ar gyfer pob un o'r pedwar rhanbarth yn afr er mwyn cyflawni hynny.

**Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydnerth a Mwy Disglair – Creu Lleoedd a'r Arferiad Covid 19**

2.11 Mae'r canllaw hwn yn nodi blaenoriaethau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru i helpu i weithredu yn y cyfnod adfer yn dilyn argyfwng pandemig Covid-19. Mae'r canllaw'n rhoi'r system gynllunio yn ganolog wrth ystyried materion adeiladu a'r amgylchedd naturiol sydd wedi codi o'r pandemig. Dylid darllen y canllaw ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru ac mae'n ceisio cyfeirio at y polisïau a'r offer cynllunio allweddol ym Mholisi Cynllunio Cymru y dylid eu defnyddio er mwyn helpu y broses o adfer yn sgil y pandemig yng Nghymru.

2.12 Mae'r Canllaw'n hyrwyddo'r egwyddor o Greu Lleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru ac yn nodi'r polisïau a'r dulliau cynllunio presennol allweddol y dylai pob sector eu defnyddio fel rhan o'r adferiad amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd Cymru.

**NEWIDIADAU CENEDLAETHOL ERAILL**

**Datblygu rhwydweithiau ffonau symudol ar gyfer Cymru (2021): cod arferion gorau**

2.13 Diben y Cod yw annog cyfathrebu ac ymgynghori gwell rhwng gweithredwyr telathrebu, awdurdodau cynllunio lleol a chymunedau lleol, a helpu i safoni gweithdrefnau cynllunio ac arferion gweithredwyr er mwyn gwella cysondeb wrth wneud penderfyniadau a gweithredu. Mae'r Cod hefyd yn helpu i esbonio nodweddion technegol systemau symudol, ac yn darparu canllawiau arfer da ar leoli a dylunio datblygiadau telathrebu newydd.

2.14 Cyhoeddir y cod newydd yn sgil y ffaith fod y Côd blaenorol wedi ei dyddio a fod yna newidiadau sylweddol yn y dechnoleg wedi digwydd sydd angen ymateb iddynt.

2.15 Yn sgil cyhoeddi'r côd diweddaraf mae'n fwriad gan y Llywodraeth i adolygu/canslo TAN 19, a bydd unrhyw rannau ohono yr ystyrir eu bod yn parhau i fod yn berthnasol yn cael eu hintegreiddio i Bolisi Cynllunio Cymru.

2.16 Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Cod yn fwy cryno na'r fersiwn flaenorol. Mae'n amlinellu pwysigrwydd technoleg symudol heddiw ac yn y dyfodol mewn cymdeithas fodern, a sut y mae'n berthnasol i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru a nodir yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae'r Cod hefyd yn mynd i'r afael â lleoli a dylunio seilwaith symudol, yn enwedig ystyriaethau sy'n berthnasol i gyflwyno technolegau mwy newydd (heb amharu ar Bolisi Cynllunio Cymru na gofynion cyffredinol y Gorchymyn Datblygu a Ganiateir), a gofynion technegol a gweithredol rhwydweithiau ffonau symudol mewn gwahanol amgylchiadau. Mae'r Cod yn trafod yn fanwl y broses ymgynghori ac ymgeisio ar gyfer cynlluniau sy'n gysylltiedig â datblygu telathrebu.

**Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol, Cynghorau Tref a Chymuned**

2.17 Cyhoeddwyd yr Ail argraffiad o'r Canllaw yn dilyn llwyddiant y canllaw gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 2015. Mae'r Canllaw yn amlygu'r cyfraniad y gall rhandiroedd a gerddi cymunedol ei chwarae.

2.18 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn amlinellu bod rhwymedigaeth glir ar gyrff cyhoeddus i alluogi newid cadarnhaol sy'n arwain at Gymru fwy cydnerth, cadarn ac iach. Drwy amddiffyn a rheoli'r rhandiroedd a'r mannau tyfu a ddarperir ar hyn o bryd, mae'r canllaw yn cefnogi datblygiad rhandiroedd a phrosiectau tyfu cymunedol newydd yn ôl y galw, er mwyn helpu phob corff cyhoeddus yng Nghymru ein galluogi i greu poblogaeth iachach a hapusach a chyflenwad mwy cynaliadwy a sicr o fwyd.

2.19 Diben y canllawiau hyn yw rhannu a chynyddu arferion da a galluogi mwy o bobl i dyfu cynnyrch eu hunain

**Y CYD- DESTUN RHANBARTHOL**

**Cais Bargen Twf Gogledd Cymru**

2.20 Ym mis Rhagfyr 2017 cyflwynodd Bwrdd Twf Gogledd Cymru (partneriaeth o Awdurdodau Lleol a phartneriaid ehangach e.e. Addysg Uwch, Addysg Bellach a Chyngor Busnes Gogledd Cymru Merswy Dyfrdwy) gais Bargen Twf i Lywodraethau Cymru a'r DU am arian prosiect £383m ar gyfer Gogledd Cymru.

2.21 Bydd y cynigion yn gatalydd ar gyfer buddsoddiad cyfan o £1.3 biliwn yn economi Gogledd Cymru, elw o £3.40 am bob punt gaiff ei wario. Disgwylir y gallai dros 5,000 o swyddi gael eu creu o'r buddsoddiadau posib o fewn y Fargen Twf yn y meysydd technoleg ac arloesi, safleoedd ar gyfer busnes, cysylltedd digidol, sgiliau, trafnidiaeth a chefnogaeth Busnes.

2.22 Mae Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi llwyddo i sicrhau ymrwymiad o £240m gan Lywodraethau Cymru a'r DU.

2.23 Llofnodwyd y cytundeb Fargen Twf yn Rhagfyr 2020. Bydd gwaith nawr yn dechrau ar y pum rhaglen sy'n ffurfio'r Fargen gwerth £1bn dan arweiniad Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

**Datganiad Ardal Ogledd-orllewin Cymru - Cyfoeth Naturiol Cymru**

2.24 Mae hwn yn un o gyfres o saith Datganiad Ardal sydd wedi eu paratoi ar gyfer Gymry cyfan er cynorthwyo i ddatrys amrediad o heriau cymhleth mae'r gymdeithas, a'r amgylchedd naturiol, nawr yn eu hwynebu.

2.25 Mae'r Datganiad Ardal yn amlinellu'r heriau allweddol sy'n wynebu'r ardal, yr hyn y gellir ei wneud i wynebu'r heriau hynny a sut gellir rheoli ein hadnoddau naturiol yn well er lles cenedlaethau'r dyfodol. Bydd y Datganiad Ardal yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd a'u gwella o un flwyddyn i'r llall wrth ymgysylltu â mwy o bobl, casglu tystiolaeth newydd, cyflwyno syniadau, a gweithio ar draws ffiniau i greu cyfleoedd.

2.26 Mae'r Datganiad Ardal, ynghyd a'r chwe datganiad arall yn ymateb cydweithredol i'r hyn a elwir yn Bolisi Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2017, sy'n nodi'r prif heriau a chyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol.

**Y CYD- DESTUN LLEOL**

**Cynllun Bioamrywiaeth Corfforaethol 2021-2022 – Cyngor Sir Ynys Môn**

2.27 Mae'r Cynllun hwn wedi'i ddatblygu i sicrhau bod buddion amgylcheddol yn deillio o'r ffordd mae'r Cyngor Sir yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau wrth sicrhau cydymffurfiaeth â

gofynion adran 6 (a6) Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sef cynnal a gwella bioamrywiaeth ac, wrth wneud hynny, hyrwyddo gwytnwch ecosystemau, wrth ymgymryd â'i weithgareddau dydd i ddydd.

2.28 Nod y Cynllun hwn yw helpu i gynnal a gwella nodweddion Bioamrywiaeth unigryw Ynys Môn, gan nodi amcanion clir a chryno a fydd yn cael eu cyflawni gan y Cyngor rhwng 2021 a 2022.

2.29 Mae'r Cynllun yn dilyn canllawiau a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru ac yn ystyried amcanion Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru (sy'n adnabod gweithredoedd gall eu gwaredu yn y tymor byr gan osod trywydd i waredu ymrwymiadau tymor hir tu draw i 2020.

2.30 Cyhoeddwyd y Datganiad Ardal ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar ac ystyriwyd y Datganiad Ardal hwnnw wrth baratoi'r Cynllun hwn.

**Strategaeth Tai Interim 2021 – Cyngor Sir Ynys Môn**

2.31 Cafodd y Strategaeth Tai Interim 2020-21 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 25 Ionawr, 2021. Mae'r Strategaeth yn disodli'r Strategaeth Dai blaenorol 2014-19 ac yn ceisio i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau. Mae'r Strategaeth Dros Dro hon yn fodd i bontio'r cyfnod i ddatblygu Strategaeth Dai a fydd yn cynnwys gofynion y Grant Cymorth Tai a'r Strategaeth Ddigartrefedd gan Lywodraeth Cymru yn ogystal â rhoi gwybodaeth am sut mae Gwasanaethau Tai a phartneriaid yn ymateb i bandemig Covid-19 ac yn parhau i ymateb iddo.

2.32 Mae'r Strategaeth Interim yn amlinellu 6 thema benodol, sef:

- Thema 1 - Codi'r cartrefi priodol ar gyfer dyfodol Môn
- Thema 2 - Gwneud y defnydd gorau o'r stoc tai presennol a gwella tai a chymunedau
- Thema 3 - Atal argyfwng tai a chynyddu opsiynau tai
- Thema 4 - Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth tai
- Thema 5 - Cartrefi ar gyfer byw'n hirach
- Thema 6 - Gwireddu'n llwyr y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach

**Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 – 2026/27**

2.33 Cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu ym mis Rhagfyr 2020. Pwrpas y Cynllun Gweithredu yw amlinellu sut bydd y Cyngor yn mynd ati i geisio cyfarch yr amcanion Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd (2019) nawr a hyd at 2026/27.

2.34 Amlinellir dros 30 o gynlluniau ar draws y sir fydd yn galluogi'r Cyngor i:

- hwyluso dros 500 o dai fforddiadwy newydd i'w gwerthu neu osod i drigolion Gwynedd gan gynnwys adeiladu 100 o dai newydd;

- cynnig benthyciadau ar gyfer 250 o brynwyr tro cyntaf lleol;
- sicrhau dros 600 o dai cymdeithasol newydd i Wynedd yn cynnwys prynu 72 cyn-dŷ cymdeithasol er mwyn eu rhentu i bobl leol yn unol â pholisi gosod lleol newydd y Cyngor;
- ymestyn cynllun grantiau i ddod a 250 o dai gwag yn ôl i ddefnydd ar draws y sir;
- buddsoddi mewn cartrefi ecogyfeillgar fel y cynllun arloesol sydd ar waith ar hyn o bryd yn ardal Segontium, Caernarfon;
- datblygu 150 o unedau byw i bobl ddigartref yn y sir a chreu 130 o unedau newydd ar gyfer trigolion bregus.

2.35 Er mwyn gwireddu'r cynlluniau, bydd y Cyngor yn ail-fuddsoddi £22.9 miliwn o bremiwm treth Cyngor ar ail dai o hyn hyd 2026/27, ynghyd a defnyddio ffynonellau ariannol eraill gan gynnwys grantiau tai cymdeithasol a'r arian a ddyrannir drwy Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.

**Canllawiau Cynllunio Atodol**

2.36 Diben CCA yw:

- cynorthwyo'r ymgeiswyr a'u hasiantau i baratoi ceisiadau cynllunio a'u harwain mewn trafodaethau â swyddogion ynghylch sut i ddefnyddio polisïau perthnasol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd cyn cyflwyno ceisiadau cynllunio,
- cynorthwyo swyddogion i asesu ceisiadau cynllunio, a swyddogion a chynghorwyr i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio, a
- chynorthwyo Arolygwyr Cynllunio i wneud penderfyniadau ar apeliadau.

2.37 Er bod y Cynllun yn cynnwys polisïau sy'n galluogi'r Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud penderfyniadau cyson a thryloyw ar geisiadau datblygu, ni all rhoi'r holl gyngor manwl sydd ei angen ar swyddogion a darpar ymgeiswyr i lywio cynigion yn lleol. Er mwyn darparu'r cyngor manwl hwn, mae'r Cynghorau'n paratoi cyfres o Ganllawiau Cynllunio Atodol i gefnogi'r Cynllun gyda chanllawiau mwy manwl ar amrediad o bynciau a materion i gynorthwyo i ddadansoddi neu weithredu polisïau a chynigion y Cynllun.

2.38 Mae Atodiad 9 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys tabl o'r Canllawiau Cynllunio Atodol sydd wedi/neu a fydd yn cael eu paratoi ynghyd a'r amserlen a ragwelwyd ar gyfer y gwaith o'i baratoi. Nodir fod yr amserlen yn gysylltiedig â pharatoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol wedi llithro, mae'r rhesymau dros y llithriad yn yr amserlen yn cynnwys:

- Y drefn o adrodd a chymeradwyo'r CCA wedi bod yn destun craffu/sgriwtini o fewn y Cynghorau sydd wedi ychwanegu at yr amserlen.
- Y broses o baratoi (ymgysylltu mewnol ac allanol) wedi cymryd hirach na'r amserlen a ragwelwyd.
- Diffyg adnoddau/capasiti o fewn yr Uned.

- Diffyg galw am y Canllaw yn sgil cyhoeddi arweiniad polisi cynllunio cenedlaethol mewn perthynas â thestun y Canllaw.
- Goblygiadau pandemig Covid-19 wedi golygu gohirio cyfarfod Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd, felly methu cael penderfyniad ar ryddhau rhai o'r CCA i ymgynghori arnynt.

2.39 Mae rhai o'r dangosyddion monitro yn benodol ymwneud a pharatoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol, gweler Pennod 3 er mwyn derbyn ychwaneg o wybodaeth mewn perthynas â statws Canllawiau Cynllunio Atodol penodol.

2.40 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol wedi eu mabwysiadu yn ystod cyfnod y trydydd AMB, gan hynny maent bellach yn cael eu defnyddio fel ystyriaeth gynllunio faterol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio:-

| **Canllaw Cynllunio Atodol** | **Dyddiad mabwysiadu** |
|---|---|
| Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu | Ionawr 2021 |
| Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid | Mawrth 2021 |

**Materion eraill**

<u>Wylfa Newydd</u>

2.41 Ym mis Mehefin 2018, cyflwynodd Horizon gais am Orchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd. Cyhoeddodd Hitachi ei fwriad i ohirio'r cynnig i ddatblygu'r Orsaf Bŵer Niwclear newydd; fodd bynnag, cadarnhaodd Horizon y byddai'n parhau i fuddsoddi adnoddau i sicrhau bod y broses o archwilio'r cais yn cael ei chwblhau.

2.42 Ar 22 Medi, 28 Medi a 18 Rhagfyr 2020 anfonodd Horizon ohebiaeth at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ohirio penderfyniad y Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Nodwyd mai'r rheswm dros ofyn am ohirio oedd yn sgil trafodaethau gyda thrydydd parti a oedd wedi mynegi diddordeb mewn datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar ôl i Hitachi dynnu'n ôl. Ar y 27ain o Ionawr 2021 tynnwyd y Cais am Orchymyn Datblygu yn ôl gan Bŵer Niwclear Horizon. Tynnwyd y cais yn ôl oherwydd diffyg buddsoddwyr yn y prosiect a diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth. Mae'r penderfyniad wedi arwain at Hitachi yn penderfynu dirwyn Horizon i ben fel endid datblygu gweithredol erbyn 31 Mawrth 2021.

<u>Llety gwyliau</u>

2.43 Yn sgil y cynnydd yn y galw a'r ddarpariaeth o lety gwyliau ar draws ardal y Cynllun ac ar draul hynny'r effaith mae'n ei gael ar y farchnad dai, mae'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi arwain ar ddarn o waith yn ymwneud a 'Rheoli'r defnydd o Dai fel Cartrefi Gwyliau'. Nod y papur ymchwil oedd ystyried opsiynau posib ar gyfer

rheoli'r defnydd a wneir o dai fel llety gwyliau. Cyflwynwyd y gwaith hwn i sylw'r Llywodraeth gan erfyn arnynt i'w hystyried a gweithredu ar rhai o'r argymhellion oedd yn deillio o'r gwaith. Yn dilyn cyflwyno'r gwaith hynny mae yna waith pellach ar y mater wedi cael ei baratoi ar ran y Llywodraeth, gydag addewid fod y Llywodraeth yn mynd i roi ystyriaeth bellach i fesurau rheoli posib y gellir ei weithredu yn y dyfodol.

Covid a Brexit

2.44 Yn ystod cyfnod AMB 3 mae cyfyngiadau a goblygiadau pandemig Covid-19 wedi bod ar ei anterth. Ymhellach yn ystod y cyfnod yma mae'r Deyrnas Unedig wedi gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol. Ar hyn o bryd mae'r gallu i asesu effeithiau hirdymor y digwyddiadau hyn ar lefel lleol yn gynamserol, ond yn sicr mae'n debyg fod y rhain yn faterion sydd wedi effeithio ar ddatblygiadau yn dod yn eu blaen yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**CASGLIAD**

2.45 Fel y nodir uchod, gwelwyd deddfwriaeth newydd a chynlluniau, polisïau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro hwn. Yn ogystal mae yna newidiadau cyd-destunol arwyddocaol, megis cyhoeddi Cymru'r Dyfodol, y pandemig byd eang, Brexit a thynnu DCO Wylfa Newydd yn nôl, wedi digwydd ers mabwysiadu'r Cynllun. Bydd rhain yn cael eu hystyried fel rhan o'r adolygiad.




2.46 Bydd AMB dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar y materion cyd-destunol perthnasol a allai effeithio ar weithrediad y cynllun yn y dyfodol.

2.47 Yn ystod cyfnod AMB4 fe fydd yn ofynnol fod y Cynghorau wedi mynd ati i gychwyn ar yr adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, gan y bydd yno gyfnod o 4 mlynedd wedi mynd heibio ers mabwysiadu'r Cynllun. Fel rhan o'r broses cychwynnol o gynnal yr Adolygiad fe fydd yn ofynnol paratoi Adroddiad Adolygu a fydd yn dod i gasgliad ynglŷn a thrywydd yr adolygiad o'r Cynllun, hynny yw, adolygiad llawn neu adolygiad ffurf fer. Rhagwelir y bydd casgliadau'r Adroddiad Adolygu a thystiolaeth a gesglir yng nghyswllt y broses o gynnal yr adolygiad yn dylanwadu ar AMB4 ac yr Adroddiadau Monitro Blynyddol dilynol. Yn yr un modd, fe fydd yr AMB yma ynghyd a'r AMB blaenorol yn ffynhonnell gwybodaeth bwysig wrth fynd ati i baratoi yr Adroddiad Adolygu.

**PENNOD 3: DADANSODDIAD O DDANGOSYDDION**

3.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno asesiad o berfformiad y polisïau strategol a pholisïau eraill o fewn y CDLl ar y Cyd gan nodi os ydynt yn cael eu gweithredu ategol fel y bwriadwyd ac os yw strategaeth ac amcanion y CDLl ar y Cyd yn cael eu cyflawni. Mae’r tablau unigol yn y bennod hon yn rhoi casgliadau a chamau priodol (lle bo angen) i fynd i'r afael ag unrhyw faterion gweithredu polisi a nodwyd drwy'r broses fonitro.

3.2 Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau ac i roi trosolwg o berfformiad, mae dangosyddion allweddol a chanlyniadau'n cael eu dangos fel a ganlyn:

| Symbol | Disgrifiad |
|---|---|
|  | Mae polisi lleol yn cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cynllun ac yn perfformio'n unol neu’n well na’r disgwyliadau. |
|  | Nid yw’r targed polisi ar hyn o bryd yn cael ei gyflawni fel y rhagwelwyd ond nid yw hynny’n arwain at bryderon ynghylch gweithredu'r polisi. |
|  | Nid yw polisi lleol yn darparu canlyniad disgwyliedig ac mae pryderon canlyniadol ynglŷn â gweithrediad y Polisi. |
|  | Nid oes casgliad – mae’r data sydd ar gael yn brin. |

3.3 Mae’r tabl canlynol yn darparu gwybodaeth o ran y dangosyddion o fewn y Fframwaith Fonitro ble mae targed y dangosydd wedi ei gyflawni yn ystod cyfnod Adroddiad Monitro Blynyddol blaenorol. Gan hynny, nid oes angen adrodd ar y dangosyddion hyn yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol olynol:-

| **Rhif Dangosydd** | **Disgrifiad** | **Dyddiad cyflawni targed (Cyfnod AMB)** |
|---|---|---|
| D4 | Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | AMB 2 |

| | | |
|---|---|---|
| D16 | Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol i hyrwyddo cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy | AMB 2 |
| D51 | Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer tai fforddiadwy. | AMB 2 |
| D55 | Paratoi a chymeradwyo Astudiaeth Marchnad Dai Lleol (LHMA) i Wynedd | AMB 2 |

**Nodyn: Yn dilyn derbyn llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol mae Dangosydd D43 wedi cael ei ddisodli gan D43A a D43B.**

## 6.1 Cymunedau Diogel, Nodedig, Iach a Bywiog

**Yr iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig**

Mae natur ceisiadau tai ar safleoedd o'r newydd sydd wedi cael caniatâd ers mabwysiadu'r Cynllun yn dangos canran sylweddol o dai fforddiadwy sef 49.8%. Yn wir ar gyfer y 6 safle sydd efo 11+ o unedau tai a gafodd ganiatâd yn ystod 2020 i 2021 mae 2 o'r rhain yn safleoedd wedi ei dynodi yn y Cynllun, 2 ar gyfer datblygiadau 100% o dai fforddiadwy efo'r 2 safle arall yn darparu'r lefel disgwyliedig o dai fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 15.

Golyga hyn fod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma, o ystyried bod angen cyflwyno tystiolaeth gyda cheisiadau cynllunio i ddangos yr angen am y cymysgedd a'r math o dai yn ogystal â chynnwys canran uchel o dai fforddiadwy yn helpu i sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu cyfarch a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D1</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO1</td><td colspan="4">Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D1 - % Siaradwyr Cymraeg yn 2021 yn Ynys Môn a Gwynedd</td><td rowspan="4">Datblygiadau newydd yn cyfrannu at gynnal neu gryfhau'r iaith Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd<br><br>(Noder: Mae effaith uniongyrchol datblygiad newydd ar y defnydd o'r iaith Gymraeg mewn cymunedau unigol ac ardal y Cynllun yn faes anodd ei fonitro, o gofio na all y Cynllun wahaniaethu ar sail gallu ieithyddol. Mae'r Cynghorau o'r farn bod angen cyfuniad o ddulliau er mwyn monitro</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td colspan="2" rowspan="4">Naratif bob dwy flynedd am gynlluniau perthnasol a gwblhawyd, e.e. o dan Bolisi PS 1, Polisi TAI 1 – Polisi TAI 7, erbyn 2019</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | *effeithiolrwydd polisïau, gan gynnwys y dangosyddion a nodir dan y thema hon.*) | | | |

**Dadansoddiad:**

Mae rôl cynllunio'n gyfyngedig i geisio creu'r amgylchiadau gorau posib drwy Bolisïau'r Cynllun er mwyn hwyluso datblygiadau cynaliadwy a all gynyddu'r canran o siaradwyr Cymraeg.

Ceir nifer o bolisïau yn y Cynllun sydd yn helpu i hwyluso datblygiadau cynaliadwy sef:

- Polisi TAI 5 'Tai Marchnad Leol' yn atal unrhyw dai marchnad agored o fewn yr aneddleoedd arfordirol a restrir;
- Polisi TAI 15 'Trothwy Tai Fforddiadwy a'u Dosbarthiad' yn gofyn am elfen fforddiadwy ar gyfer datblygiadau o 2 neu fwy o unedau tai yn y Canolfannau a'r Pentrefi;
- Polisi TAI 16 'Safle Eithrio' yn cefnogi datblygiadau 100% tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 6 'Clystyrau' a TAI 7 'Trosi Adeiladau Traddodiadol yng Nghefn Gwlad Agored i Ddefnydd Preswyl' dim ond yn cefnogi bwriadau ar gyfer tai fforddiadwy;
- Polisi TAI 8 'Cymysgedd Briodol o Dai' yn sicrhau fod pob datblygiad preswyl yn cyfrannu tuag at wella cydbwysedd tai ac yn diwallu'r anghenion a nodir ar gyfer y gymuned gyfan;
- Polisi CYF 1 'Gwarchod, Dynodi ac Amddiffyn Tir ac Unedau ar gyfer defnydd Cyflogaeth' yn sicrhau fod yna ddigon o diroedd ar gyfer cyfleoedd gyflogaeth yn cael ei ddarparu o fewn y Cynllun.

Mae Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg. Gan fod y data yn dod o arolwg a'r canlyniadau yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar sampl mae felly yn ddarostyngedig i wahanol raddau o amrywioldeb samplu.

Mae'r tabl isod yn nodi ffigyrau'r flwyddyn sydd yn darfod 31 Mawrth ar gyfer 2017 (sef y flwyddyn olaf cyn i'r Cynllun gael ei fabwysiadu), 2018, 2019 a 2020:

| **Blwyddyn yr Arolwg** | **Ynys Môn** | | **Gwynedd** | |
|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2017 | **42,400** | **63.5** | **87,600** | **74.1** |
| Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2018 | **42,500** | **63.6** | **89,600** | **75.5** |
| Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019 | **45,500** | **67.5** | **91,000** | **76.4** |
| Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020 | **44,880** | **66** | **88,600** | **74.7** |
| 31 Rhagfyr 2020* | **46,100** | **67.1** | **91,400** | **76.6** |

[* ffigyrau 31 Mawrth 2021 ddim ar gael adeg paratoi'r Adroddiad yma]

Fel y gwelir mae'r ffigyrau yma yn nodi lefel llawer yn uwch na chanlyniadau Cyfrifiad 2011 oedd yn nodi 57% o siaradwyr Cymraeg ar Ynys Môn a 65% yng Ngwynedd. Fodd bynnag oherwydd bod y ffigyrau yma ar sail sampl nid ydynt ar sail mor gadarn â ffigyrau'r Cyfrifiad ac yn wastad

maent wedi tueddu i roi % uwch na'r Cyfrifiad. Er dylid nodi fod sampl diweddar o faint mwy efo oddeutu 350% o gynnydd yn y sampl o'i gymharu â'r blynyddoedd cynnar.

Yn y flwyddyn o'r 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021 mae yna 210 o unedau tai o'r newydd (h.y. safleoedd nad oedd efo caniatâd ar ddiwrnod mabwysiadu'r Cynllun) wedi cael caniatâd cynllunio. Mae hyn drwy ganiatâd am dŷ unigol ar 44 o safleoedd efo'r gweddill ar 16 safle yn mynd o safle efo 2 uned hyd at ddau safle o 30 o unedau. Allan o'r ceisiadau oedd yn cyfarch y trothwy i gael cyfraniad tai fforddiadwy h.y. 2 neu fwy o unedau neu o fewn Clwstwr neu drosi adeilad allanol sef 167 o unedau tai, fe gafwyd 72 o unedau fforddiadwy ganiatâd unai trwy amod neu gytundeb cyfreithiol, sydd y golygu canran fforddiadwy o 43.1%. Fodd bynnag mae 2 o'r safleoedd sydd efo amod yn datgan caiff 7 uned fforddiadwy ei ddarparu mewn gwirionedd yn adeiladu 100% uned fforddiadwy gan fod un ym mherchnogaeth y Cyngor ar llall gan Landlord Cofrestredig Cymdeithasol. Mae ychwanegu'r unedau yma yn cynyddu'r ddarpariaeth unedau fforddiadwy i 106 uned sy'n cyfartalu i 63.5% o unedau tai sydd yn mynd dros y trothwy ar gyfer tai fforddiadwy gafodd ganiatâd yn ystod y flwyddyn.

Yn y cyfnod ers mabwysiadu'r Cynllun mae yna ddwy Gydastudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai sef astudiaeth 2018 a 2019 wedi cael ei gyhoeddi ynghyd ac arolwg 2020 a 2021 sydd yn bwydo fewn i'r Dangosyddion newydd ar gyfer asesu'r twf yn erbyn Taflwybr Tai'r Cynllun. Mae'r rhain yn nodi fod 1,823 o unedau tai wedi cael ei gwblhau efo 1,552 o'r rhain yn rhai oedd efo caniatâd cynllunio cyn i'r CDLl ar y cyd gael ei fabwysiadu.

Mae'r tabl isod yn nodi'r sefyllfa ar gyfer ceisiadau sydd wedi cael caniatâd cynllunio a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun:

| **Cyfnod** | **Nifer o Unedau sydd wedi cael caniatâd a'u cwblhau yng nghyfnod y Cynllun** | **Nifer o rain sy'n Dai Fforddiadwy** | **Canran o Dai Fforddiadwy** |
|---|---|---|---|
| AMB 1 | 56 | 35 | 62.5% |
| AMB 2 | 90 | 45 | 50% |
| AMB 3 | 125 | 55 | 44% |
| CYFANSWM | 271 | 135 | 49.8% |

Tra nad oes ffigwr pendant ar gael ar gyfer Canran o siaradwyr Cymraeg yn ardal y Cynllun mae'r ffigyrau yn yr Adroddiad Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos cynnydd o'i gymharu â ffigwr y Cyfrifiad 2011.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf, mae dros 60% o ganiatadau tai o'r newydd a sy'n cyrraedd y trothwy perthnasol wedi bod ar gyfer tai fforddiadwy. Yn ogystal o'r unedau gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers mabwysiadu'r Cynllun mae'r canran o dai fforddiadwy hefyd ychydig yn is na 50%. Golyga hyn fod caniatâdau newydd o dan y Cynllun hyd yma, drwy baratoi canran uchel o dai fforddiadwy yn golygu bod anghenion lleol yn cael eu cyfarch a thrwy hynny helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

| | |
|---|---|
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithred ar hyn o bryd.. Parhau i fonitro fel rhan o AMB dilynol. | |

| **Dangosydd: D2** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO1 | Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D2 - Caniatáu ceisiadau cynllunio lle mae angen mesurau lliniaru iaith Gymraeg | Lle bo angen, osgoi neu liniaru niwed sylweddol i gymeriad a chydbwysedd iaith cymuned yn unol â Pholisi PS 1 | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol yn groes i Bolisi PS 1 | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |
| | | **AMB 3** | ✓ | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |

Fel yr amlygir yn yr ymateb i Ddangosydd D1 yn y flwyddyn 2020/21 mae caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer 210 o unedau tai newydd (h.y. ar safleoedd nad oedd efo caniatâd cynllunio ar ddyddiad mabwysiadu'r Cynllun).

Mae'r unedau yma wedi cael caniatâd ar safleoedd o'r maint a amlygir yn y tabl isod:

| **Maint Ceisiadau Tai** | **Nifer o Safleoedd** | **Cyfanswm Unedau** |
|---|---|---|
| 1 uned | 44 | 44 |
| 2 i 5 uned | 8 | 25 |
| 6 i 10 uned | 2 | 14 |
| 11+ uned | 6 | 127 |

O'r 6 safle sydd o faint 11+ uned mae 2 o'r rhain a'r safleoedd wedi cael ei dynodi ar gyfer tai yn y Cynllun efo 2 safle arall sydd ddim yn ddynodiad tai yn geisiadau ar gyfer 100% tai fforddiadwy. Mae'r 2 safle arall yn darparu elfen o dai fforddiadwy efo'r bwriad yn unol efo gofynion Polisi TAI 15.

Cafwyd 2 Asesiad Ieithyddol a 30 Datganiadau ieithyddol efo ceisiadau ble yr oeddynt yn cyfarch y trothwyon o fewn Polisi PS 1 (gweler Dangosydd D3 ar gyfer manylion y math o geisiadau gafodd rhain ei cyflwyno efo). Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r

Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na throthwy'r rhai y mae angen Datganiad neu Asesiad ffurfiol arnynt.

Cafodd dau gais sef cais am 6 tŷ marchnad agored yn Morfa Nefyn a 30 uned (yn cynnwys 12 uned fforddiadwy) yn Bangor ei gwrthod gan nad oedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol wedi ei argyhoeddi yn llawn fod y wybodaeth sydd wedi ei gyflwyno gyda'r ceisiadau yma yn profi na fydd yna effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. | |

| **Dangosydd: D3** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO1 | Diogelu a chryfhau'r iaith Gymraeg a'r diwylliant a hyrwyddo ei defnyddio fel rhan hanfodol o fywyd y gymuned. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS1 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D3 Nifer o geisiadau cynllunio gyda Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg | Yr holl geisiadau cynllunio perthnasol i fod â Datganiad Iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg, sy'n ymdrin â ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned fel y nodir yn y Canllawiau Dylunio Atodol. | AMB 1 | – | Un Datganiad iaith Gymraeg neu Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg mewn unrhyw flwyddyn unigol nad yw'n ymdrin â ffactorau sy'n berthnasol i'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn y gymuned. | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |
| | | **AMB 3** | ✓ | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |
| Yn ystod y cyfnod monitro, cyflwynwyd 30 Datganiad Iaith Gymraeg a 2 Asesiad Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn Ynys Môn a Gwynedd. Yn ogystal, yn unol ag Atodiad 5 o'r CCA, rhoddwyd ystyriaeth i'r Gymraeg ar gyfer ceisiadau sy'n is na'r trothwy sy'n gofyn am Ddatganiad neu Asesiad ffurfiol. Derbyniwyd 20 Datganiad/Asesiad Ieithyddol gyda cheisiadau preswyl, 8 o geisiadau yn ymwneud â datblygiad busnes/manwerthu, 2 mewn perthynas â defnydd cymysg, 1 mewn perthynas â datblygiad addysg, ac 1 mewn perthynas â datblygiad isadeiledd. Roedd pob un ond 9 o'r Datganiadau Iaith Gymraeg a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod monitro wedi dilyn prif strwythur y templed ymateb sydd wedi ei gynnwys yn y CCA "Creu a Chynnal Cymunedau Nodedig" a fabwysiadwyd yng Ngorffennaf 2019. O ran y 9 Datganiad a gyflwynwyd nad oedd yn | | | | | |

| |
|---|
| cynnwys y wybodaeth angenrheidiol, gofynnwyd am wybodaeth bellach gan yr ymgeisydd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion y CCA mabwysiedig.<br><br>Gwelwyd gwelliant yn ansawdd y datganiadau a gyflwynwyd, oedd yn dilyn y fethodoleg newydd yn y CCA mabwysiedig, ond fe fydd yn bwysig monitro sut mae ymgeiswyr yn ymateb i sylwadau ar y datganiadau hynny.<br><br>Ystyrir, felly, fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol. |

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. | |

| **Dangosydd: D4** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro. |

**Isadeiledd a Chyfraniadau Datblygwyr**

| **Dangosydd: D5** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dwr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA1, ISA2, ISA4, ISA5 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D5 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir lle cafwyd seilwaith newydd neu well trwy gyfraniadau datblygwyr | Lle bo'n briodol, bydd datblygiadau newydd yn ymdrin â'r effaith ar gymunedau drwy ddarparu seilwaith newydd neu well yn unol â Pholisi ISA1. | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi ISA 1 mewn unrhyw flwyddyn unigol. |
| | | AMB 2 | – | |
| | | **AMB 3** | ✓ | |
| | | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

Mae Polisïau'r Cynllun yn ceisio sicrhau fod y ddarpariaeth isadeiledd yn ddigonol ar gyfer datblygiadau newydd. Pan nad yw hyn yw'r achos, gellir ceisio am gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr i wneud yn siŵr fod capasiti isadeiledd digonol yn bodoli.

Yn Ynys Môn, cyflwynwyd 11 cais cynllunio ble roedd isadeiledd newydd yn cael ei ddarparu drwy gyfraniadau datblygwyr. Roedd y rhain yn cynnwys 6 cyfraniad cyllid ar gyfer cyfleusterau addysgol, 3 ar gyfer isadeiledd llecynnau agored a 2 ar gyfer gwelliannau priffyrdd. Yng Ngwynedd, cyflwynwyd un cais cynllunio ble y gofynnwyd am gyfraniad tuag at isadeiledd addysg.

Ni chafodd unrhyw gais ei gymeradwyo oedd yn gyferbyniol i Bolisi ISA1 dros y cyfnod monitro. Mae'r targed i rwystro datblygiadau gael eu caniatáu ble nad oes seilwaith digonol mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

| **Dangosydd: D6** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod isadeiledd ffisegol neu gymunedol priodol yn ei le, e.e. cyflenwad dwr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu y gellir ei ddarparu (e.e. trwy gyfraniadau datblygwyr) i ymdopi a phob math o ddatblygiad. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA1, ISA2, ISA4, ISA5 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D6 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer newid defnydd cyfleusterau cymunedol | Cadw cyfleusterau cymunedol hyfyw yn unol â Pholisi ISA 2 | AMB 1 | ✓ | Colli un cyfleuster cymunedol hyfyw yn groes i Bolisi ISA 2 mewn unrhyw flwyddyn unigol. | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |
| | | **AMB 3** | ✓ | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |

| |
|---|
| Mae Polisi ISA2 yn anelu i warchod cyfleusterau cymunedol presennol ac annog datblygu cyfleusterau newydd lle bo hynny'n briodol. Cyflwynwyd cyfanswm o 9 cais cynllunio ble byddai cyn cyfleuster cymunedol yn cael ei golli fel rhan o'r datblygiad (5 cyn capel/eglwys, 1 cyn ddeintyddfa, 1 cyn meddygfa, 1 cyn dafarn ac un cyn swyddfa bost. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw un o'r ceisiadau hyn yn mynd yn groes i Bolisi ISA 2 gan fod tystiolaeth nad oedd y cyfleusterau dan sylw yn hyfyw ac/neu wedi bod yn ddiddefnydd dros gyfnod o amser.<br><br>Mae'r targed i rwystro colled cyfleuster cymunedol hyfyw mewn unrhyw flwyddyn unigol felly'n cael ei gyfarch. |
| **Gweithred:** |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. |

**Llecynnau Agored**

Mae swyddogaeth bwysig llecynnau agored o fewn cymunedau yn ardal y Cynllun wedi'i adlewyrchu yn y CDLl ar y Cyd sy'n ceisio diogelu'r llecynnau agored presennol ac yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu llecynnau agored i ddiwallu anghenion deiliaid datblygiadau tai newydd.

Ers i'r Cynllun cael ei fabwysiadu mae polisïau wedi gwarchod llecynnau agored mewn cymunedau a hefyd wedi sicrhau bod llecynnau agored newydd yn cael ei greu, cynnal a gwella.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D7</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO2</td><td colspan="4">Sicrhau bod y seilwaith cymunedol neu ffisegol briodol yn ei le e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu fod modd ei ddarparu (e.e. drwy gyfrwng cyfraniadau datblygwyr) i ymdrin â phob math o ddatblygiad.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td colspan="2">ISA 4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Trothwy:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D7 - Nifer y ceisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau amgen mewn llecynnau agored</td><td rowspan="4">Cyfanswm y llecynnau agored (ha) mewn aneddleoedd unigol a gedwir yn unol â Pholisi ISA 4.</td><td>AMR 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Llecynnau agored a gollir mewn unrhyw Ganolfan neu Bentref mewn unrhyw flwyddyn sy'n arwain ar ostyngiad net yn y cyflenwad yn y Ganolfan honno neu'r Pentref hwnnw yn groes i Bolisi ISA 4.</td></tr>
<tr><td>AMR 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMR 3</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMR 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">8 cais wedi'u cymeradwyo ar lecynnau agored a nodir yn y cynllun (ar y map cynigion) fel llecynnau agored wedi'u hamddiffyn. Mae'r holl geisiadau'n cydymffurfio â meini prawf y polisi:<br>• 6 cais ar ardaloedd chwarae ysgol yn cynnwys gwaith peirianneg i wella'r ardal chwarae, ffensio a chodi sied newydd.</td></tr>
</table>

- 1 cais i newid lawnt fowlio yn rhandir cymunedol.
- 1 cais i newid cwrt tennis presennol yn gwrt 3G amlbwrpas.

Ystyrir bod Polisi ISA 4 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd.

| **Gweithredu:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMR nesaf. | |

| **Dangosydd: D8** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO2 | Sicrhau bod y seilwaith cymunedol neu ffisegol briodol yn ei le e.e. cyflenwad dŵr, cyfleusterau iechyd, ysgolion, cyfleusterau cymunedol, neu fod modd ei ddarparu (e.e. drwy gyfrwng cyfraniadau datblygwyr) i ymdrin â phob math o ddatblygiad. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | ISA 5 | |
| | | **Deilliant:** | | **Trothwy:** | |
| D8 - Llecynnau agored (ha) a gafwyd mewn perthynas â datblygiad preswyl o 10 neu fwy o unedau | Darparu llecyn agored newydd os yw safonau meincnod Fields in Trust (FiT) yn nodi fod yna ddiffyg llecyn agored yn unol â Pholisi ISA 5. | AMR 1 | ✓ | Un cais cynllunio wedi'i gymeradwyo mewn unrhyw flwyddyn nad yw'n cyfrannu at ddiwallu anghenion preswylwyr tai newydd am lecyn agored yn unol â diffiniad safon meincnod FiT yn groes i Bolisi ISA 5. | |
| | | AMR 2 | ✓ | | |
| | | **AMR 3** | ✓ | | |
| | | AMR 4 | | | |

**Dadansoddiad:**

Mae 7 cais am 10 neu fwy o dai wedi cael eu cymeradwyo yn y cyfnod AMR hwn.

- Nid oes angen darpariaeth/cyfraniad ariannol llecyn agored ar gyfer tri o'r ceisiadau hyn oherwydd bod digon o lecynnau agored yn y cymunedau hynny.
- Roedd y 4 cais oedd yn weddill oll yn darparu darpariaeth llecynnau agored newydd ar y safle gyda chyfanswm o 2155.25m$^2$ o ddarpariaeth llecynnau agored wedi'i chreu.

Ystyrir bod Polisi ISA 4 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd.

| **Gweithredu:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMR nesaf. | |

| **Dangosydd: D9** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro |

| **Dangosydd: D10** |
|---|
| Targed wedi ei gwrdd. Dim angen i barhau i'w fonitro. |

**Trafnidiaeth Gynaliadwy, Datblygiad a Hygyrchedd**

<table>
<tr><td colspan="5">Dangosydd: D11</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO3<br><br>SO4</td><td colspan="3">Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:<br><br>Prif ganlyniadau:<br>• Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;<br>• Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;<br>• Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>TRA 1, TRA 2, TRA 3,<br><br>TRA 4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="3">D11 – Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio</td><td rowspan="3">Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â safonau parcio o fewn 12 mis</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="3">Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>–</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | o fabwysiadu'r Cynllun | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Nid yw'r targed polisi wedi'i gyflawni ar hyn o bryd fel y rhagwelwyd ond nid yw hyn yn arwain at bryderon ynghylch gweithredu polisi.

Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Safonau Parcio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 2 yn 2018/19. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLl.

Mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol wedi 'arbed' CCA o'u Cynlluniau Datblygu Unedol, a gallent hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.

Gan fod y polisi CDLl newydd ar Safonau Parcio yn unol â chanllawiau cenedlaethol, ni theimlir bod y llithriad yng nghyflwyniad CCA newydd wedi bod yn niweidiol yn y broses gwneud penderfyniad, er y cydnabyddir bod rhaid creu CCA newydd sy'n fwy adlewyrchol ac sy'n ehangu ar y polisi CDLl newydd ac sydd hefyd yn darparu arweiniad sydd yn cyd-fynd â gofynion y polisi.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

**Dangosydd: D12**

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO3 | Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl. |
| | SO4 | Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol: |
| | | **Prif ganlyniadau:** |

| | | |
|---|---|---|
| | | • Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;<br>• Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;<br>• Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;<br>• Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | TRA 1, TRA 2, TRA 3,<br><br>TRA 4 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D12 – Nifer o geisiadau cynllunio gydag Asesiad Teithio | Yr holl geisiadau cynllunio perthnasol sydd uwchlaw'r trothwyon perthnasol a nodwyd ym Mholisi TRA 1 i gynnwys Asesiad Teithio | AMB 1 | ✓ | Un cais cynllunio a gyflwynir mewn unrhyw flwyddyn unigol heb Asesiad Teithio fel sy'n ofynnol gan Bolisi TRA 1 |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | **AMB 3** | ✓ | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Cafwyd Asesiad Teithio gyda 3 cais yng Ngwynedd a 6 cais ym Môn yn ystod y cyfnod monitro. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau heb Asesiad Teithio pan fo angen.

Mae'r polisi'n glir, ac yn gofyn am asesiad ar sail y trothwyon a osodir yn 'Nhabl 6: Graddfa'r datblygiad sy'n gofyn am asesiad trafnidiaeth'. Mae swyddogion yn gofyn am asesiad wrth wneud ymholiad cyn gwneud cais neu ar y cam gwneud cais cynllunio.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

**Dangosydd: D13**

<table>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO3<br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>SO4</td><td colspan="4">Gwella a chynnal rhwydweithiau trafnidiaeth ddiogel, effeithlon, o safon uchel, fodern ac integredig ar gyfer cyflogaeth, gwasanaethau a chyfleusterau addysg / hyfforddiant, yn enwedig ar droed, ar gefn beic ac ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan felly leihau nifer y siwrneiau mewn ceir preifat lle bo hynny'n bosibl.<br><br>Gwneud yn fawr o gyfleoedd Caergybi fel porth rhyngwladol mawr a'r A55, rhwydwaith Traws Ewrop E22 a'r A5025, A487, A470 fel coridorau cludiant allweddol:<br><br>Prif ganlyniadau:<ul><li>Bydd strategaeth a pholisïau'r Cynllun wedi cyfrannu i greu mwy o gymunedau gyda chanran uwch na 70% o siaradwyr Cymraeg;</li><li>Ni fydd isadeiledd cymunedol wedi cael ei golli oni bai bod tystiolaeth wedi dangos nad oedd yn allweddol i'r gymuned;</li><li>Bydd lleoliad datblygiad yn golygu bod cyfle i fwy o unigolion deithio holl ffordd neu'n rhannol i'w gwaith ar droed, ar gefn beic, ar fysus neu ar y trên;</li><li>Bydd ffyrdd newydd neu welliannau i ffyrdd sy'n angenrheidiol ar y rhwydwaith ffyrdd presennol wedi cael eu darparu.</li></ul></td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">TRA 1, TRA 2, TRA 3,<br><br>TRA 4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D13 – Y nifer o geisiadau a ganiateir o fewn safleoedd/ ardaloedd wedi'u diogelu ar gyfer gwelliannau trafnidiaeth</td><td rowspan="4">Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio sy'n niweidiol i gyflawni'r gwelliannau trafnidiaeth a nodir ym Mholisi TRA 1</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Caniatáu un cais yn groes i Bolisi TRA 1</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
</table>

**Dadansoddiad:**

Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau yn groes i Bolisi TRA 1.

Ar 25 Mai 2018, penderfynodd Gweinidogion Cymru barhau â Chynllun Trafnidiaeth Caernarfon i Bontnewydd yr A487, yn dilyn ymchwiliad cyhoeddus a gynhaliwyd yn ystod haf 2017.

Dechreuwyd clirio'r safle fis Chwefror 2019. Mae Gwaith Cloddio ger cylchfannau'r Goat a Phlas Menai hefyd wedi dechrau. Mae'r ffordd osgoi wedi'i hamserlennu i gael ei chwblhau yn Hydref 2021. Bydd yn cysylltu cylchfannau'r Goat ar yr A499/A487 i gylchfannau Plas Menai gyda ffordd gerbydau 9.8km, sy'n cynnwys dwy draphont, dwy bont fawr, a thair cylchfan newydd.

Ni fu unrhyw geisiadau yn effeithio ar lwybr y ffordd osgoi. Mae gwaith adeiladu ar y briffordd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

Mae Ffordd Gyswllt Llangefni bellach wedi'i chwblhau'n llawn ac mae ar agor i'r cyhoedd.

Cymeradwywyd 1 cais am ymestyn y cyfnod gweithredu ar gyfer gwelliannau i'r briffordd bresennol yr A5025 rhwng Y Fali a Wylfa yn ystod y cyfnod hwn.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

**Dangosydd: D14**

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro

**Dangosydd: D15**

Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro

## 6.2 Byw'n Gynaliadwy

**Datblygiadau Cynaliadwy a Newid Hinsawdd**

| **Dangosydd: D16** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro. |

<table>
<tr><th colspan="6">Indicator: D17</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO5<br><br><br><br>S06</td><td colspan="4">Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td>PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D17 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir gan gategori NCT 15 mewn ardaloedd gorlifdir C1</td><td rowspan="4" colspan="2">Ni roddir caniatâd i geisiadau ynllunio o fewn ardaloedd gorlifdir C1 heb gwrdd â'r holl brofion a amlinellir yn NCT15</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="4">Caniatáu un cais cynllunio mewn unrhyw flwyddyn unigol o fewn ardaloedd gorlifdir C1 nad yw'n cwrdd â holl brofion NCT15.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Caniatawyd 17 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn llwyr/rhannol o fewn parth llifogydd C1; roedd 7 o'r rhain yn geisiadau gan ddeiliaid tai. Fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio, casglwyd gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfiaeth y ceisiadau cynllunio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd); penderfynwyd eu bod yn cydymffurfio â gofynion y profion sydd wedi'u gosod yn NCT 15.<br><br>Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLl ar y Cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol. |
| **Gweithred:** |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. |

<table>
<tr><td colspan="6">Indicator: D18</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO5<br><br><br><br>S06</td><td colspan="4">Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td colspan="2">PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D18 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2.</td><td rowspan="4">Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2</td><td>AMB 1</td><td>X</td><td colspan="2" rowspan="4">Caniatáu un ar gyfer datblygiad sy'n hynod agored i niwed mewn ardaloedd gorlifdir C2 mewn unrhyw flwyddyn unigol.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio ar gyfer y math o ddatblygiad a fyddai'n cael ei ystyried yn 'ddatblygiad hynod fregus' yn unol â Ffigwr 2 Nodyn Cyngor Technegol 15 (Datblygu a Pherygl Llifogydd). Ar ben hynny, roedd yr holl geisiadau a leolwyd (yn rhannol/llwyr) o fewn y parth llifogydd C2 yn cydymffurfio â'r profion sydd wedi'u cynnwys yn NCT 15.

Cesglir fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS5, PS6, PCYFF 1 a PCYFF 2 y CDLl ar y Cyd. O ganlyniad, ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. | |

| **Dangosydd: D19** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. |
| | S06 | Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau'r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny'n bosibl;<br>• lleihau'r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D19 - Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) wedi'i fynegi fel % o'r | Cynnal neu gynyddu'r gyfran o ddatblygiadau newydd a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) o'i | AMB 1 | – | Gostyngiad yn y gyfran o ddatblygiadau a ganiateir ar dir a ddatblygwyd eisoes (ailddatblygu tir llwyd a throsi adeiladau presennol) am 2 flynedd yn olynol. |
| | | AMB 2 | – | |
| | | **AMB 3** | – | |
| | | AMB 4 | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn | gymharu â'r % cyfartalog a gofnodwyd yn ystod 2015/ 2016 – 2016/ 2017. | | | |

**Dadansoddiad:**

Oherwydd natur wledig yr ardal, mae cyfleoedd i ddatblygu ar dir a ddatblygwyd o'r blaen wedi ei gyfyngu i nifer o safleoedd llai. Tra bo datblygiadau'n cael eu cyfeirio at y safleoedd hyn yn y lle cyntaf, mae'r pwysau i adeiladu ar dir gwyrdd yn anochel, yn enwedig oherwydd natur cynigion e.e. cynlluniau ynni adnewyddol, tai lleol, cynlluniau arallgyfeirio gwledig a datblygiadau twristiaeth. Mae'r gyfran o ddatblygiadau ar dir llwyd yn Ynys Môn Gwynedd fel a ganlyn:

% o ddatblygiadau ar dir a ddatblygwyd o'r blaen:

- **Ynys Môn** 2015-2016 = 20.72ha (61%);
  **Ynys Môn** 2016-2017 = 28.00ha (50%);
  **Ynys Môn** 2017-2018 = 13.81ha (49%);
  **Ynys Môn** 2018-2019 = 4.33ha (21%);

  **Ynys Môn** 2019-2020 = 52.9ha (82.8%) (Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys diwygiadau i drac rasio sydd eisoes yn bodoli ble fo maint y safle'n 41.4ha)

  **Ynys Mon** 2020-2021 = 15.20ha (72.8%)

- **Gwynedd 2015-2016** = 14.54ha (44%);
  **Gwynedd 2016-2017** = nid oes data ar gael oherwydd roedd cofnodi'r data hwn yn cael ei adolygu ar y pryd.
  **Gwynedd 2017-2018** = 12.82ha (64%);
  **Gwynedd 2018-2019** = nid yw'r data ar gael oherwydd adnoddau staff/materion technegol.
  **Gwynedd 2019-2020** = nid yw'r data ar gael oherwydd bod system newydd gofnodi newydd wedi ei weithredu dros y flwyddyn ddiwethaf
  **Gwynedd 2019-2020** = nid yw'r data ar gael oherwydd bod system newydd gofnodi newydd wedi ei weithredu dros y flwyddyn ddiwethaf/materion technegol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r nifer o geisiadau cynllunio ar dir a ddatblygwyd o'r blaen wedi cynyddu yn ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Ynys Môn. Fodd bynnag, yn sgil diffyg gwybodaeth ar gyfer ardal Awdurdod Cynllunio Lleol Gwynedd nid oes posib do di gasgliad os yw targed y dangosydd wedi ei gyrraedd. Fe fydd yn bwysig sefydlu methodoleg er mwyn casglu'r gwybodaeth angenrheidiol ar gyfer yr AMB nesaf.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

<table>
<tr><td colspan="5">Dangosydd: D20</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO5<br><br><br><br><br><br>S06</td><td colspan="3">Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau’r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny’n bosibl;<br>• lleihau’r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi’i ddatblygu’n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i’w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td>PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D20 - Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir tu allan i ffiniau datblygu.</td><td rowspan="4">Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio tu allan i ffiniau datblygu nad ydynt yn cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cyllun.</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="4">Caniatáu un cais cynllunio tu allan i ffiniau datblygu nad yw’n cwrdd â gofynion Polisi PCYFF 1 a pholisïau perthnasol eraill yn y Cynllun mewn unrhyw flwyddyn unigol.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Mae yna gyfanswm o 444 o geisiadau cynllunio sydd wedi cael caniatâd tu allan i’r ffiniau datblygu yn ystod y 3ydd cyfnod AMB sy’n cynrychioli 44.2% o bob cais ar gyfer datblygiad. Mae’r cyfra hwn yn is na’r 87.3% a gafodd eu cymeradwyo yn ystod yr AMB cynharach.</td></tr>
</table>

Mae dadansoddiad o’r mathau o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd y tu allan i ffinia datblygu fel a ganlyn:

- Amaethyddiaeth a Choedwigaeth - 13%
- Cyflogaeth – 3%
- Cymunedol – 1%
- Deilodd Tŷ - 53%
- Hamdden – 2%
- Isadeiledd – 11%
- Manwerthu – 1%
- Tai – 9%
- Twristiaeth – 16%
- Mwynau a Gwastraff – 1%

Fel y gwelir, roedd y mwyafrif o geisiadau cynllunio a gymeradwywyd y tu allan i ffiniau datblygu yn rai deilydd tŷ neu’n geisiadau ar gyfer gwiriad amodau ar gyfer ceisiadau cynllunio eisoes wedi eu cymeradwyo. O ran datblygiadau tai, ‘roedd y rhain yn cynnwys datblygiadau mewn clystyrau, tai menter wledig a thai a ail-adeiladwyd a oedd yn cydymffurfio â pholisïau’r Cynllun. Nodir hefyd fod nifer o geisiadau ar gyfer datblygiadau gwledig er enghraifft twristiaeth, cyflogaeth, priffyrdd a datblygiadau amaethyddol. Ni chymeradwywyd unrhyw gais oedd yn gyferbyniol i Bolisi PCYFF 1.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu’r CDLl ar y Cyd.

**Technoleg Adnewyddadwy**

| **Dangosydd: D21** | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad. |
| | SO6 | Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau’r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny’n bosibl;<br>• lleihau’r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau; |

| | | |
|---|---|---|
| | | • hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi'i ddatblygu'n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i'w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir. |

| **Dangosydd:** | **Targed** | **Polisi perthnasol:** | | PS 1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D21 Nifer o geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy annibynnol a ganiateir, fesul Technoleg, ardal (Ardal awdurdod Cynllunio Lleol Môn a Gwynedd) ac allbwn ynni a gofnodir (GWh) | 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (1,113.35 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am drydan<br><br>100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (23.65 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am wres<br><br>50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (23.65 GWh) wedi digwydd erbyn 2021 i gyfarch y galw am wres<br><br>100% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib (47.3 GWh) wedi digwydd erbyn 2026 i gyfarch y galw am wres | AMB 1 | – | Swm allbwn ynni a gofnodir o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn 10% neu fwy islaw'r gofynion yn y Targed Polisi |
| | | AMB 2 | – | |
| | | **AMB 3** | X | |
| | | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Mae'r polisïau a gynhwysir yn y CDLl yn cefnogi ceisiadau ar gyfer datblygiadau cynhyrchu ynni adnewyddadwy priodol. | | | | |

O'r cyfnod monitro hwn, amlinellir y MW a gafodd ganiatâd cynllunio ar gyfer datblygiad masnachol yn ôl gwahanol fath o dechnoleg isod:

| Math | Nifer o Geisiadau | GWh |
|---|---|---|
| Fferm Solar | 1 | 3.9 (cynllun diwygiedig) |
| **Cyfanswm** | **1** | **3.9** |

Mae tablau 7 ac 8 o fewn y CDLl ar y Cyd yn nodi capasiti gosodedig o 159.6 (MWe) a 12.4 (MWt) o fewn ardal y cynllun yn 2016. Y fersiwn diweddaraf 'Cynhyrchu Ynni yng Nghymru' (ffigurau 2019) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru cyfanswm capasiti gwres a thrydan sydd wedi'i osod ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd oedd 214MW a roddodd gynhyrchiad amcangyfrifedig o 398GWh. Mae hyn yn gynnydd o 42MW o'r hyn a nodwyd yn nhablau 7 ac 8 y CDLl ar y Cyd.

Mae'r lefelau isel o geisiadau sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn adlewyrchu dirywiad yn nifer y ceisiadau a gyflwynwyd dros y blynyddoedd diwethaf yn hytrach nag Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gwrthod ceisiadau.

Mae Dangosydd D21 yn gosod targedau ar gyfer cyfarch yr adnoddau ynni adnewyddadwy posib sydd wedi cael ei adnabod yn y Cynllun. Roedd disgwyl y buasai 50% o hyn sef 1,113.35 GWh ar gyfer trydan a 23.65 GWh am wres wedi cael ei gyfarch erbyn 2021. Fodd bynnag hyd at 2021 dim ond 52.4 GWh ar gyfer trydan a dim GWh ar gyfer gwres sydd wedi cael ei baratoi. Felly nid yw'r targed o 50% o'r adnoddau ynni adnewyddadwy posib ar gyfer gwres a trydan yn cael ei ddarparu erbyn 2021 wedi cael ei gyflawni. Gall diweddaru'r astudiaeth Cyfleon Posib o Ynni Adnewyddol o fewn Ardal y Cynllun adnabod rhwystrau e.g. capasiti yn y cysylltiad grid, gan roi targedau amgen mewn Cynllun diwygiedig.

Nid oes unrhyw fwriad wedi dod ymlaen ar y safleoedd cyfle posib am ynni solar, fodd bynnag mae yna nifer o ymholiadau cyn gais wedi cael ei cyflwyno i'r Arolygaeth Cynllunio fel bwriad all fod yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol sef Fferm Solar Alaw Môn (160MW), Fferm Solar Môn (349MW) a Pac Solar Traffwll (30MW). Os buasai'r ceisiadau yma y cael caniatâd yn ei ffurf presennol yna buasai rhain yn paratoi 472GWh.

Cafodd caniatâd ei roi ar gyfer uned biomas 299MW yn Caergybi, mae tystysgrif o ddefnydd cyfreithiol wedi cael ei roi yn cadarnhau fod y datblygiad wedi cael ei ddechrau. Mae Adroddiad yr Arolygydd ar gyfer Parth Arddangos Morlais, sydd yn darparu ardal gydsyniedig ar gyfer gosod ac arddangos yn fasnachol araeau lluosog o ddyfeisiau ynni llanw, hyd at gapasiti gosodedig uchaf o 240(MW), wedi'i gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w ystyried.

**Gweithred:**

Dylid adolygu'r polisïau Ynni Adnewyddol a'r potensial ar gyfer y fath dechnoleg fel rhan o adolygiad o'r CDLl ar y Cyd.

**Dangosydd: D22**

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO5 | Sicrhau bod datblygiad yn ardal y cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.</td></tr>
<tr><td></td><td>SO6</td><td>Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau’r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny’n bosibl;<br>• lleihau’r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi’i ddatblygu’n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i’w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D22 Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy annibynnol.</td><td rowspan="4">Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu’r Cynllun.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Methiant i fabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu’r Cynllun.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Bu oedi yn yr amserlen ar gyfer darparu’r CCA yma oherwydd yr angen i roi blaenoriaeth i CCA eraill wnaeth gymryd yn hirach i’w paratoi a’u hadrodd trwy Bwyllgorau’r ddau Gyngor.<br><br>Mae yna leihad sylweddol wedi bod yn y nifer o geisiadau am gynlluniau ynni adnewyddadwy annibynnol o fewn ardal y Cynllun sydd o bosib yn adlewyrchu’r symudiad i baratoi datblygiadau yn y môr a lleihad yn y grantiau sydd ar gael ar gyfer fath ddatblygiadau ar y tir.<br><br>Mae cyhoeddiad o Dyfodol Cymru: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ynghyd a thargedau diwygiedig yn Polisi Cynllunio Cymru yn golygu newidiadau cyd-destunol sylweddol ar gyfer technoleg ynni adnewyddol. Bydd adolygiad o bolisïau ynni adnewyddol sydd yn y Cynllun yng ngoleuni’r</td></tr>
</table>

newidiadau cyd-destunol yma yn galluogi gwerthusiad or angen a chynnwys CCA yn ymwneud â thechnoleg ynni adnewyddadwy annibynnol.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Adolygu'r angen am CCA Ynni Adnewyddadwy ar wahân yn dilyn adolygiad o bolisïau Ynni Adnewyddol o fewn y CDLl ar y Cyd. | |

<table>
<tr><td colspan="5">Dangosydd: D23</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO5 & SO6</td><td colspan="3">SO5: Sicrhau bod datblygiad yn ardal y Cynllun yn cefnogi egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn creu cymunedau cynaliadwy wrth barchu rôl a chymeriad amrywiol y canolfannau, pentrefi a chefn gwlad.<br><br>SO6: Lleihau, lliniaru ac addasu i effeithiau’r newid hinsawdd. Cyflawnir hyn trwy:<br><br>• sicrhau bod datblygiadau agored iawn i niwed yn cael eu troi i ffwrdd o ardaloedd risg llifogydd lle bynnag y bo hynny’n bosibl;<br>• lleihau’r angen am ynni ac adnoddau eraill ar gyfer datblygiadau;<br>• hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn yr ardal;<br>• defnyddio tir sydd wedi’i ddatblygu’n flaenorol ac adeiladau gwag addas neu rai na ddefnyddir i’w capasiti llawn, lle maent ar gael;<br>• rheoli, gwarchod a gwella ansawdd a maint yr amgylchedd dŵr a lleihau faint o ddŵr a ddefnyddir.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS 5, PS6, PCYFF 1 & PCYFF 2, ADN 1, ADN 2, ADN3</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="3">D23 - Dwysedd cyfartalog y datblygiadau tai a ganiateir yn ardal y Cynllun</td><td rowspan="3">Isafswm dwysedd net cyfartalog cyffredinol o 30 o unedau tai'r hectar a gyflawnir yn ardal y Cynllun</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="3">Methiant i gyflawni isafswm dwysedd cyffredinol net cyfartalog o 30 o unedau tai'r hectar yn ardal y Cynllun ar gyfer dwy flynedd yn olynol, oni bai ei fod yn cael ei</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>–</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | AMB 4 | | gyfiawnhau gan Bolisi PCYFF 2. |

**Dadansoddiad:**

**Caniatadau o'r newydd yn unig – Holl ganiatadau**

Ardal y Cynllun = 275 uned/10.65ha = 25.8 uned yr hectar

**Caniatadau o'r newydd yn unig – 5 neu ragor o unedau o'r newydd**

Ardal y Cynllun = 192 uned/6.11ha = 31.4 uned yr hectar

Mae'r wybodaeth hyn yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a cheisiadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble mae egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ail-adeiladu tŷ h.y. ble nad oes cynnydd yn nifer yr unedau.

Ar sail yr holl ddatblygiadau cymwys sydd wedi eu caniatáu, noder fod y dwysedd cyfartalog yn is na'r targed o 30 uned yr hectar. Ni chredir fodd bynnag bod hyn yn golygu'r angen i adolygu'r Cynllun. Mae'r lefel sbardun yn cyfeirio at fethiant i gyflawni dwysedd cyffredinol o 30 uned yr hectar ar gyfer dwy flynedd yn olynol. Roedd y wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 2 ar gyfer y dangosydd hwn yn cyd-fynd yn effeithiol a'r lefel targed.

Wrth ystyried y caniatadau ar gyfer safleoedd preswyl mawr yn unig, sef rhai ar gyfer 5 neu ragor o unedau, gweler fod y dwysedd cyfartalog dros y ffigwr o 30 uned yr hectar. Noder felly fod y dwysedd disgwyliedig yn cael ei sicrhau ar ddatblygiadau newydd sylweddol eu maint a bod y dwysedd ar safleoedd llai yn tynnu'r ffigwr cyfartaledd i lawr.

Mae dwysedd cyfartalog yr holl unedau sengl perthnasol sydd wedi eu caniatáu yn ardal y Cynllun yn ystod cyfnod yr AMB hwn (sef 56 uned ar 3.48 hectar) ddim ond yn 16.1 uned yr hectar. Mae'r gallu i fynnu dwysedd uwch ar blotiau unigol yn fwy heriol ar sail agweddau megis dwysedd datblygiadau cyfagos a chymeriad anheddle yn ogystal a siâp y safle mewn rhai achosion.

Noder fod Polisi PCYFF 2 yn cyfeirio at ddwysedd o 30 uned byw o leiaf yr hectar oni bai fod amgylchiadau lleol yn neu gyfyngiadau ar y safle sy'n pennu dwysedd is. Mae'n amlwg felly bod amgylchiadau penodol yn bodoli, yn enwedig ar blotiau unigol, sydd yn golygu datblygu ar ddwysedd sydd yn is na'r ffigwr hwn.

| | |
|---|---|
| **Gweithred:** | |

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D24</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO7</td><td colspan="4">Sicrhau bod pob datblygiad newydd yn cwrdd â safonau uchel o ran ansawdd eu dyluniad, effeithlonrwydd ynni, diogelwch (pobl ac adeiladau) a hygyrchedd, eu bod yn gweddu’n dda ag unrhyw ddatblygiadau presennol, yn gwella tir y cyhoedd ac yn datblygu mannau o ansawdd sy’n unigryw yn lleol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PCYFF 2, PCYFF3 & PCYFF4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D24 – Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio</td><td rowspan="4" colspan="2">Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol ar faterion dylunio o fewn 12 mis o fabwysiadu</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol o fewn 12 mis o fabwysiadu</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Nid yw'r targed polisi wedi'i gyflawni ar hyn o bryd fel y rhagwelwyd ond nid yw hyn yn arwain at bryderon ynghylch gweithredu polisi.<br><br>Mae'r amserlen ar gyfer mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) diwygiedig ar Ddylunio wedi'i osod ar gyfer Chwarter 4 yn 2017/18. Nid yw'r targed hwn wedi'i gyflawni oherwydd newidiadau yn amserlen waith a blaenoriaethu adnoddau'r CDLl.<br><br>Fodd bynnag, mae'r ddau awdurdod cynllunio lleol wedi 'arbed' CCA o'u Cynlluniau Datblygu Unedol, a gallent hefyd gyfeirio at ganllawiau cenedlaethol wrth benderfynu ar geisiadau newydd.<br><br>Gan fod y polisi CDLl ar y Cyd newydd ar Ddylunio yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol, ni theimlir bod y llithriad yng nghyflwyniad CCA newydd wedi bod yn niweidiol yn y broses gwneud penderfyniad, er y cydnabyddir bod rhaid creu CCA newydd sy'n fwy adlewyrchol ac sy'n ehangu ar y polisi CDLl newydd yn y dyfodol agos.<br><br>Mae gwaith ar fersiwn ddiwygiedig o'r CCA Dylunio yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan Wasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Ynys Môn a Gwynedd. Nid yw dyddiad penodol ar gyfer cyhoeddi fersiwn drafft o'r CCA ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd wedi'i gwblhau eto.</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Oherwydd angen a nodwyd, mae gwaith cychwynnol wedi'i wneud ar Ganllaw Dylunio newydd ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (Ynys Môn a Llŷn). Cynhaliwyd ymgynghoriadau yn ddiweddar ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol dylunio ar gyfer eu dynodiadau AHNE. Mae gwaith ar gynhyrchu fersiwn drafft ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. |
| **Gweithred:** |
| Mae ymchwil ar safonau dylunio a chanllawiau modern ar y gweill. Bydd y gwaith hwn yn arwain at baratoi CCA Dylunio newydd. |

| **Dangosydd: D25** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO8 | SO8: Sicrhau bod aneddiadau yn gynaliadwy, yn hygyrch ac yn diwallu'r holl anghenion sydd gan eu cymunedau yn unol â'u rôl yn y goeden aneddleoedd: | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PCYFF 2, PCYFF 3, PCYFF 4 & PS17 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D25 - Nifer y tai newydd a ganiateir fesul categori yn y Goeden Aneddleoedd a amlinellir ym Mholisi | O ddyddiad mabwysiadu, nifer yr unedau tai a ganiateir fesul categori anheddle, wedi'i fynegi fel % | AMB 1 | ✓ | O ddyddiad mabwysiadu mae nifer yr unedau tai a ganiateir dros 2 flynedd yn olynol, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau preswyl, mewn: |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | **AMB 3** | – | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| PS 17, wedi'i fynegi fel % o'r holl ddatblygiadau a ddatblygwyd bob blwyddyn | o'r holl ddatblygiadau preswyl, yn unol â gofynion Polisi PS 17, sydd fel a ganlyn:<br><br>Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol = 53%<br>Canolfannau Gwasanaeth Lleol = 22%<br>Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad = 25% | AMB 4 | | • Canolfan Isranbarthol a Chanolfan Gwasanaeth Trefol a'r Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn disgyn dan y gofyniad %;<br>• Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad yn uwch na'r gofyniad % |

**Dadansoddiad:**

Mae'r wybodaeth yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a cheisiadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble byddai angen ystyried gofynion y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble roedd egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl. Nid yw ychwaith yn ystyried unrhyw ganiatâd ar gyfer dymchwel ac ail-adeiladu tŷ h.y. ble nad oes cynnydd yn nifer yr unedau.

**<u>Gwybodaeth ar gyfer 2020/21</u>**

| Haen | Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd | Canran o'r holl ganiatadau preswyl | Dosbarthiad targed |
|---|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol | 69 | 25% | 53% |
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 68 | 25% | 22% |
| Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad | 138 | 50% | 25% |
| **Cyfanswm** | **275** | | |

*Noder fod safleoedd eithrio yn cael eu hystyried ar sail yr anheddle mae'n ffinio â hi, yn hytrach nag fel lleoliad yng nghefn gwlad.

Nodai'r lefel sbardun mewn perthynas â'r dangosydd y dylid edrych ar nifer yr unedau tai a ganiateir dros 2 flynedd yn olynol. Wrth gyfuno gwybodaeth ar gyfer AMB2 a AMB3 ar y cyd (1af Ebrill 2019-31ain Mawrth 2021), fe nodir y wybodaeth ganlynol:

| Haen | Nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd | Canran o'r holl ganiatadau preswyl | Dosbarthiad targed |
|---|---|---|---|
| Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol | 326 | 42% | 53% |
| Canolfannau Gwasanaeth Lleol | 175 | 22% | 22% |
| Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad | 281 | 36% | 25% |
| **Cyfanswm** | **782** | - | - |

Nid yw'r wybodaeth uchod yn cyd-fynd â'r hyn a nodir yn y lefel targed. O ran cyfnod AMB 3, tra bod y canran o unedau sydd wedi derbyn caniatâd o fewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol ond ychydig yn uwch na'r targed, mae gwahaniaethau sylweddol o ran y canran o unedau sydd wedi ei ganiatáu yn y Ganolfan Isranbarthol a'r Canolfannau Gwasanaeth Trefol ynghyd â'r haen Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad o'i gymharu â'r lefel targed.

Wrth ystyried y lefel sbardun a'r sefyllfa ddwy flynedd yn olynol (cyfnod AMB 2 ac AMB 3 ar y cyd), noder bod y canran o ganiatadau mewn Canolfannau Gwasanaeth Lleol yn union gyson â'r hyn a nodir yn y lefel targed. Mae'r canran o unedau sydd wedi derbyn caniatâd yn yr haen Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol yn parhau yn is na'r lefel targed gyda'r ffigwr ar gyfer yr haen Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad yn uwch. Nid yw'r ffigyrau hyn mor eithafol o'i gymharu â'r wybodaeth ar gyfer AMB 3 yn unigol.

Tra nad yw'r wybodaeth ar gyfer AMB 3 yn unigol yn cyd-fynd yn effeithiol â'r targed a'r lefel sbardun, yn enwedig felly o ran yr haenau 'Canolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol' a hefyd 'Pentrefi, Clystyrau a chefn gwlad', ni chredir fod hyn yn achosi pryder. Mae hyn ar sail y ffaith fod y wybodaeth ar gyfer y dangosydd hwn yn yr Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol wedi bod yn dderbyniol. Credir fod y wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 3 yn eithriad i'r patrwm arferol o ystyried y wybodaeth yng nghyfnodau AMB 1 ac AMB 2. Mae heriau penodol wedi bod yn amlwg yng nghyfnod AMB 3 o safbwynt pandemig Covid-19 a gallai hyn fod wedi effeithio ar y ffigyrau ar gyfer 2020/21 mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Mae'n bwysig peidio ystyried gwybodaeth ar gyfer un blwyddyn yn unigol a gellir ail-ymweld â'r wybodaeth mewn perthynas â'r dangosydd hwn y flwyddyn nesaf.

Gallai effeithiau pandemig Covid-19 o bosib fod wedi effeithio ar nifer o unedau sydd wedi cael caniatâd cynllunio a'u dosbarthiad (h.y. y caniatadau sydd yn berthnasol i'r dangosydd hwn). Noder fod 507 uned wedi eu caniatáu yng nghyfnod AMB 2 o'i gymharu â 275 uned yng nghyfnod

AMB 3. Wrth i lefel is o unedau gael eu caniatáu, mae hyn yn golygu fod caniatâd unigol, megis 30 uned ar ddynodiad tai yn Rachub (Pentref Gwasanaethol), yn gallu cael effaith arwyddocaol ar y ganran o unedau sydd yn cael eu caniatáu fesul haen.

Ffactor posib arall dros y ganran o ganiatadau preswyl yn y Ganolfan Isranbarthol a Chanolfannau Gwasanaeth Trefol yn disgyn o dan y lefel targed yw'r oedi sy'n amlwg o ran safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y lleoliadau hyn yn derbyn caniatâd cynllunio. O'r 30 safle sydd wedi eu dynodi mewn aneddleoedd o fewn yr haen hon, yn Ebrill 2021 nid oedd caniatâd cynllunio byw (nag ychwaith unrhyw ddatblygiad wedi ei gwblhau) ar 17 o'r safleoedd hyn. Mae hyn yn amlwg am gael effaith ar y nifer a'r canran o unedau sydd yn cael eu caniatáu yn y Canolfannau hyn.

Ar sail hyn a'r sefyllfa benodol sydd wedi bod ym mlwyddyn AMB 3, credir dylid ail-ystyried y wybodaeth o ran y dangosydd hwn a'r effaith ar strategaeth y Cynllun yn yr AMB dilynol.

Gweler atodiad 2 am fapiau sy'n dangos y dosbarthiad caniatadau cynllunio am unedau preswyl yn 2020/21 ynghyd a nifer y caniatadau cronnol ers mabwysiadu'r Cynllun.

| **Gweithred:** | |
|---|---|

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

## 6.3 Economi ac Adfywio

**Prosiectau Isadeiledd o Bwysigrwydd Cenedlaethol a Datblygiadau Perthynol**

**Wylfa Newydd**

Cyflwynwyd Horizon gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) er mwyn datblygu atomfa niwclear (Wylfa Newydd) ar y 1af o Fehefin, 2018. Roedd y cais yn destun archwiliad gan Banel o Arolygwyr Cynllunio, a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben (cau) ar 23ain Ebrill 2019. Ar ddiwedd yr archwiliad, roedd gan y Panel 3 mis i gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol yn amlinellu eu casgliadau a'u hargymhelliad ynglŷn â ph'un a ddylid rhoi caniatâd i'r bwriad, gyda'r penderfyniad terfynol i'w wneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar neu cyn y 23 Hydref 2019 (6 mis ar ôl dyddiad cau'r archwiliad).

Ailbennwyd y dyddiad gwneud penderfyniad i 31 Mawrth 2020 er mwyn caniatáu derbyn rhagor o wybodaeth am effeithiau amgylcheddol a materion eraill a oedd heb eu datrys.

Yn dilyn y cyfyngiadau yn gysylltiedig â phandemig firws Covid-19 penderfynwyd yr Ysgrifennydd Gwladol ailbennu'r dyddiad cau statudol ar gyfer y cais hwn i 30 Medi 2020, gan nad oedd y Senedd yn eistedd. Y bwriad oedd y byddai datganiad yn cadarnhau'r dyddiad cau newydd ar gyfer penderfyniad yn cael ei wneud i Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn unol ag adran 107(7) o Ddeddf Cynllunio 2008 cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r Senedd ailddechrau.

Ar yr 22ain o Fedi, 28ain o Fedi a 18fed o Ragfyr 2020 fe anfonwyd Horizon ohebiaeth i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ohiriad i benderfyniad Cais Gorchymyn Datblygu (DCO) Wylfa Newydd. Nodwyd mai y rheswm am ofyn i ohirio'r penderfyniad oedd yn sgil trafodaethau oedd yn mynd rhagddi hefo thrydydd partïon oedd wedi mynegi diddordeb mewn bwrw ymlaen â datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar ôl i Hitachi dynnu'n ôl. Ar yr 27ain o Ionawr 2021 fe dynnwyd y Cais Gorchymyn Datblygu

yn ôl gan Horizon Nuclear Power. Tynnwyd y cais yn ôl yn sgil diffyg buddsoddwr i'r prosiect ynghyd a'r diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth. O'r herwydd fe olygai fod Hitachi wedi penderfynu dirwyn Horizon i ben fel endid datblygu gweithredol erbyn 31 Mawrth 2021. O ganlyniad i hyn, ystyriwyd yn briodol fod y Cais Gorchymyn Datblygu yn cael ei dynnu'n nôl.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D26</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO9</td><td colspan="4">Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS8, PS9, PS10, PS11, PS12</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D26 - Cam yn y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) mewn perthynas â Wylfa Newydd</td><td rowspan="4">Cais am GCD i Wylfa Newydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo erbyn Rhagfyr 2017.<br><br>Cymeradwyo'r cais am GCD i Wylfa Newydd erbyn Rhagfyr 2018.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td colspan="2" rowspan="4">Horizon Nuclear Power yn methu a chyflwyno cais am GCD erbyn Rhagfyr 2017.<br><br>Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth i'r cais GCD erbyn Rhagfyr 2018.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>X</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu (GCD) ar y 1af o Fehefin, 2018. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Cyflwynwyd canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Roedd y penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig ar 23 Hydref, 2019 - fodd bynnag ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol i dderbyn gwybodaeth bellach ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y bwriad, fe ymestynnwyd y cyfnod yma i 31 Mawrth, 2020. Yn dilyn cais gan Horizon Nuclear Power yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ohirio ei benderfyniad, ar 27ain o Ionawr, 2021 fe gadarnhawyd Horizon Nuclear Power eu bod yn tynnu'r Cais Gorchymyn Datblygu yn nôl.</td></tr>
</table>

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd y ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i materion ynghlwm a Wylfa Newydd wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. | |

| **Dangosydd: D27** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS8, PS9, PS10, PS11, PS12 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D27 – Statws y cais i DECC am gymeradwyaeth derfynol. | Prosiect Wylfa Newydd yn cael cymeradwyaeth "cadarnhad" gan DECC erbyn Rhagfyr 2019 | AMB 1 | ✓ | Horizon Nuclear Power yn methu a chael cymeradwyaeth / "cadarnhad" gan DECC erbyn Rhagfyr 2019. | |
| | | AMB 2 | – | | |
| | | **<u>AMB 3</u>** | X | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |
| Cyflwynwyd y cais am Orchymyn Caniatâd Datblygu ar y 1af o Fehefin, 2018. Daeth yr Archwiliad Cyhoeddus i ben ar 23ain o Ebrill, 2019. Mae canfyddiadau a chasgliadau'r Archwiliad, ynghyd ac argymhellion yr Arolygwyr annibynnol wedi cael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol gyda'r penderfyniad terfynol yn ddisgwyliedig erbyn 23ain o Hydref, 2019. Fodd bynnag ar gais yr Ysgrifennydd Gwladol i dderbyn gwybodaeth bellach ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol y bwriad, fe ymestynnwyd y cyfnod yma i 31 Mawrth, 2020. Yn dilyn cais gan Horizon Nuclear Power yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ohirio ei benderfyniad, ar 27ain o Ionawr, 2021 fe gadarnhawyd Horizon Nuclear Power eu bod yn tynnu'r Cais Gorchymyn Datblygu yn nôl. | | | | | |
| **Gweithred:** | | | | | |

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd y ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i materion ynghlwm a Wylfa Newydd wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D28</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO9</td><td colspan="4">Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS8, PS9, PS10, PS11, PS12</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D28 – Nifer o geisiadau cynllunio a gyflwynwyd ac a gymeradwywyd ar gyfer datblygiadau perthynol Wylfa Newydd</td><td rowspan="4">Ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau perthynol Wylfa Newydd yn cael eu cyflwyno i Gyngor Sir Ynys Môn erbyn Rhagfyr 2017.</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Horizon Nuclear Power yn methu cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau perthynol erbyn Rhagfyr 2017.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

Ar y 7fed o Ragfyr 2017 fe gyflwynwyd cais cynllunio i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer cynnal gwelliannau i'r A5025 rhwng Y Fali a safle Wylfa Newydd (27C106E/FR/ECON). Cymeradwywyd y cais hynny gydag amodau ar 13 Gorffennaf, 2018. Pwrpas y gwelliannau i'r ffordd yw er mwyn hwyluso llif traffig i safle Wylfa Newydd. Bydd traffig i'r safle yn cael ei gyfeirio ar hyd yr A55 gan droi ffwrdd oddi ar yr A55 yng nghyffordd Y Fali ac yna cysylltu hefo'r A5025.

Mae Adran 43 o Ddeddf Cymru 2017 yn caniatáu i ddatblygiadau perthynol gael ei gynnwys o fewn y Gorchymyn Caniatâd Datblygu. Yn sgil y newid mewn deddfwriaeth, penderfynwyd Horizon Nuclear Power i gynnwys yr holl ddatblygiadau perthynol o fewn y cais Gorchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn hwyluso'r broses caniatáu i'r cyhoedd ac eraill.

Cyflwynwyd y datblygiadau perthynol canlynol fel rhan o'r GCD:-

- Campws y safle o fewn Ardal Datblygu Wylfa Newydd;
- Safle parcio a theithio dros dro Dalar Hir ar gyfer gweithwyr adeiladu;
- Canolfan Logisteg dros dro ym Mharc Cybi.
- Garej Offer Argyfwng Symudol (y Mobile Emergency Equipment Garage (MEEG))
- Canolfan Rheolaeth Argyfwng Amgen (Alternative Emergency Control Centre (AECC))
- Creu cynefin gwlypdir a gwella gwaith fel iawndal ar gyfer unrhyw effaith posib ar Safle o Ddiddordeb Arbennig Tre'r Gof (AoDdGA) yn y lleoliadau canlynol:
    - Tŷ Du;
    - Cors Gwawr, a
    - Cae Canol-dydd

Yn sgil y newid mewn deddfwriaeth, ni chyflwynwyd unrhyw gais cysylltiedig arall yn uniongyrchol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wneud penderfyniad arno.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd y ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i materion ynghlwm a Wylfa Newydd wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd

**Dangosydd: D29**

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO9 | Cefnogi a chyfalafu ar ddatblygiad Prosiect Wylfa Newydd a datblygiadau cysylltiedig er mwyn uchafu cyfleoedd cymdeithasol-economaidd ar gyfer busnesau lleol a chyfleoedd cyflogaeth gynaliadwy i bobl leol, gan gynnwys hyrwyddo rhwydwaith addas o safleoedd i ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd wrth sicrhau bod effeithiau andwyol Prosiect Wylfa Newydd ar gymunedau lleol yn cael eu hosgoi, neu eu lliniaru lle mae hynny'n briodol a lle mae buddiannau etifeddiaeth briodol yn cael eu darparu. |

<table>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS8, PS9, PS10, PS11, PS12</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D29 – Nifer a math o ddatblygiadau perthynol Prosiect Wylfa Newydd a gychwynnwyd</td><td rowspan="4">Datblygiadau perthynol unigol Prosiect Wylfa Newydd wedi eu cychwyn yn unol â chaniatâd cynllunio unigol</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="4">Datblygiad perthynol prosiect Wylfa Newydd heb gychwyn o fewn yr amserlen a osodwyd yn y caniatâd cynllunio unigol a’r Gorchymyn caniatâd Datblygu (lle bo’n berthnasol).</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="5">Yn sgil y penderfyniad gan Horizon i dynnu’r Cais Gorchymyn Datblygu yn nol, nid oes yna unrhyw ddatblygiad perthynol wedi cychwyn. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer gwelliannau i’r A5025 (27C106E/FR/ECON) yn 2018 ac yna caniatâd i ddiwygio amod ymestyn cyfnod cychwyn ar y gwaith (VAR/2020/24) i hyd at Orffennaf 2023.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="4"></td></tr>
<tr><td colspan="5">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o’r AMB dilynol. Mi fydd y ystyriaeth llawn yn cael ei rhoi i materion ynghlwm a Wylfa Newydd wrth adolygu’r CDLl ar y Cyd</td></tr>
</table>

| **Dangosydd: D30** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i’w fonitro |

**Darparu Cyfleon ar gyfer Economi Ffyniannus**

**Ynys Ynni**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dynodi’r ynys gyfan yn barth menter. Y weledigaeth ar gyfer Ardal Fenter Ynys Môn yw creu canolfan ragoriaeth ryngwladol ar gyfer cynhyrchu, arddangos a gwasanaethu ynni carbon isel. Y gobaith yw bod dynodi’r Ynys gyfan fel Parth Menter yn fodd o sicrhau fod gweledigaeth Rhaglen Ynys Ynni a sefydlwyd gan y Cyngor yn cael ei wireddu. Geledigaeth Ynys Ynni yw gwireddu cyfle unwaith mewn oes ar gyfer creu swyddi a sicrhau ffyniant a thwf economaidd drwy fanteisio ar nifer o brosiectau trawsnewidiol ar Ynys Môn.

Serch y ffaith fod y Cais Gorchymyn Datblygu ar gyfer Wylfa Newydd ynghyd a phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru y Grid Cenedlaethol wedi cael ei dynnu’n nôl maer gweledigaeth Rhaglen Ynys Ynni yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Fel rhan o’r Rhaglen mae diddordeb a chynlluniau yn parhau i fodoli

gan gwmnïau ynni carbon isel ar yr ynys gan gynnwys datblygiadau Ynni Llanwol Morlais a Minesto ynghyd a datblygiadau arfaethedig ar gyfer ffermydd solar.

Yn dilyn cyhoeddi Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 mae ymrwymiad y Llywodraeth i hyrwyddo dulliau cynaliadwy o gynhyrchu ynni yn gwbl amlwg. Nodir fod angen manteisio ar y cyfleon yng Nghymru sydd yn bodoli i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a fod yna ymrwymiad i sicrhau bod y system gynllunio yn rhoi arweiniad cryf ar gyfer gweithgarwch datblygu ynni adnewyddadwy gan olygu fod ein bod mewn sefyllfa dda i gefnogi'r sector adnewyddadwy, denu buddsoddiad newydd a lleihau allyriadau carbon.

**Gweledigaeth Economaidd**

Mae’r Cynghorau yn parhau i weithio’n agos a Llywodraeth Cymru ynghyd ac Awdurdodau eraill ar draws Gogledd Cymru drwy’r Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru. Mae’r bwrdd yn grŵp ar y cyd o sefydliadau preifat a chyhoeddus yng Ngogledd Cymru sydd wedi ymrwymo i hyrwyddo twf economaidd ar draws yr ardal. Mae’r amcanion allweddol yn cynnwys annog buddsoddiad busnes yng Ngogledd Cymru gan helpu cwmnïau lleol i fanteisio ar gyfleoedd y gadwyn gyflenwi, ac annog sgiliau cysylltiedig â gwaith yn y rhanbarth.

Ar ddiwedd 2017 bu i bartneriaeth, sy’n cynnwys chwe chyngor gogledd Cymru, partneriaid busnes, colegau a phrifysgolion, lansio Bargen Twf Gogledd Cymru yn ffurfiol. Mae’r Fargen Twf yn nodi gweledigaeth ar gyfer y rhanbarth gyda’r nod o greu 5,300 o swyddi a denu buddsoddiad sector preifat gwerth £1 biliwn yn y rhanbarth dros y 15 mlynedd nesaf. Arwyddwyd y gytundeb derfynol ar gyfer Bargen Twf Gogledd Cymru ar 17 Rhagfyr, 2020. Caiff y fargen ei gefnogi gyda £120 miliwn yr un gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Gobeithir y bydd y Fargen Twf yn trawsnewid economi y rhanbarth drwy gefnogi twf gwyrdd a chynaliadwy.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D31</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO10</td><td colspan="4">Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a’i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy’n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy’n gallu cefnogi’r sectorau yn yr economi lleol sy’n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td>CYF 1, CYF 3 A CYF 5</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D31 – Swm o dir cyflogaeth neu arwynebedd llawr (dosbarth defnydd B1, B2 a B8) a gynhwysir ar safleoedd a amlinellir ym Mholisi CYF 1 sy’n cael eu colli i ddefnyddiau eraill.</td><td rowspan="4" colspan="2">Dim colled net o dir cyflogaeth/arwynebedd llawr i ddefnyddiau amgen (defnyddiau heblaw dosbarth defnydd B1, B2 a B8) yn groes i Bolisi CYF 3 neu Bolisi CYF 5.</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td rowspan="4">Caniatáu un cais cynllunio nad yw’n unol a Pholisi CYF 3 neu CYF 5.</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 3</td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

Caniatawyd cyfanswm o 10 cais cynllunio ar safleoedd cyflogaeth a warchodir yn unol â Pholisi CYF1. Roedd 8 o'r ceisiadau hyn yn gysylltiedig â defnyddiau yn nosbarthiadau defnydd B1, B2 a B8. Y ddau gais nad oeddent yn ymwneud â'r defnyddiau hyn oedd:

C20/0804/25/LL - Newid defnydd uned wag o swyddfa, Dosbarth Defnydd B1 i bractis deintyddol, Dosbarth Defnydd D1 (ailgyflwyniad o gais a wrthodwyd gan gyfeirnod C20/0351/25/LL) yn 8, Llys Castan Ffordd Y Parc, Parc Menai, Bangor, Gwynedd. Arweiniodd hyn at golli 173 metr sgwâr o ofod unedau B1 a warchodwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth. Er i'r Pwyllgor Cynllunio gymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y swyddog oherwydd ei fod yn gwrthdaro â pholisi ISA2, fe wnaeth adroddiad y swyddog gasglu bod y cynnig yn cydymffurfio â gofynion Polisi CYF 1 a CYF 5 y CDLl.
C20/0926/25/LL - Cais i newid defnydd uned swyddfa yn bractis milfeddygaeth (D1) yn Uned 8 Llys Onnen, Bangor. Arweiniodd hyn at golli 228 metr sgwâr o ofod swyddfa B1 a warchodwyd ar gyfer defnydd cyflogaeth. Ystyriwyd fod y bwriad yn cydymffurfio â gofynion Polisi CYF 5 y CDLl.

Ni roddwyd caniatâd cynllunio ar y safleoedd cyflogaeth (wedi eu gwarchod neu ddynodi) ar gyfer defnyddiau amgen nad oeddent yn cydymffurfio â Pholisïau CYF 3 neu CYF 5. Ystyrir fod y polisïau yn parhau i gael eu gweithredu yn effeithiol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf.

| **Dangosydd: D32** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO10 | Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | CYF 1, CYF 3 a CYF 5 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D32 – Swm o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodir a gynhwyswyd ym Mholisi CYF 1 a gymerwyd i fyny yn ôl dosbarth defnydd datblygu B1, B2 neu B8. | 6.9 ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a warchodwyd a gymerir i fyny fesul blwyddyn yng Ngwynedd. | AMB 1 | ✓ | Llai na 27.4 ha o dir cyflogaeth wedi ei gymryd i fyny ar safleoedd cyflofaeth a warchodwyd erbyn 2021 yng Ngwynedd.<br><br>Llai na 57 ha o dir cyflogaeth wedi ei gymryd i fyny ar safleoedd cyflofaeth a warchodwyd erbyn 2021 yn Ynys Môn. | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |
| | | **AMB 3** | ✓ | | |
| | | AMB 4 | | | |

| **Dadansoddiad:** | |
|---|---|
| Mae'r sbardun monitro yn ymwneud â faint o'r tir cyflogaeth a warchodir sydd wedi derbyn caniatâd erbyn diwedd 2021.<br><br>Yng Ngwynedd, mae 0.1ha o dir wedi derbyn caniatâd ar gyfer defnydd cyflogaeth, ac ym Môn, mae 12.9ha o safleoedd cyflogaeth gwarchodedig wedi derbyn caniatâd yn ystod cyfnod y trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol. (AMR3).<br><br>Gan gynnwys caniatadau cynllunio a roddwyd yn ystod AMB1 ac AMB2, mae cyfanswm cronnus y tir a dderbyniodd ganiatâd ar gyfer defnydd cyflogaeth fel a ganlyn:<br><br>Gwynedd, 6.4ha (gan gynnwys adleoli uned 0.47ha ar Stad Cibyn yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu ffordd osgoi Caernarfon)<br><br>Ynys Môn 26.3ha.<br><br>Nodir fod y gyfradd caniatâd ar safleoedd cyflogaeth gwarchodedig yn ystod y cyfnod byr hwn yn is na'r hyn a ddisgwylir. Ystyrir fod y Cynllun yn hwylusydd o ran darparu safleoedd cyflogaeth a bod llai o geisiadau am ddatblygiad ar y safleoedd cyflogaeth yn debygol o fod yn seiliedig ar faterion economaidd sydd tu hwnt i reolaeth y Cynllun.<br><br>*NODER: Mae rhan o ffordd osgoi Caernarfon yn mynd trwy gornel de-orllewinol Stad Ddiwydiannol Cibyn. Bydd rhan fechan o'r stad ddiwydiannol bresennol yn cael ei cholli i'r ffordd osgoi. Nid yw'n bosib amcangyfrif arwynebedd y safle cyflogaeth a gollir, ond bydd yn rhan fechan o'i chymharu â chyfanswm arwynebedd y stad bresennol. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. | |

| **Dangosydd: D33** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO10 | Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi brodorol. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | CYF 1, CYF 3 a CYF 5 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D33 – Swm o dir cyflogaeth (hectar) a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel % o'r holl ddynodiadau cyflogaeth. | Sicrhau caniatâd cynllunio ar y safle cyflogaeth a ddynodwyd yng Ngwynedd erbyn 2019<br><br>Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 64 ha o dir cyflogaeth ar safle a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2021<br><br>Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 112ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2024<br><br>Sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer 144ha o dir cyflogaeth ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn erbyn 2026 | AMB 1 | | Cyfanswm o dir cyflogaeth a ganiatawyd yn disgyn o dan yr angen cronnol a nodwyd yn y targed polisi |
| | | AMB 2 | X | |
| | | **AMB 3** | X | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau cynllunio ar y safle dynodedig o fewn Môn neu Wynedd yn ystod AMB 3.

Mae'r targed yn nodi'r angen i'r safleoedd gael eu dwyn ymlaen erbyn 2019 yng Ngwynedd a Môn, ac o ganlyniad mae'r lefel sbardun wedi ei gyrraedd. Fodd bynnag, mae'r hinsawdd economaidd yn sylweddol wahanol i pan fabwysiadwyd y Cynllun ac ystyrir fod hyn wedi cael cryn effaith ar faint o dir cyflogaeth sy'n cael ei ddatblygu.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

**Dangosydd: D34**

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO10 | Sicrhau bod rhwydwaith o safleoedd cyflogaeth ac adeiladau o faint ac o safon yn cael eu diogelu a'i ddynodi mewn lleoliadau cynaliadwy sy'n cwrdd orau a gofynion busnesau cyfredol ac sy'n gallu cefnogi'r sectorau yn yr economi lleol sy'n tyfu gan ddenu buddsoddiad, a chadw a chynyddu nifer y swyddi priodol. |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | CYF 1, CYF 3, CYF 5 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D34 – Paratoi a mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud a defnyddiau amgen ar safleoedd cyflogaeth | Paratoi a mabwysiadu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ymwneud a defnyddiau amgen o safleoedd cyflogaeth a ddiogelwyd a neilltuwyd o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. | AMB 1 | – | Methiant i fabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun. |
| | | AMB 2 | – | |
| | | **AMB 3** | – | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Cafodd y CCA ei fabwysiadu'n ffurfiol gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar yn Ionawr 2021 yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus.

Serch y ffaith fod y Canllaw wedi ei fabwysiadu, ni lwyddwyd i'w fabwysiadu o fewn y cyfnod targed o 18 mis ar ôl mabwysiadu'r Cynllun a oedd wedi ei osod fel dyddiad targed.

Mae CCA bellach yn cael ei ddefnyddio fel ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

**Gweithred:**

Targed wedi ei gyflawni. Dim angen parhau i'w fonitro.

| **Dangosydd: D35** |
|---|

| **Amcan:** | SO11 | Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithlu | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 9, ISA 3 |
| | | **Deilliant:** | | **Trothwy:** |
| D35 - Statws cyflogaeth 16+ | Cyflawni cynnydd yng nghyfradd y gweithgarwch economaidd erbyn 2026 o gymharu â'r lefel yn 2017 | AMR 1 | ✓ | Cyfradd gweithgarwch economaidd yn gostwng am 2 flynedd yn olynol |
| | | AMR 2 | – | |
| | | **AMR 3** | – | |
| | | AMR 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Arolwg o'r Gweithlu Lleol: Crynodeb o weithgarwch economaidd (16-64)

| | Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2018 | Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2019 | Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2020 | Blwyddyn yn dod i ben mis Rhagfyr 2020 |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 78.1 | 80.7 | 79.0 | 78.9% |
| Gwynedd | 76.7 | 77.1 | 77.7 | 79.6% |
| | 76.5 | 76.7 | 76.6 | 75.1% |

Tarddiad: Stats Cymru - Cyfradd Gweithgarwch Economaidd (16-64) yn ôl Ardal Leol a'r Flwyddyn yng Nghymru

Mae cyfradd gweithgarwch economaidd Gwynedd wedi cynyddu yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae cyfradd gweithgarwch economaidd Ynys Môn wedi gostwng ychydig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gall hyn fod oherwydd nifer o gyflogwyr yn adleoli neu'n cau, effeithiau pandemig Covid-19 a'r ansicrwydd ynghylch Brexit yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Mae'r ddau olaf yn effeithiau nad oedd modd eu rhagweld. Mae'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan hefyd wedi gweld gostyngiad mewn gweithgarwch economaidd yn y flwyddyn ddiwethaf.

Parhau i fonitro fel rhan o'r AMR nesaf.

**Gweithredu:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMR nesaf.

**Dangosydd: D36**

| **Amcan:** | SO11 | Sicrhau cyfleoedd i wella sgiliau ac addysg y gweithle | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 9, ISA 3 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| | Yn dilyn mabwysiadu'r | AMB 1 | – | Methiant o'i leihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D36 – Nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd | Cynllun, lleihau'r nifer o bobl sy'n cymudo o Ynys Môn i Wynedd erbyn 2026 o'i gymharu â'r lefel yn 2017. | AMB 2 | ✓ | Môn i Wynedd erbyn 2019. |
| | | **AMB 3** | X | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Mae gan y Cyngor ddyhead i leihau cyfran cymudo o Ynys Môn i Wynedd ac ardaloedd ehangach. Byddai lleihad yng nghyfran cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd yn awgrymu bod cynnydd yn y cyfleoedd economaidd ar gael yn Ynys Môn fyddai yn ei dro yn arwain at lai o ail-gymudo yn digwydd. Yn 2020, roedd 68.2% o holl gymudwyr Ynys Môn yn cymudo i'w gwaith o fewn y Sir. Mae'r tabl isod yn amlygu patrymau cymudo o Ynys Môn i Wynedd dros y blynyddoedd diweddar.

| Blwyddyn | Cyfanswm cymudwyr Ynys Môn | Nifer cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd | % Cymudwyr o Ynys Môn i Wynedd |
|---|---|---|---|
| **2016** | 32,200 | 7,900 | 24.5% |
| **2017** | 31,500 | 7,000 | 22.2% |
| **2018** | 32,200 | 7,900 | 24.5% |
| **2019** | 32,000 | 7,500 | 23.4% |
| **2020** | 30,900 | 7,400 | 24% |

*(Ffynhonnell: StatsWales, Llywodraeth Cymru)*

Fel y gwelir, er bod cyfran y boblogaeth weithiol oedd yn cymudo o Ynys Môn i Wynedd wedi amrywio rhwng 2016 a 2020. Er fod cynnydd wedi digwydd yn y nifer o gymudwyr o Ynys Môn i Wynedd rhwng 2019 a 2020, mae'r cyfran yn parhau i fod yn uwch na'r ffigwr cymharol yn 2017. Awgryma hyn fod cyfleoedd economaidd wedi lleihau ar yr Ynys a bod y Cynllun. Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau eraill yn gallu cyfrannu at y gostyngiad hwn. Gan fod y cyfran o gymudwyr o Ynys Môn wedi cynyddu rhwng 2019 a 2020, nid yw'r targed ar gyfer y dangosydd yn cael ei gwrdd. Fodd bynnag, gyda'r pendemig Cofid wedi effeithio ar y ffordd, rydym yn gweithio, mae'r flwyddyn diwethaf wedi bod yn un anarferol i gymudwyr, gyda llawer o weithwyr yn gweithio o adref a dim yn cymudo i'w man gwaith arferol. O ganlyniad, mae'n anodd dod i gasgliad pendant o ran perfformiad y dangosydd hwn.

**Gweithred:**

| |
|---|
| Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. |

<table>
<tr><th colspan="6">Dangosydd: D37</th></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO12</td><td colspan="4">Arallgyfeirio economi wledig ardal y Cynllun, adeiladu ar gyfleoedd, cynnig cyfleon cyflogaeth lleol gyda swyddi o ansawdd, ac sy'n gweddu'r gymuned leol a pharchu buddiannau amgylcheddol.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol</td><td colspan="2">CYF 6</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D37 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer busnesau newydd mewn Pentrefi Gwasanaeth/ Lleol/ Gwledig/ Arfordirol neu yn y cefn gwlad</td><td rowspan="4">Caniatáu busnesau newydd ar raddfa fach ar safleoedd addas neu mewn adeiladau addas o fewn neu'n agos at bentrefi neu yn y cefn gwlad yn unol â Pholisi CYF 6</td><td>AMB 1</td><td>✓</td><td colspan="2" rowspan="4">Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer busnesau graddfa fach newydd ar safleoedd/ mewn adeiladau o fewn neu'n agos at bentref neu yn y cefn gwlad am ddwy flynedd yn olynol</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>✓</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>✓</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Cymeradwywyd pump o geisiadau cynllunio, a'r rheini ar gyfer busnesau newydd mewn pentrefi gwasanaeth/lleol/gwledig/arfordirol a chefn gwlad agored sydd wedi cyfeirio at Bolisi CYF 6 wrth ystyried egwyddor y bwriad. Mae'r mathau o fentrau busnes sydd wedi eu cymeradwyo yn cynnwys gosod porta cabin at ddefnydd busnes, newid defnydd i greu carafán/cyfleuster hunan-storio, newid defnydd sied gardd i ddefnydd busnes (cynhyrchu, storio a phecynnu medd, salon cŵn, sied storio).<br><br>Ymddengys fod Polisi CYF 6 yn parhau i gael ei ddefnyddio'n effeithiol i gymeradwyo ceisiadau am fusnesau newydd ar raddfa fechan ac y gall, felly, gyfrannu at sicrhau ffyniant economaidd a chyfleoedd gwaith mewn ardaloedd gwledig.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td colspan="5"></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf.</td></tr>
</table>

**Canol Trefi a Datblygiad Manwerthu**

Mae canolfannau manwerthu o fewn y ddau awdurdod yn parhau i fod yn ganolbwynt ar gyfer defnyddiau manwerthu. Nid oes yna unrhyw geisiadau mawr o fewn yr ardaloedd manwerthu (canol trefi a phrif ardal siopa) wedi ei dderbyn yn ystod cyfnod y trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol. Mae effaith Brexit a pandemig Covid-19 ar ganol trefi wedi amlygu ei hun fwyfwy yn ystod cyfnod y trydydd AMB. Yn ystod y flwyddyn diwethaf mae nifer o siopau gadwyn amlycaf y stryd fawr wedi cau. Golygai hynny fod yna wagle nodweddiadol wedi ei adael yn rhai o'n prif canol trefi.

Yn 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r ddogfen 'Adeiladu Lleoedd Gwell: Y System Gynllunio yn Sicrhau Dyfodol Cydwerth a Mwy Disglair'. Mae'r ddogfen hyn yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer y

system gynllunio yng Nghymru yn dilyn pandemig Covid. Rhoddir cryn bwyslais o fewn y ddogfen i adferiad y stryd fawr yn dilyn Covid.

| Dangosydd: D38 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO13 | Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | MAN 1, MAN 2 & MAN 3 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D38 Swm y datblygiad manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr a ganiateir (m.sg) o fewn a thu allan i ffiniau sefydledig canol trefi | Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir o fewn ffiniau canol trefi sefydledig o'i gymharu â'r swm blynyddol a ganiateir tu allan i ffiniau canol trefi sefydledig ar safleoedd ar ymylon y canol a safleoedd tu allan i'r canol | AMB 1 | ✓ | Swm blynyddol o arwynebedd llawr manwerthu mawr (m.sg.) a ganiateir ar safleoedd tu allan i ganol trefi sefydledig yn fwy na'r swm blynyddol a ganiateir o fewn canol trefi sefydledig | |
| | | AMB 2 | − | | |
| | | **AMB 3** | ✓ | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |
| Ni chymeradwywyd unrhyw gais cynllunio manwerthu mawr yn ystod y cyfnod monitro tu allan i ganol tref diffiniedig. | | | | | |
| **Gweithred:** | | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. | | | | | |

| Dangosydd: D39 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO13 | Hyrwyddo canol trefi llawn bywyd a ffyniannus yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd wedi un ai gynnal eu rôl neu gael ail wynt fel canolfannau gwasanaeth ac i weithio ynddynt, ac sy'n llefydd deniadol a llawn bywyd i breswylwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | MAN 1, MAN 2, MAN 3 | |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D39 – Cynnal astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli | Archwiliad i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli yn cael ei gwneud erbyn diwedd 2017/2018 o fabwysiadu'r Cynllun. | AMB 1 | – | Methiant i gynnal astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu ymgeisiol posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli erbyn diwedd 2016/2017 o fabwysiadu'r Cynllun. |
| | | AMB 2 | – | |
| | | **AMB 3** | – | |
| | Dynodi safleoedd manwerthu ym Mangor, Llangefni a Phwllheli i gyfarch casgliadau'r Astudiaeth adeg adolygu'r Cynllun. | **Perfformiad AMB 1af (1af Awst 2017 i 31ain Mawrth 2019)** | | Methiant i ddarparu safleoedd manwerthu i gyfarch casgliadau'r Astudiaeth. |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, ymddengys fod y niferoedd o geisiadau cynllunio ar gyfer defnyddiau manwerthu (A1) o fewn Bangor Llangefni a Phwllheli yn gymharol isel ac mewn gwirionedd beth sydd yn cael ei gyflwyno ydi ceisiadau er mwyn newid defnydd unedau dosbarth defnydd A1 i ddefnyddiau amgen, er enghraifft defnydd A3 ac C3. Mae effaith Brexit a'r pandemig wedi effeithio canol trefi yn sylweddol gan arwain at ymadawiad siopau cadwyn o ganol trefi yn hytrach na galw am ychwaneg o ofod. Oherwydd y diffyg cynnydd a phwysau ar gyfer defnyddiau A1 yn y canolfannau manwerthu penodol hyn nid yw'n ymddangos fod y galw ar gyfer defnyddiau manwerthu yn cyd-fynd a chasgliadau'r Astudiaeth Manwerthu (2013) a gynhaliwyd gan Applied Planning. Yn sgil hynny, ni ystyrir yn briodol i gynnal Astudiaeth i archwilio safleoedd manwerthu posibl ym Mangor, Llangefni a Phwllheli. Rhagwelir y bydd yr Astudiaeth Manwerthu (2013) yn cael ei ddiweddaru yn ystod y broses o adolygu'r Cynllun. Bydd casgliadau'r Astudiaeth yn sail i'r polisïau manwerthu yn yr adolygiad ac yn ein galluogi i ragweld os yw'r pwysau a'r galw am ychwaneg o ofod llawr nwyddau cymhariaeth yn parhau i fodoli ym Mangor, Pwllheli a Llangefni.<br><br>Mae'r polisïau a gynhwysir o fewn y Cynllun yn hwyluso'r ddarpariaeth o safleoedd manwerthu yn unol â'r galw a phriodoldeb y safle, gan hynny mae yna fecanwaith polisi yn ei le er mwyn cyfarch y galw pe byddai'n codi. Ymhellach, ystyrir yn briodol i gynnal adolygiad o'r Astudiaeth Manwerthu yn ystod y broses o adolygu'r Cynllun er mwyn canfod os yw'r casgliadau yn parhau i fod yn gyfredol ac asesu'r angen ar gyfer darpariaeth o lawr gofod manwerthu. | | | | |

| |
|---|
| Oherwydd y diffyg galw ar gyfer gofod manwerthu ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, ystyrir yn briodol fod yr angen a'r galw am ofod manwerthu ar gyfer y dyfodol yn derbyn ystyriaeth briodol fel rhan o adolygiad y Cynllun. |

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. | |

| **Dangosydd: D40** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO13 | Hyrwyddo canol trefi hanfodol a bywiog yn Amlwch, Bangor, Blaenau Ffestiniog, Caergybi, Caernarfon, Llangefni, Porthmadog a Phwllheli, sydd un ai wedi cynnal neu wedi ailddarganfod eu pwrpas fel canolfannau gwaith a gwasanaethau, ac sy'n lleoedd bywiog a deniadol i drigolion. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 15, MAN 1, MAN 2, MAN 3 | |
| | | **Deilliant:** | | **Trothwy:** | |
| D40 - Nifer y ceisiadau cynllunio am ddefnyddiau nad ydynt yn A1 a gymeradwywyd mewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol. | Defnyddiau A1 yn parhau i fod y prif ddefnydd o fewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol o gymharu â'r astudiaeth arwynebedd llawr manwerthu yn 2017. | AMR 1 | ✓ | Defnyddiau nad ydynt yn rhai A1 sydd wedi'u caniatáu mewn ardaloedd manwerthu cynradd unigol yn groes i Bolisi MAN 2. | |
| | | AMR 2 | ✓ | | |
| | | **AMR 3** | ✓ | | |
| | | AMR 4 | | | |

**Dadansoddiad:**

Pum cais wedi'u cymeradwyo yn yr Ardal Siopa Gynradd. Mae pob cais yn cydymffurfio â meini prawf y polisi:

- 1 caniatâd i newid defnydd o A1 i A3,
- 1 caniatâd i ymestyn uned D1 (deintyddfa a chanolfan iechyd)
- 1 caniatâd i newid defnydd cyn gapel i D2
- 1 caniatâd ar gyfer datblygiad preswyl ar y llawr cyntaf (sydd ddim yn berthnasol i'r polisi)
- 1 caniatâd i wneud newidiadau allanol i uned A1

Ystyrir bod Polisi manwerthu'r cynllun yn cael ei weithredu'n effeithlon oherwydd nid oes caniatâd wedi ei roi i unrhyw ddefnydd nad yw'n cyfrif fel defnydd canol tref (yn unol â diffiniad PPC). Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd.

O ganlyniad, ystyrir bod polisïau canol tref y cynllun yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd.

**Gweithredu:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMR nesaf.

**Yr Economi Ymwelwyr**

Mae twristiaeth yn sector deinamig sy'n newid yn barhaus. Mae ganddo gyfraniad sylweddol i'w wneud i economi ardal y cynllun. Mae'r economi ymwelwyr yn darparu swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau sy'n hanfodol i lesiant a mwynhad cymunedau lleol a thrigolion ardal y cynllun. Dengys pwysigrwydd twristiaeth yn Nhabl 1[3] isod:

| 2019 | Gwynedd* | Ynys Môn |
|---|---|---|
| Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth | £1.35 biliwn (+9.6%) | £362.25 miliwn (+8.0%) |
| Cyfanswm yr ymwelwyr (miliynau) | 7.81 (+3.9%) | 1.79 (+2.1%) |
| Nifer yr ymwelwyr sy'n aros (miliynau) | 3.97 (+6.9%) | 1.08 (+2.1%) |
| Nifer yr ymwelwyr dydd (miliynau) | 3.84 (+0.9%) | 0.71 (+0.9%) |
| Nifer o swyddi FTE[4] sy'n cael eu cefnogi gan wariant twristiaeth | 18,244 (+6.0%) | 4,328 (+4.7%) |

* yn cynnwys Parc Cenedlaethol Eryri

<u>Canllaw Cynllunio Atodol - Cyfleusterau a Llety Twristiaid</u>

Mabwysiadwyd y CCA ar 12 Mawrth 2021.

<u>Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau</u>

Mae Rheoli Cyrchfannau'n broses o gydlynu pob agwedd o gyrchfan sy'n cyfrannu at brofiad yr ymwelydd ac sy'n ystyried anghenion ymwelwyr.

Mae Cynllun Rheoli Cyrchfan yn ddatganiad o fwriad y mae gwahanol rai yn cytuno gydag ef, i reoli cyrchfan dros gyfnod penodol o amser. Mae'n dweud beth yw rolau'r gwahanol rai sydd â diddordeb, ac yn dweud yn eglur beth maen nhw am ei wneud.

Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan Gwynedd (2013 - 2020) ym mis Mai 2013 a chyhoeddwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan Ynys Môn yn 2016. Mae'r ddau awdurdod yn gweithio i'w diweddaru ar hyn o bryd.

<u>Effaith COVID-19 ar y Diwydiant Twristiaeth</u>

Dengys ffigyrau STEAM Cymru ar gyfer 10 mis cyntaf 2020 fod twristiaeth a lletygarwch wedi cyfrannu £6bn yn llai i'r economi yng Nghymru nag yn 2019.
Roedd 100m yn llai o ddyddiau ymweld o gymharu â 2019, a'r cyfanswm wedi gostwng i 59m.

Gogledd Cymru gafodd ei daro waethaf, gyda gostyngiad o £2.17bn yn effaith economaidd y sector. Collwyd £0.79bn yng Nghanolbarth Cymru, £1.1bn yn y De-orllewin, a £1.87bn yn y De-ddwyrain.

Effaith arall mae'r pandemig wedi gael yw'r cynnydd yn y galw am lety gwyliau o fewn ardal y Cynllun, gyda'r phobl yn mynd ar wyliau yn y wlad yma yn hytrach na thramor oherwydd y cyfyngiadau. Fe olygai hynny fod yna bwysau cynyddol ar gymunedau lleol.

**Dangosydd: D41**

[3] Adroddiad STEAM 2019
[4] FTE = Cyfwerth â Llawn Amser

| Amcan: | SO14 | Rheoli'r ardal fel cyrchfan gynaliadwy amgen i dwristiaid gan ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n diwallu anghenion cyfoes ac sy'n cynnig manteision trwy gydol y flwyddyn. | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 14, TWR 1 |
| | | **Deilliant:** | | **Trothwy:** |
| D41 - Nifer yr atyniadau a chyfleusterau i ymwelwyr neu welliannau wedi'u cymeradwyo i atyniadau a chyfleusterau | Atyniadau a chyfleusterau newydd neu well wedi'u caniatáu ar safleoedd addas yn unol â pholisi TWR 1 | AMR 1 | ✓ | Dim ceisiadau cynllunio am atyniadau neu gyfleusterau newydd, neu i wella atyniadau neu gyfleusterau wedi'u caniatáu am ddwy flynedd yn olynol. |
| | | AMR 2 | ✓ | |
| | | **AMR 3** | ✓ | |
| | | AMR 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| 1 cais cynllunio am gyfleuster twristiaeth (byrddau gwybodaeth) sy'n is na'r blynyddoedd a fu (6 yn AMR1 ac 8 yn AMR2). Gall hyn fod oherwydd pandemig Covid-19 oherwydd bod atyniadau twristiaeth ardal y cynllun wedi bod ar gau am y rhan fwyaf o'r flwyddyn sydd wedi arwain at lai o fuddsoddiad yn y sector.<br><br>Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cyrraedd y lefel trothwy felly ystyrir bod polisïau twristiaeth y cynllun yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd. | | | | |
| **Gweithredu:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMR nesaf. | | | | |

**Dangosydd: D42**

| Amcan: | SO14 | Rheoli'r ardal fel cyrchfan gynaliadwy amgen i dwristiaid gan ddarparu cyfleusterau o safon uchel sy'n diwallu anghenion cyfoes ac sy'n cynnig manteision trwy gydol y flwyddyn. | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 14, TWR 3, TWR 5 |
| | | **Deilliant:** | | **Trothwy:** |
| D42 - Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir am unedau gwersylla amgen parhaol a dros dro | Unedau gwersylla amgen parhaol neu dros dro a ganiateir yn unol â Pholisi TWR 3 neu Bolisi TWR 5 | AMR 1 | ✓ | Dim ceisiadau cynllunio am unedau gwersylla amgen parhaol neu dros dro wedi'u caniatáu am ddwy flynedd yn olynol. |
| | | AMR 2 | ✓ | |
| | | **AMR 3** | ✓ | |
| | | AMR 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| 8 caniatâd cynllunio am unedau gwersylla amgen newydd: rhoddwyd 5 caniatâd am ddatblygiadau gwersylla amgen dros dro (TWR 5) a 3 am ddatblygiadau gwersylla amgen parhaol (TWR 3) yn ystod y cyfnod AMR cyntaf. Yn ystod yr ail gyfnod AMR mae cyfanswm o 5 cais wedi | | | | |

| | |
|---|---|
| cael eu caniatáu: rhoddwyd 3 caniatâd am ddatblygiadau gwersylla amgen dros dro (TWR 5) a 2 am ddatblygiadau gwersylla amgen parhaol (TWR 3).<br><br>Ystyrir bod Polisïau TWR 3 a TWR 5 yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd. | |
| **Gweithredu:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMR nesaf. | |

## 6.4 Cyflenwad ac ansawdd tai

**Lleoliad Tai (Rhan 1)**

Mae Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), Mawrth 2020, yn nodi'r angen i gyflwyno dau ddangosydd newydd yn seiliedig ar y Taflwybr Tai o fewn y Cynllun. Mae hyn yn disodli'r angen i ymgymryd â Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai ac i fonitro ar sail y cyflenwad tir a'i hamlygir ar sail yr astudiaeth honno (Dangosydd D43 yn flaenorol fel nodir yn y CDLl ar y Cyd). Gweler y ddau ddangosydd newydd hyn isod, sef dangosyddion D43(A) a D43(B).

Nodir bod yn rhaid nodi'r lefelau cwblhau mewn perthynas â dangosyddion D43(A) a D43(B) yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol ar ffurf rhifau a chanrannau (plws/minws x %).

Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), megis felly'r CDLl ar y Cyd, caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun.

Yn unol â gofynion y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, rhan 8.16), mae'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd ac Ynys Môn wedi asesu'r ddarpariaeth tai yn erbyn y taflwybr tai a'i nodir yn y Cynllun gan ddiwygio'r taflwybr er mwyn ei gymharu gyda'r taflwybr sydd yn rhan o'r Cynllun.


Mae'n rhaid i'r Adroddiad Monitro Blynyddol gynnwys adran sy'n cynnwys graff gwreiddiol y taflwybr a thabl Cyfrifo'r Gyfradd Adeiladu Flynyddol Ddisgwyliedig (neu Gofyniad Blynyddol Cyfartalog yn achos y CDLl ar y Cyd) ac mae'n rhaid i'r AMB gynnwys diweddariad o'r ddwy elfen. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i waith monitro, cymharu â dadansoddi mwy manwl gael ei wneud yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol. Nodir mai'r pwynt allweddol yw y dylai fod yn glir i'r darllenwyr beth sydd wedi newid rhwng y cynllun a fabwysiadwyd a'r Adroddiad Monitro Blynyddol presennol.

Noder fod yn rhaid cynnwys sylwadau ar y canlyniadau a'r goblygiadau a nodi'n glir pa gamau (lle y bo'n berthnasol) sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg/tangyflawni yn erbyn strategaeth y cynllun. Noder fod sylwadau o'r fath yn cael eu cynnig o fewn y dadansoddiad o ddangosyddion D43(A) a D43(B) isod.


Fel rhan o'r broses hon cysylltwyd â pherchnogion dynodiadau tai'r Cynllun ynghyd a'r safleoedd banc tir mawr (5 neu fwy o unedau) er mwyn sefydlu eu bwriad o ran datblygu'r safleoedd hyn. Yn dilyn hyn fe ymgynghorwyd â'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai er mwyn ystyried y taflwybr arfaethedig ar gyfer y safleoedd hyn. Cytunwyd ar daflwybr pob safle gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid ac nid oedd angen cynnal cyfarfod i drafod unrhyw safle ble roedd anghydweld.

Gweler Atodiad 3 ar gyfer asesiad o'r dynodiadau tai a'r safleoedd banc tir mawr fel y cytunwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid ynghyd a'r wybodaeth berthnasol o ran y broses hon.

<u>Graff y Taflwybr fel y'i nodir yn y CDLl a fabwysiadwyd</u>




Graff y Taflwybr – fel y'i diwygiwyd drwy'r Adroddiad Monitro Blynyddol




Mae'r graff hwn yn seiliedig ar y wybodaeth yn y tabl canlynol sydd wedi diwygio'r wybodaeth yn y Cynllun a'i mabwysiadwyd. Mae hyn ar sail unedau sydd wedi eu cwblhau mewn gwirionedd, trafodaethau gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid a thybiaethau a wneir ar sail hynny. Mae'r sail y ffigyrau o 2021-22 ymlaen i'w gweld yn Atodiad 3 o'r Adroddiad hwn.

Mae'r tabl hwn a'r graffiau uchod yn darparu'r sail ar gyfer yr asesiad o ddangosyddion D43(A) a D43(B).

| Blwyddyn y CDLl ar y Cyd | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

| | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd mawr | 92 | 227 | 191 | 207 | 186 | 264 | 309 | 419 | 343 | 269 | | | | | |
| Tai wedi eu cwblhau ar safleoedd bach | 148 | 167 | 146 | 170 | 165 | 138 | 153 | 129 | 110 | 91 | | | | | |
| Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd a'u dynodwyd yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | 146 | 171 | 320 | 489 | 378 |
| Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | 337 | 302 | 227 | 179 | 121 |
| Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | | | 85 | 85 | 85 |
| Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap bach yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | | | 33 | 34 | 34 |
| Nifer y Tai Wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn | 240 | 394 | 337 | 377 | 351 | 402 | 462 | 548 | 453 | 360 | | | | | |
| Nifer y Tai a'u rhagwelir fydd wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn | | | | | | | | | | | 483 | 473 | 665 | 787 | 618 |
| Gofyniad Blynyddol Cyfartalog | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 | 479 |

| | |
|---|---|
| **Dangosydd D43** | Y dangosydd yma wedi cael ei ddisodli ar sail llythyr y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol dyddiedig 26 Mawrth 2020: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/newidiadau-i-bolisiau-a-chanllawiau-ym-maes-cynllunio-ynghylch-cyflenwi-tai_0.pdf |

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D43(A)</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15 & SO16</td><td colspan="4">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td colspan="2">PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td colspan="2">Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Y lefelau cwblhau tai blynyddol wedi'u monitro yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog</td><td rowspan="4">Caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun</td><td>AMB 1</td><td></td><td colspan="2" rowspan="4">Ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu’n sylweddol is na’r gyfradd gofyniad blynyddol cyfartalog</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Mawrth 2020), caiff lefelau cwblhau tai eu mesur yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog a nodir yn y Cynllun.<br><br>Fe nodir y dylid monitro cydrannau'r cyflenwad tai, gan gynnwys dynodiadau, a safleoedd hap bach a mawr ar wahân.<br><br>Rhaid nodi'r lefelau hyn yn glir yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol mewn rhifau a chanrannau (plws/minws x %).<br><br>Fe noder y wybodaeth ganlynol o ran yr unedau sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog ynghyd â’r wybodaeth gwblhau flynyddol a noder yn y taflwybr tai yn y CDLl ar y Cyd. Ochr yn ochr â hyn noder ei fod yn bwysig ystyried gwybodaeth mewn perthynas â’r taflwybr diwygiedig ar gyfer y blynyddoedd sydd yn weddill yn oes y Cynllun.</td></tr>
</table>

**2020/21**

**Cymhariaeth â'r taflwybr tai**

| | Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd | Gwybodaeth o daflwybr tai y Cynllun h.y. nifer yr unedau a ddisgwylir eu cwblhau | Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd a'r wybodaeth yn y taflwybr |
|---|---|---|---|
| Safleoedd bychan (Llai na 5 uned) | 89 | 163 | -74 (-45.4%) |
| Safleoedd mawr (5 uned neu ragor – heb fod ar ddynodiad tai) | 159 | 118 | +41 (+34.7%) |
| Safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai | 112 | 366 | -254 (-68.4%) |
| **Cyfanswm cwblhau** | **360** | **647** | -287 (-44.4%) |

**Cymhariaeth â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog**

| Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd | Gofyniad blynyddol cyfartalog y Cynllun | Cymhariaeth rhwng yr unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd â'r gofyniad blynyddol cyfartalog |
|---|---|---|
| **360** | **479** | -119 (-24.8%) |

- Yng nghyfnod yr AMB hwn, noder fod 360 o unedau wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun. Y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol yw 479 o unedau (felly 119 uned yn llai neu -24.8%) ac roedd y taflwybr yn rhagweld datblygu 647 o dai, heb lwfans llithro, yn ystod 2020/21 (felly 287 uned yn llai neu -44.4%).
- O'i gymharu â'r wybodaeth o'r taflwybr (heb ystyried y lwfans llithro), noder ar gyfer 2020/21 fod 74 uned yn llai (-45.4%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan; 41 uned yn fwy (+34.7%) ar safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau); gyda 254 yn llai o unedau wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun (-68.4%).
- Er mwyn cymharu â'r blynyddoedd blaenorol, noder y wybodaeth ganlynol:

  - 2016/17: 402 o unedau wedi eu cwblhau: 6.9% yn fwy na'r ffigwr yn y taflwybr, 16% yn is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.

- 2017/18: 462 o unedau wedi eu cwblhau: 8.5% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr, 3.5% yn is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.
- 2018/19: 548 o unedau wedi eu cwblhau: 11.2% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr, 14.4% yn uwch na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.
- 2019/20: 453 o unedau wedi eu cwblhau: 28.2% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr, 5.4% yn is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol.

- Wrth ymgymryd â'r arolwg maes ar gyfer y dangosydd hwn, nodir, ar sail y sefyllfa o safbwynt pandemig Covid-19, nad oedd yn bosib ymweld â phob safle perthnasol a oedd a chaniatâd cynllunio ar gyfer unedau tai. [Nid oedd yn bosib ymweld â 48 safle: 14 yng Ngwynedd a 34 yn Ynys Môn – sef 6.5% o'r holl safleoedd perthnasol]. O bosib felly fod rhagor o unedau wedi eu cwblhau na beth yr adroddir arnynt yma.
- Ceir trafodaeth bellach ynglŷn â'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol ac ar y dynodiadau tai yn y dadansoddiad i ddangosyddion D44, D45 a D46.
- Noder bod gostyngiad amlwg yn nifer o unedau tai a gwblhawyd yng nghyfnod AMB 3 o'i gymharu a'r flwyddyn flaenorol. Noder yn ogystal bod y lefel cwblhau yn sylweddol is na'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol ynghyd â'r ffigwr a nodir yn y taflwybr yn y CDLl ar gyfer y flwyddyn berthnasol. Dyma'r nifer isaf o unedau sydd wedi eu cwblhau mewn blwyddyn ers mabwysiadu'r Cynllun.
- Tra gellir nodi effaith bosib Covid-19 ar ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn, gellir nodi, yn unol a'r lefel sbardun, bod yr hyn sydd wedi ei ddatblygu yn sylweddol is na'r gyfradd gofyniad blynyddol cyfartalog. Fodd bynnag o gofio'r sefyllfa benodol o ran y pandemig yn ystod y flwyddyn a'r ffaith fod adolygiad o'r Cynllun yn dechrau y flwyddyn hon, ni chredir fod angen gweithredu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Noder yn ogystal fod y taflwybr diwygiedig yn awgrymu cynnydd yn y cyflenwad tai yn y blynyddoedd nesaf i lefel sydd yn agos iawn neu yn uwch na'r ffigwr Gofyniad Blynyddol Cyfartalog.
- Mae'n bwysig ystyried y gwahanol gydrannau o ddarparu tai h.y. rôl safleoedd ar hap bach a mawr ynghyd a'r dynodiadau, wrth asesu'r ddarpariaeth yn ei gyfanrwydd. Mae'n amlwg fod y nifer o dai sydd wedi eu datblygu ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn sylweddol is na'r hyn a ragwelir yn y taflwybr. Tra bod y diweddariad o'r taflwybr yn awgrymu cynnydd yn y nifer o unedau i'w darparu ar ddynodiadau tai, credir bod angen cadw llygaid ar y sefyllfa yn ei gyfanrwydd wrth ddechrau adolygu'r Cynllun yn 2021. Bydd yn bwysig ystyried y wybodaeth hyn ynghyd a materion eraill cyd-destunol, megis y sefyllfa economaidd, y pandemig a Cymru'r Dyfodol ar y cyd a'r wybodaeth o ran dangosydd D43(B) o ran ystyried effaith datblygiadau blynyddol ar y ffigwr tai yn ei gyfanrwydd.

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. | |

**Dangosydd: D43(B)**

| | | |
|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth |

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| Cyfanswm cronnol y tai a gwblhawyd wedi'i fonitro yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol | Caiff lefelau cwblhau tai cronnol eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol a nodir yn y Cynllun | AMB 1 | | Ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol |
| | | AMB 2 | − | |
| | | **<u>AMB 3</u>** | − | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Nodir ar gyfer y cynlluniau hynny a gyhoeddwyd cyn cyhoeddi'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu, caiff lefelau cwblhau tai cronnol eu mesur yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol a nodir yn y Cynllun.

Fe noder y wybodaeth ganlynol o ran yr unedau sydd wedi eu cwblhau mewn gwirionedd yn erbyn y gyfradd cwblhau tai cronnol disgwyliedig a noder yn nhaflwybr tai'r Cynllun.

**<u>Gwybodaeth o ran y gyfradd cwblhau gronnol hyd at 2020/21 – gwybodaeth fesul cydrannau darpariaeth tai</u>**


| | **Unedau wedi eu cwblhau mewn gwirionedd** | **Gwybodaeth o daflwybr tai y Cynllun h.y. nifer yr unedau a ddisgwylir eu cwblhau** | **Cymhariaeth rhwn yr unedau wedi e cwblhau mew gwirionedd a' wybodaeth yn taflwybr** |
|---|---|---|---|
| Safleoedd bychan (Llai na 5 uned) | 1416 | 1612 | -196 (-12.2%) |
| Safleoedd mawr (5 uned neu ragor – heb fod ar ddynodiad tai) | 1696 | 1396 | +300 (+21.5%) |


| | | | |
|---|---|---|---|
| Safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai | 812 | 1467 | -653 (-44.6%) |
| Cyfanswm unedau cronnol wedi eu cwblhau | 3924 | 4475 | -551 (-12.3%) |


**Cyfradd darparu tai blynyddol o'i gymharu â'r wybodaeth yn y taflwybr tai**

| Blwyddyn | Ffigwr cwblhau a nodir yn y taflwybr | Gwir ffigwr cwblhau (blynyddol) | Cymhariaeth gyda ffigwr cwblhau blynyddol yn y taflwybr | Cyfanswm cwblhau cronnol | Cymhariaeth gyda ffigwr cwblhau cronnol yn y taflwybr | % cwbl[h] yn erby[n] ffigwr cwblhau cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2011-12** | 240 | 240 | 0 | 240 | 0 | 0% |
| **2012-13** | 634 (+394) | 394 | 0 | 634 | 0 | 0% |
| **2013-14** | 971 (+337) | 337 | 0 | 971 | 0 | 0% |
| **2014-15** | 1348 (+377) | 377 | 0 | 1348 | 0 | 0% |
| **2015-16** | 1699 (+351) | 351 | 0 | 1699 | 0 | 0% |
| **2016-17** | 2075 (+376) | 402 | +26 | 2101 | +26 | +1.3% |
| **2017-18** | 2580 (+505) | 462 | -43 | 2563 | -17 | -0.7% |
| **2018-19** | 3197 (+617) | 548 | -69 | 3111 | -86 | -2.7% |
| **2019-20** | 3828 (+631) | 453 | -178 | 3564 | -264 | -6.9% |
| **2020-21** | 4475 (+647) | 360 | -287 | 3924 | -551 | -12.3% |
| **2021-22** | 5098 (+623) | | | | | |
| **2022-23** | 5663 (+565) | | | | | |
| **2023-24** | 6190 (+527) | | | | | |
| **2024-25** | 6718 (+528) | | | | | |
| **2025-26** | 7184 (+466) | | | | | |

Mae'r graffiau isod yn cymharu'r tai sydd wedi eu darparu fesul y gwahanol gydrannau yn erbyn y wybodaeth yn nhaflwybr tai'r Cynllun.






Nodir isod wybodaeth sydd yn asesu'r gwir ddarpariaeth tai yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol, sef yr hyn a nodir y wybodaeth targed fel yr amlygir yn Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3.

**Cyfradd darparu tai o'i gymharu â'r gofyniad blynyddol cyfartalog a'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol**

| Blwyddyn | Gofyniad blynyddol cyfartalog (479 uned y flwyddyn) | Gwir ffigwr cwblhau (blynyddol) | Cymhariaeth yn erbyn y gofyniad blynyddol cyfartalog | Cyfanswm cwblhau cronnol | Cymhariaeth yn erbyn gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol | % cwblh yn erby gofynia tai blynydd cyfartal cronnol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2011-12** | 479 | 240 | -239 | 240 | -239 | -49.9% |
| **2012-13** | 958 | 394 | -85 | 634 | -324 | -33.8% |
| **2013-14** | 1437 | 337 | -142 | 971 | -466 | -32.4% |
| **2014-15** | 1916 | 377 | -102 | 1348 | -568 | -29.6% |
| **2015-16** | 2395 | 351 | -128 | 1699 | -696 | -29.0% |
| **2016-17** | 2874 | 402 | -77 | 2101 | -773 | -26.9% |
| **2017-18** | 3353 | 462 | -17 | 2563 | -790 | -23.6% |
| **2018-19** | 3832 | 548 | +69 | 3111 | -721 | -18.8% |
| **2019-20** | 4311 | 453 | -26 | 3564 | -747 | -17.3% |
| **2020-21** | 4790 | 360 | -119 | 39264 | -866 | -18.1% |
| **2021-22** | 5269 | | | | | |
| **2022-23** | 5748 | | | | | |
| **2023-24** | 6227 | | | | | |
| **2024-25** | 6706 | | | | | |

- Gan gynnwys gwybodaeth o gyfnod yr AMB hwn, noder bod 551 yn llai o unedau wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun o'i gymharu â'r ffigwr a noder yn y taflwybr ac wrth gymharu gyda'r gofyniad blynyddol cyfartalog, noder fod y gwir ffigwr 866 uned yn is na'r ffigwr disgwyliedig erbyn 2020/21. Noder nad yw hyn yn cymryd i ystyriaeth y lwfans llithro yn y Cynllun ond yn hytrach y gwir ffigwr ar gyfer cwrdd â ffigwr tai'r Cynllun.
- Noder fod 3924 o unedau wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun ers y dyddiad sail yn 2011 hyd at 2020/21. Mae hyn 12.3% yn is na'r ffigwr yn y taflwybr ac 18.1% yn is na'r ffigwr o ran y gofyniad blynyddol cyfartalog cronnol.
- Mae'r bwlch o safbwynt y diffyg rhwng canran o unedau sydd wedi eu cwblhau o'i gymharu â'r ffigwr cwblhau cronnol yn y taflwybr wedi cynyddu ers cyfnod AMB 2 (o -6.9% i -12.3%). Mae hyn hefyd yn wir o ran y canran cwblhau yn erbyn y gofyniad tai blynyddol cronnol (o -17.3% i -18.1%).
- Noder fod y gyfradd cwblhau cronnol wedi bod yn eithaf cyson â'r wybodaeth a nodir yn y taflwybr hyd nes cyfnod AMB 2 a nodir fod y bwlch wedi ymestyn ers hynny (o ran diffyg). Nid yw'r wybodaeth ar gyfer y flwyddyn hon yn cyd-fynd ychwaith â'r patrwm cyffredinol a nodir yn y taflwybr ble byddai disgwyl gweld cynnydd yn nifer y tai a'u cwblhawyd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Er y diffyg arwyddocaol yn y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn flynyddol o'i gymharu â'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol, noder fod y nifer o unedau sydd yn cael ei gwblhau yn flynyddol yn llawer yn fwy cyson â'r gofyniad blynyddol cyfartalog cronnol ers cyfnod mabwysiadu'r Cynllun o'i gymharu â blynyddoedd cynnar oes y Cynllun. Mae'r wybodaeth o'i gymharu â'r gofyniad blynyddol cyfartalog cronnol yn nodi diffyg sydd wedi bod yn weddol gyson dros y tair blynedd ddiwethaf.
- Wrth ddadansoddi'r wybodaeth yn fanylach o safbwynt cymharu gyda'r wybodaeth gronnol o'r taflwybr (heb ystyried y lwfans llithro) noder fod 196 uned yn llai (-12.2%) wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan (llai na 5 uned); 300 uned yn fwy (+21.5%) ar safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau); gyda 655 yn llai o unedau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun (-44.6%).
- Mae'r graffiau uchod yn amlygu fod unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap bychan yn y blynyddoedd diweddar wedi bod yn is na'r hyn roedd y taflwybr yn ei ragweld tra ar y llaw arall fod yr unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr (5 uned neu ragor) wedi bod yn arwyddocaol uwch na'r wybodaeth yn y taflwybr. Mae'n amlwg fod unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yn y Cynllun wedi bod yn sylweddol is na'r hyn roedd y taflwybr yn ei ragweld.

Noder y pwyntiau canlynol yn gysylltiedig â'r wybodaeth hyn:

- Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu 3 yn nodi lle y ceir diffyg o ran lefelau cwblhau tai cronnol yn erbyn y Gofyniad Blynyddol Cyfartalog am ddwy flynedd yn olynol, mae'n rhaid i'r ACLl ystyried maint unrhyw ddiffyg a nodi ei gasgliad/camau monitro o ran y goblygiadau ar gyfer cyflenwi'r lefel ofynnol o dai neu gyflawni'r strategaeth. Mae'r lefel sbardun o ran y dangosydd hwn yn nodi bod yn rhaid ymateb i wyriad sydd unai yn sylweddol uwch neu'n sylweddol is na'r gofyniad tai blynyddol cyfartalog cronnol.
- Nodir effaith bosib pandemig Covid-19 yn ystod cyfnod yr AMB hwn ar y gyfradd ddatblygu tai o safbwynt effaith ar amgylchiadau gwaith (cyfnodau clo a.y.b.).

- Wrth ymgymryd â'r arolwg maes ar gyfer y dangosydd hwn, nodir, ar sail y sefyllfa o safbwynt pandemig Covid-19, nad oedd yn bosib ymweld â phob safle perthnasol a oedd a chaniatâd cynllunio ar gyfer unedau tai. [Nid oedd yn bosib ymweld â 48 safle: 14 yng Ngwynedd a 34 yn Ynys Môn – sef 6.5% o'r holl safleoedd perthnasol]. O bosib felly fod rhagor o unedau wedi eu cwblhau na beth yr adroddir arnynt yma.
- Ceir trafodaeth bellach ynglŷn â'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau yn gronnol ac ar y dynodiadau tai yn y dadansoddiad i ddangosyddion D44, D45 a D46.
- Wrth edrych ar y diweddariad i'r taflwybr, sydd â gwybodaeth wedi ei gytuno gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, rhagwelir y bydd y nifer o dai a'u cwblheir yn flynyddol yn cynyddu ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun i ffigyrau blynyddol sydd yn fwy cyson â'r Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Tra na fydd y ddarpariaeth hon yn golygu cwrdd â ffigwr tai'r Cynllun erbyn diwedd oes y Cynllun, rhagwelir y bydd y diffyg yn lleihau wrth agoshau at ddiwedd oes y Cynllun.
- Tra rhagwelir yn y taflwybr sydd wedi ei ddiweddaru y bydd cynnydd yn nifer o unedau a fydd yn cael eu cwblhau ar safleoedd a'u dynodwyd yn y Cynllun, mae'n amlwg o'r wybodaeth hyd gyfnod yr AMB hwn fod diffyg wedi bod yn y ddarpariaeth tai ar safleoedd o'r fath o'i gymharu â'r hyn oedd yn ddisgwyliedig. Fel amlygir mewn perthynas â dangosyddion D45 a D46, wrth adolygu'r Cynllun mae'n debyg bydd angen ystyried addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y ffigwr tai. Bydd yn rhaid ystyried hyn yng ngoleuni'r ffaith fod y ffigwr tai wedi gorddibynnu ar safleoedd ar hap mawr yn ystod oes y Cynllun.
- Nodir mai rôl y CDLl ar y Cyd ydyw i ddarparu'r amodau i gyflawni datblygiadau perthnasol ac i gyflenwi tai yn y modd mwyaf addas. O gofio'r sefyllfa benodol yn ystod y flwyddyn o safbwynt Covid-19 a'r ffaith fod adolygiad o'r Cynllun yn dechrau'r flwyddyn hon, ni chredir fod angen gweithredu ar hyn o bryd mewn perthynas â'r dangosydd hwn. Mae'r taflwybr diwygiedig sydd wedi ei baratoi gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn awgrymu cynnydd mewn unedau a fydd yn cael eu cwblhau i lefel sydd yn agos iawn neu yn uwch na'r ffigwr Gofyniad Blynyddol Cyfartalog. Tra bod y Cynllun yn ceisio sicrhau fod y safleoedd a'u nodir yn gallu cyflawni'r datblygiadau perthnasol, ni all y Cynllun orfodi bod y datblygiadau hyn yn digwydd yn unol â'r wybodaeth yn y taflwybr. Bydd yr adolygiad o'r Cynllun yn holl bwysig felly o ran ystyried y lefel twf tai yn ei gyfanrwydd ynghyd ac o ran adnabod y safleoedd gorau a mwyaf addas i gwrdd â'r twf hwn mewn modd effeithiol sydd yn cwrdd â strategaeth y Cynllun.

| **Gweithred:** | |
|---|---|

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

**Dangosydd: D44**

<table>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15<br>&<br>SO16</td><td colspan="4">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td colspan="2" rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D44 Nifer yr unedau tai newydd a adeiledir yn ardal y Cynllun</td><td colspan="2" rowspan="4">Darparu 7,184 unedau tai newydd dros gyfnod y Cynllun, yn ôl y dadansoddiad a nodir ym Mhapur Pwnc 20B Taflwybr Tai<br><br>Targedau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:<br><br>2016/ 17 = 376<br>2017/ 18 = 505<br>2018/ 19 = 617<br>2019/ 20 = 631<br>2020/ 21 = 647<br>2021/ 22 = 623<br>2022/ 23 = 565<br>2023/ 24 = 527<br>2024/ 25 = 528<br>2025/ 26 = 466</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Y nifer o unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun yn disgyn islaw’r gofyniad am 2 flynedd yn olynol</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
</table>

Gweler isod gymhariaeth o ran y nifer o unedau sydd wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun o’i gymharu â’r targed:

| Blwyddyn | Targed | Nifer gwirioneddol |
|---|---|---|
| 2016/17 | 376 | 402 |

| | | |
|---|---|---|
| 2017/18 | 505 | 462 |
| 2018/19 | 617 | 548 |
| 2019/20 | 631 | 453 |
| 2020/21 | 647 | 360 |

Wrth ymgymryd â'r arolwg maes ar gyfer y dangosydd hwn, nodir, ar sail y sefyllfa o safbwynt pandemig Covid-19, nad oedd yn bosib ymweld â phob safle perthnasol a oedd a chaniatâd cynllunio ar gyfer unedau tai. [Nid oedd yn bosib ymweld â 48 safle: 14 yng Ngwynedd a 34 yn Ynys Môn – sef 6.5% o'r holl safleoedd perthnasol].

O safbwynt y targed a'r lefel sbardun, mae'n amlwg fod y nifer o unedau tai newydd a ddarperir yn ardal y Cynllun wedi disgyn islaw'r gofyniad am ddwy flynedd yn olynol.

Wrth ychwanegu'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ym mhedair blynedd gyntaf y tabl (h.y. 2016-20) yn y dangosydd hwn i'r ffigwr targed, fe nodir bod 2225 o unedau wedi eu cwblhau o'i gymharu â tharged o 2776 o unedau. Mae hyn gyfystyr â 80% o'r lefel targed (diffyg o 551 uned dros gyfnod o 5 mlynedd sef 110 uned y flwyddyn). Mae hyn yn ostyngiad clir ers gwybodaeth yn AMB 2 gyda'r bwlch rhwng y targed a'r nifer gwirioneddol a ddarperir wedi lledaenu.

Mae nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau wedi gostwng yn arwyddocaol ers y llynedd (-93 uned, heb ystyried safleoedd nad oedd yn bosib ymweld â hwy oherwydd Covid-19) er bod y wybodaeth targed yn nodi y dylid fod peth cynnydd ers cyfnod AMB 2. Mae gostyngiad o 188 uned wrth gymharu â 2018/19. Dyma'r lefel cwblhau isaf yn ardal y Cynllun ers mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd. Mae'n debyg y gellir nodi fod pandemig Covid-19 wedi cael effaith ar waith adeiladu ac felly lefel yr unedau sydd wedi eu cwblhau. Amser a ddengys os bydd y tueddiad hwn yn parhau yng nghyfnod AMB 4 neu fod effaith Covid-19 wedi cael effaith benodol o safbwynt ffigyrau eleni.

Tra bod y gwaith maes o ran y dangosydd hwn wedi dangos fod gwaith wedi dechrau neu yn parhau i gymryd lle ar nifer o ddynodiadau tai'r Cynllun a hefyd bod caniatadau cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar rai o'r dynodiadau eraill, megis ym Modedern a Rachub, nodir bod y ffigwr cwblhau yn arwyddocaol is na'r lefel targed a'i fod yn ystyriaeth o ran y lefel sbardun.

Ni chredir fod y wybodaeth yn achos pryder sylweddol ar hyn o bryd, yn enwedig o ystyried yr amgylchiadau penodol yng nghyfnod AMB 3, er mae'n sicr yn rhywbeth rhaid cadw llygaid arno a'i ystyried wrth ddechrau'r gwaith o Adolygu'r Cynllun eleni.

Bydd gwaith o fonitro'r Cynllun gan gynnwys Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed.

Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith adolygu'r Taflwybr Tai, yn cysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi ar gyfer tai yn y Cynllun a safleoedd mawr eraill (5+) ble mae caniatâd cynllunio yn bodoli ar eu cyfer. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano

| | |
|---|---|
| drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur, ble nad oes dim amlwg wedi digwydd gyda hwy. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu er mwyn cynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol. Mae'r diweddariad i'r taflwybr tai [Gweler dangosyddion 43(A) a D43(B)] yn awgrymu cynnydd yn y gyfradd datblygu blynyddol hyd at ddiwedd oes y Cynllun. | |
| **Gweithred:** | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. | |

| **Dangosydd: D45** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15- TAI 19 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D45 Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yng Ngwynedd fel % o'r | Safleoedd wedi eu dynodi o fewn Polisïau TAI 1 - 5 am 1,467 o unedau tai newydd yng Ngwynedd (gan gynnwys lwfans llithriad o 10%) dros gyfnod y Cynllun, | AMB 1 | | Nifer cyffredinol yr unedau tai newydd a gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd o fewn Gwynedd yn disgyn |
| | | AMB 2 | | |
| | | **AMB 3** | | |

<table>
<tr>
<td>ddarpariaeth dai gyffredinol</td>
<td>sy'n cyfateb i 19% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol.<br><br>Targedau cwblhau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun:<br><br><table><tr><td></td><td>Safleoedd a ddynodwyd</td></tr><tr><td>2016/ 17</td><td>99</td></tr><tr><td>2017/ 18</td><td>144</td></tr><tr><td>2018/ 19</td><td>187</td></tr><tr><td>2019/ 20</td><td>180</td></tr><tr><td>2020/ 21</td><td>166</td></tr><tr><td>2021/ 22</td><td>166</td></tr><tr><td>2022/ 23</td><td>135</td></tr><tr><td>2023/ 24</td><td>117</td></tr><tr><td>2024/ 25</td><td>102</td></tr><tr><td>2025/ 26</td><td>74</td></tr></table></td>
<td>AMB 4</td>
<td></td>
<td>islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol</td>
</tr>
</table>

**Dadansoddiad:**

Mae'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai wedi disgyn islaw'r targedau a'u nodir ar gyfer cyfnod yr AMB hwn ynghyd a phob un o'r blynyddoedd eraill a'u nodir yn y wybodaeth darged:

| | **Targed** | **Nifer gwirioneddol** |
|---|---|---|
| 2016/ 17 | 99 | 70 |
| 2017/ 18 | 144 | 77 |
| 2018/ 19 | 187 | 123 |
| 2019/ 20 | 180 | 106 |
| 2020/ 21 | 166 | 49 |

Fe nodir fod rhai o'r dynodiadau tai eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio cyn dyddiad mabwysiadu'r Cynllun, yn aml ar sail eu bod yn ddynodiadau yn y cynllun datblygu blaenorol, ac mai hyn sydd yn gyfrifol ar gyfer llawer o'r unedau sydd eisoes wedi eu cwblhau fel nodir yn y tabl uchod.

Yng Ngwynedd noder fod rhai o'r dynodiadau mwyaf oedd yn destun caniatâd cynllunio o'r fath wedi eu cwblhau yng nghyfnod yr AMB blaenorol (T1 Goetra Uchaf ym Mangor a T27 Lôn Cae Philllips yng Nghaernarfon).

Tra bod caniatadau wedi eu rhoddi ar ddynodiadau o'r newydd sydd yn y CDLl ar y Cyd, nid yw'r hyn sydd yn cael eu cwblhau arnynt yn ddigonol i gwrdd a'r lefel targed a nodir yn y dangosydd. Tra bod y broses o baratoi ar gyfer cais cynllunio hyd at gwblhau unedau ar safle yn gallu bod yn un gweddol hir, noder fod y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yng Ngwynedd wedi lleihau yn arwyddocaol o'i gymharu â'r llynedd. Tra o bosib fod gan sefyllfa Covid-19 rôl i'w chwarae o ran hyn, byddai disgwyl erbyn hyn i nifer o'r dynodiadau tai ddarparu cyfran arwyddocaol o'r unedau tai yn flynyddol.

O'r 34 dynodiad yng Ngwynedd nad oedd wedi eu cwblhau cyn dyddiad sail yr AMB hwn, roedd caniatâd cynllunio yn bodoli ar gyfer 14 o'r safleoedd (h.y. caniatâd yn fyw yn ystod cyfnod yr AMB hwn). Mae cyswllt yma gyda'r taflwybr tai o ran pryd yr ystyrir y bydd y dynodiadau nad sydd â chaniatâd cynllunio yn cael eu datblygu.

Mae 36% o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau yng Ngwynedd yn 2020/21 wedi eu lleoli ar ddynodiadau tai. Nodir fod hyn yn is na'r gyfradd yn AMB 2 sef 43%. Mae'r taflwybr tai yn y Cynllun yn nodi, er enghraifft, y disgwylir i 56.6% o unedau a'u cwblheir yn 2020/21 i fod ar ddynodiadau tai.

Tra nad yw'r nifer o unedau a'u darperir ar y safleoedd sydd wedi eu dynodi yn cwrdd â'r targed am ddwy flynedd yn olynol fel nodir o ran y lefel sbardun, ar sail y wybodaeth gefndirol, ni chredir bod hyn yn codi pryder ar hyn o bryd. Mae'r gwaith maes mewn perthynas â'r dangosydd hwn wedi dangos bod gwaith wedi dechrau neu fod datblygu yn parhau i ddigwydd ar nifer o'r dynodiadau, gyda chaniatâd cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar safleoedd eraill. Fodd bynnag bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed. Bydd hyn yn rhywbeth i'w ystyried wrth adolygu'r Cynllun. Mae hyn yn bwysig gan ar 31ain Mawrth, 2021 nid oedd caniatâd cynllunio yn bodoli ar 20 o'r dynodiadau tai yng Ngwynedd.

Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith adolygu'r Taflwybr Tai, yn cyd-gysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi ynghyd a safleoedd mawr eraill (5 neu yn ragor o unedau) ble mae caniatâd yn bodoli. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu i gynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol. Mae'r diweddariad i'r Taflwybr Tai [Dangosyddion 43(A) a 43(B)], sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda'r Grŵp

<table>
<tr><td colspan="2">Rhanddeiliaid Tai, yn awgrymu cynnydd yn y ddarpariaeth ar ddynodiadau tai yn y blynyddoedd hyd at ddiwedd oes y Cynllun.</td></tr>
<tr><td>Gweithred:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="2">Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D46</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15 & SO16</td><td colspan="4">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D46 Cyfanswm yr unedau tai gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd yn Ynys Môn fel % o'r ddarpariaeth dai gyffredinol</td><td rowspan="4" colspan="2">Safleoedd wedi eu dynodi o fewn Polisïau TAI 1 - TAI 5 am 1,655 o unedau tai newydd yn Ynys Môn (gan gynnwys lwfans llithriad o 10%) dros gyfnod y Cynllun, sy'n cyfateb i 21% o'r ddarpariaeth dai gyffredinol.<br><br>Targedau cwblhau blynyddol ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun :<br><br>| | Safleoedd a ddynodwyd |<br>| 2016/ 17 | 8 |<br>| 2017/ 18 | 109 |</td><td>AMB 1</td><td></td><td rowspan="4">Nifer cyffredinol yr unedau tai newydd a gaiff eu hadeiladu ar safleoedd a ddynodwyd o fewn Ynys Môn yn disgyn islaw'r gofyniad am 2 flynedd yn olynol</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td></td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td></td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
</table>

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2018/ 19 | 193 | | | |
| | 2019/ 20 | 215 | | | |
| | 2020/ 21 | 248 | | | |
| | 2021/ 22 | 221 | | | |
| | 2022/ 23 | 185 | | | |
| | 2023/ 24 | 160 | | | |
| | 2024/ 25 | 176 | | | |
| | 2025/ 26 | 134 | | | |

**Dadansoddiad:**

Mae'r nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai wedi disgyn islaw'r targedau a'u nodir ar gyfer cyfnod yr AMB hwn ynghyd a phob un o'r blynyddoedd eraill a'u nodir yn y wybodaeth darged:

| | Targed | Nifer gwirioneddol |
|---|---|---|
| 2016/ 17 | 8 | 4 |
| 2017/ 18 | 109 | 49 |
| 2018/ 19 | 193 | 99 |
| 2019/ 20 | 215 | 60 |
| 2020/ 21 | 248 | 63 |

Nodir fod rhai o'r dynodiadau tai eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio cyn dyddiad mabwysiadu'r Cynllun ac mae hyn wedi bod yn gyfrifol am gyfran o'r unedau a'u cwblhawyd fel nodir yn y tabl uchod. Yn wahanol i Wynedd fodd bynnag, fe nodir fod cyfnod y cynllun datblygu blaenorol ar gyfer Ynys Môn wedi dirwyn i ben ymhell cyn cyfnod y CDLl ar y Cyd. Nid oedd felly'r un dilyniant yn Ynys Môn o safbwynt safleoedd a oedd wedi eu dynodi yn flaenorol (ac a oedd wrthi yn cael eu datblygu) yn cael eu dynodi yn y CDLl ar y Cyd. Tra ei fod yn anorfod felly fod yna beth oedi rhwng mabwysiadu'r Cynllun a darparu'r unedau tai ar safleoedd sydd wedi eu dynodi o'r newydd, nodir fod yr unedau sydd wedi eu cwblhau yng nghyfnod AMB 3 yn gyfuniad o unedau a gafodd ganiatâd cyn cyfnod mabwysiadu'r Cynllun ag unedau ar ddynodiadau o'r newydd. Mae'n amlwg felly fod datblygiadau yn dechrau cael eu gweld ar ddynodiadau a'u cyflwynwyd o fewn y CDLl ar y Cyd.

Er hyn nodir fod y nifer o unedau sydd wedi eu datblygu ar y dynodiadau ymhell o gyrraedd y lefel targed a noder yn y dangosydd hwn. Noder fodd bynnag fod peth cynnydd wedi bod o ran

y nifer o unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd sydd wedi eu dynodi yn Ynys Môn ers y llynedd a hefyd bod mwy o amrywiaeth o ran y safleoedd ble gwelwyd unedau wedi eu cwblhau arnynt (yng nghyfnod AMB 2 noder bod 37 uned allan o'r cyfanswm o 60 uned wedi ei gwblhau ar yr un safle). Gallai'r sefyllfa mewn perthynas â pandemig Covid-19 fod wedi effeithio'r lefel cwblhau yn ogystal.

Mae gwaith maes mewn perthynas â'r dangosydd hwn wedi dangos bod gwaith wedi dechrau neu fod datblygu yn parhau i ddigwydd ar nifer o ddynodiadau, gyda caniatadau cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar rai eraill. O'r 28 dynodiad yn Ynys Môn nad oedd wedi eu cwblhau cyn dyddiad sail yr AMB hwn, roedd caniatâd cynllunio ar gyfer 14 o'r safleoedd. Mae cyswllt yma gyda'r taflwybr tai o ran pryd yr ystyrir y bydd y dynodiadau nad sydd â chaniatâd cynllunio yn cael eu datblygu.

Mae 28.4% o'r holl unedau sydd wedi eu cwblhau yn Ynys Môn yn 2020/21 wedi eu lleoli ar ddynodiadau tai. Mae'r taflwybr tai yn y Cynllun yn nodi, er enghraifft, y disgwylir i 56.6% o unedau a'u cwblheir yn 2020/21 i fod ar ddynodiadau tai.

Tra nad yw'r nifer o unedau a'u darperir ar y safleoedd sydd wedi eu dynodi yn cwrdd â'r targed am ddwy flynedd yn olynol fel nodir o ran y lefel sbardun, ar sail y wybodaeth gefndirol, ni chredir bod hyn yn codi pryder ar hyn o bryd. Mae'r gwaith maes mewn perthynas â'r dangosydd hwn wedi dangos bod gwaith wedi dechrau neu fod datblygu yn parhau i ddigwydd ar nifer o'r dynodiadau, gyda chaniatâd cynllunio o'r newydd wedi ei roi ar safleoedd eraill. Fodd bynnag bydd Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol yn fodd o asesu os ydyw'r gyfradd datblygu tai yn dderbyniol yn unol â'r dangosydd hwn gan ystyried felly addasrwydd rhai o'r dynodiadau tai yn y Cynllun i gyfrannu yn effeithiol at y targed. Bydd hyn yn rhywbeth i'w ystyried wrth adolygu'r Cynllun. Mae hyn yn bwysig gan ar 31ain Mawrth, 2021 nid oedd caniatâd cynllunio yn bodoli ar 14 o'r dynodiadau tai yn Ynys Môn.

Mae'r Cynghorau, yn bennaf drwy'r gwaith adolygu'r Taflwybr Tai, yn cyd-gysylltu gyda datblygwyr a thirfeddianwyr y safleoedd sydd wedi eu dynodi a safleoedd mawr eraill (5 neu yn ragor o unedau) ble mae caniatâd yn bodoli. Un o'r sgil-effeithiau y gobeithir amdano drwy hyn ydyw i annog gweithgaredd mewn perthynas â safleoedd segur. Gobeithir y bydd hyn yn sbarduno datblygu i gynyddu cyfraddau datblygu yn y dyfodol. Mae'r diweddariad i'r Taflwybr Tai [Dangosyddion 43(A) a 43(B)], sydd wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai, yn awgrymu cynnydd yn y ddarpariaeth ar ddynodiadau tai yn y blynyddoedd hyd at ddiwedd oes y Cynllun.

| **Gweithred:** | |
|---|---|

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

**Tai Fforddiadwy**

<table>
<tr><td colspan="5">Dangosydd: D47</td></tr>
<tr><td>Amcan:</td><td>SO15 & SO16</td><td colspan="3">SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D47 Cyfanswm nifer tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun</td><td rowspan="4">Adeiladu 1,572 o dai fforddiadwy yn ardal y Cynllun erbyn 2026<br><br>Targedau adeiladu yn ystod gweddill oes y Cynllun (2015 – 2026):<br><br>Adeiladu 345 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2018<br><br>Adeiladu 575 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2020<br><br>Adeiladu 805 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2022<br><br>Adeiladu 1035 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Y nifer cyffredinol o unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun yn 10% neu fwy yn is na’r targed cronnol yn y Targed Polisi</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | y Cynllun erbyn 2024<br><br>Adeiladu 1,266 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2026 | | | |

**Dadansoddiad:**

Yn y cyfnod 2015-21 nodir fod 626 o unedau fforddiadwy wedi eu hadeiladu yn ardal y Cynllun. Noder nad oes targed wedi ei nodi ar gyfer 2021 ond yn hytrach noder targed o adeiladu 805 o dai fforddiadwy ychwanegol yn ardal y Cynllun erbyn 2022. Nid yw'n bosib felly asesu os yw'r nifer cyffredinol o unedau tai fforddiadwy ychwanegol a gaiff eu hadeiladu yn ardal y Cynllun yn 10% neu fwy yn is na'r targed cronnol yn y Targed Polisi. Noder fodd bynnag fod y nifer o unedau sydd wedi eu hadeiladu ers 2015 yn uwch na'r targed a roddwyd erbyn diwedd 2020, sef 575 o dai fforddiadwy ychwanegol.

Mae'r rhaniad hyn fel y ganlyn:

2015-16: 82 uned
2016-17: 68 uned
2017-18: 61 uned
2018-19: 187 uned
2019-20: 124 uned
2020-21: 104 uned

Wrth ymgymryd â'r arolwg maes ar gyfer y dangosydd hwn, nodir, ar sail y sefyllfa o safbwynt pandemig Covid-19, nad oedd yn bosib ymweld ag un safle perthnasol a oedd a chaniatâd cynllunio byw a oedd yn cynnwys unedau tai fforddiadwy.

Tra noder nad oes targed penodol wedi ei nodi ar gyfer cyfnod yr AMB hwn, ni chredir fod angen gweithredu mewn perthynas â'r dangosydd hwn.

Er mwyn cyrraedd y targed a noder ar gyfer 2022 bydd angen adeiladu 179 o unedau fforddiadwy yng nghyfnod AMB 4. Er mwyn sicrhau darpariaeth sydd yn uwch na'r lefel sbardun (10% neu fwy yn is na'r targed cronnol yn y Targed Polisi), bydd angen adeiladu 97 o unedau yn y cyfnod nesaf.

Noder fod y nifer angenrheidiol o unedau fforddiadwy o'r newydd i gwrdd â tharged 2022 wedi ei gyflawni yn 2018-19. Noder hefyd bod y nifer o unedau fforddiadwy a ddarparwyd yn y tair blynedd diwethaf wedi bod yn uwch na'r hyn sydd ei angen i beidio ystyried y lefel sbardun. Bosib

fod effaith y pandemig Covid-19 hefyd wedi cael effaith ar ddarpariaeth yn 2020-21 o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

Tra bod ambell i ddatblygiad a oedd yn cynnwys lefel sylweddol o dai fforddiadwy (e.e. Goetre Uchaf, Bangor a Lôn Cae Phillips, Caernarfon) wedi eu cwblhau yng nghyfnod yr AMB blaenorol, mae gwaith maes o ran y dangosydd hwn yn nodi bod caniatâd yn bodoli ar gyfer 528 o unedau fforddiadwy yng Ngwynedd ac Ynys Môn (410 o unedau heb eu dechrau a 118 o unedau wrthi yn cael eu datblygu). Yn unol â'r wybodaeth ai nodir yn y CDLl ar y Cyd, nodir bod 513 o'r unedau hyn yn rhai lle mae modd eu datblygu yn ystod oes y Cynllun. Mae yna gyflenwad niferus o unedau fforddiadwy felly eisoes o fewn y banc tir presennol a all gyfrannu i gwrdd â'r targedau a'u nodir yn y dangosydd hwn.

Nodir hefyd fod y ffigwr o ran nifer y tai fforddiadwy yn debygol o fod yn uwch ar gyfer yr ardal na'r hyn a nodir, gan nad yw'n cynnwys unedau tai sydd yn fforddiadwy oherwydd eu maint a'u lleoliad. Yn ogystal mae cyfraniad ariannol ar gyfer defnydd fforddiadwy wedi ei dderbyn mewn perthynas â rhai datblygiadau yn hytrach na darpariaeth fforddiadwy ar y safle

Oherwydd yr angen i gyfiawnhau unedau fforddiadwy ar sail hyfywedd, mae polisïau'r CDLl ar y Cyd yn nodi trothwyon sydd yn aml yn is na'r rhai a nodwyd yn y cynlluniau datblygu blaenorol ar gyfer gofyn am ddarpariaeth fforddiadwy. Gall gymryd amser i'r polisi hwn arwain at gynnydd arwyddocaol yn nifer o unedau fforddiadwy a gaiff eu datblygu yn ardal y Cynllun. Er y gostyngiad yn ffigwr 2020-21 (o bosib ar sail amgylchiadau mewn perthynas â Covid-19), noder fod yr unedau fforddiadwy sydd wedi eu hadeiladu yn flynyddol ers 2018-19 yn llawer uwch ar gyfartaledd na'r wybodaeth ar gyfer y blynyddoedd blaenorol.

| **Gweithred:** | |
|---|---|

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

| **Dangosydd: D48** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D48 % unedau tai fforddiadwy a ganiateir fesul ardal prisiau tai | % darpariaeth tai fforddiadwy yn unol â'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai | AMB 1 | – | % gyffredinol darpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn islaw'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai am 2 flynedd yn olynol, oni bai y'i cyfiawnheir o dan Bolisi TAI 15 |
| | | AMB 2 | – | |
| | | **AMB 3** | ✓ | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Nodir fod y wybodaeth isod yn cyfeirio at safleoedd lle mae'n berthnasol i ofyn am ganran o unedau fforddiadwy yn unol â Pholisi TAI 15 h.y. trothwy o 2 neu ragor o unedau ac nid yw'n ystyried safleoedd mewn clystyrau neu yng nghefn gwlad. Nid yw ychwaith yn ystyried caniatâd ar safleoedd eithrio ble mae'n rhaid i'r bwriad fod ar gyfer 100% tai fforddiadwy.

Mae'r wybodaeth yn berthnasol ar gyfer caniatadau o'r newydd a cheisiadau i ail-ystyried neu ymestyn dyddiad terfyn caniatâd blaenorol. Mae'r rhain oll yn geisiadau ble y byddai angen ystyried y ddarpariaeth fforddiadwy yn unol â chynnwys Polisi TAI 15. Nid yw felly yn ystyried caniatadau am faterion a gadwyd yn ôl ble mae egwyddor y caniatâd eisoes wedi ei roi nac ychwaith tystysgrifau cyfreithlondeb ar gyfer defnydd preswyl.

Nodir fod y lefel sbardun yn cyfeirio at 2 flynedd yn olynol. Mae angen ystyried y wybodaeth ar gyfer 2020/21 ar y cyd a'r wybodaeth ar gyfer AMB 2.

Tabl yn crynhoi'r wybodaeth ar gyfer yr holl Ardaloedd Prisiau Tai

| Ardaloedd Pris Tai | Cyfnod | Canran o dai fforddiadwy y ceisir | Gwir ddarpariaeth tai fforddiadwy (canran) | Cwrdd â'r lefel targed? |
|---|---|---|---|---|
| Arfordir Gwerth Uchel Gwynedd | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2020/21 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Rhosneigr | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2020/21 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Biwmares | 2019/20 | 30% | 100% | ✓ |
| | 2020/21 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Gogledd Orllewin Wledig | 2019/20 | 30% | 0% | X |
| | 2020/21 | 30% | 71% | ✓ |
| Ardal y Pontydd | 2019/20 | 30% | 9% | X |
| | 2020/21 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Trearddur & Rhoscolyn | 2019/20 | 30% | 0% | X |
| | 2020/21 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| De Orllewin | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2020/21 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Gogledd-ddwyrain Wledig | 2019/20 | 30% | 33% | ✓ |
| | 2020/21 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Aneddleoedd Arfordirol Mwy | 2019/20 | 30% | 53% | ✓ |
| | 2020/21 | 30% | 0% | X |
| Canolfannau Gwledig | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2020/21 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Y Canol Gwledig | 2019/20 | 20% | 25% | ✓ |
| | 2020/21 | 20% | 27% | ✓ |
| Arfordir Gogleddol a De Arfon | 2019/20 | 20% | 42% | ✓ |
| | 2020/21 | 20% | 75% | ✓ |
| Gorllewin Gwledig | 2019/20 | 20% | 56% | ✓ |
| | 2020/21 | 20% | 21% | ✓ |
| Llangefni | 2019/20 | 10% | 83%* | ✓ |
| | 2020/21 | 10% | 13%* | ✓ |
| Llŷn | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2020/21 | 10% | 13% | ✓ |
| Arfordir Gorllewinol ac Arfon Wledig | 2019/20 | 10% | 13% | ✓ |
| | 2020/21 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Caergybi | 2019/20 | 10% | 8%* | ✓** |
| | 2020/21 | 10% | 11%* | ✓ |
| | 2019/20 | 10% | 23% | ✓ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Amlwch a'r Cefnwlad | 2020/21 | 10% | 12%* | ✓ |
| Y Mynyddoedd | 2019/20 | 10% | 23% | ✓ |
| | 2020/21 | 10% | 91% | ✓ |
| Dwyrain Gwynedd a'r Parc Cenedlaethol | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2020/21 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| Blaenau Ffestiniog | 2019/20 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |
| | 2020/21 | Dim caniatâd cynllunio perthnasol. | | |

*Cyfraniad ariannol (fforddiadwy) yn ogystal
** Targed heb ei gwrdd o ran y ddarpariaeth o unedau ond cyfraniad ariannol yn golygu fod yr hyn sydd wedi ei sicrhau yn yr ardal pris tai hwn yn dderbyniol.

Ar wahân i un Ardal Pris Tai (Aneddleoedd Arfordirol Mwy), nodir fod y canran cyffredinol o dai fforddiadwy a'u darperir fel rhan o ganiatadau cynllunio preswyl perthnasol yng nghyfnod AMB 3 yn cyd-fynd yn effeithiol â'r targed dangosol fel amlygir ym Mholisi TAI 15.

Os yn ystyried y lefel sbardun, sef bod canran gyffredinol darpariaeth tai fforddiadwy yn disgyn islaw'r targed dangosol fesul ardal prisiau tai am 2 flynedd yn olynol, nodir nad oes unrhyw ardal pris tai ble mae hyn yn amlwg. Noder fodd bynnag nad oes gwybodaeth berthnasol ar gael i bob ardal ar gyfer y ddwy flynedd berthnasol.

<u>Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 30%</u>

| **Cyfnod** | **Nifer o ganiatadau** | **Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu** | **Tai fforddiadwy** | **Canran unedau fforddiadwy** |
|---|---|---|---|---|
| 2019/20 | 13 | 120 | 57 | 48% |
| 2020/21 | 2 | 26 | 17 | 65% |

<u>Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 20%</u>

| **Cyfnod** | **Nifer o ganiatadau** | **Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu** | **Tai fforddiadwy** | **Canran unedau fforddiadwy** |
|---|---|---|---|---|
| 2019/20 | 9 | 88 | 39 | 42% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2020/21 | 7 | 74 | 25 | 34% |

Ardaloedd Prisiau Tai ar y cyd: Canran fforddiadwy 10%

| **Cyfnod** | **Nifer o ganiatadau** | **Nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu** | **Tai fforddiadwy** | **Canran unedau fforddiadwy** |
|---|---|---|---|---|
| 2019/20 | 15 | 176 | 69 | 39% |
| 2020/21 | 10 | 110 | 40 | 36% |

Wrth ystyried ardaloedd prisiau tai (ble mae'r canran o dai fforddiadwy ai geisir yn gyson) ar y cyd, nodir bod y ddarpariaeth fforddiadwy yn cyd-fynd yn effeithiol â'r targed polisi. Dylid cofio hefyd bod cyfraniadau ariannol wedi eu sicrhau yn ogystal ar draul darpariaeth fforddiadwy ar safle mewn rhai achosion.

Beth sy'n amlwg yw bod y nifer o ganiatadau sydd yn berthnasol i'w hystyried o ran y dangosydd hwn yn sylweddol is ar gyfer cyfnod AMB 3 (19 cais) o'i gymharu â chyfnod AMB 2 (38 cais). Golygai hyn bod amryw o ardaloedd prisiau tai ble nad oes yna ganiatâd perthnasol wedi bod yn 2020/21 o ran ystyried gofynion Polisi TAI 15.

| **Gweithred:** | |
|---|---|

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

**Dangosydd: D49**

| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth |
|---|---|---|

| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D49 Nifer y ceisiadau cynllunio a ganiateir | Cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy o'i | AMB 1 | ✓ | Dim cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai |
| | | AMB 2 | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ar safleoedd eithriedig gwledig | gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 – 2016/ 17 | **<u>AMB 3</u>** | | fforddiadwy a ganiateir am 2 flynedd yn olynol |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

<u>Ceisiadau cynllunio a gafodd ganiatâd cynllunio ar safleoedd eithrio gwledig yn ystod cyfnod yr AMB hwn</u>:

**Ardal y Cynllun: 3 safle (10 uned)**

Bryn Difyr, Bethel (Gwynedd): 1 uned
Tir ger Llain Y Pebyll, Bethesda: 7 uned
Plot 7 & 8, Sŵn Y Fraint, Lon Fain, Dwyran: 2 uned

<u>Gwybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 1 (i gyd yn 2018/19)</u>:

Ardal y Cynllun: 6 safle (24 uned)

<u>Gwybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 2</u>:

Ardal y Cynllun: 4 safle (45 uned)*

[*Rhai safleoedd wedi eu lleoli tu mewn ac oddi allan i'r ffin datblygu. Ble fod y rhan tu allan i'r ffin yn cael ei ystyried yn erbyn Polisi TAI 16 (Safleoedd Eithrio) yna caiff y safleoedd/unedau hyn eu hystyried yn y ffigwr hwn].

Nodir bod lleihad wedi bod yn y nifer o safleoedd eithrio sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio ynghyd a'r nifer o unedau sydd wedi eu caniatáu arnynt o'i gymharu â chyfnod AMB 2 ac yn wir cyfnod AMB 1. Nid yw'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 3 yn cyd-fynd yn effeithiol felly â'r hyn a nodir o ran y lefel sbardun.

Tra ei fod yn bwysig ystyried y modd mae'r Cynllun yn hwyluso darpariaeth o unedau fforddiadwy ar safleoedd eithrio, fe nodir bod ceisiadau ar gyfer safleoedd o'r fath yn rhywbeth sy'n ddibynnol ar gynlluniau penodol i ddod yn eu blaen mewn lleoliadau ble na all y galw am dai fforddiadwy gael ei gwrdd o fewn y ffin ddatblygu. Tra ei fod yn bwysig ystyried y ddarpariaeth ychwanegol o unedau fforddiadwy, credir ei fod yn bwysig ystyried hyn yng nghyswllt y ddarpariaeth fforddiadwy yn ei gyfanrwydd.

Er y lleihad yn y nifer o safleoedd eithrio sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio yn 2020/21 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol, nodir fod y targed o ran y dangosydd hwn yn nodi "Cynnydd yn y nifer o safleoedd eithriedig tai fforddiadwy o'i gymharu â'r cyfartaledd yn ystod 2015/ 16 - 2016/ 17". Nodir mai'r ffigwr o ran nifer y safleoedd eithrio a'r unedau a'u caniateir yn y blynyddoedd hyn oedd: <u>2015/16</u> (3 safle: 3 uned); <u>2016/17</u> (2 safle: 3 uned). Mae'r nifer o

| |
|---|
| safleoedd eithrio a ganiatawyd yn 2020/21 yn gyson â ffigwr 2015/16 ac yn uwch na ffigwr 2016/17, gyda'r nifer o unedau a ganiatawyd ar y safleoedd hyn hefyd yn uwch. Yn hyn o beth mae'r wybodaeth ar gyfer cyfnod AMB 3 yn cyd-fynd yn effeithiol a'r hyn a nodir yn y wybodaeth targed.<br><br>Ar sail y wybodaeth uchod, ni chredir fod angen unrhyw weithrediad o safbwynt y dangosydd hwn ond credir bod angen ystyried hwyluso darpariaeth ddigonol o unedau fforddiadwy yn ardal y Cynllun wrth adolygu'r Cynllun. |
| **Gweithred:** |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. |

| **Dangosydd: D50** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS16, TAI1- TAI7, PS 18, TAI 5, TAI 8, TAI 15-TAI 19 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D50 Newidiadau mewn gwerthoedd gweddilliol ar draws yr ardaloedd prisiau tai a nodwyd ym Mholisi TAI 15 | Cyflenwi'r lefel uchaf bosib o dai fforddiadwy a ystyrir yn hyfyw yn unol â Pholisi TAI 15 | AMB 1 | ✓ | Cynnydd neu ostyngiad o 5% mewn gwerth gweddilliol mewn unrhyw ardal prisiau tai mewn unrhyw flwyddyn unigol | |
| | | AMB 2 | | | |
| | | **AMB 3** | ✓ | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |

Mae Polisi TAI 15 o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn adnabod 21 Ardal Pris Tai. Ers mabwysiadu'r Cynllun mae 1,823 o unedau tai wedi eu cwblhau yn ardal y Cynllun. Mae'r astudiaeth hyfywedd gwreiddiol i gefnogi'r canrannau ym Mholisi TAI 15 yn adnabod prisiau gwahanol ar gyfer tai sengl 3,4 a 5 llofft, tai pâr 3 llofft, tai teras 2 a 3 llofft, fflatiau 1 a 2 llofft a byngalos 2 a 3 llofft.

Oherwydd y nifer isel cyffredinol o anheddau newydd sydd wedi eu gwerthu mewn rhai o'r ardaloedd prisiau tai yn ogystal â diffyg mathau penodol o dai nid yw'n bosibl cymharu prisiau tai diweddar gyda thybiaethau 2016 ar gyfer pob ardal prisiau tai.

Yn sgil hyn, fe gomisiynwyd y Cyngor gwaith er mwyn deall y newidiadau yn y costau adeiladu yn erbyn y prisiau tai cyffredinol rhwng Mawrth 2019 a Mawrth 2021 i adeiladu ar gyfer gwaith 2019 a ymgymerwyd â ar gyfer yr AMB 1af.

Rhwng 2019 a 2020 roedd yna gynnydd bychan o 1.7% yn y prisiau tai cyffredinol yng Ngwynedd a chynnydd uwch o 6.6% ym Môn. Ar gyfer y cyfnod 2020 i 2021 roedd yna gynnydd sylweddol o 15.5% yng Ngwynedd a Môn hefyd yn gweld cynyddu sylweddol o 15% yn yr un cyfnod. Ar gyfartaledd i ardal y Cynllun mae prisiau tai wedi cynyddu o 19.4% rhwng 2019 a 2021 efo cynnydd cyflawn o 24.7% ers 2016.

Y twf mewn prisiau yn ardal y Cynllun rhwng 2016 a 2020 oedd oddeutu 10% sydd yn dwf cymedrol o 2% y flwyddyn. Mae'r cynnydd dramatig a welir eleni i'w weld fel gwyriad o'r drefn tymor hir ac ar sail hyn mae angen rhoi ystyriaeth gofalus i hyn wrth fynd ymlaen i 2022.

Mewn perthynas â chostau adeiladu (ar sail newid mewn prisiau tender) mae'r rhain yn dangos cynnydd o 1.1% rhwng 2019 a 2020, fodd bynnag ceir lleihad o 1% rhwng 2020 a 2021. Yn gyffredinol mae yna gynnydd o 12.6% yn y costau adeiladu wedi bod ers 2016.

Mae adborth anecdotaidd ar gyfer costau adeiladu hynny yw eu bod yn cynyddu'n gyflym ddim i'w weld yn bwydo trwodd i'r data.

Yn gyffredinol mae hyn yn awgrymu cynnydd yn y 'bwlch' hyfywedd rhwng gwerth a costau a felly gwerthoedd gweddilliol uwch.

Yr hyn sy'n allweddol i hyfywedd yw'r berthynas rhwng gwerth gweddilliol a meincnod gwerth tir. Yn seiliedig ar y meincnod gwerth tir a gynhwysir yn y seiliau tystiolaeth ar gyfer amrywiaeth o awdurdodau lleol yng Nghymru, mae'n debyg mai tua £300,000 yw ffigwr teg ar gyfer ardal y CDLl ar y Cyd erbyn hyn. Mae hyn yn golygu, yn y 4 ardal ac aneddiadau is-farchnad uchaf, mae'n debyg nad yw 40% o Dai Fforddiadwy yn afrealistig; pellach 30% i 40% yn is-farchnad Llangefni a Phen Llŷn. Yn y ddwy ardal werth isaf mae'n debyg bod tua 20% o Dai Fforddiadwy yn addas gan ystyried na fydd perchnogion tir yn y lleoliadau hyn yn disgwyl enillion mor uchel â'r rhai mewn ardaloedd gwerth uwch.

Mae hwn wedi bod yn gyfnod o newid economaidd a gwleidyddol a allai fod yn draddodiadol wedi creu problemau a heriau hyfywedd. Fodd bynnag, ar ôl gweld cynnydd cymedrol mewn prisiau a chostau ar gyfer y cyfnod rhwng 2016 a 2019, mae'r 12 mis diwethaf wedi gweld twf cryf mewn prisiau gan roi hwb i hyfywedd ar draws pob maes.

Ar yr un pryd, dim ond twf cymedrol y mae costau wedi'i gynnal, sy'n golygu bod y 'bwlch' hyfywedd wedi ehangu gan wella gallu tir i gyflawni cyfraniadau Adran 106.

Y sefyllfa felly ar bapur yw y gall y Cyngor gynnal ei bolisïau presennol mewn trafodaethau safle-benodol. Fodd bynnag, mae'r darlun tymor hir yn llai sicr. Mae'n bosibl bod prisiau'n mynd rhagddynt o ganlyniad i gyfres unigryw o ffactorau gan gynnwys y duedd a ysgogwyd gan Covid ar gyfer symud a chryfhau'r farchnad swyddi drwy 'furlough'.

Felly, bydd angen monitro'r sefyllfa'n agos i weld a yw'r effeithiau tybiedig hyn yn bwydo drwodd i'r data. Os byddant yn gwneud hynny, yna efallai na fydd y darlun hyfywedd sylfaenol mor optimistaidd ag y mae'n ymddangos ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| **Gweithred:** | |
| Cynnal astudiaeth hyfywedd fanwl fel rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer adolygiad o'r JLDP. | |

| **Dangosydd: D51** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i’w fonitro. |

**Lleoliad Tai (Rhan 2)**

| **Dangosydd: D52** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D52 Nifer o unedau tai marchnad leol a gaiff eu hadeiladu mewn aneddleoedd a nodir ym Mholisi TAI 5 | Cyflenwi’r lefel uchaf bosibl o dai marchnad leol mewn aneddleoedd a restrir ym Mholisi TAI 5. | AMB 1 | – | Llai na 10 o unedau tai marchnad leol yn cael eu hadeiladu mewn aneddleoedd a nodir ym Mholisi TAI 5 mewn unrhyw flwyddyn unigol |
| | | AMB 2 | – | |
| | | **AMB 3** | – | |
| | | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |

**2020/21: 0 uned marchnad lleol wedi ei gwblhau**

Yng nghyfnod yr AMB hwn, mae caniatâd wedi ei roddi ar gyfer 1 uned marchnad leol. Nodir bod caniatâd byw yn bodoli am 3 uned o’r fath ers cyfnod AMB 1 ac AMB 2 a bod 1 uned marchnad leol wedi ei gwblhau yn ystod 2019/20.

Nodir fod amod tai marchnad lleol ynghlwm â 7 uned arall (ar ddau safle) sydd wedi eu caniatáu yn 2019/20 ond deallir mai unedau fforddiadwy (fel caniateir o dan Bolisi TAI 5) fydd yn cael eu darparu ar y safleoedd hyn.

| |
|---|
| Tra na fyddai'r gyfradd hon o ganiatadau yn arwain at gwrdd â'r lefel targed, nodir bod Polisi TAI 5 mewn perthynas â Thai Marchnad Lleol wedi cyflwyno egwyddor polisi hollol newydd nad oedd yn amlwg mewn cynlluniau datblygu blaenorol. Ar sail hyn credir bod oediad amser yn parhau felly rhwng mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, derbyn egwyddor polisi sydd yn hollol o'r newydd yn yr aneddleoedd perthnasol ac yna adeiladu tai o'r fath. Credir fod y newid sylfaenol mewn polisi ar gyfer y lleoliadau penodol sydd yn berthnasol i Bolisi TAI 5 yn golygu ei fod am gymryd amser iddo gael ei dderbyn yn fwy eang gan y cyhoedd a'r sawl sydd yn datblygu tai. Wrth i'r Cynllun aeddfedu gobeithir y bydd cynnydd mewn unedau o'r fath sydd yn cael eu hadeiladu. Tra'i bod yn bwysig fod darpariaeth tai o'r newydd yn cael ei wneud i gwrdd ag anghenion y cymunedau lleol, mae'r polisi yn amlwg wedi cyfyngu ar ddatblygiadau hapfasnachol yn y lleoliadau sydd a'r problemau mwyaf dwys o ran y farchnad dai. Bydd yn bwysig fodd bynnag ystyried agweddau mewn perthynas â hybu mwy o ddatblygiadau tai marchnad lleol fel rhan o adolygiad y Cynllun er mwyn sicrhau fod y polisi yn effeithiol o ran diwallu anghenion tai lleol.<br><br>Gellir asesu'r sefyllfa o ran y ddarpariaeth o unedau marchnad lleol mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol y dyfodol a ni chredir fod angen unrhyw weithrediad ar hyn o bryd o safbwynt y dangosydd hwn. |
| **Gweithred:** |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. |

| **Dangosydd: D53** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 & SO16 | SO15: Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.<br><br>SO16: Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D53 Ceisiadau cynllunio ac apeliadau i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 | Cadw cytundebau 106 ac amodau i hyrwyddo adeiladu tai marchnad lleol yn unol â Pholisi TAI 5 | AMB 1 | ✓ | Cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau A106 neu amodau ar gyfer tai marchnad lleol yn cael eu | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |
| | | **AMB 3** | ✓ | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| neu amod ar gyfer tai marchnad lleol | | AMB 4 | | cymeradwyo neu eu caniatáu (fel bo'n berthnasol) mewn unrhyw flwyddyn |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Nid oes yr un cais cynllunio neu benderfyniad apêl i ddiwygio neu gael gwared â chytundebau adran 106 neu amodau ar gyfer tai marchnad lleol wedi cael eu cymeradwyo neu eu caniatáu (yng nghyfnod yr AMB hwn nag ychwaith ers mabwysiadu'r Cynllun).<br><br>Yn unol â Deddf Cynllunio 1990 gellir apelio ymrwymiad cynllunio i'r Arolygaeth Cynllunio ar ôl 5 mlynedd ar sail nad oes rheswm cynllunio perthnasol ar ei gyfer. Cyn hynny fe ellir ail-negodi ymrwymiadau cynllunio os yw'r awdurdod cynllunio lleol a'r datblygwr yn cytuno i hynny. Fodd bynnag o gofio bod unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer tŷ marchnad lleol yn seiliedig ar bolisi yn y CDLl ar y Cyd a fabwysiadwyd yn 2017, mae'n annhebygol iawn y byddai Awdurdod Cynllunio Lleol yn barod i ddiwygio neu gael gwared ag amod/chytundeb 106 sy'n ymwneud a chyfyngu eiddo i fod yn dŷ marchnad leol. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. | | | | |

| **Dangosydd: D54** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB1, dim angen parhau i'w fonitro. |

**Asesiad Marchnad Tai Lleol**

| **Dangosydd: D55** |
|---|
| Targed wedi ei gyflawni yn ystod AMB 2, dim angen parhau i'w fonitro. |

**Llety ar Gyfer Sipsiwn a Theithwyr**

Cafodd Asesiad Lletya Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd (2016) ei gymeradwyo gan Gabinet Gwynedd ar y 19 Ionawr 2016 a Phwyllgor Gwaith Ynys Môn ar y 8 Chwefror 2016.

Mae'r ddau Gyngor wedi bod yn gweithio i gyflawni'r Argymhellion o fewn Asesiad 2016 sef darparu estyniad i safle presennol Llandygai Bangor a safle parhaol newydd i anghenion parhaol yn Penhesgyrn, Penmynydd a pharatoi mannau dros dro yng Nghaernarfon, Canol Ynys Môn a Caergybi.

Ar gyfer lleiniau preswyl mae Cyngor Gwynedd wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer estyniad a gwella'r lleiniau presennol i safle Sipsiwn Llandygai ac mae'r caniatâd yma bellach wedi cael ei weithredu efo 5 llain ychwanegol wedi ei ddatblygu ar y safle. Mae Cyngor Môn wedi ymgymryd ag asesiadau i gadarnhau addasrwydd safle Penhesgyn. Fodd bynnag oherwydd newid yn y galw o'r safle

diawdurdodedig ar angen i roi blaenoriaeth i ddatblygu safle dros dro yng Nghanol yr Ynys ni oes cais cynllunio wedi cael ei gyflwyno hyd yma ar gyfer y safle yma.

Ar gyfer man aros dros dro mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno i ddefnyddio rhan bellaf o faes parcio Shell yng Nghaernarfon pan fo yna alw, efo cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i'r sipsiwn / teithwyr. Ar ôl proses o ymgynghoriad cafodd safle ger Star ei ddewis fel safle addas fel angen dros dro i ganol yr Ynys a cafodd ganiatâd cynllunio y 2018. Mae costau cyfredol y cynllun yn uwch na'r gyllideb gymeradwy ac mae trafodaethau ynghylch datblygu yn y dyfodol yn parhau.

Ar gyfer safle yng Nghaergybi nid oes unrhyw safle wedi'i nodi hyd yma.

Mae'r ddau Gyngor wedi ymrwymo i gynnal Asesiad o Anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn 2021 gan gyflwyno adroddiad i Llywodraeth Cymru yn 2022. Bydd canlyniadau yr asesiad yma yn pennu'r angen o fewn ardal y Cynllun am anghenion llety i Sipsiwn a Theithwyr tua'r dyfodol.

<table>
<tr><td colspan="5">Dangosydd: D56</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Amcan:</td><td>SO15</td><td colspan="3">Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.</td></tr>
<tr><td>SO16</td><td colspan="3">Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:<br><br>Prif ganlyniadau:<br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="2">D56 Nifer o leiniau Teithwyr ar gyfer llety preswyl a ddarperir ym</td><td rowspan="2">Darparu 4 llain ym Mhenhesgyn, Ynys Môn erbyn diwedd 2017/ 2018.</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="2">Methiant i ddarparu 4 llain ym Mhenhesgyn, Ynys Môn erbyn diwedd 2017/ 2018</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
</table>

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mhenhesgyn, Ynys Môn. | | **AMB 3** | | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Mae'r newid mewn amgylchiadau o ran nifer y teithwyr ar y safle a oddefir gyda dim ond un o'r 4 gwreiddiol a nodwyd yn yr asesiad 2016 yn aros yr un peth.

Mae'r Cyngor yn parhau i roi cymorth i'r unigolyn hwn ac mae'n ymchwilio i atebion amgen i ddiwallu ei anghenion llety yn ogystal â chytuno ar amserlen benodol i fynd i'r afael â'r angen hwn.

Mae bwriad i ymgymryd â gwaith Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) dros y flwyddyn i ddod i'w gymeradwyo'r flwyddyn nesaf.

Oherwydd newid mewn angen o’r safle a oddefir heb awdurdod, ni wnaed gwaith pellach ar ddatblygu'r safle.

**Gweithred:**

Cyngor Sir Ynys Môn i barhau i geisio datrysiad i'r anghenion llety o'r safle diawdurdod ar lôn Pentraeth.

**Dangosydd: D57**

| **Amcan:** | | |
|---|---|---|
| | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. |
| | SO16 | Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth:<br><br>**Prif ganlyniadau**:<br><br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â’r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch. |

| Dangosydd: | Targed: | Polisi perthnasol: | | PS1 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D57 Nifer o leiniau Sipsiwn ychwanegol a ddarperir ar estyniad i'r safle Sipsiwn presennol, gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor | Darparu 5 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018<br><br>Darparu cyfanswm cronnol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026 | AMB 1 | – | Methiant i ddarparu 5 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2017/ 2018<br><br>Methiant i ddarparu cyfanswm cronnol o 10 llain ychwanegol ar estyniad i'r safle preswyl Sipsiwn presennol gerllaw Stad Ddiwydiannol Llandygai, Bangor erbyn diwedd 2026 |
| | | AMB 2 | – | |
| | | **AMB 3** | – | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Mae 5 llain ychwanegol wedi'u darparu gyda chyfanswm o 12 llain barhaol bellach ar gael i Sipsiwn oedd i gyd wedi'u meddiannu ym mis Mawrth 2021.

Bydd gwaith Asesiad o Anghenion Sipsiwn a Theithwyr dros y flwyddyn i ddod yn cael ei gymeradwyo y flwyddyn nesaf.

Mae cytundeb gan Gynghorau Gwynedd ac Ynys Môn i ymgymryd â gwaith GTAA ar y cyd dros y flwyddyn i ddod i'w gymeradwyo y flwyddyn nesaf. Bydd canfyddiadau'r GTAA diwygiedig hwn yn hysbysu'r CDLl ar y Cyd am yr angen am leiniau ychwanegol o fewn ardal y Cynllun.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

<table>
<tr><td colspan="6">Dangosydd: D58</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Amcan:</td><td>SO15</td><td colspan="4">Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â’r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd.</td></tr>
<tr><td>SO16</td><td colspan="4">Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy’n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o’r boblogaeth:<br><br>Prif ganlyniadau:<br><br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â’r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">Dangosydd:</td><td rowspan="2" colspan="2">Targed:</td><td colspan="2">Polisi perthnasol:</td><td>PS1</td></tr>
<tr><td colspan="2">Deilliant:</td><td>Lefel sbardun:</td></tr>
<tr><td rowspan="4">D58 Yr angen am lain ychwanegol wedi’i nodi mewn Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (GNCTA)</td><td rowspan="4" colspan="2">Darparu nifer a math o leiniau i ymdrin â’r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026</td><td>AMB 1</td><td>–</td><td rowspan="4">Methiant i ddarparu nifer a math o lain ychwanegol i ymdrin â’r angen o nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr erbyn diwedd 2026</td></tr>
<tr><td>AMB 2</td><td>–</td></tr>
<tr><td><u>AMB 3</u></td><td>–</td></tr>
<tr><td>AMB 4</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="6">Dadansoddiad:</td></tr>
<tr><td colspan="6">Fe wnaeth Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 adnabod angen ar gyfer mannau aros dros dro sef un safle yn Ardal Caernarfon yng Ngwynedd a 2 safle ar Ynys Môn un yng nghanol Ynys Môn ar llall yn ardal Caergybi. Ar gyfer y safleoedd ym Môn dylai bod lle yn y safle yng nghanol yr Ynys ar gyfer 15 carafán a lle yng Nghaergybi ar gyfer 12 carafán.<br><br><u>Gwynedd</u><br><br>Ar gyfer cyfarch yr angen am safle dros dro o fewn ardal Caernarfon mae’r Cyngor wedi cytuno i ddefnyddio rhan bellaf o faes parcio Shell yng Nghaernarfon pan fo yna alw, efo cyfleusterau priodol yn cael eu darparu i’r Sipsiwn / Teithwyr.</td></tr>
</table>

| |
|---|
| <u>Ynys Môn – Canol yr Ynys</u><br><br>Cwblhawyd dogfennau tendro a gwahoddwyd tendrau ar gyfer datblygu Man Aros Dros Dro yn Star yn ystod Chwarter 2 2020/21. Derbyniwyd pedwar cyflwyniad tendro a'u gwerthuso wedyn yn ystod Chwarter 3.<br><br>Mae costau cyfredol y cynllun yn uwch na'r gyllideb gymeradwy ac mae trafodaethau ynghylch datblygu yn y dyfodol yn parhau.<br><br><u>Ynys Môn – Caergybi</u><br><br>Nid oes unrhyw safle wedi'i nodi hyd yma. Bydd canlyniadau GTAA 2021 yn pennu'r sefyllfa ddiweddaraf ar yr Ynys mewn perthynas â'r angen am safleoedd dros dro ychwanegol. |

| **Gweithred:** | |
|---|---|
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. | |

| **Dangosydd: D59** | | | |
|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO15 | Sicrhau bod ystod ddigonol a phriodol o safleoedd tai ar gael mewn lleoliadau cynaliadwy yn unol â'r goeden aneddleoedd er mwyn cefnogi twf economaidd. | |
| | SO16 | Darparu cymysgedd o dai o safon dda, ac sy'n fforddiadwy, o wahanol fathau a gwahanol ddeiliadaethau i gwrdd ag anghenion tai pob carfan o'r boblogaeth:<br><br>**Prif ganlyniadau**:<br><br>• bydd yna gyflenwad cyson 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer tai;<br>• bydd y twf tai wedi cael ei ddosbarthu ar draws ardal y Cynllun yn unol â'r dosbarthiad gofodol;<br>• bydd y cyflenwad o unedau tai fforddiadwy wedi cynyddu;<br>• bydd y galw am lecynnau ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr wedi cael ei gyfarch. | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | PS1 |
| | | **Deilliant:** | **Lefel sbardun:** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D59 Nifer o wersylloedd Sipsiwn a Theithwyr diawdurdod yr adroddir arnynt yn flynyddol a hyd yr arhosiad | Monitro newidiadau yn yr angen am leiniau a chymharu â chyflenwad o leiniau yn y cyfnod rhwng yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr | AMB 1 | – | Nifer o wersylloedd a hyd yr arhosiad yn awgrymu angen am leiniau ychwanegol |
| | | AMB 2 | – | |
| | | **AMB 3** | – | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Nid yw Cyngor Gwynedd wedi derbyn unrhyw wybodaeth am wersylloedd diawdurdod dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae safle a oddefir am 2 garafán ym Methesda, sydd yn y gorffennol wedi cael cynnig lle ar restr aros y Cyngor ond sydd wedi gwrthod y cynnig hwn.

Ar Ynys Môn, adroddwyd ar un safle anawdurdodedig. Roedd nifer y carafanau yn ddau gyda 4 meddiannydd ac roedd hyd yr arhosiad am 4 noson.

| Safle | Carafanau | Dyddiad Cyrraedd | Dyddiad Gadael | Nifer o Ddyddiau |
|---|---|---|---|---|
| Stad Busnes Bryn Cefni, Llangefni | 2 | 19.08.20 | 23.8.20 | 5 diwrnod |

O adolygu'r sefyllfa, nid oes dim yn peri pryder ar hyn o bryd.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o AMB dilynol i weld os oes patrymau tebyg yn digwydd i'r dyfodol.

## 6.5 Amgylchedd Naturiol ac Adeiledig

**Gwarchod a Gwella'r Amgylchedd Naturiol**

| **Dangosydd: D60** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D60 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar safleoedd bioamrywiaeth a geoamrywiaeth sy'n bwysig yn lleol | Cynnal neu wella gwerth bioamrywiaeth a geoamrywiaeth safleoedd sy'n bwysig yn lleol yn unol â Pholisi AMG 5 a Pholisi AMG 6 | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais yn groes i Bolisi AMG 5 neu Bolisi AMG 6. | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |
| | | **<u>AMB 3</u>** | ✓ | | |
| | | AMB 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |
| Ar ôl archwilio'r ceisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt, nid yw'n ymddangos fod unrhyw ganiatâd cynllunio wedi ei gymeradwyo yn groes i bolisïau AMG 5 ac AMG 6 yn ystod y cyfnod monitro.<br><br>Ymddengys fod y polisïau yn cael eu gweithredu'n effeithiol. | | | | | |
| **Gweithred:** | | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. | | | | | |

| **Dangosydd: D61** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D61 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 19 | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol neu ar safleoedd sy'n effeithio ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth y safleoedd a ddynodwyd | sy'n niweidiol i werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth safleoedd a ddynodwyd yn genedlaethol neu'n rhyngwladol | **AMB 3** | ✓ | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Cymeradwywyd cyfanswm o 3 cais cynllunio a oedd yn llwyr/rhannol o fewn safleoedd dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol o werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig, Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol); roedd y tri fel a ganlyn:

1. FPL/2020/37 - Cais llawn i osod pontŵn sy'n arnofio a chrud cychod yn Ynys y Big, Porthaethwy. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn fodlon fod y mesurau lliniaru a nodwyd yn ddigonol i leihau unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd morol ac na fyddai unrhyw effaith sylweddol debygol ar ACA Afon Menai a Bae Conwy, AGA Traeth Lafan a SoDdGA Glannau Porthaethwy.

2. FPL/2020/68 - Cais ôl-weithredol ar gyfer y gwaith amddiffyn arfordirol yn Trewyn Isaf, Rhosneigr. Roedd CNC wedi datgan nad oedd y datblygiad arfaethedig yn debygol o niweidio'r nodweddion o ddiddordeb arbennig yn SoDdGA Rhosneigr.

3. C20/0244/08/LL - Cais cynllunio llawn i godi adeilad pen twnnel y Gorllewin (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig) yn Garth ynghyd â thrac mynediad parhaol. O ran safleoedd dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol o werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth, nododd CNC fel a ganlyn:

   a) Yr ACA - yn fodlon, cyhyd â bod y mesurau a fanylir yn yr adroddiad yn cael eu gweithredu, bod y cynigion yn annhebygol o effeithio ar gyfanrwydd ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd.

   b) Y SoDdGA - yn fodlon bod y datblygiad a geisir yma yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar SoDDGA Glaslyn, SoDDGA Ysbyty Bron y Garth neu ystlumod sy'n defnyddio'r ardal.

Ni ystyriwyd fod unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd yn amharu ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth rhyngwladol/cenedlaethol y dynodiadau hyn. O ganlyniad, ystyrir fod pob caniatâd yn cydymffurfio â pholisi PS 19, a bod y polisi yn parhau i gael ei weithredu'n effeithiol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf.

| Dangosydd: D62 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D62 Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir ar gyfer datblygiad mawr mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiad mawr sy'n niweidiol i harddwch naturiol AHNE. | AMB 1 | ✓ | Caniatawyd un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 19 a Pholisi AMG 1 |
| | | AMB 2 | ✓ | |
| | | **AMB 3** | ✓ | |
| | | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Ni chaniatawyd unrhyw geisiadau cynllunio am 'ddatblygiad mawr' o fewn yr ardaloedd AHNE yn ystod y cyfnod monitro. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. | | | | |

**Diogelu a Gwella Asedau Treftadaeth**

Yn ystod cyfnod AMB 3 mae'r proses o ymgeisio ar gyfer arysgrif llwyddiannus UNESCO o Safle Treftadaeth y Byd Ardal Tirwedd Llechi Gogledd Cymru wedi mynd yn ei flaen. Fel rhan o'r gwaith yn gysylltiedig â'r enwebiad mae yna fersiwn drafft o Ganllaw Cynllunio Atodol cysylltiedig wedi cael ei baratoi. Yn dilyn arysgrif llwyddiannus o'r enwebiad fe fydd y Canllaw drafft yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus ac wedi hynny bydd camau yn cael ei chymryd yw mabwysiadu gan y Cyngor gan sicrhau fod yr arweiniad a gynhwysir o fewn y Canllaw yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth wneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

| Dangosydd: D63 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd ac amgylchedd hanesyddol. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D63 Nifer o geisiadau cynllunio | Ni roddir caniatâd i geisiadau cynllunio | AMB 1 | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| a ganiateir mewn Ardaloedd cadwraeth a Safleoedd Treftadaeth y Byd sy'n effeithio ar eu gwerth hanesyddol neu ddiwylliannol | sy'n niweidiol i gymeriad ac edrychiad yr Ardal Gadwraeth neu Werth Cyffredinol Eithriadol Safle Treftadaeth y Byd | AMB 2 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi PS 20 neu Bolisi AT 1 |
| | | **AMB 3** | ✓ | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Ni chafodd caniatâd cynllunio ei gymeradwyo ar gyfer ceisiadau oedd yn groes i bolisïau PS 20 ac AT 1 yn ystod y cyfnod monitro. Cafodd un cais cynllunio ei gymeradwyo o fewn y Safle Treftadaeth y Byd, a chyfanswm o 65 cais cynllunio (llawn/amlinellol) o fewn Ardal Gadwraeth y Cynllun. Mae'r rhain yn cynnwys newid defnydd cyn Eglwys yn ofod ar gyfer ymarferion, gweithdy a pherfformio; anheddau newydd, rhandai, newidiadau defnydd, trosi adeiladau, addasiadau ac estyniadau.

Ystyrir fod y caniatadau hyn yn cydymffurfio â Pholisïau PS 20 ac AT 1 a bod y polisïau hyn yn parhau i gael eu gweithredu'n effeithiol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf.

| **Dangosydd: D64** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO17 | Gwarchod, gwella a rheoli asedau naturiol a threftadaeth ardal y Cynllun, gan gynnwys ei adnoddau naturiol, cynefinoedd bywyd gwyllt, cymeriad y dirwedd a'r amgylchedd hanesyddol | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol** | | PS19, AMG1, AMG2, AMG3, AMG4, AMG5, AMG6, PS20, AT1, AT3, AT4 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D64 - Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Asedau Treftadaeth | Paratoi a mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol yn ymwneud ag Asedau Treftadaeth o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun | AMB 1 | – | Peidio mabwysiadu Canllaw Cynllunio Atodol o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun |
| | | AMB 2 | – | |
| | | **AMB 3** | – | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

| |
|---|
| Mae'r gwaith cychwynnol yn ymwneud â pharatoi'r CCA wedi digwydd. Fodd bynnag, gyda chyhoeddiad NCT 24 (Yr Amgylchedd Hanesyddol) a nifer o gyhoeddiadau canllaw gan CADW, ystyrir nad oes bellach angen CCA penodol ar y mater hwn. Hefyd, bydd materion dylunio yn gysylltiedig ag asedau hanesyddol yn cael sylw gan y CCA ar 'Ddyluniad' sydd wrthi'n cael ei baratoi ar hyn o bryd. |
| **Gweithred:** |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB nesaf. |

**Rheoli Gwastraff**

| **Dangosydd: D65** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO18 | Annog rheoli gwastraff wedi ei seilio ar hierarchaeth lleihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu diogel. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | GWA 1 | |
| | | **Deilliant:** | | **Trothwy:** | |
| D65 - Faint o dir a chyfleusterau sydd eu hangen i ymdrin â gwastraff yn ardal y Cynllun | Cynnal digon o dir a chyfleusterau i ymdrin â gwastraff ardal y Cynllun (i'w gadarnhau ar lefel ranbarthol yn unol â threfniadau monitro gwastraff TAN 21) | AMR 1 | ✓ | Y trothwyon i gael eu sefydlu ar lefel ranbarthol yn unol â TAN21 | |
| | | AMR 2 | ✓ | | |
| | | **AMR 3** | ✓ | | |
| | | AMR 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |
| Yn seiliedig ar Adroddiad Monitro Gwastraff Gogledd Cymru, 2018/19, nid oes angen darparu cyfleuster tirlenwi newydd ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus neu sy'n anadweithiol yn rhanbarth Gogledd Cymru, a rhaid rhoi ystyriaeth ofalus i'r posibilrwydd o gael gormod o ddarpariaeth wrth ymdrin â chynigion pellach i ddatblygu cyfleusterau trin gwastraff gweddilliol yn y rhanbarth.<br><br>Yn unol â gofynion TAN 21, rhaid cwblhau Adroddiadau Monitro Gwastraff er mwyn adnabod a oes capasiti digonol ar gyfer trin gwastraff a thirlenwi yn y rhanbarth; p'un a yw'r ddarpariaeth ofodol yn ddigon i ddiwallu'r angen; a ph'un a oes angen i awdurdodau cynllunio lleol weithredu camau angenrheidiol i ddiwallu unrhyw faterion nas ragwelwyd, ac i alluogi Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu trosolwg strategol o dueddiadau yn y sector gwastraff i gyfrannu at y CDLl a darparu arweiniad wrth ymdrin â cheisiadau cynllunio gwastraff. | | | | | |
| **Gweithredu:** | | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMR nesaf. | | | | | |

| **Dangosydd: D66** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO18 | Annog rheoli gwastraff wedi ei seilio ar hierarchaeth lleihau, ail-ddefnyddio, adfer a gwaredu diogel. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | GWA 1 | |
| | | **Deilliant:** | | **Trothwy:** | |
| D66 - Nifer y ceisiadau cynllunio am gyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1. | Cynnydd yn nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff a ddarperir ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1, o gymharu â'r nifer a ddarparwyd ar safleoedd cyflogaeth yn 2016/2017. | AMR 1 | ✓ | Dim ceisiadau cynllunio am gyfleusterau rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth a nodir ym Mholisi GWA 1 a Pholisi CYF 1. | |
| | | AMR 2 | ✓ | | |
| | | **AMR 3** | ✓ | | |
| | | AMR 4 | | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | | |
| Dau gais cynllunio ar gyfer ymestyn swyddfa safle ac amrywio amod i reoli amseroedd gweithredu. Mae hyn o gymharu â chaniatáu pedwar cais cynllunio am weithgarwch rheoli gwastraff ar safleoedd cyflogaeth yn ystod cyfnod AMR2 ac un caniatâd yn ystod AMR1.<br><br>Ystyrir bod Polisïau CYF 1 a GWA 1 yn cael eu gweithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau'n parhau i fonitro'r dangosydd. | | | | | |
| **Gweithredu:** | | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMR nesaf. | | | | | |

**Mwynau**

| **Dangosydd: D67** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO19 | Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy. | | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 22, MWYN 6 | |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** | |
| D67 – Swm yr agregau cynradd a enillwyd o'r tir a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol | Cynnal cyflenwad o leiaf 10 mlynedd o gronfeydd agregau cerrig mâl drwy gydol cyfnod y | AMB 1 | ✓ | Y cronfeydd agregau cerrig mâl yn disgyn islaw 12 mlynedd yn ardal y Cynllun | |
| | | AMB 2 | ✓ | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhanbarthol ar gyfer agregau, wedi'i fynegi fel canran o gyfanswm y capasiti sydd ei angen fel y nodir yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MNCT) | Cynllun yn ardal y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22. | **<u>AMB 3</u>** | ✓ | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Ar ddiwedd 2016 roedd 42.94 miliwn o dunelli o gronfeydd wrth gefn a ganiateir ar gyfer creigiau mâl yn weddill, sydd ymhell dros y lefel trothwy. Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru (2016). Mae'r wybodaeth hyn yn seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd.

Mae pob adolygiad o'r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynaladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 25 mlynedd ar gyfer carreg fâl (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 10 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLl ar y Cyd. Mae'r ardaloedd a ffafrir ar gyfer cerrig mâl ym Mholisi MWYN 2 o'r CDLl ar y Cyd yn fwy na'r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â'r ddarpariaeth angenrheidiol sydd wedi ei adnabod yn y Ail Datganiad Technegol Rhanbarthol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

| **Dangosydd: D68** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO19 | Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 22, MWYN 6 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| | Cynnal cyflenwad o leiaf 7 mlynedd o | AMB 1 | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| D68 – Cyflenwad tir tywod a graean yn ardal y Cynllun | dywod a graean drwy gydol cyfnod y Cynllun yn unol â Pholisi PS 22. | AMB 2 | ✓ | Y Cronfeydd tywod a graean yn disgyn islaw 9 mlynedd. |
| | | **AMB 3** | ✓ | |
| | | AMB 4 | | |

**Dadansoddiad:**

Roedd gan Ogledd Cymru oddeutu 15.70 miliwn o dunelli metrig o dywod a graean yn weddill ar ddiwedd 2016 (cyfraniad ardal y Cynllun tuag at y cyfanswm hwn yn 1.175 miliwn). Gan ddefnyddio cyfartaledd gwerthiant dros 10 mlynedd, fel yr argymhellir gan Lywodraeth Cymru yn eu llythyr egluro polisi CL-04-14 mae hyn yn gyfwerth â banc tir o 21.8 mlynedd.

Mae'r wybodaeth hyn yn seiliedig ar y dosraniad a amlinellir yn yr Ail Adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) sydd yn cael ei gynnal pob 5 mlynedd. Mae pob adolygiad o'r DTRh yn darparu mecanwaith er mwyn annog amcanion cynaladwyedd cenedlaethol sydd angen ei gyflawni gan bob Awdurdod Lleol unigol o fewn y rhanbarth dros gyfnod o 22 mlynedd, ar gyfer tywod a grean (sydd yn ddigonol er mwyn cyflawni gofynion NCTM1 o gyflawni banc tir o 7 mlynedd) yn ystod cyfnod 15 mlynedd y CDLl ar y Cyd. Tra bod y banc tir tywod a graean ar gyfer ardal y Cynllun yn is na'r trothwy 7 mlynedd, mae'r ardaloedd a ffafrir sydd wedi eu hadnabod ym Mholisi MWYN 2 o'r CDLl ar y Cyd yn fwy na'r na'r lleiafswm sydd angen ei ddynodi ar gyfer cwrdd â'r ddarpariaeth angenrheidiol yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol.

**Gweithred:**

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd.

**Dangosydd: D69**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Amcan:** | SO19 | Diwallu anghenion mwynau'n lleol a rhanbarthol mewn ffordd gynaliadwy. | | |
| **Dangosydd:** | **Targed:** | **Polisi perthnasol:** | | PS 22, MWYN 6 |
| | | **Deilliant:** | | **Lefel sbardun:** |
| D69 – Nifer o geisiadau cynllunio a ganiateir o fewn clustogfa mwynau | Dim caniatáu datblygiad o fewn clustogfa mwynau a fyddai'n arwain at sterileiddio'r | AMB 1 | ✓ | Caniatáu un cais cynllunio yn groes i Bolisi MWYN 5. |
| | | AMB 2 | ✓ | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | adnodd mwynau, oni mai ei fod yn unol â Pholisi MWYN 5. | **AMB 3** | ✓ | |
| | | AMB 4 | | |
| **Dadansoddiad:** | | | | |
| Rhoddwyd 11 o ganiatadau cynllunio ar safleoedd sydd o fewn glustogfa mwynau. Mae'r mathau o ganiatadau yn amrywio o fod yn ddatblygiadau deiliaid tŷ, datblygiad amaethyddol ac arwyddion.<br><br>Ni roddwyd caniatâd Cynllunio o fewn clustogfa mwynau sydd yn groes i Bolisi MWYN 5. Gan hynny ystyrir fod Polisi MWYN 5 yn cael ei weithredu'n effeithlon. Bydd y Cynghorau yn parhau i fonitro'r dangosydd. | | | | |
| **Gweithred:** | | | | |
| Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro fel rhan o'r AMB dilynol. Mi fydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i hyn wrth adolygu'r CDLl ar y Cyd. | | | | |

**PENNOD 4: CASGLIADAU AG ARGYMHELLION**

4.1 Mae cyfnod yr AMB hwn yn cynnwys dyddiau cynnar y pandemig byd-eang gan gynnwys felly'r cyfnodau clo llym, lle gwaharddwyd pob taith ac eithrio rhai hanfodol a ble gorchmynnwyd i bobl aros yn eu cartrefi. Cafodd y cyfnodau clo a'r cyfyngiadau dilynol effaith ar fywyd bob dydd am ran helaeth o gyfnod AMB3. O ganlyniad i'r cyfnodau clo a'r cyfyngiadau, ataliwyd llawer o weithgareddau dydd i ddydd am fisoedd lawer. Ar sail yr amgylchiadau eithriadol hyn, ni ddylid felly ystyried canfyddiadau AMB3 ar eu pennau eu hunain. Nid oes dealltwriaeth lawn eto o'r goblygiadau sy'n deillio o'r pandemig ac wrth i'r wybodaeth hon ddod i'r amlwg caiff ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

4.2 Fel gyda AMBau blaenorol, bydd AMB3 yn darparu'r dystiolaeth ar gyfer y dangosyddion er mwyn galluogi'r Cynghorau i gymharu gwybodaeth yn y dyfodol ac i adnabod unrhyw dueddiadau. Fodd bynnag, fel sydd wedi ei amlinellu uchod, wrth ystyried y canfyddiadau mi fydd angen hefyd cadw mewn cof yr amgylchiadau eithriadol yn bodoli o safbwynt y pandemig byd-eang. Mi fydd AMB3 ynghyd a'r AMBau blaenorol yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol wrth adolygu'r Cynllun.

4.3 Ar y cyfan fe ystyrir bod cynnydd da yn cael ei wneud o ran cyflawni'r targedau a amlinellwyd yn y fframwaith monitro. Ble nad yw targedau wedi eu cwrdd, mae hyn ar sail ffactorau sydd i raddau helaeth y tu allan i reolaeth y CDLl ar y Cyd. Fel sydd wedi ei nodi uchod, bydd yn rhaid ystyried y ffactorau hyn o fewn yr adolygiad a mynd i'r afael a hwy drwy unrhyw ddiwygiad dilynol i'r cynllun.

4.4 Er yr anawsterau sydd wedi deillio o'r pandemig byd eang yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae yna nifer o ddeilliannau cadarnhaol yn gysylltiedig â'r cynllun datblygu lleol. Mae'r rhain wedi eu nodi isod.

4.5 Mabwysiadwyd dau ganllaw cynllunio atodol ychwanegol sy'n darparu canllawiau pellach ar weithredu polisi. Y rhain yw 'Newid defnydd cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu' a 'Llety a Chyfleusterau Twristiaeth'.Mae CCA 'Llety a chyfleusterau Twristiaeth' yn darparu canllawiau pellach ar yr ystyriaethau cynllunio cyffredinol sy'n ymwneud â thwristiaeth, carafanau sefydlog a siale, carafanau teithiol a llety gwersylla amgen. Mae'r CCA hefyd yn darparu canllawiau ar lety gwyliau gwasanaethol a hunanwasanaeth parhaol gan gynnwys felly diffinio'r hyn a ystyrir yn orddarpariaeth gan ystyried y ddarpariaeth llety gwyliau tymor byr presennol ynghyd â nifer yr ail gartrefi o fewn ardal cyngor cymuned. Ble fydd y cyfanswm cyfunol o'r ddwy elfen hyn dros 15%, ni fydd unrhyw lety gwyliau tymor byr pellach yn cael eu caniatáu.

4.6 Mae'r CCA 'Cyfleusterau Cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu' yn darparu canllawiau pellach ar y polisïau o fewn y cynllun sy'n gwarchod cyfleusterau cymunedol, safleoedd cyflogaeth ac unedau manwerthu. Mae'r CCA yn amlinellu'r cyfnod marchnata a ddisgwylir a'r math o dystiolaeth y byddai'n ddisgwyliedig ar gyfer cefnogi ceisiadau am newid defnydd.

4.7 Rhoddwyd caniatâd i 511 o dai fforddiadwy ers i'r CDLl gael ei fabwysiadu yn 2017 efo 92 o rain yn cael caniatâd yn 2020-21. Cwblhawyd 476 o unedau tai fforddiadwy yn ystod y cyfnod 2017-21. Tra bod peth gostyngiad yn y nifer o unedau fforddiadwy a gwblhawyd yn 2020-21 (104 uned) o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol [2018/19 (185 o unedau); 2019/20 (124 o unedau)], noder fod cynnydd arwyddocaol yn y nifer o unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd o'i gymharu â'r blynyddoedd cyn hynny. Nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys tai sy'n fforddiadwy yn

sgil eu lleoliad, a'u maint, fel y gallai fod yn wir mewn rhai ardaloedd yn ardal y Cynllun ac felly mae'r ddarpariaeth o dai sy'n fforddiadwy yn debygol o fod yn uwch na'r ffigwr hwn. O'r unedau a gafodd ganiatâd a'u cwblhau ers i'r Cynllun gael ei fabwysiadu, mae canran y tai fforddiadwy tua 50%. Mae hyn yn golygu bod caniatadau newydd o dan y Cynllun hyd yma wedi darparu canran uchel o dai fforddiadwy, gan sicrhau bod anghenion lleol yn cael eu cwrdd ac mae hyn yn helpu i gynnal yr iaith o fewn ardal y Cynllun.

4.8 Ym Mehefin 2018, cyflwynodd Horizon gais Gorchymyn Caniatâd Datblygu er mwyn datblygu atomfa newydd, a chynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus. Cyhoeddodd Hitachi ei fwriad i ohirio'r cynnig i ddatblygu'r atomfa newydd; fodd bynnag, cadarnhaodd Horizon y byddai'n parhau i roi adnoddau i sicrhau bod y broses o archwilio'r cais yn cael ei chwblhau. Mae’r penderfyniad wedi cael ei ohirio dwywaith, bellach mae’r penderfyniad yn ddisgwyliedig erbyn diwedd Medi 2020,

4.9 Ar 22 Medi, 28 Medi a 18 Rhagfyr 2020 anfonodd Horizon ohebiaeth at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gofyn am ohirio penderfyniad GCD Wylfa Newydd. Nodwyd mai'r rheswm dros ofyn am ohirio oedd yn sgil trafodaethau parhaus gyda thrydydd partïon a oedd wedi mynegu diddordeb mewn datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd ar ôl i Hitachi dynnu'n ôl. Ar y 27ain o Ionawr 2021 tynnwyd y GCD yn ôl gan Horizon. Tynnwyd y cais yn ôl oherwydd diffyg buddsoddwyr yn y prosiect a diffyg polisi ariannu newydd gan y Llywodraeth. Mae'r penderfyniad wedi arwain at Hitachi yn penderfynu dirwyn Horizon i ben fel endid datblygu gweithredol erbyn 31 Mawrth 2021. O ganlyniad, ystyriwyd ei bod yn briodol tynnu'r Cais am Orchymyn Datblygu yn ôl.

4.10 Ar y cyfan mae’r dangosyddion o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â’r disgwyliadau. Ble nad yw targedau polisi yn cael eu cwrdd, mae hyn, ar y cyfan, yn seiliedig ar ffactorau sydd y tu allan i reolaeth y CDLl ar y Cyd, er enghraifft, dangosyddion sydd yn ymwneud â Wylfa Newydd. Bydd goblygiadau hyn yn cael eu hystyried fel rhan o adolygiad y Cynllun. Ble na fo targedau polisi eraill yn cael eu cyflawni, nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch gweithredu’r polisi. Mae’n rhaid i’r Cynghorau adolygu’r Cynllun pob 4 mlynedd oni bai fod yna amgylchiadau sy’n deillio o gasgliadau’r AMB sydd yn nodi’r angen ar gyfer adolygiad cynharach. Yng Ngorffennaf 2021 bydd y Cynllun wedi ei fabwysiadu ers pedair mlynedd felly bydd yn angenrheidiol i ymgymryd â adolygiad o’r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a dod i gasgliad o ran y math o adolygiad fydd angen ei wneud h.y. adolygiad byr neu llawn. Bydd canfyddiadau AMB 1-3 yn ffurfio rhan bwysig o’r sail dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad a’r diwygiadau dilynol i’r CDLl ar y Cyd. Bydd gwybodaeth o ran newidiadau cyd-destunol ynghyd a tystiolaeth o’r fframwaith monitro yn cael ei ystyried.

4.11 Bydd y broses o adolygu’r cynllun datblygu lleol yn cychwyn yn ystod 2021. Mae canfyddiadau AMB3 yn nodi, ar y cyfan, fod polisïau’n perfformio yn effeithiol. Fodd bynnag mae yna newidiadau cyd-destunol arwyddocaol, megis cyhoeddi Cymru’r Dyfodol, y pandemig byd eang, Brexit a thynnu DCO Wylfa Newydd yn nôl, wedi digwydd ers mabwysiadu’r Cynllun. Bydd y rhain yn cael eu hystyried fel rhan o’r adolygiad. Er y newidiadau cyd-destunol, fe ystyrir fod polisïau’r CDLl ar y Cyd yn parhau’n berthnasol ac yn darparu fframwaith gynllunio gadarn ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio ar draws ardal y Cynllun. Mae’r pwyntiau isod yn amlygu sut mae’r Cynllun yn parhau i gyflawni er budd yr ardal:

- Nid oes unrhyw bolisïau wedi’u nodi fel rhai sy’n methu â chyflawni amcanion y cynllun
- Mae rhai datblygiadau yr adroddwyd arnynt yn benderfyniadau a wnaed cyn mabwysiadu’r Cynllun ar y Cyd.

- Ar y cyfan mae penderfyniadau apêl ers mabwysiadu'r Cynllun ar y Cyd wedi cefnogi polisïau a strategaeth y cynllun efo penderfyniadau apêl sydd wedi'u caniatáu'n ddim yn tanseilio polisïau CDLl ar y Cyd.
- Rhoddwyd caniatâd ar gyfer 275 o unedau preswyl newydd (gan gynnwys ceisiadau i ailystyried neu ymestyn y dyddiad y daw'r caniatadau presennol i ben) yn ystod 2020-21. Roedd 92 uned (34%) ar gyfer tai fforddiadwy.
- Mae 104 o unedau tai fforddiadwy wedi'u cwblhau yn 2020-21. Tra bod hyn yn beth gostyngiad o'i gymharu â 2018-19 a 2019-20, mae'n gynnydd sylweddol o'i gymharu â'r blynyddoedd cyn hynny. Tra noder nad oes targed wedi ei lunio ar gyfer y ddarpariaeth o unedau fforddiadwy rhwng 2015-2021, credir fod y sefyllfa bresennol yn dderbyniol wrth edrych ar y targed sydd wedi ei lunio hyd at 2022.
- Roedd y banc tir ar gyfer tai (safleoedd â chaniatâd presennol) yn 2021 yng Ngwynedd ac Ynys Môn gan eithrio unedau mae'r CDLl wedi nodi sydd yn anhebygol o gael eu datblygu yn ystod oes y Cynllun yn 1,994 o unedau (1,451 heb ddechrau a 543 yn cael eu hadeiladu) ac roedd 512 ohonynt ar gyfer unedau fforddiadwy (397 o unedau heb ddechrau a 115 uned wrthi yn cael eu hadeiladu).
- Nodir bod 3924 o unedau wedi'u cwblhau yn ardal y Cynllun rhwng y dyddiad cychwyn (2011) a 2020/21, tra bod y taflwybr yn y Cynllun yn nodi ffigwr o 4475 o unedau hyd at y cyfnod hwn. Felly, mae hyn 12.3% (551 uned) yn is na'r ffigur yn y taflwybr. Mae rhan o'r diffyg hwn yn deillio o'r oedi wrth weithredu prosiectau seilwaith mawr yn ardal y Cynllun. Mae taflwybr diwygiedig wedi ei baratoi ar gyfer gweddill cyfnod y Cynllun ar sail gwybodaeth hyd at ddiwedd cyfnod AMB 3 ynghyd a mewnbwn gan Grŵp Rhanddeiliaid Tai.
- Nid oes unrhyw geisiadau cynllunio na phenderfyniadau apêl i addasu neu ddileu cytundebau neu amodau S106 ar gyfer tai marchnad leol wedi'u cymeradwyo na'u caniatáu (yn ystod y cyfnod AMB hwn nac ers mabwysiadu'r Cynllun).
- Mae cynigion ar gyfer datblygu cyflogaeth newydd ar safleoedd sydd wedi ei ddiogelu wedi'u cefnogi gan y polisïau yn y Cynllun ar y Cyd.
- Ar y cyfan mae'r dangosyddion a gynhwysir o fewn y fframwaith monitro yn perfformio yn unol â'r disgwyliadau, lle nad ydynt yn cael eu cyflawni nid oes unrhyw bryderon ynghylch gweithredu polisi.

4.12 Bydd y CDLl ar y Cyd yn parhau i gael ei fonitro'n unol â'r fframwaith monitro a nodwyd ym Mhennod 7 y CDLl ar y Cyd.

## Atodiad 1 - Monitro’r Arfarniad Cynaliadwyedd

### 1. MONITRO'R ARFARNIAD CYNALIADWYEDD

1.1 Roedd y CDLl ar y Cyd yn ddarostyngedig i Arfarniad Cynaliadwyedd (AC), yn cynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel proses iterus drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun. Bu i'r AC ymgorffori'r gofynion ar gyfer Asesiad Amgylcheddol Strategol o dan Gyfarwyddeb yr UE 2001/42/EC. Diben yr AC oedd arfarnu effeithiau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd tebygol y Cynllun, er mwyn sicrhau eu bod yn gyson ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bu i AC y CDLl ar y Cyd adnabod 11 o amcanion a 29 o ddangosyddion sydd wedi'u bwriadu i fesur effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Cynllun.

1.2 Dylid nodi mai rhagarweiniol oedd y rhaglen fonitro a gynhwyswyd yn yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd a'i bod wedi tynnu sylw at ddangosyddion posib yn unig. Canfu'r broses monitro bod cyfle i wella'r dasg o fonitro'r AC i sicrhau bod data priodol yn cael ei gasglu. Er nad oes yr un dangosydd yn cael ei ddileu, dylid nodi bod y dadansoddiad yn nodi'n glir lle nad yw gwybodaeth ar gael ac/neu yn amherthnasol. Mewn rhai achosion, nid oes gwybodaeth ar gael mwyach (neu nid yw'n berthnasol); mewn achosion eraill, nid yw'r data sydd ar gael yn ddigon manwl fel y gellir monitro'n ddefnyddiol.

1.3 Mae nifer o Ddangosyddion AC lle nad yw gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi'n flynyddol, er enghraifft, y rhai sy'n seiliedig ar y cyfrifiad. Mae goblygiadau’r pandemig Cofid hefyd wedi golygu nad yw rhai mathau o wybodaeth wedi bod ar gael. Diben y fframwaith monitro yw adolygu newidiadau yn flynyddol, ac o ganlyniad nid yw'r rhain, o reidrwydd, am fod yn ddefnyddiol wrth symud ymlaen o ran monitro yn y dyfodol. Fodd bynnag, maent wedi'u cadw er mwyn darparu gwaelodlin, gwneir gwaith pellach mewn pryd ar gyfer yr AMB nesaf i bennu p'un a oes ffynonellau gwybodaeth amgen ar gael.

1.4 Dylid nodi nad yw'r system goleuadau traffig a ddefnyddiwyd ar gyfer Dangosyddion Monitro'r CDLl wedi'u defnyddio wrth Fonitro'r AC. Mae nifer o'r amcanion AC o natur ddyheadol ac i raddau mae'n wybodaeth fyddai'n cael ei monitro mewn sefyllfa ddelfrydol. Yn ogystal, nid y CDLl ei hun fyddai'r unig ffactor i'w ystyried wrth gyflawni'r nodau. Nid yw'r Monitro AC yn cynnwys Targedau fel y cyfryw, yn wahanol i Fonitro'r CDLl, felly byddai'n anodd dehongli'r sylwadau mewn system sgorio goleuadau traffig.

1.5 Gan mai hon yw'r trydydd Adroddiad Monitro Blynyddol, bydd y ffocws ar asesu’r newidiadau sydd wedi digwydd i bob dangosydd AC ers AMB ail y CDLl. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys cymysgedd o ddata ansoddol a meintiol ac mae sylwadau i'w cael o dan bob amcan AC sy'n disgrifio'r cynnydd. Mae pob Amcan AC yn cael ei asesu yn erbyn y dangosyddion monitro perthnasol, ac mae'r casgliadau wedi'u nodi yn y rhannau isod. Mae'r lliwiau isod wedi'u defnyddio i roi crynodeb cyffredinol o'r canfyddiadau ar gyfer pob dangosydd:

| Lliw | Effaith |
|---|---|
| ✓ | Effeithiau positif |
| +/- | Effeithiau cymysg |
| x | Effeithiau negyddol |
| 0 | Niwtral / Data ddim ar gael |

**Crynodeb Monitro AC**

1.6 Mae Tabl 1 yn nodi asesiad cryno o ganlyniadau'r Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd. Cynhwysir crynodeb o'r canlyniadau hyn ym mharagraff 1.7.

| **Tabl 1: Monitro Arfarniad Cynaladwyedd – Crynodeb** | | |
|---|---|---|
| | **Amcanion** | **Canlyniad** |
| **1** | Cynnal a mwyhau buddion a chysylltedd bioamrywiaeth | ✓ |
| **2** | Hyrwyddo hyfywdra, cydlyniant, ac iechyd a lles cymunedol | **0** |
| **3** | Rheoli a lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd drwy hyrwyddo a chefnogi mesurau lliniaru ac addasu | **+/-** |
| **4** | Cadw, hyrwyddo a gwella'r iaith Gymraeg | ✓ |
| **5** | Cadw, hyrwyddo a gwella adnoddau diwylliannol ac asedau treftadaeth hanesyddol | ✓ |
| **6** | Cefnogi twf economaidd a hwyluso economi fywiog, amrywiol sy'n darparu cyfleoedd cyflogaeth lleol | **+/-** |
| **7** | Darparu tai o ansawdd da, yn cynnwys tai fforddiadwy sy'n bodloni angen lleol | **+/-** |
| **8** | Gwerthfawrogi, cadw a gwella tirweddau gwledig a threfweddau ardal y cynllun | ✓ |
| **9** | Defnyddio'r tir ac asedau mwynol yn effeithlon a hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff | ✓ |
| **10** | Cefnogi a gwella cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r gymuned a'r economi | **+/-** |
| **11** | Diogelu ansawdd dŵr, rheoli cynaladwyedd adnoddau dŵr a lleihau'r risg o lifogydd | ✓ |

**Crynodeb o'r Canlyniadau**

1.7 Mae canlyniadau'r monitro Arfarniad Cynaliadwyedd yn nodi, o'r 11 Amcan Cynaliadwyedd, nodwyd effeithiau cadarnhaol ar gyfer 6 amcan, effeithiau niwtral ar gyfer 1 amcan ac effeithiau cymysg ar gyfer 4 amcan. Ni nodwyd unrhyw amcanion gydag effaith negyddol sylweddol. Mae'r canlyniadau'n adlewyrchu canfyddiadau'r AMB blaenorol. Dengys y tabl bod cynnydd yn cael ei wneud, wrth gydbwyso popeth, gyda mwyafrif yr amcanion cynaliadwyedd a nodwyd, yn erbyn yr amrediad o ddangosyddion monitro ar gyfer yr amcan penodol. Mae'r tablau canlynol yn cynnwys dadansoddiad manwl o berfformiad y dangosyddion:

| Amcan AC 1: Bioamrywiaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Colled bioamrywiaeth drwy ddatblygiad sy'n cael ei fesur drwy golled neu ardrawiad i safleoedd rhyngwladol (h.y. Natura 2000), safleoedd cenedlaethol (e.e. SoDdGA) a safleoedd lleol yn ardal y CDLl. | Gostyngiad | 2019/2020 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| 2) Gwir golled bioamrywiaeth yn ardal y Cynllun oherwydd datblygiad. | Cynnydd | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 3) % o nodweddion (gwahanol fathau) mewn cyflwr ffafriol, gan gynnwys nodweddion ar y tir ac ar y môr | Cynnydd | 2019/2020 | Gweler esboniad isod | **0** |
| 4) Llwyddiant amcanion a thargedau BAP (DU a gwledydd penodol/rhanbarthol/ lleol) | Cynnydd | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 5) Tueddiadau a statws NERC 2006, Rhan 42 rhywogaethau / cynefinoedd. | Gwelliant | - | Gweler esboniad isod | **0** |
| 6) Nifer ac arwynebedd SINCs a GNL o fewn y Cynllun. | Cynnal/Cynnydd | 2019/2020 | Gweler esboniad isod | ✓ |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Cymeradwywyd cyfanswm o 3 cais cynllunio a oedd yn llwyr/rhannol o fewn safleoedd dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol o werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth (h.y. Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchod Arbennig, Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol); roedd y tri fel a ganlyn:

- FPL/2020/37 - Cais llawn i osod pontŵn sy'n arnofio a chrud cychod yn Ynys y Big, Porthaethwy. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn fodlon fod y mesurau lliniaru a

nodwyd yn ddigonol i leihau unrhyw effeithiau ar yr amgylchedd morol ac na fyddai unrhyw effaith sylweddol debygol ar ACA Afon Menai a Bae Conwy, AGA Traeth Lafan a SoDdGA Glannau Porthaethwy.
- FPL/2020/68 - Cais ôl-weithredol ar gyfer y gwaith amddiffyn arfordirol yn Trewyn Isaf, Rhosneigr. Roedd CNC wedi datgan nad oedd y datblygiad arfaethedig yn debygol o niweidio'r nodweddion o ddiddordeb arbennig yn SoDdGA Rhosneigr.
- C20/0244/08/LL - Cais cynllunio llawn i godi adeilad pen twnnel y Gorllewin (gan gynnwys y compownd adeiladu cysylltiedig) yn Garth ynghyd â thrac mynediad parhaol. O ran safleoedd dynodedig cenedlaethol neu ryngwladol o werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth, nododd CNC fel a ganlyn:

Yr ACA - yn fodlon, cyhyd â bod y mesurau a fanylir yn yr adroddiad yn cael eu gweithredu, bod y cynigion yn annhebygol o effeithio ar gyfanrwydd ACA Coedydd Derw a Safleoedd Ystlumod Meirionnydd.

Y SoDdGA - yn fodlon bod y datblygiad a geisir yma yn annhebygol o gael effaith arwyddocaol ar SoDDGA Glaslyn, SoDDGA Ysbyty Bron y Garth neu ystlumod sy'n defnyddio'r ardal.

Ni ystyriwyd fod unrhyw ganiatâd cynllunio a roddwyd yn amharu ar werth bioamrywiaeth neu geoamrywiaeth rhyngwladol/cenedlaethol y dynodiadau hyn. O ganlyniad, ystyrir fod pob caniatâd yn cydymffurfio â pholisi PS 19, a bod y polisi yn parhau i gael ei weithredu'n effeithiol.

1) Er nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau, mae polisïau o fewn y CDLl yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei warchod.

2) Dim data mwy diweddar er yr AMB blaenorol. Dim ond ar gyfer ACA ac AGA y mae'r wybodaeth ar gael ac mae'r canlyniadau fel a ganlyn:
   - ACA - 40% (8 o'r 20 ACA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLl) o ardal yr holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol';
   - ACA - 89% (8 o'r 9 AGA sydd wedi'u lleoli neu wedi'u lleoli'n rhannol yn ardal y CDLl) o'r holl nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol'.

3) Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.

4) Dim gwybodaeth ar gael ar hyn o bryd gan nad yw hyn yn cael ei fonitro gan yr Awdurdod oherwydd diffyg adnoddau.

5) Dim newid ers yr AMB blaenorol:
   - 392 (7115HA) Safleoedd Bywyd Gwyllt wedi'u cadarnhau (Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur)
   - 13 (3137HA) Gwarchodfa Natur Leol

**Amcan AC 2: Cymuned a Iechyd**

| Dangosydd AC | Targed | Gwaelodlin/Data Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| 1) % cyfanswm poblogaeth gyda mynediad at wasanaethau allweddol. | Cynnydd | - | Data ddim ar gael | **0** |
| 2) Mesurau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw (e.e. gorbwysedd) – Arolwg Iechyd Cymru. | Gwelliant | - | Data ddim ar gael | **0** |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Nid yw'r data ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

2) Nid yw'r data ar gael ar lefel Awdurdod Lleol ar hyn o bryd. Parhau i fonitro'r dangosydd mewn Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol

**Amcan AC 3: Newid Hinsawdd**

| Dangosydd AC | Targed | Gwaelodlin/Data Blaenorol | Data Diweddar | Perfformiad |
|---|---|---|---|---|
| % newid mewn allyriad carbon deuocsid gan ddiwydiant /masnach, domestig, trafnidiaeth ffordd a'r sector coedwigaeth. | Gostyngiad | 2018/19 | Gweler esboniad isod | ✓ |

**Esboniad / Dadansoddiad**

Mae'r tablau canlynol yn dangos amcangyfrifon allyriadau CO2 (KtCO2) ym mhob un o'r 5 sector yng Ngwynedd ac Ynys Môn rhwng 2005 a 2019:

**Gwynedd**

| | 2005 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|
| **Diwydiannol** | 200.8 | 128.9 | 133.6 |
| **Masnachol** | 109.9 | 50.6 | 45.1 |
| **Domestig** | 358.5 | 218.8 | 213.3 |
| **Trafnidiaeth** | 280.3 | 273.7 | 266 |
| **Coedwigaeth a Newid Defnydd Tir** | 56.2 | 14.3 | 16.5 |

*(Ffynhonnell: Adran Busnes, Ynni a Diwydiant)*

Fel a welir o'r tabl uchod, gwelwyd gostyngiad yn allyriadau carbon o fewn y sectorau masnachol, domestig a thrafnidiaeth ers yr AMB cynt. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd bach mewn allyriadau yn y sectorau coedwigaeth/newid defnydd tir. Wedi dweud hyn, nodir fod patrwm o ostyngiad mewn allyriadau ym mhob sector ers 2005.

**Ynys Môn**

| | 2005 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|
| **Diwydiannol** | 343 | 76.9 | 76.5 |
| **Masnachol** | 59.7 | 31 | 29.7 |
| **Domestig** | 210.8 | 129.9 | 126.7 |
| **Trafnidiaeth** | 136.2 | 137 | 134.7 |
| **Coedwigaeth a Newid Defnydd Tir** | 38.6 | 20.3 | 19.3 |

*(Ffynhonnell: Adran Busnes, Ynni a Diwydiant)*

- Fel a welir o'r tabl uchod, gwelwyd gostyngiad yn allyriadau carbon ym mhob un o'r 5 sector ers yr AMB cynt.

| Amcan AC 4: Iaith Gymraeg | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| Nifer/ % siaradwyr Cymraeg | Cynnydd | Blwyddyn yn gorffen Rhagfyr 31 2019 | Blwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2020<br><br>Ynys Mon – 44,8700 (66%)<br>Gwynedd – 88,500 (74.6%) | +/- |

**Esboniad / Dadansoddiad**

Mae Polisi PS 1: Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig, yn hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg. Nod Polisïau PS 1, PS 5 a PS 6 yw integreiddio 'datblygiadau cynaliadwy' yn y broses ddatblygu, er mwyn cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy.

Mae Adroddiad Blynyddol o'r boblogaeth sydd yn dweud eu bod yn siarad Cymraeg gan yr ONS yn cael ei gyhoeddi yn chwarterol, sail hwn yw data o arolwg. Gan fod y data yn dod o arolwg a'r canlyniadau yn amcangyfrifon sy'n seiliedig ar sampl mae felly yn ddarostyngedig i wahanol raddau o amrywioldeb samplu.

Mae'r tabl isod yn nodi ffigyrau y flwyddyn sydd yn darfod 31 Mawrth ar gyfer 2018 i'r flwyddyn sydd yn darfod 31 Rhagfyr 2020.

| Awdurdod Lleol | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2018 | | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2019 | | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Mawrth 2020 | | Blwyddyn sy'n dod i ben 31 Rhagfyr 2020* | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Ynys Môn | 42,500 | 63.6 | 45,500 | 67.5 | 44,700 | 66 | 46,100 | 67.1 |
| Gwynedd | 89,600 | 75.5 | 91,000 | 76.4 | 88,500 | 74.6 | 91,400 | 76.6 |

(* ffigyrau 31 Mawrth 2021 ddim ar gael pan gynhyrchwyd yr adroddiad hwn)

| |
|---|
| Nodir fod gostyngiad bach yn nifer a chyfran siaradwyr Cymraeg wedi digwydd yn Ynys Môn a Gwynedd rhwng 31 Mawrth 2019 a 31 Rhagfyr 2020.<br><br>Dylid nodi fod y ffigyrau hyn yn dangos lefelau llawer uwch na chanlyniadau'r Cyfrifiad 2011, a oedd yn nodi fod 57% o siaradwyr Cymraeg yn Ynys Môn a 65% yng Ngwynedd. Fodd bynnag, gan fod y ffigyrau hyn wedi eu seilio ar sail samplau, nid ydynt mo gadarn a ffigyrau'r Cyfrifiad ac yn wastad maent wedi tueddu i roi % uwch na'r Cyfrifiad. |

| **Amcan AC 5: Treftadaeth / Diwylliant** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| Nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg | Gostyngiad | 2019/2020 | 2020/2021<br>Gweler esboniad isod | ✓ |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |
| Ar hyn o bryd, nid yw data sy'n ymwneud â nifer o asedau hanesyddol dan risg / newid yn y nifer dan risg ar gael ar lefel Awdurdod Lleol. Ni chymeradwywyd unrhyw gais cynllunio oedd yn gyferbyniol i Bolisiau PS20 ac AT 1 dros y cyfnod monitro. Cymeradwywyd un cais cynllunio o fewn Safle Treftadaeth y Byd a chyfanswm o 65 cais cynllunio (llawn/amlinellol) o fewn Ardal Gadwraeth y Cynllun. Roedd rhain yn cynnwys newid defnydd cyn Eglwys i wagle perfformio a gweithdy; tai newydd, anecsau, newid defnydd, trosi, ac estyniadau. Ystyrir bod y caniatadau hyn yn cydymffurfio hefo PS 20 a AT1 a chan hynny fod y polisi'n cael ei weithredu'n effeithiol. | | | | |

| **Amcan AC 6: Economi a Chyflogaeth** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Actifedd economaidd fesul sector | Cynnydd | 2018 & 2019 | Gweler esboniad isod | **+/-** |
| 2) Statws cyflogaeth preswylwyr dros 16 mlwydd oed. | Cynnydd | 2018 & 2019 | Gweler esboniad isod | **+/-** |
| 3) Nifer o bobl yn cymudo i fewn ac allan o ardaloedd awdurdodedig. | Gostyngiad | 2017, 2018 & 2019 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |

1 + 2) Nid oes diweddariad wedi digwydd yn y set data hwn ers yr AMB cynt oherwydd anhawsterau casgly gwybodaeth oherwydd y pandemig Cofid. Dengys ystadegau y gwelwyd cynnydd mewn gweithgarwch economaidd yn ardal Awdurdod Lleol Ynys Môn ond gostyngiad bach yng Ngwynedd rhwng Mawrth 2019 a Rhagfyr 2020 fel a welir yn y tabl isod.

Arolwg Llafurlu Lleol: Crynodeb o weithgarwch economaidd (16-64)

| | Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2018 | Blwyddyn yn dod i ben mis Mawrth 2019 | Blwyddyn yn dod i ben mis Rhagfyr 2020 |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 78.1 | 80.7 | 80.9 |
| Gwynedd | 76.7 | 77.1 | 75.3 |
| Cymru | 76.5 | 76.7 | 76.4 |

*Ffynhonnell: Stats Cymru*

3) Dengys ystadegau y bu peth cynnydd yn niferoedd y bobl sy'n cymudo allan o Ynys Môn a Gwynedd - patrwm sy'n cael ei ailadrodd yng Nghymru gyfan. Tra gwelwyd cynnydd yn y nifer o bobl oedd yn cymudo i fewn i Wynedd, gwelwyd gostyngiad bach mewn cymudo i fewn i Ynys Mon fel a welir yn y tabl isod.

Patrymau Cymudo fesul Awdurdodau Lleol yng Nghymru

| | Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2018 | Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2019 | Nifer y bobl sy'n cymudo allan o'r awdurdod 2020 | Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2018 | Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2019 | Nifer y bobl sy'n cymudo i mewn i'r awdurdod 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 10, 200 | 10,500 | 9,800 | 4,200 | 4,500 | 4,300 |
| Gwynedd | 8,600 | 8,700 | 8,000 | 12,500 | 12,200 | 13,300 |
| Cymru | 95,400 | 98,500 | 100,300 | 47,000 | 42,700 | 48,400 |

*Ffynhonnell: Stats Cymru*

Tra fod Ynys Môn wedi gweld cynnydd yng ngweithgaredd economaidd rhwng y flwyddyn yn gorffen Mawrth 2019 a Rhagfyr 2019, gwelwyd gostyngiad bach iawn yng nghyflogaeth yng Ngwynedd. O ran cymudo allan o'r Awdurdod Leol, gwelwyd gostyngiad bach yn niferoedd Ynys Môn a Gwynedd.

| Amcan AC 7: Tai | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Nifer o unedau tai fforddiadwy sy'n cael ei ddarparu bob blwyddyn fel canran o'r holl unedau. | Cynnydd | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | +/- |

**Esboniad / Dadansoddiad**

Mae'r tabl isod yn cymharu'r ganran o dai fforddiadwy a gwblhawyd yn 2018-19, 2019-20 a 2020-21:

| Blwyddyn | Unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd | Cyfanswm yr unedau tai a gwblhawyd | Unedau fforddiadwy fel canran o gyfanswm y tai a gwblhawyd |
|---|---|---|---|
| 2017-18 | 61 | 463 | 13.2% |
| 2018-19 | 189 | 548 | 35.6% |
| 2019-2020* | 132 | 461 | 28.6% |
| 2020-21* | 82 | 362 | 22.7% |

**Nodir oherwydd cyfyngiadau pandemig coronafirws, nid oedd yn bosib i ymweld â phob safle dros y cyfnod hwn.*

Mae'n amlwg y bu i nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd fesul blwyddyn fel canran o'r holl unedau newydd leihau yn 2020-21 o gymharu â 2019-20. Fodd bynnag, mae'r canran yn 2020-21 dal yn sylweddol uwch nac yn 2017-18.

| Amcan AC 8: Tirlun a Threflun | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Cyfran o'r dirwedd o ansawdd uchel/uchel iawn fel mae wedi ei adnabod gan LANDMAP | Cynnydd | 2019/2020 | Gweler y dadansoddiad isod | ✓ |
| 2) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn yr AHNE | Gostyngiad | 2019/2020 | Gweler y dadansoddiad isod | ✓ |
| 3) Nifer / cyfran o ddatblygiadau newydd o fewn ardaloedd wedi eu | Gostyngiad | 2019/2020 | Gweler y dadansoddiad isod | ✓ |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| categoreiddio'n bwysig gan LANDMAP | | | | |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) Dim newid ers yr AMB blaenorol. Mae'r canlyniadau ar gyfer yr ardaloedd a ddiffiniwyd dan LANDMAP fel a ganlyn:
   - Gweledol a Synhwyraidd - dosbarthwyd 51% (135 o 267 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Diwylliannol - dosbarthwyd 98% (374 o 382 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Daearegol - dosbarthwyd 62% (133 o 213 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol
   - Tirweddau Hanesyddol - dosbarthwyd 81% (319 o 392 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol;
   - Cynefinoedd y Dirwedd - dosbarthwyd 47% (592 o 934 ardal) o ardaloedd yn Uchel neu'n Rhagorol

2) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn AHNE fel a ganlyn:
   - 2018/2019 = 540
   - 2019/2020 = 219
   - 2020/2021 = 222

   Er y gwelwyd gostyngiad bach ers yr AMB diwethaf, mae'r ffigwr yn sylweddol is nac yn 2018/2019.

3) Mae nifer y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd mewn ardaloedd a ddosbarthwyd yn rhagorol gan LANDMAP fel a ganlyn:

| Categori LANDMAP | AMB 1 | AMB 2 | AMB 3 |
|---|---|---|---|
| Gweledol a Synhwyraidd | 81 | 26 | 20 |
| Diwylliannol | 1587 | 619 | 613 |
| Daearegol | 724 | 291 | 287 |
| Hanesyddol | 1270 | 532 | 528 |
| Cynefinoedd y Dirwedd | 70 | 26 | 24 |

Mae'r nifer o geisiadau cynllunio a chymeradwywyd o fewn ardaloedd wedi eu categoreiddio fel rhagorol gan LANDMAP wedi gostwng ers yr AMB blaenorol sy'n cwrdd â'r targedau sydd wedi eu hamlinellu yn y dangosydd. Bydd y dangosyddion uchod yn parhau i gael eu monitro mewn adroddiadau monitro yn y dyfodol.

| Amcan AC 9: Tir, Mwynau a Gwastraff | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 1) % cyfradd datblygiad ar dir a ddatblygwyd o'r blaen. | Cynnydd | 2019/2020 | Gweler esboniad isod | ✓ |
| 2) % gwastraff bwrdeistrefol a yrrwyd i'w dirlenwi | Gostyngiad | 2018/2019 | 7.6% Gwynedd<br>2% Isle of Anglesey | ✓ |
| 3) % ail-ddefnyddio / ailgylchu gwastraff bwrdeistrefol | Cynnydd | 2019/2020 | 68% Anglesey<br>65% Gwynedd | +/- |

**Esboniad / Dadansoddiad**

1) mae % cyfran y datblygiad ar dir a ddatblygwyd eisoes fel a ganlyn:

- Ynys Môn 2017-2018 = 13.81ha (cyfran dim ar gael);
- Ynys Môn 2018-2019 = 4.33ha (cyfran dim ar gael)
- Ynys Môn 2019-2020 = 52.9ha sy'n cyfartalu i 82.8% o holl ddatblygiad (mae'r ffigwr hwn yn cynnwys diwygiadau i drac rasio presennol, sydd ag arwynebedd safle o 41.4ha).
- Ynys Môn 2020-2021 = 15.20ha (cyfran ddim ar gael)

- Gwynedd 2017-2018 12.82ha;
- Gwynedd 2018-2019 – gwybodaeth ddim ar gael oherwydd diffyg adnoddau/problemau technegol;
- Gwynedd 2019-2020 – gwybodaeth ddim ar gael oherwydd diffyg adnoddau/problemau technegol.
- Gwynedd 2020-2021 - gwybodaeth ddim ar gael oherwydd diffyg adnoddau/problemau technegol.

2) mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei dirlenwi fel a ganlyn *(Ffynhonnell:StatsWales):*

- 2016-2017 = Ynys Môn (6.9%) Gwynedd (31%)
- 2017-2018 = Ynys Môn (0.5%), Gwynedd (24.3%)
- 2018-2019 = Ynys Môn (1%), Gwynedd (18.1%)
- 2019-2020 = Ynys Môn (2%), Gwynedd (7.6%)
  Er fod Ynys Môn wedi gweld gostyngiad bach yng nghanran y gwastraff a anfonwyd i dirlenwi rhwng 2018/2019 a 2019/2020, mae'r ffigwr yn sylweddol llai nac yn 2016-2017. Parhaodd y cyfran o wastraff a aeth i dirlenwi yng Ngwynedd i ostwng yn sylweddol rhwng 2018-2019 a 2019-2020.

3) Mae % y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei ailgylchu fel a ganlyn *(Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru):*

- 2016-2017 = Ynys Môn (66%) Gwynedd (61%)
- 2017-2018 = Ynys Môn (72%), Gwynedd (60%)
- 2018-2019 = Ynys Môn (70%) Gwynedd (62%)
- 2019-2020 = Ynys Môn (68%) Gwynedd (65%)

| |
|---|
| Er fod Ynys Môn wedi gweld gostyngiad bach bach yng nghanran gwastraff bwrdeistrefol a gafodd ei ailgylchu rhwng 2018/2019 a 2019/2020, mae'r ffigwr yn parhau i fod yn uwch nac yn 2016-2017. Mae'r cyfran o wastraff a ailgylchwyd yng Ngwynedd wedi cynyssu'n flynyddol ers 2016. |

| **Amcan AC 10: Trafnidiaeth a Mynediad** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) Dull o deithio i'r gwaith - % o'r boblogaeth weithiol sy'n teithio gyda char | Gostyngiad | 2018/2019 | Gweler esboniad isod | **+/-** |
| 2) Canran datblygiad preswyl o fewn 30 munud (amser trafnidiaeth trafnidiaeth gyhoeddus) | Cynnydd | 2017/2018/2019 | Gweler esboniad isod | **0** |
| 3) Mynediad at wasanaethau a chyfleusterau gan drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio. | Cynnydd | 2016/17 | Gweler esboniad isod | **0** |
| 4) % cynnydd yn y thwyfaith beicio | Cynnydd | Papur Testun Trafnidiaeth (2015) | Gweler esboniad isod | **0** |
| 5) Cyfradd adnoddau tanwydd lpg ar gyfer cerbydau modur. | Cynnydd | 2019 ymlaen | Gweler esboniad isod | **0** |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |
| 1) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol.<br>•Gyrru Car – mae'r cyfran sy'n gyrru car i'w gwaith yng Ngwynedd (38%) yr un fath a chyfartaledd Cymru tra bod y cyfran yn Ynys Mon ychydig yn llai (34%).<br>•Gweithio o gartref – mae cyfran uwch yng Ngwynedd (9.23%) ac Ynys Môn (8.99%) o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (6.44%).<br>•Trên - mae cyfradd is yng Ngwynedd (0.37%) ac Ynys Môn (0.27%) o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (1.08%).<br>•Bws – mae cyfran uwch o bobl yng Ngwynedd (2.75%) yn teithio i'r gwaith ar y bws na'r cyfartaledd cenedlaethol (2.71%). Mae cyfran sylweddol is yn Ynys Môn (1.29%), sy'n is na chyfran Gwynedd a'r cyfartaledd cenedlaethol. | | | | |

•Ar droed - mae'r gyfran yng Ngwynedd (7.22%) yn sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol (5.79%). Mae cyfran Ynys Môn (5.02%), yn llai na chyfran Gwynedd a'r cyfartaledd cenedlaethol.

2)
•100% o ddatblygiadau preswyl newydd o fewn 30 munud.

3)Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol
- Ym Môn, ceir y trydydd nifer isaf o ddeiliaid tocyn bws mantais ar gyfer pobl 60 mlwydd oed a throsodd (75.6%).
- Mae'r pedwerydd nifer isaf i'w gael yng Ngwynedd (80.0%).
- Yr ardal gyda'r nifer isaf yw Powys (71.5%).
- Yr ardal gyda'r nifer uchaf yw Caerdydd (98.9%).
- Y cyfartaledd cenedlaethol yw 87.0%. Felly, mae Ynys Môn a Gwynedd yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

4) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol
- Mae Ynys Môn wedi'i chynnwys yn ardal Taith. Mae Gwynedd wedi'i chynnwys yn ardaloedd Taith a Tracc.
- Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Taith yw: 5 - Reading i Gaergybi; 8 - Caerdydd i Gaergybi.
- Y Llwybrau Beicio Cenedlaethol yn ardal Tracc yw: 8 - Caerdydd i Gaergybi; 42 - Y Clas-ar-Wy i Gaerloyw; 43 - Llanfair ym Muallt i Abertawe; 81 - Aberystwyth i'r Amwythig; 82 - Porthmadog i Aberteifi.

5) Dim diweddariad ers yr AMB blaenorol
- Ar hyn o bryd, mae 92 o orsafoedd tanwydd yng Nghymru sy'n gwerthu tanwydd LPG.
- Mae dwy orsaf yn Ynys Môn yn gwerthu LPG. Y rhain yw: Amlwch – 1; Gaerwen – 1.
- Mae deg gorsaf yng Ngwynedd yn gwerthu LPG. Y rhain yw: A496 – 1; A4487 – 1; Bangor – 1; Abermaw - 1; Blaenau Ffestiniog – 1; Caernarfon -2; Machynlleth – 1; Pwllheli – 2.

| **Amcan AC 11: Dŵr a Pherygl Llifogydd** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dangosydd AC** | **Targed** | **Gwaelodlin/Data Blaenorol** | **Data Diweddar** | **Perfformiad** |
| 1) % o ddatblygiadau newydd gyda systemau draenio cynaladwy. | Cynnydd | - | Data ddim ar gael | **0** |
| 2) % cyrff dŵr gyda statws ecolegol da neu botensial | Cynnydd | 2018/2019 | Gweler yr esboniad isod | ✓ |
| 3) Cyfradd / nifer absoliwt o ddatblygiadau yn C1 ac C2 (fel y'i diffinnir yn NCT15). | Gostyngiad | 2019-2020 | Gweler yr esboniad isod | ✓ |
| **Esboniad / Dadansoddiad** | | | | |

1) Nid yw'r Awdurdodau yn casglu'r wybodaeth hon ar hyn o bryd. Bydd yr GPPC yn gweithio â'r ddau Awdurdod i ganfod ffordd o gasglu'r wybodaeth hon ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol yn y dyfodol.

2) Dim gwybodaeth diweddar ers yr AMB blaenorol ar gael. Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro yn y dyfodol

3) Caniatawyd 17 cais cynllunio llawn ar safleoedd oedd yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn parth llifogydd C1; roedd 7 o'r rhain yn geisiadau deilydd tŷ. Fel rhan o'r broses o asesu'r ceisiadau cynllunio casglwyd gwybodaeth ynglŷn â chydymffurfiad y ceisiadau cynllunio gyda'r profion sydd wedi eu cynnwys yn Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd). Yn dilyn asesiad o'r ceisiadau cynllunio, penderfynwyd eu bod yn cydymffurfio gyda'r anghenion sydd wedi eu hamlinellu yn NCT 15. Mewn casgliad, roedd y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS 5, PS 6, PCYFF 1 a PCYFF 2 o'r CDLl. Gan hynny, ystyrir fod y polisïau'n parhau i weithredu'n effeithiol.

   Ni chymeradwywyd unrhyw gais cynllunio ar gyfer datblygiad a fyddai'n cael ei ystyried fel 'datblygiad yn agored i newid' yn unol â Ffigwr 2 o Nodyn Cyngor Technegol 15 (Llifogydd). Yn ogystal â hyn, roedd pob cais oedd wedi ei leoli (yn rhannol/neu yn gwbl) o fewn ardal llifogydd C2 yn cydymffurfio â'r profion sydd wedi eu cynnwys o fewn TAN 15. Mewn casgliad, felly, gellid dweud fod y ceisiadau a gymeradwywyd yn cydymffurfio â pholisïau PS 5, PS 6, PCYFF 1 a PCYFF 2 o'r CDLl ar y Cyd. Felly, ystyrir fod y polisïau'n parhau i weithredu'n effeithiol.

**Atodiad 2 – Dosbarthiadau caniatadau preswyl**

## D25 – DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL
## 1 EBRILL 2020 - 31 MAWRTH 2021

**Canolfan Isranbarthol:**

1. Bangor (20 uned preswyl wedi cael caniatâd y cyfnod yma / 141 uned preswyl wedi cael caniatâd ers i'r cynllun cael ei fabwysiadu)

**Canolfannau Gwasanaeth Trefol:**

Ynys Môn

2. Amlwch (4 uned / 38 uned),
3. Caergybi (29 uned / 101 uned),
4. Llangefni (8 uned / 208 uned)

Gwynedd

5. Blaenau Ffestiniog (0 uned / 9 uned),
6. Caernarfon (4 uned / 60 uned),
7. Porthmadog (2 uned / 16 uned),
8. Pwllheli (2 uned / 54 uned)

**Canolfannau Gwasanaeth Lleol:**

Ynys Môn

9. Biwmares (0 uned / 7 uned),
10. Benllech (1 uned / 32 uned)
11. Bodedern (30 uned / 34 uned),
12. Cemaes (1 uned / 20 uned),
13. Gaerwen (15 uned / 15 uned),
14. Llanfair Pwllgwyngyll (1 uned / 23 uned),
15. Pentraeth (0 uned / 12 uned),
16. Porthaethwy (2 uned / 15 uned),
17. Rhosneigr (0 uned / 3 uned),
18. Y Fali (0 uned / 1 uned)

Gwynedd

19. Abermaw (2 uned / 9 uned),
20. Abersoch (0 uned / 1 uned),
21. Bethesda (12 uned / 31 uned),
22. Criccieth (2 uned / 29 uned),
23. Llanberis (1 uned / 11 uned),
24. Llanrug (0 uned / 10 uned),
25. Nefyn (0 uned / 9 uned),
26. Penrhyndeudraeth (0 uned / 13 uned),
27. Penygroes (1 uned / 3 uned),
28. Tywyn (0 uned / 18 uned)

**Pentrefi Gwasanaeth:**

Ynys Môn

29. Gwalchmai (9 uned / 22 uned),
30. Llannerch-y-medd (0 uned / 5 uned),
31. Niwbwrch (1 uned / 1 uned)

Gwynedd

32. Bethel (2 uned / 14 uned),
33. Bontnewydd (0 uned / 29 uned),
34. Botwnnog 0 uned / 1 uned),
35. Chwilog (15 uned / 56 uned),
36. Deiniolen (0 uned / 12 uned),
37. Rachub (30 uned / 30 uned),
38. Tremadog,
39. Y Ffôr

**Pentrefi Lleol, Gwledig ac Arfordirol:**

**A) Pentrefi Lleol**

Ynys Môn

40. Bethel (0 uned / 1 uned),
41. Bodffordd (4 uned / 4 uned),
42. Bryngwran,
43. Brynsiencyn (0 uned / 2 uned),
44. Caergeiliog (2 uned / 8 uned),
45. Dwyran (2 uned / 3 uned),
46. Llanddaniel-fab,
47. Llandegfan (1 uned / 4 uned),
48. Llanfachraeth (1 uned / 10 uned)
49. Llanfaethlu,
50. Llanfechell (24 uned / 24 uned),
51. Llanfihangel-yn-Nhywyn,
52. Llangaffo,
53. Llangristiolus (0 uned / 1 uned),
54. Llanrhuddlad,
55. Pencarnisiog (4 uned / 4 uned),
56. Pen-y-Sarn (17 uned / 24 uned),
57. Rhos-y-bol (15 uned / 16 uned),
58. Talwrn (7 uned / 13 uned),
59. Tregele

Gwynedd

60. Abererch,
61. Brynrefail,
62. Caeathro,
63. Carmel (0 uned / 1 uned),
64. Cwm y Glo,
65. Dinas (Llanwnda (0 uned / 12 uned),
66. Dinas Dinlle,
67. Dolydd a Maen Coch,
68. Efailnewydd,
69. Garndolbenmaen (0 uned / 1 uned),
70. Garreg-Llanfrothen,
71. Groeslon,
72. Llandwrog,
73. Llandygai,
74. Llangybi,
75. Llanllyfni,
76. Llanystumdwy,
77. Nantlle (0 uned / 1 uned),
78. Penisarwaun,

79. Pentref Uchaf,
80. Rhiwlas (0 uned / 1 uned),
81. Rhosgadfan (0 uned / 3 uned),
82. Rhostryfan,
83. Sarn Mellteyrn,
84. Talysarn (2 uned / 2 uned),
85. Trefor,
86. Tregarth (0 uned / 2 uned),
87. Tudweiliog,
88. Waunfawr ( 0 uned / 2 uned),
89. Y Fron

**B) Pentrefi Arfordirol/Gwledig:**

Ynys Môn

90. Aberffraw (1 uned / 1 uned),
91. Bae Trearddur
92. Carreg-lefn (0 uned / 2 uned),
93. Llanbedr-goch,
94. Llanddona (1 uned / 2 uned),
95. Llanfaelog (0 uned / 1 uned),
96. Llangoed (0 uned / 1 uned),
97. Malltraeth,
98. Moelfre (0 uned / 4 uned),
99. Pontrhydybont (0 uned / 2 uned)

Gwynedd

100. Aberdaron,
101. Borth-y-Gest (0 uned / 1 uned),
102. Clynnog Fawr,
103. Corris (0 uned / 1 uned),
104. Edern (0 uned / 1 uned),
105. Fairbourne,
106. Llanaelhaearn,
107. Llanbedrog (1 uned / 1 uned),
108. Llangian,
109. Llithfaen,
110. Morfa Bychan (0 uned / 1 uned),
111. Morfa Nefyn,
112. Mynytho,
113. Rhoshirwaun,
114. Sarn Bach,
115. Y Felinheli

**Clystyrau:**

Ynys Môn

116. Bodorgan,
117. Bro Iarddur (Bae Trearddur),
118. Bryn Du,
119. Brynminceg (Hen Llandegfan),
120. Brynrefail,
121. Brynteg,
122. Bryn y Môr (Y Fali)
123. Bwlch Gwyn,
124. Capel Coch,
125. Capel Mawr,

126. Carmel,
127. Cerrig-mân,
128. Cichle,
129. Glan-yr-afon (Llangoed),
130. Glyn Garth,
131. Gorsaf Gaerwen,
132. Haulfre (Llangoed)
133. Hebron,
134. Hendre Hywel (Pentraeth),
135. Hermon,
136. Llan-faes,
137. Llangadwaladr,
138. Llansadwrn,
139. Llanynghenedl (0 uned / 1 uned),
140. Llynfaes,
141. Marian-glas,
142. Nebo,
143. Penlon,
144. Penmon,
145. Pentre Berw,
146. Pentre Canol (Caergybi),
147. Pen y Marian,
148. Porth Llechog,
149. Rhoscefnhir (1 uned / 3 uned),
150. Rhos-meirch,
151. Rhostrehwfa,
152. Rhyd-wyn,
153. Star,
154. Traeth Coch,
155. Trefor (0 uned / 1 uned),
156. Tyn Lôn (Glan yr Afon),
157. Tyn-y-gongl


Gwynedd

158. Aberdesach,
159. Aberllefenni,
160. Aberpwll,
161. Bethesda Bach,
162. Bryncir,
163. Bryncroes,
164. Caerhun/Waen Wen,
165. Capel y Graig,
166. Corris Uchaf,
167. Crawia,
168. Dinorwig,
169. Gallt y Foel,
170. Glasinfryn (0 uned / 2 uned),
171. Groeslon Waunfawr,
172. Llanaber,
173. Llandderfel,
174. Llanengan,
175. Llanfor,
176. Llanllechid,
177. Llannor,
178. Llanwnda,
179. Llwyn Hudol,
180. Minffordd,

181.Minffordd (Bangor),
182.Mynydd Llandygai,
183.Nebo,
184.Pantglas,
185.Penmorfa,
186.Penrhos,
187.Penrhos (Caeathro),
188.Pentir,
189.Pentrefelin,
190.Pistyll,
191.Pontllyfni,
192.Rhoslan,
193.Saron (Llanwnda),
194.Swan,
195.Tai'n Lôn,
196.Talwaenydd,
197.Talybont,
198.Tan y Coed,
199.Treborth (4 uned / 4 uned),
200.Ty'n-lôn,
201.Ty'n y Lôn,
202.Waun (Penisarwaun) (0 uned / 1 uned).


**DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL FESUL CYNGHORAU CYMUNED**
**1 EBRILL 2020 - 31 MAWRTH 2021**

**DISTRIBUTION OF RESIDENTIAL PREMISSIONS PER COMMUNITY COUNCIL**
**1 APRIL 2020 - 31 MARCH 2021**




**DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL FESUL CYNGHORAU CYMUNED**
**ERS MABWYSIADU'R CYNLLUN - 1 AWST 2017 - 31 MAWRTH 2021**


**DISTRIBUTION OF RESIDENTIAL PREMISSIONS PER COMMUNITY COUNCIL**
**SINCE THE PLAN'S ADOPTION -1 AUGUST 2017 - 31 MARCH 2021**




© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387


**DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL FESUL CYNGHORAU CYMUNED**
**1 EBRILL 2020 - 31 MAWRTH 2021**

**DISTRIBUTION OF RESIDENTIAL PREMISSIONS PER COMMUNITY COUNCIL**
**1 APRIL 2020 - 31 MARCH 2021**




**DOSBARTHIAD CANIATADAU PRESWYL FESUL CYNGHORAU CYMUNED**
**ERS I'R CYNLLUN CAEL EI FABWYSIADU - 1 AWST 2017 - 31 MAWRTH 2021**

**DISTRIBUTION OF RESIDENTIAL PERMISSIONS PER COMMUNITY COUNCIL**
**SINCE THE PLAN'S ADOPTION - 1 AUGUST 2017 - 31 MARCH 2021**




© Hawlfrant y Goron / Crown Copyright
Cyngor Gwynedd - 100023387

**Atodiad 3 – Darpariaeth o dir ar gyfer tai**

Cefndir

Mae Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 11 (Chwefror 2021) (paragraffau 4.2.10 a 4.2.11) yn nodi fod yn rhaid dangos y gallu i ddarparu'r gofyn am dai yn y Cynllun drwy daflwybr tai. Rhaid i awdurdodau cynllunio ddefnyddio eu taflwybr tai fel sail ar gyfer monitro'r broses o gyflawni eu gofyniad tai. Mae angen gwybodaeth fanwl ar y tai a gyflenwir wedi'i hasesu yn erbyn y taflwybr er mwyn llunio rhan o'r sail dystiolaeth ar gyfer Adroddiadau Monitro Blynyddol y cynllun datblygu ac adolygiad cynllunio dilynol. Nodir y gall tangyflawni yn erbyn y taflwybr fod yn ddigon o reswm ynddo'i hun i adolygu cynllun datblygu. Mae'r broses hon wedi disodli'r angen i arddangos cyflenwad tir 5 mlynedd ar gyfer tai a oedd yn cael ei asesu drwy'r broses Cyd-astudiaeth Tir ar gyfer Tai.

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu yn rhoi gwybodaeth bellach o ran y broses o ran ystyried a diweddaru'r taflwybr o fewn Adroddiadau Monitro Blynyddol. Gweler y tabl a'r graff diwygiedig yn y wybodaeth mewn perthynas â dangosyddion D43(A) a D43(B).

Fel rhan o'r broses hon mae angen cyflwyno tablau sydd yn nodi amserlen datblygu ar gyfer y safleoedd sydd wedi eu dynodi yn y Cynllun ynghyd a safleoedd ar hap mawr o fewn y banc tir h.y. safleoedd sydd â 5 neu fwy o unedau sydd â chaniatâd cynllunio ond nad sydd wedi eu lleoli ar ddynodiad tai. Mae'n hanfodol fod Grŵp Rhanddeiliaid Tai yn rhan o'r broses hon drwy ddarparu eu barn ynglŷn â'r modd y mae'r amserlenni hyn a'r camau cyflawni unedau ar y safleoedd perthnasol wedi eu nodi. Fel rhan o'r broses hon cysylltwyd â pherchnogion y safleoedd perthnasol er mwyn derbyn eu barn ynglŷn â'r modd maent yn bwriadu datblygu'r safleoedd hyn.

Mae aelodaeth y Grŵp Rhanddeiliaid Tai fel y ganlyn:

- Ffederasiwn Adeiladwyr Tai
- Dŵr Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Grŵp Cynefin
- Cymdeithas Dai Gogledd Cymru
- Cymdeithas Dai Adra
- Cymdeithas Dai Clwyd Alyn
- Gwasanaeth Hwylusydd Tai Gwledig Gogledd Gorllewin Cymru
- Adran Dai Cyngor Gwynedd
- Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn

Ymgynghorwyd gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai ar y 21ain Mai, 2021 am gyfnod o wythnos mewn perthynas â'r safleoedd a'u nodir yn nhablau A1, A2 a A3 isod, sef y safleoedd mawr (5 neu ragor o unedau) sydd yn y banc tir ynghyd a'r safleoedd sydd wedi eu dynodi yn benodol ar gyfer tai yn y Cynllun.

Cafwyd ymateb gan Gyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a'r Ffederasiwn Adeiladwyr Tai. Tra cyflwynwyd sylwadau cyffredinol, nid oedd yr un sylw yn anghytuno â'r amserlen

datblygu ar gyfer unrhyw safle. Nid oedd angen felly ymgynghori yn bellach mewn perthynas â safleoedd ble roedd anghytundeb ac nid oedd angen ychwaith cynnal cyfarfod o'r Grŵp i drafod y safleoedd ymhellach.

Gweler y modd y mae'r safleoedd sydd wedi eu dynodi a'r safleoedd banc tir mawr eu categoreiddio yn nhablau A1, A2 a A3 isod.

Noder isod sut mae'r wybodaeth hyn, ynghyd a rhagdybiaethau a wnaethpwyd ar gyfer cydrannau eraill o'r ddarpariaeth tai, wedi bwydo i mewn i'r diweddariad o'r taflwybr. **Mae'r ffigyrau a nodir yn y tabl taflwybr yn yr AMB [cyn dangosyddion D43(A) a D43(B)] wedi eu hamlygu gyda lliw yn y wybodaeth isod.**

**<u>Safleoedd bach (Safleoedd banc tir a safleoedd ar hap)</u>**

Ar gyfer safleoedd banc tir bach (caniatâd am lai na 5 uned) ystyriwyd y cyfartaledd o ran unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd o'r fath dros y 5 mlynedd diwethaf:

| 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm | Cyfartaledd |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 138 | 153 | 129 | 110 | 91 | 621 | 124 |

Nodir bod 519 uned yn y banc tir safleoedd bach (ar sail arolwg tai Ebrill 2021) heb gyfrif yr unedau hynny mae'r CDLl ar y Cyd wedi adnabod sydd yn annhebygol o gael eu datblygu.

Wrth dynnu'r ffigwr banc tir (519) o'r 621 (sef cyfanswm unedau sydd wedi eu datblygu ar safleoedd bach dros y 5 mlynedd blaenorol), mae 102 uned yn weddill ar gyfer eu darparu ar safleoedd ar hap bychan h.y. caniatadau o'r newydd yn dilyn cyfnod AMB 3.

Rhennir y 124 uned y flwyddyn sydd i'w ddisgwyl ar safleoedd bychan rhwng safleoedd banc tir (caniatâd presennol) a safleoedd ar hap (caniatadau o'r newydd). Am y ddwy flynedd nesaf (2021/22 a 2022/23) rhagdybir fod yr holl unedau i'w datblygu ar safleoedd sydd yn y banc tir yn bresennol [noder, mae un uned ychwanegol h.y. 125 uned, wedi ei nodi ar gyfer 2021/22 er mwyn cwrdd â'r ffigwr cyfanswm o 621].

Ar gyfer tair blynedd olaf oes y cynllun, rhennir y 102 uned sydd yn weddill ar gyfer eu datblygu ar safleoedd ar hap bychan fesul y 3 mlynedd (h.y. 34 uned y flwyddyn) gyda'r safleoedd banc tir bychan yn gyfrifol am ddarparu gweddill yr unedau hyd at y ffigwr o 124 uned y flwyddyn.

<u>Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir bach</u>:

| 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| 125 | 124 | 90 | 90 | 90 |

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap bach yn ystod y flwyddyn

| 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| Dim unedau ar safleoedd ar hap o'r newydd yn cael eu cwblhau yn y ddwy flynedd nesaf. | | 34 | 34 | 34 |

**Safleoedd banc tir mawr**

Mae'r ffigyrau ar gyfer unedau ar hap mawr yn deillio o dablau A1 a A2 isod mewn perthynas â safleoedd banc tir mawr yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Mae'r wybodaeth yn y tablau hyn wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai ac wedi eu cytuno gyda hwy. Mae'r ffigyrau yn gyfuniad o wybodaeth Gwynedd ac Ynys Môn ar gyfer yr unedau sydd yn ddisgwyliedig o gael eu datblygu ar y safleoedd perthnasol fesul blwyddyn.

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir mawr:

| 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| **212**<br><br>(Ynys Môn: 114 / Gwynedd: 98) | **178**<br><br>(Ynys Môn: 101 / Gwynedd: 77) | **136**<br><br>(Ynys Môn: 75 / Gwynedd: 61) | **89**<br><br>(Ynys Môn: 32 / Gwynedd: 57) | **31**<br><br>(Ynys Môn: 17 / Gwynedd: 14) |

**Felly:**

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd banc tir yn ystod y flwyddyn (safleoedd mawr a bach)

| 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| **337**<br><br>(212 safleoedd mawr / 125 safleoedd bach) | **302**<br><br>(178 safleoedd mawr / 124 safleoedd bach) | **226**<br><br>(136 safleoedd mawr / 90 safleoedd bach) | **179**<br><br>(89 safleoedd mawr / 90 safleoedd bach) | **121**<br><br>(31 safleoedd mawr / 90 safleoedd bach) |

**Safleoedd ar hap mawr (5 neu fwy o unedau)**

Ar gyfer y rhagdybiaeth o ran darpariaeth ar safleoedd ar hap mawr (h.y. caniatadau o'r newydd ar safleoedd gyda 5 neu fwy o unedau nad sydd wedi eu dynodi), mae'r taflwybr diwygiedig yn defnyddio'r wybodaeth ar gyfer unedau sydd wedi eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr yn ardal y Cynllun yn ystod y 5 mlynedd diwethaf (gweler y tabl isod). Nid yw hyn yn cyfrif unedau sydd wedi eu cwblhau ar ddynodiadau tai. Mae'r ffigwr hwn yn 901 o unedau.

| 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 185 | 183 | 197 | 177 | 159 | 901 |

Wrth dynnu'r 646 uned sydd wedi eu hadnabod yn nhablau A1 a A2 isod o ran yr unedau y rhagwelir y bydd yn cael eu datblygu ar safleoedd banc tir mawr yn y 5 mlynedd nesaf, mae hyn yn gadael 255 uned a ragwelir fydd yn cael eu darparu ar safleoedd ar hap mawr yn y 5 mlynedd sydd yn weddill yn oes y Cynllun.

Er mwyn atal cyfrif unedau dwywaith, nid oes unrhyw unedau ar safleoedd ar hap mawr wedi eu hadnabod ar gyfer y 2 flynedd nesaf. Rhennir felly'r 255 uned sydd yn weddill rhwng tair blynedd olaf oes y Cynllun gan nodi felly darpariaeth o 85 uned y flwyddyn ar safleoedd ar hap mawr ar gyfer y blynyddoedd hyn.

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd ar hap mawr yn ystod y flwyddyn

| 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| Dim unedau ar safleoedd ar hap o'r newydd yn cael eu cwblhau yn y ddwy flynedd nesaf. | | 85 | 85 | 85 |

**Dynodiadau tai**

Mae'r wybodaeth ar gyfer y nifer o unedau a ragwelir fydd yn deillio o ddynodiadau tai'r Cynllun i'w gweld yn Nhabl A3 isod.

Mae'r wybodaeth yn y tabl hwn wedi bod yn destun ymgynghoriad gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Tai ac wedi eu cytuno gyda hwy. Mae tabl A3 yn nodi'r wybodaeth fanwl fesul safle. Mae'r cyfanswm o unedau a ragwelir fydd yn cael eu datblygu ar holl ddynodiadau'r Cynllun fesul blwyddyn fel y ganlyn:

Nifer y tai y disgwylir iddynt gael eu cwblhau ar safleoedd a'u dynodwyd yn ystod y flwyddyn

| 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 |
|---|---|---|---|---|
| 146 | 176 | 320 | 484 | 378 |

## Tabl A1: Amseru a chamau cyflawni safleoedd â chaniatâd cynllunio – Safleoedd banc tir mawr (Ynys Môn)

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Cyfanswm unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021 /22 | 2022 /23 | 2023 /24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3014 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Tir yn Fferm Madryn, Amlwch | 11C304A | 31 | 31 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 31 |
| 4277 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Mona Safety Products, Stryd Wesley, Amlwch | 11C500A | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 6 |
| 4378 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Tu cefn i 17 Stryd Mona, Amlwch | 11C192E | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 6 |
| 4617 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Tafarn The Bull Inn, Amlwch | 11C643 | 6 | 0 | 6 | 6 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 4886 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Capel Carmel, Stryd y Capel, Amlwch | FPL/2019/1 | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | | | 7 | | | |
| 4888 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | 114, Craig y Don, Amlwch | OP/2019/4 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | 1 | | | | 4 |
| 4908 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Banc HSBC, Amlwch | 11C273G | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | | 6 | | | |
| 3005 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Tir ger yr Eglwys Gatholig, Amlwch | 11C531E | 12 | 2 | 10 | 10 | 2 | | | | | | |
| 3233 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Tir gyferbyn Llanfain, Llaingoch, Caergybi | H371C | 24 | 21 | 3 | 3 | 0 | | | | | | 21 |
| 3246 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Cyn Orsaf Repeater, London Road, Caergybi | 19C822D/VAR | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 8 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Cyfanswm unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021 /22 | 2022 /23 | 2023 /24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3247 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Ger Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi | 19C171H | 14 | 14 | 0 | 0 | 0 | | 7 | 7 | | | |
| 3929 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Cyn Glwb RNA, St David's Road, Caergybi | 19C1052E/ DEL | 15 | 0 | 15 | 15 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 3976 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Canada Gardens, Caergybi | 19C452 | 25 | 0 | 25 | 25 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 4997 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Ysgol Gynradd Llaingoch, Caergybi | FPL/2019/3 41 | 26 | 26 | 0 | 0 | 26 | 26 | | | | | |
| 3226 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Cae OS rhif 3100, Llainfain, Llaingoch, Caergybi | 19C411 | 19 | 1 | 18 | 0 | 0 | | | | | | 1 |
| 3520 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Hen Dŷ Ysgol, Penrallt, Llangefni | 34C617 | 6 | 6 | 0 | 0 | 6 | 6 | | | | | |
| 4764 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Bryn Glas, Llangefni | FPL/2019/2 39 | 6 | 4 | 2 | 2 | 0 | 2 | 2 | | | | |
| 3180 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | OS 4100 & 5600 Tyn Coed (Bro Ednyfed), Llangefni | 34C303 | 110 | 1 | 109 | 0 | 0 | | | | | | 1 |
| 4954 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Clwb Cymdeithasol Biwmares, Biwmares | FPL/2019/2 58 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | 6 | | | | |
| 3119 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Cae Mair, Biwmares | B/199'S-12C4C/4 | 33 | 1 | 32 | 2 | 0 | | 1 | | | | |
| 4929 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Sarn Gannu, Bodedern | RM/2019/1 2 | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | 2 | 3 | | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Cyfanswm unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021 /22 | 2022 /23 | 2023 /24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3029 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Cyn Westy Bryn Meirion, Ffordd Amlwch, Benllech | 30C104Q | 9 | 0 | 9 | 9 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 4939 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Ponc y Rhedyn, Benllech | FPL/2019/204 | 27 | 27 | 0 | 0 | 10 | 27 | | | | | |
| 5036 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Tyddyn Rhydd, Ffordd Caergybi, Gaerwen | FPL/2020/87 | 15 | 15 | 0 | 0 | 15 | | 15 | | | | |
| 3091 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | OS 2418, Lon Refail (Stad Wern Geithin), Llanfairpwll | 31C223M | 31 | 2 | 29 | 7 | 0 | 2 | | | | | |
| 4914 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Fferm Rhos, Pentraeth | 42C266B | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | | 6 | 6 | | | |
| 3365 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Fferm Glan yr Afon, Pentraeth | 42C69E | 10 | 2 | 8 | 8 | 0 | | 2 | | | | |
| 4477 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Cyn Ysgol Gynradd, Porthaethwy | 39LPA1014B/CC | 8 | 0 | 8 | 8 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 3385 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Tir yn Field Street, Y Fali | 49C132B | 8 | 0 | 8 | 8 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 4952 | Pentref Gwasanaeth | Stad Llain Delyn, Gwalchmai | FPL/2018/42 | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | 5 | 5 | | | | |
| 3223 | Pentref Gwasanaeth | Tŷ Corniog (Maes y Ffridd), Gwalchmai | 48C126D & F | 7 | 1 | 6 | 0 | 0 | | 1 | | | | |
| 3067 | Pentref Lleol | Tir yn Merddyn Gwyn, Brynsiencyn | RM/2018/5 | 13 | 13 | 0 | 0 | 0 | | 7 | 6 | | | 13 |
| 3214 | Pentref Lleol | Cae OS rhif 5866, Tre Ifan, Caergeiliog | 32C27C | 73 | 73 | 0 | 0 | 0 | | 10 | 10 | 10 | 10 | 33 |
| 4784 | Pentref Lleol | Tre Ifan, Caergeiliog | 32LPA1047/CC | 6 | 0 | 6 | 6 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Cyfanswm unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021 /22 | 2022 /23 | 2023 /24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3371 | Pentref Lleol | Proskairon, Dwyran | 45C325G/VAR | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 6 |
| 3209 | Pentref Lleol | Tir ger Ysgol Gynradd, Llanfachraeth | 27C23B | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 5 |
| 4942 | Pentref Lleol | Ysgol Gynradd Llanfachraeth. Llanfachraeth | FPL/2019/278 | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | 8 | | | | | 0 |
| 3622 | Pentref Lleol | Bryn Estyn, Llanfaethlu | RM/2019/4 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 6 |
| 3323 | Pentref Lleol | Pen y Bont, Mountain Road, Llanfechell | 38C223A | 24 | 7 | 17 | 17 | 0 | | 7 | | | | |
| 3019 | Pentref Lleol | Stad Tŷ'n Rhos, Penysarn | T1826G_24C31'S | 70 | 14 | 56 | 0 | 0 | | | | | | 14 |
| 5012 | Pentref Lleol | Y Bedol, Tŷ'n Rhos, Penysarn | FPL/2019/249 | 14 | 14 | 0 | 0 | 0 | 7 | 7 | | | | |
| 4953 | Pentref Lleol | Marquis Inn, Rhosybol | FPL/2019/207 | 15 | 15 | 0 | 0 | 15 | 15 | | | | | |
| 4897 | Pentref Lleol | Bryn Bochan, Talwrn | FPL/2019/172 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | 3 | 3 | | | |
| 3284 | Pentref Lleol | Cae Garnedd, Tregele | T1223 | 20 | 5 | 15 | 0 | 0 | | | | | | 5 |
| 4471 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Ger Stad Nant Bychan, Moelfre | RM/2019/8 | 5 | 0 | 5 | 5 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 3046 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Ffordd Lligwy, Moelfre | LPA451A | 16 | 0 | 16 | 3 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 3204 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Ger High Tide, Ravenspoint, Trearddur | 46C195A | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 5 |
| 3254 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Morfa Lon Tywyn Capel, Trearddur | V1317N | 83 | 83 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 83 |
| 3260 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Cyn Gae Criced, Trearddur | 46C137E | 17 | 17 | 0 | 0 | 0 | | | 6 | 6 | 5 | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Cyfanswm unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021 /22 | 2022 /23 | 2023 /24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3538 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Safle liff Apartments, Trearddur | 46C14H/1 | 33 | 22 | 11 | 11 | 1 | 1 | 3 | 3 | 3 | 2 | |
| 4272 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Pendorlan, Lon Isallt, Trearddur | 46C402D | 13 | 2 | 11 | 11 | 2 | 2 | | | | | |
| 4358 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Garreg Fawr Farm, Lon Garreg Fawr, Trearddur | 46C410F | 13 | 8 | 5 | 5 | 0 | 2 | 2 | 2 | 2 | | |
| 3041 | Clwstwr | Cae Ysgawen, Brynteg | RM/2020/6 | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | 2 | 2 | 2 | | |
| 3169 | Clwstwr | The Herb Garden 'Llain Capelulo', Pentre Berw | 33C102K/L UC | 10 | 3 | 7 | 2 | 0 | 1 | 1 | 1 | | | |
| 3003 | Clwstwr | Tu cefn Parc Trecastell (Glan y Don), Porth Llechog | 11C8W/1 | 103 | 23 | 80 | 11 | 2 | 5 | 5 | 5 | 6 | | |
| 3200 | Clwstwr | Sŵn y Gwynt, Rhostrehwfa | V483 | 24 | 7 | 17 | 0 | 0 | | | | | | 7 |
| 3424 | Cefn gwlad agored | Beauchelles, Marianglas | 26C17G | 9 | 9 | 0 | 0 | 9 | | 4 | 5 | | | |
| 3517 | Cefn gwlad agored | Tŷ Wian, Llanfairynghornwy | 18C202C/D EL | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 5 |
| 3279 | Cefn gwlad agored | Chwaen Wen Uchaf, Llantrisant | 47C105E | 7 | 7 | 0 | 0 | 7 | | | | | | 7 |
| 3718 | Cefn gwlad agored | Adeiladau allanol yn Bryn Goleu, Llanddeusant | 47C135 | 5 | 5 | 0 | 0 | 5 | 5 | | | | | |
| 3887 | Cefn gwlad agored | Penmynydd, Llanfwrog | 29C39D | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | | 2 | 3 | | |
| 3734 | Cefn gwlad agored | Maes Llwyn, Penmynydd | 41LPA954/ CC | 6 | 5 | 1 | 1 | 0 | | | | | | 5 |
| 3991 | Cefn gwlad agored | Bryn Mel, Llandegfan | 17C48Y | 12 | 2 | 10 | 10 | 0 | | 2 | | | | |
| 3001 | Cefn gwlad agored | Hafodlin Fawr, Rhosgoch | 11C507C | 6 | 2 | 4 | 4 | 0 | | | 1 | | | 1 |
| **CYFANSWM** | | | | **1064** | **613** | **451** | **104** | **100** | **114** | **101** | **75** | **32** | **17** | **273** |

**Tabl A2: Amseru a chamau cyflawni safleoedd â chaniatâd cynllunio – Safleoedd banc tir mawr (Gwynedd)**

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021 /22 | 2022 /23 | 202 3/24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4756 | Canolfan Is-ranbarthol | Capel Pendref, Stryd Fawr, Bangor | C18/0409/ 11/LL | 5 | 5 | 0 | 0 | 5 | 5 | | | | | |
| 4536 | Canolfan Is-ranbarthol | 390 Stryd Fawr, Bangor | C16/1421/ 11/LL | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | | 6 | | | |
| 4 | Canolfan Is-ranbarthol | 30-32, Ffordd Caergybi, Bangor | 3/11/722B | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 8 |
| 4875 | Canolfan Is-ranbarthol | 233-235 Stryd Fawr, Bangor | C19/0323/ 11/LL | 8 | 0 | 8 | 8 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 4966 | Canolfan Is-ranbarthol | 358-360 Stryd Fawr, Bangor | C19/0009/ 11/LL | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | | | | 8 | | |
| 4807 | Canolfan Is-ranbarthol | 371-373, Stryd Fawr, Bangor | C18/0838/ 11/LL | 9 | 0 | 9 | 9 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021 /22 | 2022 /23 | 202 3/24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 4578 | Canolfan Is-ranbarthol | Clwb Cymdeithasol Maesgeirchen, Rhodfa Penrhyn, Bangor | C17/0084/ 11/LL | 10 | 10 | 0 | 0 | 0 | | | 10 | | | |
| 1932 | Canolfan Is-ranbarthol | Neuadd Deiniol & Wayside, Ffordd Caergybi, Bangor | C11/0342/ 11/TC | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 24 |
| 2364 | Canolfan Is-ranbarthol | Cyn Glwb Cymdeithasol Dinas Bangor, Bangor | C19/0078/ 11/LL | 38 | 38 | 0 | 0 | 38 | 38 | | | | | |
| 5006 | Canolfan Is-ranbarthol | 137 Stryd Fawr, Bangor | C20/0848/ 11/LL | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | | 12 | | | | |
| 4972 | Canolfan Is-ranbarthol | 196-200 Stryd Fawr, Bangor | C19/0444/ 11/LL | 6 | 6 | 0 | 0 | 0 | | | 6 | | | |
| 3807 | Canolfan Is-ranbarthol | Plas y Coed, Bangor | C16/0134/ 16/LL | 51 | 0 | 51 | 51 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 178 | Canolfan Is-ranbarthol | Coed y Maes (Caeau Briwas), Penrhos, Bangor | 3/25/195A B | 20 | 2 | 18 | 0 | 0 | | | | | | 2 |
| 179 | Canolfan Is-ranbarthol | Tir yn Y Garnedd, Penrhosgarnedd, Bangor | C06A/0663 /25/LL | 5 | 1 | 4 | 0 | 0 | | | | | | 1 |
| 2206 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Rhan OS 8825, Cae Clyd, Manod, Blaenau Ffestiniog | C14/0248/ 03/LL | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 5 |
| 4447 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Menai View, Ffordd y Gogledd, Caernarfon | C16/0712/ 14/LL | 5 | 5 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 5 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblyu | 2021 /22 | 2022 /23 | 202 3/24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1660 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Cyn Westy Marine, Ffordd y Gogledd, Caernarfon | C18/1040/ 14/LL | 15 | 15 | 0 | 0 | 0 | | | 1 | | | 14 |
| 2518 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Capel Garth, Bank Place, Porthmadog | C16/0761/ 44/LL | 9 | 9 | 0 | 0 | 9 | 9 | | | | | |
| 1969 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Snowdon Mill, Heol yr Wyddfa, Porthmadog | C07D/0707 /44/LL | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 24 |
| 1640 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Plot 31, Awel y Grug, Porthmadog | C15/0224/ 44/LL | 10 | 1 | 9 | 0 | 0 | | 1 | | | | |
| 4880 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Canolfan Frondeg, Ala Uchaf, Pwllheli | C19/0858/ 45/LL | 28 | 28 | 0 | 0 | 28 | | 28 | | | | |
| 4313 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | Tir ger Ala Cottage, Yr Ala, Pwllheli | C14/1118/ 45/LL | 30 | 30 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 30 |
| 4069 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Adeilad Swyddfa Bost, Ffordd y Brenin, Abermaw | C14/0633/ 00/LL | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 7 |
| 743 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Promenad Abermaw | 5/51/815B | 26 | 26 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 26 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021 /22 | 2022 /23 | 202 3/24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 651 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Plotiau yn Sŵn y Dail (Orielton), Abermaw | C16/1572/ 00/LL | 25 | 0 | 25 | 22 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 4100 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Safle Gwesty Whitehouse, Abersoch | C14/1208/ 39/LL | 18 | 18 | 0 | 0 | 0 | | | | 18 | | |
| 4932 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Clwb Rygbi Bethesda, Bethesda | C17/1101/ 13/LL | 17 | 17 | 0 | 0 | 0 | 17 | | | | | |
| 5023 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Tir ger Llain y Pebyll, Bethesda | C20/0018/ 13/LL | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | | 7 | | | | |
| 24 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | OS 8361, 8958, 8650, Bryn Caseg, Bethesda | 3/13/130A-E | 22 | 1 | 21 | 0 | 0 | | 1 | | | | |
| 4911 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Station Bakery, Criccieth | C19/0890/ 35/MG | 7 | 0 | 7 | 7 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 2528 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Ger Gwesty George IV, Criccieth | C16/0292/ 35/LL | 37 | 37 | 0 | 0 | 0 | | 8 | 8 | 8 | 8 | 5 |
| 224 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Stad Gorseddfa, Criccieth | 2/15/143A-Z | 13 | 1 | 12 | 0 | 0 | | | | | | 1 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021 /22 | 2022 /23 | 202 3/24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 225 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Stad Wern y Wylan, Criccieth | C96D/0181 /15/CL | 9 | 1 | 8 | 0 | 0 | | | | | | 1 |
| 2495 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Capel Seion, Stryd y Plas, Nefyn | C04D/0722 /42/LL | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 7 |
| 285 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Stad Bro Gwylwyr, Nefyn | C07D/0699 /42/LL | 35 | 1 | 34 | 1 | 0 | | 1 | | | | |
| 4820 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Meysydd Llydain, Bryniau Hendre, Penrhyndeudraeth | C16/1021/ 08/LL | 9 | 2 | 7 | 7 | 2 | 2 | | | | | |
| 3790 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | Tir y Farchnad, Sandilands Road, Tywyn | C13/0102/ 09/LL | 18 | 18 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 18 |
| 76 | Pentref Gwasanaeth | Bro Eglwys, Saron, Bethel | 3/18/202J | 50 | 14 | 36 | 0 | 0 | | | | | | 14 |
| 1330 | Pentref Gwasanaeth | Tir gyferbyn B4413, Botwnnog | C02D/0322 /32/LL | 5 | 1 | 4 | 0 | 0 | | | | | | 1 |
| 4576 | Pentref Gwasanaeth | Cae Bodlondeb, Ael y Bryn (Safle 1), Chwilog | C16/1363/ 41/AM | 9 | 9 | 0 | 0 | 0 | | | | 3 | 6 | |
| 4577 | Pentref Gwasanaeth | Cae Bodlondeb, Ael y Bryn (Safle 2), Chwilog | C16/1603/ 41/1M | 9 | 9 | 0 | 0 | 0 | | | 6 | 3 | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblyu | 2021 /22 | 2022 /23 | 202 3/24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2539 | Pentref Gwasanaeth | Rhiw Goch, Deiniolen | C19/0003/ 18/MG | 17 | 17 | 0 | 0 | 0 | | 6 | 6 | 5 | | |
| 4835 | Pentref Gwasanaeth | Tir ger Maes Gwylfa, Deiniolen | C18/0977/ 18/LL | 9 | 0 | 9 | 9 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 2477 | Pentref Gwasanaeth | Llwyn Bedw Estate, Rachub | C10A/0040 /21/MG | 13 | 2 | 11 | 7 | 0 | | 2 | | | | |
| 2250 | Pentref Lleol | Adj to Tan yr Eglwys, Abererch | C15/0215/ 40/LL | 8 | 1 | 7 | 7 | 1 | 1 | | | | | |
| 3966 | Pentref Lleol | Plot o dir ger Hen Gapel, Ffordd Waunfawr Road, Caeathro | C09A/0412 /26/LL | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | | 6 | 6 | | | |
| 2216 | Pentref Lleol | Ceir Cwm, Cwm y Glo | C10A/0087 /23/LL | 8 | 5 | 3 | 3 | 0 | | | 3 | 2 | | |
| 4968 | Pentref Lleol | Ger Tan y Celyn, Dinas (Llanwnda) | C14/0386/ 24/LL | 24 | 24 | 0 | 0 | 0 | 24 | | | | | 0 |
| 2204 | Pentref Lleol | Ger Twmpath, Llandygai | C09A/0518 /16/AM | 15 | 15 | 0 | 0 | 0 | | | 5 | 10 | | |
| 772 | Pentref Lleol | Fron Deg, Rhostryfan | C15/0355/ 24/LL | 18 | 4 | 14 | 14 | 0 | | 2 | 2 | | | |
| 361 | Pentref Lleol | Caer Odyn (Stad Lion ), Tudweiliog | C08D/0368 /46/LL | 11 | 1 | 10 | 3 | 0 | | 1 | | | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Enw'r safle | Cyfeirnod caniatâd cynllunio | Capasiti'r safle | Unedau'n weddill | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblyu | 2021 /22 | 2022 /23 | 202 3/24 | 2024 /25 | 2025 /26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1669 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Plotiau 15-23 Heol Seithendre, Fairbourne | C04M/0072 /01/LL | 9 | 5 | 4 | 0 | 0 | | | | | | 5 |
| 2018 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Maes Twnti (OS 1220 & 1413), Morfa Nefyn | C06D/0025 /42/AM | 10 | 4 | 6 | 2 | 0 | | 2 | 2 | | | |
| 240 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Cae Arfryn Ger Bryn Hedd), Mynytho | C05D/0220 /39/LL | 6 | 0 | 6 | 2 | **WEDI'I GWBLHAU 2020/21** | | | | | | |
| 2517 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Gyferbyn Halfway House, Y Felinheli | C09A/0424 /20/LL | 7 | 7 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 7 |
| 1730 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Gwesty Plas Dinorwig, Y Felinheli | C05A/0152 /20/LL | 8 | 8 | 0 | 0 | 0 | | | | | | 8 |
| 1428 | Pentref Arfordirol / Gwledig | Harbwr, Y Felinheli | C05A/0750 /20/LL | 22 | 3 | 19 | 0 | 0 | | | | | | 3 |
| 2428 | Clwstwr | OS 3910, Ger Eglwys St Engan, Llanengan | C11/1186/ 39/MG | 6 | 2 | 4 | 4 | 2 | 2 | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | **754** | **523** | **231** | **48** | **85** | **98** | **77** | **61** | **57** | **14** | **216** |

## Tabl A3: Amseru a chamau cyflawni dynodiadau tai

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 3944 | Canolfan Is-ranbarthol | T1 | Goetra Uchaf, Bangor | SAFLE WEDI'I GWBLHAU | | | | | | | | | | |
| 4591 | Canolfan Is-ranbarthol | T2 | Caeau Chwarae Hen Ysgol Friars, Bangor | 43 | | | | | | | 22 | 21 | | |
| 4225 | Canolfan Is-ranbarthol | T3 | Hen safle Jewsons, Bangor | 70 | Caniatâd cynllunio C17/0835/11/MG | 0 | 0 | 0 | | | | 21 | 19 | 30 |
| 4592 | Canolfan Is-ranbarthol | T4 | Tir dros ffordd i'r Amlosgfa, Bangor | 72 | | | | | | | 22 | 22 | 22 | 6 |
| 4719 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T5 | Tir ger Maes Mona, Amlwch | 50 | | | | | | | 25 | 25 | | |
| 4028 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T6 | Tir ger Lôn Bach, Amlwch | 73 | | | | | | | | | | 73 |
| 4703 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T7 | Tir yn Fferm Madyn, Amlwch | 152 | | | | | | | | | | 152 |
| 4704 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T8 | Tir ger Cae Rheinwas, Amlwch | 40 | | | | | | | | | 20 | 20 |
| 4705 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T9 | Tir yn Tan y Bryn, Amlwch | 58 | | | | | | | 20 | 20 | 9 | 9 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 3229 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T10 | Tyddyn Bach, Caergybi | 124 | Caniatâd cynllunio 19C608U | 123 | 123 | | 1 | | | | | |
| 4706 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T11 | Tir ger Cae Rhos, Caergybi | 53 | | | | | | | | 16 | 16 | 21 |
| 4707 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T12 | Tir ger Yr Ogof, Caergybi | 72 | | | | | | | 10 | 10 | 10 | 42 |
| 4708 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T13 | Tir ger Fferm Tyddyn Bach, Caergybi | 46 | Caniatâd cynllunio FPL/2018/57 | 0 | 0 | 0 | | 16 | 15 | 15 | | |
| 3856 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T14 | Tir ger Stad Waunfawr, Caergybi | 22 | | | | | | | | 7 | 7 | 8 |
| 3943 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T15 | Glan y Dŵr, Caergybi | 90 | | | | | | | | | | 90 |
| 3231 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T16 | Lôn Cae Serri, Caergybi | 21 | Caniatâd cynllunio 19C882C | 7 | 7 | 7 | 7 | | | | | |
| 4713 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T17 | Tir ger Ty Hen, Llangefni | 154 | | | | | | | 25 | 25 | 25 | 79 |
| 4724 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T18 (rhan) | Cyn Ysgol y Bont, Llangefni | RHAN O'R SAFLE WEDI'I GWBLHAU (CANIATÂD 34C687/ECON) | | | | | | | | | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 4714 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T18 (rhan) | Cyn Ysgol y Bont, Llangefni | 52 | Caniatâd cynllunio RM/2020/13 ar ran o'r safle | 0 | 0 | 0 | 26 | 26 | | | | |
| 4688 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T19 (rhan) | Tŷ'n Coed, Llangefni | 134 | Caniatâd cynllunio 34C553A | 32 | 32 | 42 | 42 | 30 | 30 | | | |
| 4715 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T19 (rhan) | Tŷ'n Coed, Llangefni<br><br>Unedau'n weddill ar sail 30 uned yr hectar ar sail fod cais 34C553A (4688)wedi ei ganiatáu ar rhan o'r safle | 21 | | | | | | | | 10 | 11 | |
| 4825 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T20<br>T21<br>T22 | Tir Coleg Menai, Llangefni (T20, 21 & T22) | 153 | Caniatâd cynllunio 34C304K/1 | 0 | 0 | 0 | 30 | 30 | 30 | 30 | 33 | |
| 4596 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T23 | Cyn Gaeau Chwarae, Blaenau Ffestiniog | 95 | | | | | | | | | 25 | 70 |
| 4597 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T24 | Tir yn Congl y Wal, Blaenau Ffestiniog | 60 | | | | | | | | 10 | 10 | 40 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| 4443 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T25 | Cyn Ysgol Hendre, Caernarfon | SAFLE WEDI'I GWBLHAU | | | | | | | | | | |
| 1373 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T26 | Tu cefn i Maes Gwynedd, Caernarfon | 29 | | | | | | | 16 | 7 | 6 | |
| 1372 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T27 | Lôn Cae Phillips, Caernarfon | SAFLE WEDI'I GWBLHAU | | | | | | | | | | |
| 2213 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T28 | Tir ger Lôn Caernarfon, Pwllheli | 150 | | | | | | | 17 | 17 | 16 | 100 |
| 1400 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T29 | Cae Deiniol, Pwllheli | 14 | | | | | | | | 7 | 7 | |
| 1399 | Canolfan Gwasanaeth Trefol | T30 | Cyn Gae Hoci, Pwllheli | 15 | Caniatâd cynllunio C18/1198/45/AM | 0 | 0 | 0 | | | 8 | 7 | | |
| 3407 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T31 | Casita, Biwmares | 35 | Caniatâd cynllunio 12C49M/VAR | 0 | 0 | 0 | | | | 21 | 14 | |
| 4720 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T32 | Ger Caffi Wendon, Benllech | 12 | | | | | | | | | | 12 |
| 5010 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T33 (rhan) | Tir ger Llwyn Angharad, Bodedern | 30 | Caniatâd cynllunio OP/2019/17 | 0 | 0 | 0 | | | 10 | 10 | 10 | |
| 4712 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T33 (rhan) | Tir ger Llwyn Angharad, Bodedern<br><br>Y rhan o'r safle sydd yn weddill yn | 18 | | | | | | | | 6 | 5 | 7 |

Tud. 324

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| | | | dilyn caniatâd OP/2019/17 (safle 5010) | | | | | | | | | | | |
| 4692 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T34 (rhan) | Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes | RHAN O'R SAFLE WEDI'I GWBLHAU (CANIATADAU 20C313A & 20C313D) | | | | | | | | | | |
| 4709 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T34 (rhan) | Tir tu cefn i Ffordd Caergybi, Cemaes<br><br>Unedau yn weddill ar sail 30 uned yr hectar ar sail fod ceisiadau 20C313A a 20C313D wedi ei ganiatáu ar rhan o'r safle | 45 | | | | | | | | | | 45 |
| 4711 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T35 | Tir ger Bryn Eira, Llanfairpwll | 30 | | | | | | | | | | |
| 3093 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T36 | Tir ger Ffordd Penmynydd, Llanfairpwll | 16 | Caniatâd cynllunio 31C170B/DA | 14 | 14 | 1 | 2 | | | | | |
| 3103 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T37 | Ty Mawr, Porthaethwy | 21 | Caniatâd cynllunio 39C18G | 20 | 15 | 0 | 1 | | | | | |
| 3102 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T38 | Tyddyn Mostyn, Porthaethwy | 132 | Caniatâd cynllunio LPA206 | 72 | 0 | | | | | 60 | | |
| 4716 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T39 | Tir Lôn Gamfa, Porthaethwy | 14 | | | | | | | | | 4 | 10 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| 4718 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T40 | Cyn Cae Sêl, Y Fali | 40 | | | | | | | 20 | 20 | | |
| 2205 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T41 | Tir ger North Teras, Criccieth | 34 | | | | | | | | 15 | 15 | 4 |
| 1374 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T42 | Tir ger Gwesty'r Fic, Llanberis | 16 | | | | | | | | 8 | 8 | |
| 2790 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T43 | Tir ger Lôn Tŷ Du, Llanberis | SAFLE WEDI'I GWBLHAU | | | | | | | | | | |
| 3602 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T44 | Cae'r Eglwys, Llanrug | 9 | Caniatâd cynllunio C18/0942/23/LL | 0 | 0 | 8 | 6 | 3 | | | | |
| 2567 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T45 | Tir ger Lôn Rhythallt, Llanrug | SAFLE WEDI'I GWBLHAU | | | | | | | | | | |
| 4603 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T46 | Tir ger Helyg, Nefyn | 19 | | | | | | | | 5 | 5 | 9 |
| 3832 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T47 | Cyn Gerddi Rhandir, Nefyn | SAFLE WEDI'I GWBLHAU | | | | | | | | | | |
| 1405 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T48 | Canol Cae, Penrhyndeudraeth | 31 | | | | | | | | 15 | 16 | |
| 4604 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T49 | Tir ger cyn Ysbyty Bron Garth, Penrhyndeudraeth | 46 | | | | | | | | | | 46 |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 4605 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T50 | Tir ger Canol Cae, Penrhyndeudraeth | 31 | | | | | | | | | 15 | 16 |
| 1379 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T51 | Tir ger Maes Dulyn, Penygroes | 39 | | | | | | 24 | | | | |
| 2142 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T52 | Sŵn y Tonnau, Tywyn | 37 | Caniatâd cynllunio C06M/0069/09/LL | 31 | 22 | 1 | 1 | 3 | 2 | | | |
| 667 | Canolfan Gwasanaeth Lleol | T53 | Garreglwyd, Tywyn | 23 | Caniatâd cynllunio 5/79/134 | 11 | 2 | 0 | | | | | 6 | 6 |
| 5002 | Pentref Gwasanaeth | T54 (rhan) | Tir ger A5, Gwalchmai | 7 | Caniatâd cynllunio 48C207C | 0 | 0 | 0 | | 3 | 3 | | | 1 |
| 4717 | Pentref Gwasanaeth | T54 (rhan) | Tir ger A5, Gwalchmai<br><br>Caniatâd 48C207C (5002) ar ran o'r safle - Nifer o unedau yn seiliedig ar yr arwynebedd safle sydd yn weddill. | 16 | | | | | | | | | | 16 |
| 3113 | Pentref Gwasanaeth | T55 | Stad Tyn Cae, Niwbwrch | 53 | Caniatâd cynllunio 45C39G | 47 | 6 | 1 | 1 | 2 | 3 | | | |

| Cyfeirnod ACLl | Haen yr anheddle | Cyfeirnod y safle a ddynodwyd | Enw'r safle a ddynodwyd | Cyfanswm capasiti'r safle* | Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)** | Camau Cyflawni'r Datblygiad | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| | | | | | | | | | | | | | | |
| 4710 | Pentref Gwasanaeth | T56 | Tir ger Tyn y Ffynnon, Llannerch-y-Medd | 17 | | | | | | 5 | 5 | | | 7 |
| 4598 | Pentref Gwasanaeth | T57 | Tir gyferbyn â Stad y Cremlyn, Bethel | 28 | | | | | | | | 14 | 14 | |
| 4599 | Pentref Gwasanaeth | T58 | Tir gyferbyn â Stad Rhoslan, Bethel | 7 | Caniatâd cynllunio C18/0545/18/MG | 0 | 0 | 3 | 3 | 4 | | | | |
| 2478 | Pentref Gwasanaeth | T59 | Tir ger Stad Glanrafon, Bontnewydd | 29 | Caniatâd cynllunio C19/0014/19/LL | 11 | 11 | 17 | 18 | | | | | |
| 4593 | Pentref Gwasanaeth | T60 | Tir ger Pont Glan Beuno, Bontnewydd | 10 | | | | | | | 5 | 5 | | |
| 4594 | Pentref Gwasanaeth | T61 | Tir ger Cefn Capel, Botwnnog | 21 | | | | | | | 5 | 5 | 5 | 6 |
| 4595 | Pentref Gwasanaeth | T62 | Tir ger Pentre, Botwnnog | 11 | | | | | | | | 3 | 3 | 5 |
| 4125 | Pentref Gwasanaeth | T63 | Tir tu cefn i'r Madryn Arms, Chwilog | 15 | Caniatâd cynllunio C14/0061/41/AM | 8 | | 7 | 7 | | | | | |
| 1364 | Pentref Gwasanaeth | T64 | Tir ger Cae Capel, Chwilog | 21 | Caniatâd cynllunio C18/1055/441/LL | 0 | 0 | 0 | | | 7 | 7 | 7 | |
| 3959 | Pentref Gwasanaeth | T65 | Tir ger Pentre Helen, Deiniolen | 27 | Caniatâd cynllunio C09A/0396/18/AM | 0 | 0 | 0 | | | 9 | 9 | 9 | |

| **Cyfeirnod ACLl** | **Haen yr anheddle** | **Cyfeirnod y safle a ddynodwyd** | **Enw'r safle a ddynodwyd** | **Cyfanswm capasiti'r safle*** | **Oedi hyd at ddechrau'r gwaith adeiladu (mewn misoedd)**** | **Camau Cyflawni'r Datblygiad** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | Unedau wedi eu cwblhau | Unedau wedi eu cwblhau yng nghyfnod y CDLl ar y Cyd | Wrthi yn cael eu datblygu | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | Unedau tu hwnt i gyfnod y CDLl ar y Cyd |
| 4600 | Pentref Gwasanaeth | T66 | Tir ger Maes Bleddyn,Rachub | 30 | Caniatâd cynllunio C19/0950/21/LL | 0 | 0 | 0 | | 30 | | | | |
| 4601 | Pentref Gwasanaeth | T67 | Tir ger Tyn Lôn, Y Ffor | 18 | | | | | | | 6 | 6 | 6 | |
| 4602 | Pentref Gwasanaeth | T68 | Tir ger yr Ysgol, Y Ffor | 10 | | | | | | | 5 | 5 | | |
| 2214 | Pentref Gwasanaeth | T69 | Tir ger Bro Gwystil, Y Ffor | 9 | Caniatâd cynllunio C14/0571/40/MG | 8 | 8 | 1 | 1 | | | | | |
| **CYFANSWM** | | | | | | **384** | **240** | **88** | **146** | **176** | **320** | **484** | **378** | **930** |

| | |
|---|---|
| * | Ar gyfer safleoedd sydd â chaniatad cynllunio, mae'r ffigwr yn nodi'r nifer o unedau sydd wedi derbyn caniatâd. |
| ** | Ar wahân ein bod wedi derbyn gwybodaeth fanwl gan y tirfeddianwyr/datblygwr, mae cyfnod sydd o leiaf 2 flynedd wedi ei nodi cyn fod unrhyw uned wedi ei gwblhau ar safle sydd wedi ei ddynodi sydd heb ganiatâd cynllunio. |
| (coch) | Safle wedi ei gwblhau |
| (melyn) | Caniatâd cynllunio byw (datblygiad heb ei gwblhau) |